HANESION
O 'R
HEN OESOEDD;
SEF PETH
YSPYSRWYDD
O 'R
BRENHINOEDD

A ſu 'n teyrnaſu yn yr YNUS HON,
Yn fuan ar ol Doſparthiad BABEL, hyd at
Amſer CADWALAD a'r Frenhines EL'SBETH.

GYDA

IACHAU HARRI VII.

BRENHIN LLOEGR, o Lin TUDOR, hyd at
NOAH AC ADDA.

Gan mwyaf yn ol Dull CHWARYDDIAETH,
Neu ENTERLUT:
At ba un y chwanegwyd,
Amriw ENGLYNION, CAROLAU, a DYRIAU duwiol.

O Waith THO. WILIAMS, (*Merchant-Taylor o Dal-y-Bont*, yn agos i *Fangor fawr-Yngwynedd*) AC ERAILL.

HEFYD,
Athrawiaeth i ddyſgu darllen CYMRAEG a SAESNEG.

LONDON: Printed by W. ROBERTS for Mr. OWEN at *Homer's-Head*, near *Temple-Bar*; and Mr. PUGH in *Hereford-City*.
Ac a werthir hefyd gan H. JONES o *Lan-gwim*, a Shopwyr *Gwynedd* a *Dheubarth*. 1762. [Pris 1*s.* 6*d.*]

ENGLYNION o Fawl i'r LLYFR HWN.

DOS, LYFRAN, diddan ei Dôn, i *Gymru*
Ac amryw Gân gyſon;
Mwyn yw dy fryd, mae 'n dy fron,
O hên Oeſoedd Haneſion.

Mynega, eura Araith, Yn gyſon
A goſod Gow'reinwaith;
Wyt Awdwr, Rhannwr Henwaith
Teulu *Gomer* fwynber faith.

Dyſg, dyro Addyſg *Derwyddon*, Drwy *Gwynedd*,
A'u D'roganau mwynion;
A goſod dy Gerdd gyſon
Yn *Dehau Dîr*, da hoew dôn.

Haneſion i Ddynion o Ddyſg, Graddau,
A Gwreiddin pob Addyſg;
Call i fyrdd, cell o fawr-ddyſg,
Hên Haneſion ddyfnion ddyſg.

Derbynied, cym'red pob *Cymro*, i'w 'ſtaſell,
Os difyr myfyrio;
Guph iawnddoeth, e geiff ynddo,
Olud fyth o'i weled ſo.

Llyfr Diddan gwiwlan, gwelwch, Awch dilys,
I'ch Dwylaw derbyniwch;
Ac hefyd eich Hanes cofiwch,
Mwynder llawn cyn mynd i'r Llwch.

H. JONES, LLANGWM.

PENILL neu ddau rhag eu colli.

Fel y plu mewn Aden Paen,
Y Mercheid maen yn *Llundan*,
Yn diſgleinio yn wych eu gyd,
O Sattan dryd a Sidan;
Nid oes, 'rwi 'n meddwl, mewn un ſan,
Ei gwychach dan yr wybran.

Yr un Meſur yn Saeſneg.

My Obſervation, dear Dame,
E'er ſince I came to *London*,
Was to ſpy ſome Beauty fair,
Of charming Air and Perſon:
A well-bred Damſel, pious Laſs,
For ſuch will paſs with Portion.

W. R.

CYNHWYSIAD y Llyfr Hwn.

tu dalen

Deiſyfiad yr Awdwr ar y Dyſcedigion, 3
At y Darllenydd, *ib.*
Prolog neu Deſtyn y Llyfr hwn, 4
Gorchymyn yr Awdr i'r Llyfr, *ib.*
Dechreu yr ail Rhan, ſef Haneſion o amryw bethau hyd yr amſer y derchafodd ein Iachiawdr Ieſu Griſt i'r nefoedd, 13
Englynion Holiadau ſcrythurol, ac Attebion perthnaſol, 17
Englyn Terfyn, 27
Dechreu Prolog, neu ragſynegiad Teſtyn y Llyfr, 31
Dechreu Ymadroddion Noah, 34
Dechreu Ymadrodd Japheth ap Noah, a'i Frodyr, 35
Ham yn chwerthin am ben ei Dad, Noah yn cyſgu, 37
Dechreu Ymadrodd Cittim Wamal ap Javan, Wyr i Japheth, a gorwyr i Noah, 40
Dechreu Ymadrodd Meſach, 41
Cittim Gwamal yn dyfod a Llyfrau i'r Brenin, 42
Dechreu Ymadrodd Syr Linus, 43
Twyſog Magus, ſef Dechreu y Mageens, 48
Doctor Edwan yn adrodd, Twyſog Magus, a Cittim Gwamal, 49
Brenin Magus, 50
Doctor Marthin, Doctor Nidan, Twyſog Hwſa, Doctor Gauan, a Baron Teglan, 51
Brenin Magus, Twyſog Hwſa, Doctor Marthin, General Elphyn, Doctor Gauan, a Thwyſog Rhus, 52
Baron Teglan, a Doctor Marthin, 53
Doctor Gauan, Doctor Nidan, Doctor Marthin, Doctor Gauan, a Doctor Nidan, 54
Cittim Wamal, General Elphyn, a Doctor Edwan, 55
Gwamal Brophwyd, Brenin Saron yn ei fowrning, 56

Brenin

tu dolen
Brenin Saron, Gwamal, Doctor Marthin, Brenin Saron, Syr Linus, Duwc Mylir, a General Elphyn, 57
Twyſog Rhus, Baron Teglan, Doctor Marthin, Doctor Edwin, Doctor Gauan, Syr Linus, Twyſog Merſyn, Twyſog Hwſa, a Thwyſog Gwalchmai, 58
Brenin Saron a Gwamal, 59
Doctor Marthin, Doctor Nidan, a Doctor Edwan, 60
General Elphyn, Twyſog Rhus, Brenin Druis, ſef peniaeth y Derwddon, Twyſog Rhus, a'r Brenin Druis, 61
Doctor Marthin, Doctor Nidan, a Doctor Edwan, 62
Brenin Druis a Gwamal, 63
Baron Teglan, Brenin Bardus. Dechreuad y Beirdd, Gwamal a Brenin Bardus, 64
Doctor Gauan, Doctor Marthin, Twyſog Rhus, a Thwyſog Elphyn, 65
Doctor Nidan, Syr Linus, Twyſog Hwſa, Baron Teglan, Twyſog Gwalchmai, Twyſog Merſyn, a Gwamal, 66
Ymddiddan Cydwybod, 67
Cybydd, Cydwybod, Cybydd, Cydwybod yn dechreu canu, Cybydd a Chydwybod, 68
Cybydd, Cydwybod, Cybydd, Cydwybod, Cybydd, &c. 69
Cybydd, Duwc Mylir, 70
Doctor Marthin a Duwc Mylir, 71
Doctor Edwan a General Elphyn, 72
Twyſog Rhus, Syr Linus, Doctor Nidan, Twyſog Hwſa, Twyſog Merſyn, Twyſog Gwalchmai, Doctor Marthin, Gwamal, a'r Brenin Mylir, 73
Gwamal, Brenin Mylir, Doctor Edwan, Baron Teglan, General Elphyn, Twyſog Rhus, a Doctor Nidan, 74
Doctor Marthin, Twyſog Gwalchmai, Doctor Gauan, Twyſog Merſyn, Twyſog Hwſa, Syr Linus, Brenin Mylir, a Gwamal 75
Albion gawr, 76
Twyſog Heth ap Canan, Albion, a Thwyſog Heth, 77
Albion, Twyſog Heth, a Gwamal, 78

Twyſog

Twyſog Heth a Gwamal, tu d. 79
Brutus, Dechreuad y Brutaniaid, Albion, 80
Brutus, Albion, Brutus, Albion a Brutus, 81
Gwamal, Twſog Heth yn canu ar feſur New Merry Laſs, a Gwamal, 82
Twyſog Heth, Gwamal, &c. Concwerwr Brutus, Twyſog Corenius a Brutus, tu d. 83
Brutus, Twyſog Corenius, Twyſog Logran, Twyſog Camber, &c. ac Albenactus, 84
Brutus a Gwerful, 85
Corenius, Gwerful, Frenhines Gwenllian, 86
Twyſog Corenius, Frenhines Gwenllian, a Thwyſog Corenius, 87
Frenhines Gwenllian, Gwamal, Twyſog Corenius, Gwamal, Priodi, Corenius, Gwenllian, Gwamal a Gwerful yn downſio, Frenhines Gwenllian, 88
Gwamal, Syr Linus, a Thwyſog Hwfa, 89
Meſach, Syr Linus, Twyſog Hwfa, &c. 90
Syr Linus, Gwamal, a Thwyſog Merſun, 91
Pedwar yn canu ar feſur Ogygia, nen Frynia'r Werddon, Twyſog Rhus yn dechreu, 92
General Elphyn, Twyſog Gwalchmai, a'r Brenin Mylir, 93
Syr Linus, Ymddiddanion Noah a'i Feibion, &c. Penillion i beri coſio ac arferu pob diniweidrwydd, 94
Hanes Brenhinoedd y Brutaniaid hyd at Gadwaladr fendigad, &c. 95
Hyfforddiad i rannu y Rhan ymma, ſef yr ail Rhan, rhwng wyth o 'Sgolheigion, os leician ei draethu ymyſc cyn'lleidfa ar ddydd neu nos gyffredin, &c. 96
Dechreu. Y Brenin Logran, 97
Dechreu Ymddiddan Idwal ffwl, 99
Dechreu. Gwenddol y Frenhines, 100
Morfudd. Dechreu Ymadrodd y Paen, 101
Dechreu Gwgan, Paen, Gwgan, 102
Padarn, Gwgan, Elidr, 103

Dechreu Rhan Cydwybod, Cybydd, &c. tu d. 105
Cydwybod yn dechreu ar feſur Diniweidrwydd, Cybydd, Cydwybod, &c. 106
Cybydd, Cydwybod, Atteb Dafydd, 107
Dechreu Atteb Llafar, Ffabian, 110
Dechreu Ymadrodd Luci, Elen, Llafar, Ffabian, Luci, Llywelyn, 111
Idwal, 112
Dechreu Ymadrodd Conan Mariadog, 113
Idwal, 114
Cariadog, Gwgan, 115
Cariadog, Gwgan, 116
Gronw, 117
Tryfan, 118
Elidir, 119
Idwal, 120
The Genealogy of Henry VII. *King of England, of the Line of* Tudor *down to Adam,* 121
Merfun, 122
Cân ar feſur a elwir Ned Pugh, 123
Idwal, Amriw Benillion ac Englynion, a chywydd Galarnad, a Theſtyn pob un o'i flaen. Englyn i Famfedydd Eglwys-Blwy Llan Eurgan, Fflint; Englyn i Bont Plas Eſgob Bangor, pan wnaed hi, 124
Englyn i'r Gwr a ganodd i Awdwr y Llyfr hwn. Englyn Henwau Rhieni Car. Penillion i annerch R. P. Jef Hanes fy Nghegin a'i chyfluſdra, Englynion Diolchgarwch a chlod i'r Meddig a daclodd fy llaw, 125
Haeddianol glod i Wraig y Meddig, 126
Englynion i Squier Coetmor, pan ddaeth i gymrud meddiant yn ei Stat, 127
Englynion i annerch W. R. Ymddiddan rhwng y Bardd a'r Wialchen, &c. 128
Englynion i Lewis Morris, *Eſq; &c. Cwynfan y Bardd am golli ei Dir, &c.* 129
Englynion a Gweddi'r Awdwr hefo'r Brenin a'r Twyſ. 133

Penillion i Electſiwn Carnarfon *am Barlament-man, y Bardd yn un o'r Voters*, 135
Penill y Bardd ar y Mor, wrth fynd i'r Werddon, 136
Englynion, Ibid.
Englynion i'r Prophwyd Boreuddydd, 137
Ditto *i Wr ieuangc o* Grŷdd, ibid.
Ditto, *Clôd ac iacha barddoniaeth* Elis Roberts, 138
Cyngor y bardd i'w wraig, 140
Y Bardd yn gofyn cyngor gan yr Offeiriad, 142
Cywydd galarnad *y* Bardd *am ei Fâb*, 143
Englynion ynghylch ein Diwedd, 145
Englynion i ofyn Spectol, 147
Ditto *i Owen Thomas, &c.* ibid.
Cyfaddefiad Nattur, 148
Hanes y Marſiand, &c. 149
Y bardd yn gwiſco ei gariad, &c. 152
Cerdd i fab Counſelor Myric Bodorgan, Sir Fôn, 153
Englynion i'r unrhiw 155
Ymddiddan rhwng y bardd a'i fâb, &c. ibid.
Galarnad y bardd am yr unrhiw fâb, &c. 156
Englynion Ymddiddan rhwng y Caethwas *a'i* Gaethiwad, 159
Cyſur y Carchardŷ *i'r* Carcharor, ibid.
Penillion i'r un perwyl, 160
Englynion i bont ar afon Gaſeg, &c. 161
Cwynfan colled am bont Aber-garth-gelyn, 162
Cyngor i wneuthur Pont newydd, 163
Ditto *pont y* Marchogion *yn agos i'r* Penrhyn, 163
Englynîon i'r Marſiandwyr, &c. 164
Gweddi *Awdwr y llyfr hwn*, &c. 166
Myfyrdod Erfyniad, a gweddi diwedd-glo, &c. 169
Naw gradd Carennydd, dynol-riw, &c. 172
Eglurhâd o'r rhifedi Cymraeg, &c. ibid
Carol Plygan ar ddull Ymddiddan rhwng Angylion *a* dynion, &c. 173
Cyngor a deiſyfiad yr Awdwr i gadw 'r Saboth, 177

Cywydd

Cywydd Marwnad Gwraig yr Awdwr, 180
Cyngor daionus i'r anealltwrus, 181
Dammeg y tri Chydymeth, 184
Driau Alarnad Judeth Humphrey, 187
Cyflwr Gwr yn gla o'r Gowt, 190
Englynion yn erbyn tyngu, 196
Carol duwiol, 201
Epigrams, Doxology, 202
Charity-Hymns, 203
Hyfforddiant i ddyſcu darllen Cymraeg a Saeſneg, 205
Y Catechiſm, 207
Gras o flaen Bwyd; ar ol Bwyd, 213
Gweddiau, wrth godi'r boreu; wrth fyned i gyſcu, Tros yr holl Deyrnas, 214
Gwaſanaeth; Gwerſi *or Scrythur lân, &c.* 215
Y Litani, 221
Ychwaneg o Athrawiaeth i ddyſcu deall a darllen Cymraeg a Saeſneg, &c. 225

Rhybyddiaeth.

Odid na fydd y darllennŷdd a bryno'r gwaith ymma, yn meddwl ei fod yn dechreu yn anhwylus; gwybydded gan hynny pan ddechreuwyd ei argraphu, roi pris 6*d.* y rhifedi cyntaf, dan amcanu ei ddoſparthu yn bum Rhan; y ffordd honno'n methu boddio'r *Cymru* yn y Wlad, fe orfu ei brintio'n gyflawn fel y gwelwch; y neb a ewyllyſio y Rhan gyntaf gan dalu am dano, eill ei gael yngyſtal yn *Llundan* ac yng *Nghymru*, gan y gwŷr a wertho'r gwaith hwn; ym mha un y mae llawer o Garolau a phethau duwiol a grafuſol, fal y gwelwch ymhellach pan ddarllenoch droſto.

Mae rhai Beiau yn y Llyfr hwn gwedi llithro dan yr argraphwaſg, gobeitho y bydd y darllenydd cyn fwyned a'u diwygio, fel na bo raid i'r Awdwr na'r Argraphwr ymhellach eu dangos.

HANES-

MYNEGIAD
YR
HEN OESOEDD, &c.

Deiſyfiad yr Awdwr ar y Dyſgedigion.

1 OS gwelwch, Wyr doethion odiaethol, (Ddiffig)
ar Athraw anſynhwyrol; Difeiwch yn dda
ufuddol, Gwellhewch fy ngwaith i'r Jaith dda rôl.
2 I'r Llyfra, rhai pura, rhown Barch; (A'r Bonedd)
a barodd Jaith burach. Llwyth Japheth, hyna ei
hiâch, Fab Noah gyfion, gofiach.
3 Dyſgwch, darllenwch yn llawnion (Fy Llyfur)
maith Llafur fy 'madroddion; Cewch chwi hanes
gwych inion, Dawn odiaeth hwyl y Dalaith hon.

At y Darllenydd.

1 Attoch, fwyn Ddarllenwyr cywraint, 'Rwy 'n
gyrru hyn o Jacha henaint; Mae gini dyſtion am-
riw Lyfrau, Ei fod yn wir mor grwn a'r graddau.
2 Nag amheuad neb mor dechra, 'Rum ni oll
yn Eppil *Noah*; Ac ynta a'i Feibion cyn y Diluw,
O Lîn Adda, bawb o'r unrhiw.
3 Ni roddaf fawr yn hyn o bappur, O Lyfrau
Brydan, waith fy Mrodur; Ond y gaſclwyf wrth fy
Nattur, O Lyfrau hên, a'r Beibil cywur.
4 'Rydwyf i'ch cynghori chwitha, Gwyr llyth-
rennog yr Oes ymma; I gadw Hanes a Dyſgei-
diaeth, Ac adnewyddu duwiol Araith.
Barddoniaeth annyſgedig, *Thomas Wiliams* unig,
Pan oedd yn byw yn *Llandegai*, Yngodra tai *Llanllechid*

Prolog, neu Deſtyn y Llyfr.

1 Os mynnwch Adduſg wuddor, Am Swydd y Gwr drwy 'r Fordor; Fe alwe'r Bonedd hoewedd hynt, Ef gynt yn *Marſhant-Taylor*.

2 Mae Papell y Bardd egwan, Wrth yſtlus afon *Ogwan*; *Tal-y-Bont* yw henw 'r Fan, Sy neſa i *Fangor* fwynen.

3 Cewch ymma Ymddiddan geirwir, Rhwng Duw ac *Adda*, ei Bentir; Ac ymbil Sattan ddrwg ddi-rôl, Ac Efa ffôl a ffoilir.

4 Holiadau ac Attebion, O'r Beibil di-ymryſon; Ac amriw Gerdd i'r gwegil llon, A rhai Caniadlon ffyddlon.

5 Ymddiddan *Noah* a'i Feibion, *Mageens*, a rhai *Derwddon*; *Albion*, *Heth*, a'r *Brutwns* fil, *Corenius* hîl *Antenor*.

6 Cynghorion i wneud dillad, Y Bardd i'w anwyl Gariad, A'i ſiwrna yn yr India Wlad, Am Sidan rhad a Melfad.

7 Dull ymddiddanion duwiol, Rhwng Gwr Eglwyſig gweddol, A Chywydd alar gwirion ffôl; Englynion dôl y deddfol.

8 Driau Galar trymion; Ymddiddan egwan ddigon, Rhwng y Bardd a'i Fâb yn llyn, Fu farw yn y Werddon.

9 Mawr glod y Cymru diddan, I'r perl Duwc WILLIAM purlan; Gweddiwn dros frenhinol fraint, Ei fod fel Saint ym Mrydan.

10 Cynghorion gweiniad egwan, I bob rhiw Gybudd aflan; Sy'n cymrud Tir trueiniaid, Mair, Dan foſtio eu haur a'u harian.

11 Mae etto Benill Penrhyn, I'r 'Lecſiwn Arfon eurfryn, Rhwng Madrin fawr o eitha *Llun*, A'r *Marl* o fin y *Creuddun*.

12 Englynion i'r Marſiandwyr, A Gweddi llwyddiant Llongwyr; Ac jacha 'r Mercheid goreu

reu eu gradd, I ddynol-radd o Forwyr.

13 Myfyrdod Gweddi yr Awdwr, Sy wedi mynd yn henwr; A'i 'wyllus ar bob rhiw o ddyn, Bartoi ei hun i'n Prynwr.

Gorchymyn yr Awdwr i'r Llyfr.

1 Dos, Lyfran, cyfan da cofudd, (Chwilia) er chwalu 'r hir-hoedludd; Y *Druid* a'r dyſgedig ſydd, Am Haneſion yr hen oeſudd.

2 Heda dros *Gambria* le cwmbrus, (I *Loeger*) a Chornwal le chwrnus; Doro gyngor i'r drygionus, Tu ar *Albion* fro dos ar frŷs.

3 Heda i *Droia* trwy Drefaint, (Rhodia) anhercha dy geraint; Dos cyn Gaua dwys gywrant, I'r Argraph-waſg, daſg yn dant.

4 Heda yn ôl, chwilia, pan ddychwelant, (Mae d' Athro) i'th feithrin cywirdant; Gad rai o'th Eppil, eiddil rant, Ddyfyrru 'r *Cymru* o's cymrant.

5 Heda i'r *Werddon* wirnerth, (Hael yno) hîl Meſach ap Japheth; Deiliad *Partholanus*, cowri certh, *Nemethius*, *Graſianus*, gwyr cryfnerth.

6 Hola, maith goetha 'n gyweithhael, (Am *Scota*) a 'ſgyttiodd blant *Iſr'el*; Merch i *Pharoh* ffraeth, eiriau ffel, Oedd hitha, a gwraig *Goathel*.

7 Mae etto hîl iawndda haelionus, (A diriodd) yn daeredd yn 'rYnus; Galwodd y tiroedd yn hyderus Wrth ei Enw, yn benna, *Hibernus*.

8 Tyrd i'r fan, lle tirion-fraint, (Ymchwydda) mae chwith dy Athraw-fraint; Gorphwyſa 'nawr, a nofia 'r Nant, I ynus Môn er mwyniant.

9 Dôs i'r Plaſau gorau trwy gariad, (Yn 'rYnus) dôd hanes hynafiad; I'r *Baron-hil*, reolus riwliad, A'r *Beau-mares*, aeres y Wlad.

10 I'r *Newydd-blâs*, da fagu plant, (Wrth *Fena*) mae yno i ti fwyniant; Ynghwrr yr Ynus ſelus fant, Cei groeſo, neb ni 'mgroeſant.

11 Cerdd i'r *Caere*, da cyraedd, (Heb nychu)
i'r *Mynachdy* gweddaidd; A *Bod-organ* lawen
liniedd, Ac i *Fod-Ewrud* hyfryd ei hedd.

12 I *Dre'r Druw*, bydd byw, a *Threfri*, (*Bodeuan*)
Tre'r Beirdd, gyda'th ſtori; I *Dre Feilir*, cei dy
foli, Ac yn nhre *Walchmai*, creiriau cri.

13 Dos i'r *Hen-blâs* brâs, bryſie, (*Tre-Gauan*)
Llanddyfnan iawndda; I *Lanerch-y-Medd* ei di,
medda, Cei felyſdod ddiod dda.

14 Chwilia 'r hên oeſoedd haneſion, (Llafur)
a llyfrau 'r *Derwddon*; I'r Trefydd, a *Phen-*
mynydd ym *Môn*, Y doeth o *Athen* wyr doethion.

15 *Meſach*, ŵyr *Noah* o rieni, (Cynt Brenin)
Yn's *Cedurn* y cowri; A'i fâb *Samos*, heb ſom-
mi, Fu 'n ail ei Pheniaeth helaeth hi.

16 *Magus* fâb *Samoth* dda ei ſwynion, (Gowran)
gwreiddin *Mageens* doethion; A'i fâb *Saron*, nid
dyn ſirion, Cynghorwyr, llafarwyr llon.

17 *Druis* fâb *Saron* drwy 'r ſiroedd, (Dechreuad)
Derwddon dail eurodd; A'i fâb ynta, rhydda
rhodd, Oedd *Bardus*, brydudd bereiddfodd.

18 *Mylir-ap-Gwalchmai* wiwlan (Câr Breiniwr)
rheolwr rhif alwan; Ac *Albion*, *Gog*, a *Heth*,
a *Chanan*, Aeth yn Beniaeth lywaeth lân.

19 *Brutus-ap-Sylfius* fâb *Siolun*, (A'r cledde)
a glwyfodd ſaeth ſydyn, Laddodd *Albion* Lowydd
a'i lîn, Gan ddifa hîl *Ham* a'u heulun.

20 *Corenius*, Cawr o rinwedd, (A foddodd)
Gog Magog yn rhyfedd; F'ei gwthiodd dros y
Dibin mawr, I'r Môr i lawr wrth *Ddover*.

Hanes Dechreuad y Byd, ar feſur *Fwynen Fai*.

1 Rhowch oſteg bawb, 'rwi 'n erfyn, Trigolion
Yn's-y-Cedyrn, Bonddigion, gwyr a gwerin Gwran-
dewch ar deſtyn dwys: Yſtyriwch, 'rydwi 'n
dwydud, Newyddion er y Cynfud, Haneſion hirion
hefyd, Cyn immi fynd i'r gwys.

2 Mae

2 Mae f'wyllus i gynghori, Holl ddynol-riw 'n ddiwegi, I rodio mewn goleuni, Rhag dyfod cledi, clyw: Ac felly ar y cynta, 'Roedd Helion y Gorucha, Am roi i *Adda* ac *Efa*, A'i heppil fodda i fyw.

3 Yn gyntaf, gwnaeth yr Haeldad, Y Nef a'r llu gogonad, Angylion a Cherubiad, Seraphiad lleiſiad llon, Yn bur wein'dogion iddo, I fynd lle bo'n 'wyllyſio, Drwy 'r gwagle mawr i deithio 'N ddiffaelio heb un ffonn.

4 Ac felly yr Helion ſanctedd, A wnaeth y glôb afluniedd, A'r dyfroedd, pyſgod heigiedd, Anifeiliad mowredd maint; Ehediad y ffurfafen, Ymluſgiad y ddaiaren, Ffrwyth coedydd, meuſydd llyden, Yn ymborth burnerth braint.

5 Ond darfu rai Angylion, Falchio yn eu calon, Ac ymgais i'r gorchafion, Heb ofni donia Duw; O achos hynny weithan, Nhw gowſom godwm aflan, Nad allan fyth drachefan, Gael Nefol foddol fyw.

6 Ar ol i'r hael Greawdwr, Wneud pob peth yn ddilwgwr, A dynol-riw 'n dda eu cyflwr, Fel garddwr purwr parch, Mewn gardd yn llawn o ffrwytha, Fe ddwyda Duw wrth Adda, Cewch ymma fyw mewn noddfa, Os gwnewch yn ol fy arch.

7 Mae ymma amriw goedydd, Yn gwyro eu brig gan ffrwythydd, Bwytewch o honynt beunydd, Ni dderfydd, eurfydd yw, A'r canol pren gwaharddol, Os profwch, ewch yn farwol, Os credwch 'wyllus Duw.

8 Dwydaſa nhwytha 'n inion, Y cadwan ei Orchmynion, A'i bryd oedd yn eu calon, Gan ofni 'n ddyfnion Dduw; Ond daeth un or Angylion, A droeſa Duw yn felldigon, At *Efa* i'w holi 'n fwynlon, Pa fodd yr oedd hi 'n byw.

9 Atteba *Efa* Sattan, Yr angel drwg aflawan, Mae ffrwythydd yn y berllan, I'n cadw 'n gyfan, gwn; Nid rhaid i ni ofalu, Fe erchodd ein Tad inni, Gymmeryd ein bodloni, O'r cnydia haela hwn.

10 Fe ddwyda *Sattan* efrudd, Mae ymma bren da beunydd, Os cymrwch beth o'i ffrwythydd, Chwi fyddwch megis Duw, Yn gwybod pob rheolaeth Wrth nattur, heb ddyfgeidiaeth, Mae 'fala 'n beredd odiaeth, A phur orchafiaeth, clyw.

11 Fe ddwyda *Efa* wrtho, Nid wy'n lefafu twytfio, Hwnaccw ydi eiddo Ein Tad, y Brenin byw. O's torrwn ei orchmynnion, Fe'n teifi i ffwrth o'r goedfron, Heb ddim bywoliaeth inion, a gwnawn yn ddiclon Dduw

12 Fe ddwyda 'r *Hydwr*, Hwda, ac megis *Sarph* yn droia, F' ymlufga at 'r afala, Gan roddi i *Efa* ran. Chwi gewch wybodaeth fydyn, A'ch gwelad yn noeth llymyn, Nid raid i Dduw mor grafyn Am un crabyfun gwan.

13 Ac yno *Efa* egwan, A gymmerth gyngor *Sattan*, Yr afal pur perffeithlan, Gan roddi i *Adda* ran. A'u llygaid hwynt agorwyd, A chododd arnynt arfwyd, A mynd i 'mguddio wnaethpwyd, Rhag ofn Duw Lowydd lân.

14 Pan ddoeth yr *Alpha* geirwir, I edrych am ei Bentir, Ni chafodd mono 'n bryfur Yn gywir yn yr ardd; Fe alwa Duw am dano, Ple, ddyn, 'rwyt yn ymguddio, Mi'th roifim ymma i dario, Yn dirion hwfmon hardd.

15 F'atteba *Adda* iddo, Mi ddiengais i ymguddio, O ran i mi gelwddio, Fy mod i 'n noeth ger-bron: Ni chefis ddim drwy 'r berllen, ond deilien y ffigifbren, I wneuthur arphedogen, I giddio 'r groenen gron.

16 Fe ddywedodd y Creawdwr, Di wneift yn ddrwg dy gyflwr, Am gymrud eiddo'r Awdwr, Gwnaeth *Syddwr* itti fen, Fe fydd dy le di 'n gaethach, Am itti gydgyfeilliach, A'r *Angel* cyndyn afiach, Ni chei *Baradwys* wen.

17 Fe ddarfu i Dduw gorucha, Ddilladu *Adda* ac *Efa*, A chrwyn 'Nifeiliaid gora, Yr aberth heudda hedd; A rhoi gorchymmyn weithan, Yn hollawl o

hyn

hyn allan, Ochelyd cyngor *Sattan*, Rhag Syrth i Uffern fedd.

18 Ac yno gyrrwyd *Adda*, A'i wraig felyſig *Eſa*, Oddiwrth y Tad uchelne, I'r glyn ger-bron mewn braw; I fyw wrth waith eu llafur, Am fod mor ddrwg eu nattur, A chymryd yn anghywyr, Gan *Fradwr* baintiwr baw.

19 Bu *Adda*'n hir ddirboeni, Ac *Eſa*'n lwys arloeſi, Fel hwſmyn mewn mawr gledi, A'u hil rieni ar ol; Naw cant a deg-ar-higian, Blynyddoedd blin aflawan, Cin myned i'r ddaiaren, Gadawen hil o'i hol.

20 *Cain* ydyoedd yn llafurio, Ac *Abel* yn bugeilio, Pan alwodd Duw'n ddigyffro, Am offrwm, aberth yw; Fe daflodd *Cain* yn ddiclon, Ddegwm anfodd galon; Ond *Abel* a roes roddion, O'r defaid gorau i'n Duw.

21 Fe ddarfu i Dduw weledig, Gymeryd offrwm diddig, Gan *Abel* oedd garedig, A diwrthnyſig naws; Ni 'drychodd, ac ni chymrodd, Mo ddegwm *Cain* anfoddod, Fe ddarfu i Dduw galluoedd, I hepcor iddo 'n

22 Ond *Cain* o'r achos, fulan, A dem- [haws. tiwyd gan ddrwg *Sattan*, I ladd ei frawd ei hunan, Oedd burlan ſwyddlan ſant; Fe ddywda'r Arglwydd wrtho, Y mae dy wedd di 'n ſyrthio, Paham y darfu it lidio, A thywallt gwaed wrth chwant.

23 Er hynny cafodd bardwn, Gan Dduw am fwrdwr, cofiwn, A mynd oddiwrth ei naſiwn, O'r wlad i ffwrdd a ffodd; Lle 'r aeth ei liw yn lowddu, Fe ddwyda rhai, fel fagddu, Rhoe 'r Arglwydd y nôd hynny, A'i ben i'r borth ymrodd.

24 Mae *Moeſen* wedi adrodd, Fod iddo blant ar gyhoedd; Pwy ddynas a ddiddanodd, Neu ferch eſgorodd rhain; Nid neb o'r holl wyr doethion, A fynnent addo 'n inion, Pwy ydoedd y morynion, Nac jacha 'r gyfion gain.

25 Pwy oedd y *Nod* fonheddig, 'Raeth *Cain* i'w wlad arbennig, Mae 'r bŷd yn ddirgeledig, A rhai

yn

yn wych o'r wawd: Ond etto hyn a wyddon, Fod ar y ddaiar ddynion, Dros bedair can mhlwydd hirion, Pan laddod *Cain* ei frawd.

26 Ond am'r hudoliaeth cynta, Y llidiodd *Adda* ac *Efa*, Wrth *Sattan* Sarph a'i rwyda, A'i hudodd o'r lle llawn; Ac mae gelyniaeth farwol, Rhwng hâd y Wraig â'r Diafol, Fe ddyweda Duw 'n raſſuſol, Cae *Adda* GRIST yn iawn.

27 Felly gyrrodd Geidwad, O hâd y wraig anynad, A fu yn filwr gwiwdeg, I ſigo 'r Fall a ſenn; Na chwaith y Cythrel gwaetha, Mae CRIST o eppil *Adda*, Os gwnawn ei gyngor iawndda, Fe bryn-nodd fŷd ar bren.

28 Bu ddynol-riw 'n heppilio, Ne's llenwi 'r ddaiar grynno, 'Roedd *Sattan* fyth yn hwylio, Ryw ffordd ar hudo dŷn; A llawer oedd yn gwelad Ei lwybur ef cyn engad, A'r ffordd i'r Nefoedd curad, Mor gyfing i bob un.

29 Ni fu ond ond rhiw ychydig, Yn moli Duw 'n garedig, Fel *Seth* ac *Enos* ddiddig, Buredig yn ei hoes; Ac *Enoch*, wr cyfiawndda, cyd-rodiodd â'r Gorucha, Cin Diliw cafodd *Noah*, Arch-noddfa lwyr rhag loes.

30 Mil chwe-chant deg-a-deugian, A chwe blwydd yn aflawan, Oedd oed y bŷd mawr llydan, Mae yn gyffredin hyn; Pan foddodd Duw 'r ddaiaren A dwr gan ddifa 'r cyfan, Am bechod mawr a bychan, Ac anufudd-dod dŷn.

31 Bu'r dyfroedd mawr heb dreio, Dri chant a haner cryno, O ddyddiau, Duw 'n ordeinio, Sef blwyddyn inion yw; Nes marw, gan ddiffygio, Pob rhiw greadur ynddo, Cadd *Noah* a'i deulu eu ſafio, A dau o bob math rhiw.

32 'Roedd oedran *Criſt* yn gryno, '*Meſſias* ſydd i'n ſafio, Pan wneuthim wrth fyfyrio, Yr 'madrodd medrus hwn, Mil ſeithgant deg-a-deigian, A chwe mhlwydd ar fy amcan; Dymunwn Nefoedd deiſan, I bawb ſydd dan ei bwn.

Dechrau

Dechrau'r Ail Rhan, ſef Haneſion amriw Bethau hyd yr Amſer y derchafodd Ein Iachiawdwr IESU GRIST i'r Neſoedd.

1 Gwrandewch ar ddechrau 'r Eil-fud, holl Eppil Noah ddiwud, I ail heppilio o'r Cyn-fud drwy 'wyllus downus Duw; Yr oedd eu ffydd nhw'n egwan, Ni chredan i'r Sacteiddlan, Er iddo addo 'n fwynlan, Na roe Ail-ddiluw, clyw.

2 Saith mhlwydd a thrigian, cofiwch, ar ol y Diluw dwydwch, Y rhoddodd Duw diddanwch, Addewid haelwych hedd; Yr Enfys i arwyddo, na ddoe mo'r Diluw etto, Mil Seithgant ugian cryno, A phedair lwyddo wledd. [*Oed y Byd* 1724.]

3 Er tecced oedd'r addewidion, a roeſe'r Arglwydd cyfion, Ni chredodd yr ynfydion mor Helion ſanctaidd call; Dwydaſon, Gwnawn Bridd-feini, darparwn fwdwal wedi, Gwnawn Ddinas a Thwr inni, rhag digwydd etto Wall.

4 Bu 'r Byd yn ail-heppilio Gant a deuddeg cryno, Ar ol y Diluw, cofio, Yn uno mewn un Jaith; Cin gweithio Dinas Babel, A'r Twr oedd uchel anial, Pan yrrodd Duw ei Angel i edrych ar eu Gwaith.

5 Ac yno bu gymyſgfa, a gweiddi ar Dduw gorucha, Heb fawr yn dallt y geiria, a ddwyda 'r naill i'r llall; Yn ddeuddeg Jaith a thrigian, Gwnaeth Duw 'r Ymadrodd cowran, A phawb aeth ar ei amcan, I chwilio am Gymmer call.

6 Deuddeg mhlwydd ddiddadal, cin gweitho 'r Twr yn Babel, Y darfu i Noah heb attel, drwy drafel burffel braint; Rannu Parthau 'r Ddaiar, A'u henwi 'r Pedwar chwarter, Rhyngtho â'u feibion hawddgar yn ddiymryſongar Saint.

7 'Roedd Noah yr amſer hwnnw, yn faith Gan mhlynedd gloew, Mewn nerth a deall hoew, Pan wnaeth ddiſalw'r ſwydd; I foddio ei Blant a'i Wyrion, A phawb o'i heppil ffyddlon, Wrth rannu 'r Ddaiar gefngron, yn bur ddiymryſon rwydd.

8 'Roedd Abram yn mynegi, a'r Patriarch Moſes gwedi, A llawer o'r Prophwydi, am IESU i'n tynnu o'r tân; Yr oedd y Bŷd o flwyddi, Pan anwyd rhyna o'r rheini, Dwy fil naw ugian cyfri, ond blwydd cin geni 'r Glân. *Abram* 2179

9 Pan oedd y bŷd digynil yn bedwar cant a dwyfil, Y ganwyd Jobab gowyr, yn Boſra Ddwyran dir; Prophwydodd am Achubwr y deua ein Iachiawdwr, I Ddynol riw 'n Bryniawdwr, o Fethlem, dyna'r gwir.

10 Oedran Job yn ddia, oedd haner cant, debyga, Ond un o helaeth flwydda, mynega 'n gyfa ar gân; Pan y prophwydoedd odiaeth, y genid Iesu o Nas'reth, O Forwyn gywyr berffaith, drwy areth Angel glân.

11 Pymtheg cant oedd hynny, o flwyddi cin ei eni, Y darfu i Jôb fynegi, y genid IESU GRIST; O forwyn heb Dad iddo, fel 'r ydoedd Duw 'n ordeinio, I ſafio Eneidiau ſyrthio heb rym yn drymion driſt.

12 Ac yna daeth yr Angel, Gabriel at Fair dawel, Fel Cyſgod o'r Nef uchel, a'i 'madrodd llariedd llon: Rhaid itti, Fun, feichiogi, heb achos Gwr i'w beru, Fe ddywedodd Duw am hynny, na 'mheuach ger ei fron.

13 Pan ddaeth hi i amſer yſgar, 'roedd galw am dreth i Ceſar, Bu raid i Fair wen dyner, fynd yno Feinir gynt; Y pumed dydd ar hugian o'r nawfed mis, mae darllan, Sef *Ciſlu* 'n Iaith y Sirian, yr henwan ar eu hynt.

14 'Roedd y dre gin lownad, a pob tafarndu ei lonad, A'r meddwon fel yſgrybliaid, ne foch anynad naws; Ni chafodd *Mair* un llettu, na ſiamber glêd, na gwelu, Ond mynad i riw feudu, i yſgar howddgar haws.

15 Ac yno ganwyd *Seilo*, *Meſſeias* ſydd i'n ſafio, Fel 'roeddid yn prophwydo, y ganwyd yn y fan. Fe ddaeth Llawenydd nefol i ganu uwch ben y bobol Oedd yn bugeilio 'n raſol ym maes Euphrata man.

16 Fe ddwedodd yr Angylion, mae gennym ni newyddion, Ewch draw i Dre 'r gwyr meddwon, y

trymion

trymion Drethwyr mawr ; Fe ddaeth y Brophwydoliaeth, fe anwyd *IESU o Naſreth*, Mewn llettu gwael amherffaeth yn llowaeth ar y llawr.

17 Fe deithiodd y Bugeiliaid, heb ddwud i neb moi cerddad, I *Fethlem* i gael gwelad, yr hen ddroganiad hwn ; Cael *Mair* a'r Babi bychan, yn gorwedd yn lle 'r Aſſan, A *Joſeph* yno 'n gyfan, yn gwilio 'n gryno ar grwn.

18 Oed y Bŷd yn ddidro, pan anwyd CRIST, gwir *Seilo*, *Meſſeias* ſydd i'n ſafio, y gwir *Omega* mawr ; Tair mîl a naw cant helaeth, ac wyth-a-deugian eilwaith, Mae hynny 'n bur dyſtiolath yn berffaitn lwyth ar lawr.

19 Fe gododd Seren newydd, uwchben *Judea* 'n ebrwydd, I annog gwyr cyfarwyd, mawr ſwyddwyr i neſhau : Tri Brenin wrth eu henwa ; *Beltaſar*, peniaeth *Seba* ; *Melſior*, Barnwr *Niwbia* ; A *Jaſber*, *Tharſia* glau.

20 Offrymodd y gwyr doethion, i'r *IESU*, ac addolaſon, Aur, Thus, a Myrrh, anrhegion, yn ffyddlon drwy wir ffydd ; I ddangos, yn ddiamme, fod Swyddau y *Meſſeia*, I ſafio ein holl eneidia, A'r Brenin ſownda ſydd.

21 Bu 'r *IESU* ar ddaiaren dair blwydd-ar-ddeg ar-hugian, Cin cael o weiſion *Satan* moi hwyllus drwg o drais ; Gwnaeth wrthiau di-ryfedi, mae'n ormod gwaith ei henwi, Cin marw, ac adgyfodi, i ail-gynghori ar gais.

22 Dros ddeigian ddyddiau hirion, Cynghorodd eu ddiſgyblion, A'r Yſbryd-Glân di-ymryſon, a ddaeth yn ffyddlon ffydd ; I ddyſgu 'r Apoſtolion bob math o 'madrodd cyſon, Cin iddo 'r goruchafion, dderchafu 'n lân ddi-gudd.

23 Ac yno mae fe'n ddiaf, ſef Prynwr ein heneidiaf, Yn Undeb Tri Goruchaf, mewn Senedd gradda grym ; Yn aros dydd Ymweliad, y Byd a'r Adgyfodiad, Rhag ofn i Satan galad, yn tynnu i'r taniad llym.

24 Cofiwn oll hyn-ymma, Gweddiwn hwyr a bora, A chanol dydd myfyria, rhag traha tryma trift; A gwnawn gynghorion ſanctedd, ein Prynwr mawr eu Rinwedd, Cin mynd i Wlad y Dialedd, Ni gawn drugaredd GRIST.

25 Nid oes yn awr heb ddarfod, o'n hamſer n'ymma i drallod, Cin dyfod tra-mawr ddyrnod, ar fyd a'i hylldod hynt; Mae Cyfri gwyr cyfarwydd yn pennu pob wyth ganmhlwydd, Fod tro ar y rhôd yn digwydd, Ne i fanydd gyrudd gynt.

26 Mil ſeith gant deg a deigian, a chwech o flwyddi eyfan, Oedd oed ein Prynwr purlan, a'i gofio 'r gyfan gân; Gwir *Seilo* ceiſiwn atto, Mae'n cynnull pawb a'i caro; Meddyliwn erfun arno, â phur galonnau glân.

diwedd ar y ſeithfed mis, ſef Ethanim, 1756.

ENGLYNION. Holiadau Yſgrythurol, ac Attebion perthynaſol.

1 Mae 'mofynnion dyfnion eu deall (I'm holi) am helynt yn angall; Mi rof attebion o'm tub di-ball Ond chwilio 'r 'ſgrythur dan *ſgrethall. egnio.*

2 Os metha, doetha 'r dyn (a dawo) a dyfnion ymofyn; Mi'mwrola yng ngoleu ngelyn, O'm geneu gwan i ganu ag un.

3 Os gwnaeth Adda yn ei draha drwg, (Lyfra) ple'n afrol o'n golwg; Seth ac Enos awenydd ddi-wg, Ai i niwlen y chwalwyd nhw â chilwg.

4 Rhaid ichwi feddwl yn foddus, (Fod doniau) gan ddynion gwir ddownus, O'i hymadrodd clir medrus, O flaen *Moſes* riw *Feibil* eiſus.

5 'Roedd 'ſgrafell ddu o 'ſgriten dda, (Gan *Henoch*) a hwnnw 'n wr iawndda; Ac *Enos* geidwad a'i cadwa, A *Seth* yn ſefyll a'i ſafia.

6 *Noah* erchodd roi wrth erchwyn ('Sgrafell) y 'ſgrifen orchymmyn Duw ein Creawdwr, da Awdwr gwn; Ond niwlen o drowſter aeth droſtyn.

7 Sanct-

7 Sanctedd *Feibil* y Seintia, (Nefol) yn ddynol dda ddonia, Melchis'dec, Abram, Moſes, ac Aſſa, Aaron, a Dafydd ddawn-dda.

8 Rhag blino dynion downus, (Gwynedd) Deheubarth, na Phowys; Myfi holaf yn anhwylus: Attebaf, ar fyrraf frys.

9 *Holi.* Pa hud bu Adda ac Efa gynt (Yn Eden) yn adwyn gwir helynt, Cin i'r Sarph â'i wenwyn wynt, Fel neidar roi afal iddynt.

10 *Atteb.* Pedwar cant medd grant gwir iawn (Ac ugian) yn agos yn gyflawn, O flwyddi lles, neu ddyddiau llawn, Duw 'n gofus yn ddau gyfiawn.

11 *Holi.* Pa hyd y bu *Noah*, gora gwr, (Yn gweithio) 'n gyweithas, a Safiwr; Ac yn pregethu cyfiawnder fiwr, Yn feiniol i bob rhiw fwyniwr?

12 *Atteb.* Cant ac ugian mhlynedd llawn (Cin Diluw] cynghorodd yn ffyddlawn, *Noah* 'r Bobl drwg eu dawn, Wrth weithio 'r arch, cofiwch Dduw cyfiawn.

13 Beth oedd oed y Cynfyd gynt, (Cin Diluw) yn dawel yr helynt; Pa hyd o amſer hygar hynt, Gorchgiddiodd mynyddoedd mawr iddynt?

14 *Atteb*, Mil a chwe-chant trigian mhlwydd (Ond pedair) a gaſclwyd yn ebrwydd; Cin i'r Diluw ddifa heb lwydd A blwyddyn y daliodd y Dilwudd.

15 *Holi*, Beth oedd oed yn llydan llaith (Y byd) Na bo Ddiluw eilwaith; Pan roes Duw, tragwyddol waith, Ei Fwa 'n gyfammod gyfiawnwaith?

16 *Atteb*, Saith a thrigian helaeth hynt (o flwyddi) aflawen fu'r helynt Y rhoes Duw 'n gyfammod gynt, Ei Fwa 'n Haul-gwmmwl cymaint.

17 *Holi*, Pa ſawl blwydd lawn lwydd lon, (Ar ol Diluw) adroddodd i'w feibion, Rannu 'r ddaiar grymgar gron, I'w llafurio yn llyfeirion?

18 *Atteb*, Can mhlwydd lowydd lawn, (ardaloedd) y dolydd yn gyflawn, A rannodd *Noah* yn rymmus iawn, Rhwng meibion a'i wyrion uniawn.

19 *Holi*,

19 *Holi.* Pwy ſylfaenodd ſeiliodd ſylwedd (Twr Babel) tŷ 'r bobl fawr annedd, Par a amſer, dywad un wedd, Yn *Semar* a *Mamre* waſtadedd?

20 *Atteb. Nimrod*, gwr cadarn codiad, Gorwyr i *Ham*, pen yr *Aiphtiad*; Efe ſylfaenodd *Babel* heb wad, Ar ol *Diluw* gant a deuddeg.

21 *Holi.* Pa ſawl blwyddyn rhudyn rhaeade, Bu'r ddaiar heb wlaw arni'n unlle; A pheth oedd yn ffrwytho ei chnydia da, Cin glawion yn ddifario ddyfeiria.

22 *Atteb.* Mil chwechant yr Elphant reolfawr, A thrigian, ond pedair goleuwawr, Y bu'r ddaiar fyddar fawr, Heb wlaw arni, gwlith oedd yn dramawr.

23 *Holi.* Pa ſawl rhan gydran gu adrodd, Ieithiodd a ddeuodd o'r nefodd, Ar weithwyr *Babel* drafel drodd Pan gludwyd eu deunydd o danodd.

24 *Atteb.* Deuddeg a thrigian, meddan i mi, O Ieithiodd, ordeiniodd Duw Celi; A'r holl bobl *Babel* a'i bri, 'Roedd gwaedd gan bawb yn gweiddi.

25 Prydyddion tremion trymfaith, (O'r *Cynfyd*) lle cafwyd y *fam-jaith*; Honno ddaliodd yn ddialaith Hyd adel *Babel* fethal faith.

26 Prophwydo, nithio wnaethon, Trwy rôl, o ganol yr arwyddion; Rhoddi hanes rhwydd inion, Cin *Diliw* heb ſiw na ſôn.

27 *Holi.* P'run oedd hyna, modda maeth, O'r Ieithioedd, a phwy oedd ei thadmaeth, Pan fu chwilio, ffrio yn ffraeth Yn *Babel*, wych bobl am bob peth?

28 *Aiteb. Gomer* oedd hyna, gora o'r gwyr, *Ap Japheth*, llefarodd yn gowyr, *Gymraeg* iawn loew lawn lwyr, Wrth *Babel* wyr dawel wrandawyr.

29 *Holi.* Pa ſawl blwydd, atteb rwydd fer, Oedd *Gomer* hynach na *Heber*; Chwilia 'n llwyr, chwale yr ller, Gwna ymſan am yr amſer?

30 *Atteb.* Cant a deugian pedair blwydd Oedd *Gomer*, tadogaeth *Gymreigrwydd*; Hynach na *Heber*, ſyber ſwydd, Tadmaeth *Hebreaeth* breurwydd.

31 *Ho-*

31 *Holi.* Par y lwybr pybyr a'i pabedd, Cin *Moſes*, ym myſg rhai rhinweddedd, Oedd gan *Sem* a *Japheth* ddwyſedd, A *Ham* ddewr lam lin wledd?

32 *Atteb.* Delwa tawdd pura darparant I *Laban*, ond *Rachel* a'u ciddiant; Ac yn yr Anialwch, diofalwch chwant, Llô Aur-ddelw addolant.

33 Merch i bwy, marchog y byd, Oedd *Sarah*, Gwraig *Abram* oleubryd; Os medri adrodd i mi o hyd, Pa garennydd i'w harglwydd hefyd?

34 *Atteb.* *Sarah* gwraig *Abram* lân o bryd, Merch *Terah*, a'i chwaer undad hefyd; Modrub *Milcha* hoff raen ei phryd, Gwraig *Nachor* daran deuryd.

35 *Holi.* Meibion i bwy, roddion dda raddol, Oedd *Aaron*, a *Moſes* rinweddol; A phwy ydoedd hoff radol, Eu Mam dda ei rhan a'i rhol?

36 *Atteb.* Tad *Aaron* a *Moſes*, i'w henwi, *Amram* fâb *Koath*, fâb *Leſi*; A'u Mam ydoedd yn ddiwegi, *Jochebed*, chwaer eu taid i'r tri.

37 *Holi.* Pa ſawl blwydd, cyfri rhwydd rhoes, *Moſes*, ddechreuad ei einioes; A pheth oedd ei oed o'r *Aipht* pan ffoes, Drwy'r *Mor Coch* ſyfrdan heb ſurdoes?

38 *Atteb.* Dwy fil a chynnil dri chant A Deuddeg a deugian, mynegant, Pan anwyd *Moſes* ſwydd Sant, Yn buim ugian o'r *Aipht* fe rodiant.

39 *Holi.* Pa ſawl blwydd yn rhwydd i'n rhan, Oedd oedran y Bŷd mawr i ymſan, Pan roes Duw ar *Sinai* fan, Gyfreithiau gwir foeſau at *Foeſeu?*

40 *Atteb.* Dwy fil, nid cynnil mo'n cân, Pum cant, ond wyth mhlwydd a deugian, Y rhoes ſancteiddiol lân, Ei orch'mynion ffraethlon ffrwythlan.

41 *Holi.* Pwy adeiladodd, gyweiriodd gaera, *Salem*, y Ddinas ſancteiddiola A *Melchiſedec*, ddiwad, wr da, Henwa ei rieni hyna?

42 *Atteb.* Melchiſedec, Offeiriad hoff urdda, I Dduw, heb ddiwedd na dechra; I'm tub i, fe nododd bennoda, Adeilad *Salem*, Dduw len dda.

43 *Holi.*

43 *Holi.* Pwy brophwydodd ar gyhoedd gynt,
Am *Edom*, y Ddinas fawr helynt; Y lloſgid hi, a'i
Themel, ar hynt, A'r llys, gwaedd oeredd ynddynt.
44 *Atteb. Obediah* brophwyda 'n braff o drom, Am
Eſau, a'i genedl war gledram; Dwydodd, a nododd
am *Edom*, Y llyſgid hi, a'i lloſgi 'n dom.
45 *Holi.* Pwy gadd eurad glod glau, Wiſgoedd
purlan fel perlau; A'i fotymmau folglymmau
yn gwau, O waith Euruch werth orau?
46 *Atteb. Aaron* oedd orau lawn urdda, Neſa i
Melchiſedec iawndda; Sidan gwyn ac aur o'r
gora, O waith Euruch gwych a ga.
47 Offeiriad ddawn dirion dda-doriad, Oedd
Aaron, a'i orau wiſg eurad; Gown Sidan aur
oſodiad, Folglymmau a pherlau hoffad.
48 *Saul* a *Goliath*, *Gath* gau, Rhyfelwyr,
rhy filain a'u harfau; 'Roedd eu gownau llurig
wellhau, O waith Euruch, werth orau.
49 *Holi.* Mâb i bwy, yn nhyb y byd, Oedd *Jôb*,
ym mowredd ei olud; Pwy oedd ei Dad,
clydfar clud, Ei Deidiau, a'i Hên-deidiau dadwyd?
50 *Atteb. Jobab* fab *Joctan*, fab *Heber*, Fab *Selah*, fab *Arphacſad* wiwber; Fab *Sem*, fab *Noah*
dyner, Eilfed Brenin *Edom* bêr.
51 *Job* fab *Iſſachar*, fab *Jacob*, Fab *Iſaac*,
fab *Abram* per ei nob, Fab *Tera*, fab *Nahor* eurglod, Fab *Serug*, fab *Rue*, fab *Peleg* yn bod.
52 *Jobab* fab *Zerah*, wr ſiriol, Fab *Rehul*,
fab *Eſau* dwyſogol; Fab *Iſaac*, fab *Abram* ddewiſol, Brenin *Dinhebah*, wr haela rhol.
53 *Jobab* fab *Shaharim*, fab *Geba*, Fab *Ebud*,
fab *Bilham*, fab *Beniah*, Fab *Jacob*, fab *Iſaac*
wrola, Fab *Abram* dduwiolion dda.
54 *Jôb* fab *Zerſia*, ferch *Jeſſe*, Fab *Obed*,
fab *Boas*, fab *Salme*, Fab *Naſon* o'r tu cynheſa, Fab *Aminadab* deurud da.

55 Dewi-

55 Dewiſwch er Duw I E S U, Inion, o'r dynion ddaioni; Yr hwn a fynnoch o'r rhif inni, Am *Jôb* wr enwog cefnog cu.

56 *Holi.* Gofyn yr ydwi ar gyfar, Pwy fedrodd ymadrodd o'r ddaiar, I dorri awydd ſawyr ſur, Bauch ydoedd ar Bechadur.

57 *Atteb.* Rhiw Yſpryd a yrrid a'i Eiria, O'r gwerud, yn groew lefara, Wrth *Saul* fod blus mawr bla, Am *Samuel* daer yn *Endora.*

58 *Holi.* Pwy addawodd drwy Adduned, Aberth i'r Arglwydd gogoned, Y cynta' i'w cyfwrdd o'i Babell heb wad, Os cae fe'r maes ar yr Ammoniad.

59 *Atteb. Jeptha* ei Ferch ladda drwch leiddiad, Yn offrum i'r Arglwydd trwy Adduned, Ei unig Eneth a ddaeth i'r nod, Gu fowredd i'w gyfarfod.

60 Cin dyfod adra fe'n ddiwad, O'r Rhyfel 'rol curo 'r Ammoniad, Ni feddyliodd yrru nod, I erchu ei Eneth warchod.

61 *Holi.* Pwy oedd y Gwragedd yn bybur a bobodd Gri-fara, a'r lloeua tew laddodd; Dywad etto, oni ddotiodd, Henwa'r gwyr ar y tir a'i bwytaodd?

62 *Atteb.* Tri Angylion rhoddion rhad, Ag *Abram*, dan dderwen 'rwyf I ddirnad; *Saul* yn *Endor* oedd Lowydd y wlad, Cadd gwynosfwyd croeuwſe

63 *Abram* a *Sarah* bryſurodd (Beilliad) [cread. dri meſur a bobodd, A'r llo croeſo, cri' craſodd, I'r tri Angylion rhwyddlon rhodd.

64 Tri Angylion rhoddion rhwydd, Archwaethodd, ſaig *Abram* yn ebrwydd; *Saul* yn *Endor*, fawr ludded di-lwydd, Gadd groew-fwyd gole di-gelwydd.

65 Dewinas fawr *Endor* gyfyngdra, Di-ball, da beilliad y boba, Gyda'r llo i'w gwynos ſe ga, *Saul* yn ei oferedd gri-fara.

66 *Holi.* Beth oedd henw 'r Paen hinon, A'i fam, wiw famaeth berffeithlon, A dyn gwaredd fel oen gwirion, A Phroffwyd di Dad da ei dôn.

67 *Atteb. IESU GRIST*, Duw yn dyſt tyſtiol, A'r Yſpryd Glân ennyd cyſgodol; Ni chnydir ef â chnawd di-rôl I *Joſeph* yn Gnydfab cnawdol.

68 Iesu Grist Dwyſog dewiſol, Mab *Mair*, bur Forwyn ſancteiddiol. A * *Merddun* o ferch Brenin breiniol, Ni chaed o'r cnawd ei Dad yn rôl.

69 *Merddun* wyr Brenin breiniol, *Dyfet*, Tad ei fam grefyddol; Ond ni wydda 'r fun dda ei rhôl, Oedd iddo Dad galwedigol. [* *Drych y Prif Oeſoedd.*]

70 Mewn *Nunner* 'roedd meinwar Ddiwies, Yn ei gwelu, rhwng dwy gyfeillias, Gwela megis gwas digas, Arni i'w gwaſarnu gwys ernas.

71 Bu fwriad y bur forwyn, Gadw ei morwyndod yn addfwyn; Ond trwy ei hun, Bun ddihoen, Gwelodd gyſgod yn ei goreſgyn.

72 Felly beichiogodd Bun eurfun, Ar Fab, A henwyd ef *Merddun*, Ynghylch oed y Byd cyffred i'n, Pedair mil pedwar cant tyn.

Englyn Terfyn.

Os gwelwch, wŷr diddan downus, (Feiau,) ar f' ymadrodd anfedrus; Dowch ynghyd, rhowch fryd ar frŷs, I daclu fy ngwaith anhaclys.

	Gen.	*Oed y Byd.*
Creadigaeth *Adda*, ac *Efa* o'i Aſen ef,	i. 27	1
Geni *Seth*,	v. 3	130
Enos,	v. 6	623
Canan	v. 9	325
Mahalaleel	v. 12	395
Jerad	v. 15	460
Henoch	v. 18	622
Methuſelah	v. 21	687
Lamech	v. 25	874
Noah	v. 25	1026
Japheth	v. 32	1556
Sem	v. 32	1558

	Gen.	Oed y Byd.
Geni *Ham* - - -	v. 32	1560
Duw yn gorchymyn i *Noah* wneud Arch i ſafio ei Einioes ef a'i deulu rhag boddi		1656

Blwyddyn y parhaodd y Dil. Dechrau'r fywoliaeth newydd.

Geni *Gomer ap Japheth* -	x. 2	1770
Magog ap Japheth - - -		1772
Madai ap Japheth - - -		1773
Javan ap Japheth - - -		1775
Tubal ap Japheth - - -		1776
Meſach ap Japheth - - -		1777
Thiras ap Japheth - - -		1778

O'r ſaith ymma, ac o hiliogaeth *Ham ap Noah* y daeth y *Cenhedloedd* allan, ac o lwyth *Sem* y daeth yr *Iſraeliaid*.

Oed y Byd pan roes Duw yr Enfys,	1724
pan rannodd *Noah*'r Ddaiar,	1757
pan adeiladwyd Twr Babel	1769

Dechreuad Teyrnaſiad *Meſach ap Japheth*, y Brenin, neu'r Rhaglaw cynta ar ol y *Diluw*, a ddaeth i *Ynus-y-Cedyrn*, ſef *Brydain-Fawr*, ymhen cant a deugian mhlynedd ar ol y *Diluw*, wyth mhlynedd-ar-higian ar ol *cymyſgu* yr Iaith yn *Babel*, ac yn yr ugeinfed flwydd o'i oedran, ac o *oedran y Byd*, 1797

Ac fe deyrnaſoedd o flynyddoed - 150

Samoth fab *Meſach* a ddechreuodd deyrnaſu yn y flwyddyn o oed y bŷd - 1947

Ac fe deyrnaſodd o flynyddoedd - 140

Yn ei amſer ef dechreuodd Trigolion fŷw yn y *Werddon*, ſef 300 mhlynedd ar ol y *Diluw*, medd Llyfr *State of Great Britain*.

Magus fab *Samoth* a ddechreuodd deyrnaſu yn y flwyddyn o oed y bŷd - 2087

Ac fe deyrnaſodd o flynyddoedd 126

Saron ſab *Magus* a ddechreuodd deyrnaſu 2213

Ac fe deyrnaſodd o flwyddi - 113

Druis ſab *Saron* a ddechreuodd deyrnaſu yn y flwyddyn o oed y byd - 2326
Ac ſe deyrnaſodd o flwyddi - 112
Bardus fab *Druis* a ddechreuodd deyrnaſu 2438
Ac ſe deyrnaſodd o flynyddodd 113
Mylir ap Gwalchmai a ddechreuodd deyrnaſu 2551
Ac ſe deyrnaſodd o flwyddi 110
Albion, Gawr, a ddechreuodd deyrnaſu 2661
Ac ſe deyrnaſodd o flynyddoedd 18
Brutus, o lwyth *Gomer ap Japheth*, a ddaeth yn Gongcwerwr i'r Ynus ymma yn y flwyddyn 2840
'Roedd hynny o flynyddodd cin geni ein Iachiawdwr *Ieſu Griſt*, - 1108
Ac ſe deyrnaſodd o flynyddodd 24. Ac a alwodd yr Ynus yma *Brydain Fawr*, a'r Trigolion *Brutaniaid.*

Hyfforddiad i rannu y Rhan neſaf *o'r Llyfr hwn rhwng* wyth *o'Sgolheigion, os leician ei dreuthu ymuſc Cynlleidfa, ar ddydd cyffredin neu noſwaith.*

1 Prolog. *Meſach, Gauan, Mylir, Brutus, a rhan o'r* Epilog, 5
2 *Noah, Nidan, Teglan, Heth*, a *Merfun*, 5
3 *Japoeth, Linus, Marthin, Cybydd, Corenius*,, a rhan o'r *Epilog*, 5
4 *Sem, Elphyn, Druis, Hwfa, Gwerful*, 5
5 *Ham, Magus, Rhus, Albenactus*, a rhan o'r *Epilog*, 5
6 *Samoth, Edwan, Cydwybod, Locran, Gwalchmai*, a rhan o'r *Epilog*, 5
7 *Saron, Bardus, Albion, Gwenllian, Camber*, 5
8 *Kittim, Jef Mr. Gwamal, ffwl*, 1
Gwiſciad ac Arfau y Chwaryddion-rannau 36

Pedair Baner ddu y Gwaew-ffyn i Noah *a'i feibion, Gwaewffyn, a Baneri glas neu goch i'r lleill; Utgorn, a ffaſtwn, a Dylſimer i'r Ffwl, Cochol, a choron, a phaſtwn i* Albion, Gwenllian *a Gwerful*, Brutus *a'i feibion, a* Chorenius, *Bwa-ſaeth a Chledde.*

1 Mae

Mae *Adda*, *Seth*, a *Henoch*, *Enos*, *Noah* a'i feibion eu gyd agos; *Abram*, *Jôb*, Patriarchau hiroes, Yn peri cofio pob gwir Einioes.

Mawr *Nimrod* oedd yn Heliwr cadarn, Ac yn gwneud pob peth yn wasarn; *Moses*, *Dafydd*, *Selyf* ddoetha, O flaen ein llygaid roi 'n ractala.

Mae *Salmon*, a'r Pregethwyr cywraint, A llawer Prophwyd yn ei henaint, Yn rhagfynegi, gwagedd seibiant Ydyw 'r cwbl, ond Duw'n bendant.

Dechrau 'r Prolog, *neu Ragfynegiad Testyn y Llyfr.*

1 TRWY 'ch Cennad, Fonedd a Chyffredin, Gwŷr a Gwragedd, Llangcia, Bechgin; Ladis, a'u Morynnion hawddgar, A'r Genethod drwy fwyn gell-

2 Os cawn ni le a llonydd weithan, Rhown [war. hânes hên a newydd allan, O Drigolion penna 'r Dalaeth, Er *Diluw* ddwr yn siwr a'u 'smonaeth.

3 *Noah* a'i feibion a ddaw gynta, I ddechrau 'r ail fywoliaeth ymma; Arloisi tiroedd, impio coedydd, Gwneud gwinllanoedd, casglu ffrwythydd.

4 Mae *Noah* 'n rhannu Parthau 'r ddaiar I'w dri Mab, a'i Wyrion hawddgar, Ac yn marw 'n hên ar drangc, Ynghylch naw cant a hannar.

5 Fe ddaw ymma Ffwl, nid dwl Gadafal, Ei Enw ef yw *Kittim Wammal*; Mae ef yn Brophwyd ac yn Fardd, Yn ddigon hardd ei chwedal.

6 Ac yno daw y Brenin *Mesach*, Ac fe yn ŵyr i *Noah ap Lamach*, I roddi hanes yn ei Iaith, Mor brydferth ei Frenhiniaeth.

7 Mae ef yn caphael Gwâs doeth gwiwlwys, Ei henw ef yw 'r Marchog *Linus*; Rhydd hwn i'r Brenin hanes dwys, O'u Frodyr, a'u pwys trafferthus.

8 Rheolodd *Mesach* ddibryn, Frenhiniaeth *Ynus y Cedyrn*, Gant a deugian a deng mhlwydd, Cin darfod Swydd ei derfyn.

9 Ei

9 Ei hynaf Fâb oedd *Samoth*, A ddaeth yn Frenin gwiwddoeth; Rheolodd ef pob Bryn a Nant, O Flwyddi gant a deugian.

10 Rhydd hanes Nîth i *Noah*, Ei henw oedd *Ceſaria* *, Cin Dwr *Diluw* byw 'r oedd hon, Yng ngwlad y *Werddon* wirdda. * *Vid. Preſent State of G. Brit.*

11 Fe ddewiſa hwn Gynghoriad, 'Sgolheigion doetha ar anad; Mi a'u henwau ichwi yn ol y gwn, Os tewch â'ch ſwn yn ſiarad:

12 *Marthin*, *Nidan*, *Linus*, *Edwan*, *Gwalchmai*, *Mylir*, Doctor *Gauan*; *Merfyn*, *Elphyn*, *Rhus Tregarwa*, Baron *Teglan*, Twyſog *Hwſa*.

13 Mae'r doethion Wŷr yn Frydwyr perffaith, Yn gywraint am Aſtronomyddiaeth, Yn ol y Sêr pa beth a ddaw Ymma a thraw o'r Dalaeth.

14 Y neſa a deithie o'r Dafarn, Oedd *Magus ap Samoth* gadarn; Rheolodd hwn ein Hynus Nant, Chwe blwydd a chant ac ugian

15 Fe alwodd hwn ei ddeiliad, Ar ol ei hunan henwad, *Mageens* doethion yn ddiwâd, Prophwydi, Tâd Dewiniad.

16 Daeth *Saron ap Magus Samoth*, Ar ol ei Dad cyflawn-ddoeth; Fe Riwliodd dair-ar-ddeg a chant, Cin mynd i Bant yr oeſoedd.

17 Daeth *Druis* neſa *ap Saron*, Yn Frenin doeth cyfreithlon; Galw wnaeth ef yn *Ddruis* cu, Ei hollawl Lu, *Cyfeillion*.

18 Fe henwodd ef ei Gedyrn cryfion, Ar alwad yn *Dderwyddon*; Cowraint oeddynt ym mhob peth, Am Swiniaeth a Chynghorion.

19 Daeth *Bardus* wiw-dlws odle, Fâb *Druis* ar ei ol ynta; Hoffodd ef Gantorion gant, A'i Deulu, chwant i danna.

20 Fe alwodd hwnnw 'n inion, Ei ddeiliaid yn *Brydyddion*; Beirdd ac Achwyr Dynolryw, Cantorion gwiw a chyſon.

21 Ac

21 Ac yno daw *Cydwybod*, I ymddiddan â *Chybydd-dod*; Mae nhw yn canu Bob yn ail, Gynghorion diwael defod.

22 Daw ymma megis Brenin, Un *Mylir* o'r Gorllewin; Rheolodd hwnnw flwyddi gant A deg, cin pant ei derfyn.

23 Daeth ymma un *Albion* gwedi, *Gog Magog*, *Heth*, a'u Cwmni; Cowri o *Ganaan* wrth eu Llwyth, Dros Gant deg wyth i'w gyfri.

24 Mae *Heth* yn Gâr i Albian, Sef Ewyrth, o Wlad *Ganan*; Fe fu yn canu Mowrnad mawr I *Gwamal* fawr yn gyman.

25 Daw 'r *Brutwyns* o *Gaer-Droia*, O *Ffrainge* ac o'r *Italia*; Lladdasant *Albion* Frenin mawr, A *Magog* Gawr o *Bosra*.

26 Fe henwodd *Brutus* ynta, Yr Ynus hon *Brutannia*; A'i holl ddeiliaid yn un gâd, A ddoethe o Wlâd *Hên-Droia*.

27 Daw *Locran* a *Chorenius*,, A *Chamber Albenactus*; Rhwng y pedwar ymma 'n glir, Fe rannwyd tir yr Ynus.

28 Daw *Gwerful*, Morwyn *Albian*, *Corenius*, a *Gwenllian*; A *Gwamal* sydd yn rhwymo rhain, Priodas gain heb gynnan.

29 Daw ymma ddau Ddysgawdwyr, I ddywedyd Iacha cowyr,; Brenhinoedd oeddynt o'r oes gynt, Fel 'roedd eu hynt drwy 'r *Yrir*.

30 Daw *Rhus*, a *Gwalchmai*, *Mylir*, I ganu 'n dduwiol ddifir; *Linus* ac *Elphyn*, fel y Gôg, I ddweud yr *Epilog* eirwir.

31 'Rwyf gwedi henwi 'r Cwmni, O'r dechrau i'r diwedd ichwi: Gydâ Cennad, af i'r tŷ I nôl fy Llu i'ch dyfyrru. [*Exit.*

Dechrau Ymadroddion Noah.

32 Dymma fi, *Noah*, i Dduw y diolcha, Yn ail-rodio 'r Ddaiar ola;

Mi

Mi ollyngais yr Adar, a'r Ymluſgiad,
Allan o'r Arch i ail-heppiliad.

33 Mae hi 'n awr yn flwyddyn inion Er pan ydwyf fi a'm Meibion, Gyda 'n Gwragedd ar y cefnddwr, Yr Arglwydd Dduw oedd ein cyfrwyddwr.

34 Duw a roes i mi orchymmyn, Cin i'r dyfroedd *Diluw* ddiſgyn, I wneuthur llong neu arch ddwy-erchwyn, Rhag ein boddi mewn dwr gerwyn.

35 Ni choeliodd neb yr amſer hynny, Mae 'r Arglwydd Dduw oedd i'm cynghori, Ond fy Meibion gydâ'u Gwragedd. Cawſon nhwytha 'r ail-oes gyredd.

36 Ni welis r'un o gyrph y meirwon, A foddodd yn y *Diluw* creulon; Os dowch i hyd i 'run o honyn, Rhoddwch bridd a thywod arnyn.

37 Myfi a af i blannu Gwinllan, Ac i lafurio 'nawr Ddaiaran, I gael bwyd a diod weithan, Erbyn dyfod wyrion bychan. [*Exit.*

Dechrau Ymadrodd Japheth ap Noah *a'i Frodyr.*

38 *Japheth*, Duw a lwyddo 'n bur eich bwriad, I wneud gwinllanoedd grawn eu llonad; Ni gawn win i lonni ein calon, Ar ol llanw dyfroedd lownion.

39 Gora i ninnau fynd ar fyrdro, Pan ddelo'r adeg, i lafurio, Wedi 'r tiroedd gwbwl ſychu, Mae 'n rhaid yn lwyſedd eu harloeſi.

40 *Ham*, 'Rwi fine 'n leicio mynd i rodio, Pe cawn fy ngwraig i yſgafn droedio, I *Siria* a'r *Aipht* 'rwi fi ar fentro, Os bydd fy Nhad yn llwyr 'wyllyſio.

41 *Japh.* Gorau inni fynd i wared, I edrych am ein Gwragedd gweinied; Nid oes neb i dendio arnyn, Ond ein Mam, rhwng tair o honyn.

42 'Rydwi 'n tybied ar fy amcan, Fod gan fy Ngwraig i Blentyn bychan; Ni arhoſai ymma ddim ond hynny, Mae immi achoſion i'w chynheſu [*Exit.*

43 *Sem*, 'Rwi fina 'n meddwl, ar fyr amſer, I'm Gwraig inna fynd ar fyrder; Mae hi ar olwg arni 'n egwan, Megis geni plentyn bychan.

44 Mae'r

44 Mae'r Ddaiar etto heb lawn ſychu, Rhaid i'n
ſyned i'r hên lettu; I'r Llong neu'r Arch yr awn
ni i orwedd, Nes cryfhau ein plant a'n gwragedd.
45 Mi ddo finna i'ch canlyn weithan, Ond ple
mae Nhad yn trin ei winllan; Ni hwyrach y daw
ſo tu ag ymma, A ninnau wedi myned adra.
46 Mae ngwraig inna yn o foliog, Fel camel neu
ryw gaſeg lydnog, Ni hwyrach eu bod fel buwch
yn beichio, Mi af finnau am hynny i ech am honno.
47 Dyma fi, *Noah*, unwaith etto, 'Rydwy agos
wedi blino. Yn arloeſi 'r Ddaiar aſlan,
Rhag ofn gwall mi wneuthim winllan.
48 Mae ginni ddarpar diod loew, Gwell na
Seidar na ſug Bedw, Gwín a dynnais o'r winwy-
dden, Yn ddiod iach i'r gwragedd egwan.
49 Mi yſa beth fy hun yn gynta, Mae ginni
ddigon iddyn nhwytha; Pe cawn fy meibion i'm
nol adra, Gorphwyſaf beth nes delon ymma.

Noah *yn cyſgu, a* Ham *yn chwerthin am ei ben.*

50 *Ham.* Fy Nhad mewn medd'dod chwedi cyſgu,
Ar ei gefn, a'i dorr i fynu; Mi wela 'n wir gy-
wilydd gwinllan, A noethni mawr fy Nhad fy hunan.
51 *Japh.* a *Sem.* Ffei o honot, ddyn chwerthingar,
Pam y gwnaethoſt mor anhawddgar? Ow na baſit
yn ei guddio A rhyw ddilledyn, 'rum ni 'n llidio.
[Japh. *a* Sem *yn ei guddio a Mantell, ac yn cael Bendith.*]
52 Gorau inni beidio a'i ddeffro, Nac ymyrryd
dim ag efo. Rhag ofn y rhydd ef ſenn i nin-
na, Os yſmudwn o'i orphwyſdra.
53 Dywedwn ryw-beth wrth ein gilydd, Gadawn
iddo gyſgu yn llonydd; Pan ddeffrotho, fe rydd
inni Ryw Ardaloedd i'w meddiannu.
54 *Japh.* O Barthau 'r Byd y Chwarter lleia, A
rydd Duw i mi, ſef Gwlad *Europa*; Mi ai rhannaf
hi rhwng faith o'm meibion, Mae ynddi diroedd he-
laeth ddigon.

55 Ceiſiwch chwithau wneud yn barod, Dcewis Tiroedd da, trwy ammod; I gael inni drefnu 'n teulu: Daccw fy Nhad yn codi i fynu.

56 *Sem.* Wel, fy Nhâd, Pa fodd yr ydech? 'Rydem ni yma 'n aros, wrthech, I gael gwybod pa Ardaloedd, Yn rhwydd a roddwch inni o'r Tiroedd.

57 (Noah *yn codi.*) 'Rydwi agos wedi dottio, Pwy fu ymma i'm cywilyddio? Mae *Ham* yn ffôl gadafel dilyth, Am chwerthin am mhen i, melldith.

58 Ceiſiwch fynd i drin y Ddaiar: *Japheth*, dôs i *Europ* hawddgar; Dôs ditha, *Sem*, i wlâd *Aſſyria*, Aed ynta, *Ham*; i'r *Aipht*, neu 'r *India*.

59 'Rydwy 'nawr mewn gwth o oedran, Yn naw cant a deg a deugain; Gwn fod nôs fy oes i yn neſu, I chwi rho Fendith cyn terfynu.

60 *Japh.* Fy Nhad anwyl, 'rwy 'n dymuno Gael rhai o'r Llyfrau o'r Arch i'w chwilio, Fel y gallon gael ein hiacha, Oddiwrth *Adda* hyd at ymma.

61 *Noah.* Cymrwch fy Llyfrau ar ol fy ngladdu, A'r Arglwydd nefol fyddo i'ch helpu; Cedwch eich iacha lin olynol, Gwas'naethwch Dduw trwy ffŷdd raſuſol. (*Exit. Diwedd Diddaniaeth* Noah.

62 *Sem.* Gorau peth i ni 'ſgrifennu, Yr hên Lyfrau oedd yn dylu; Mi gan le yn y Llyfrau newydd, I roi henwau ein Plant a'n Gwledydd.

63 *Japh.* Mae hynny 'n birion parch oreuglod, Gael cadw 'n hiacha hyd at Dduwdod; Os awn ymhell oddiwrth ein gilydd, Bydd angenrheidiol Llyfrau newydd.

64 Ni ddylem fynd i chwilio'r Ddaiar, Am y ddwy Golofnau foddgar, A wnaith y Bobol yn y Cynfyd; Nhw roeſon arnyn bob Celfyddyd.

65 Roedd un o Brês, yn fawr aneiri, Rhag ofn dyfod tân i'w doddi; A'r llall o Bridd, o'r ungyfrwyddyd, O Ddealltwriaeth Gwŷr y Cynfyd.

66 Y rhain oedd gwedi clir argraphu, O bob Celfyddyd y pryd hynny; Ni wnae y Tân mo'r Pridd yn ulw, Na'r Dwr ddim niwed i'r Prês gloew. 67 Mi

67 Mi wranta fod y Prês yn eglur, A phob gair yn ddigon cywir; O bob Hanesion o'r Oes gynta, Mi ai 'sgrifennwn yn ein Llyfra.

68 *Sem.* 'Rwy fina 'n leicio 'n birion hynny Gael yr holl gyfrwyddyd felly, I bob un o honom ninna, Ac i'n plant, a'u heppil nhwytha.

69 Mae 'n debyg fod y Golofn gynta, Oedd gwedi gwneuthur o'r pridd gora; A'r dwr wedi ei chwalu 'n chwilfriw, Nid ydi 'r Prês ddim gwaeth er Diluw.

70 Gwydda 'r hên Drigolion Cynfyd, Y doe Ddestrowiad ar yr holl-fyd, Trwy naill ai Tân ai Dwr yn ddia, Ond trwy ba un, ni's gwyddant nhwytha.

71 *Ham.* Y fi a ddyla gael yn gynta, Fy Nghardiacha hyd at *Adda*; 'Rydwi 'n mynd ymhell i dario, *Syria* a'r *Aipht* 'rwi fi 'n ei leicio.

72 Fe ddarfu ichwi mewn da amser, Gofio am y Golofn foddgar, Lle mae 'r holl Gyfrwyddyd gywran, Ar Brês yn awr ynghadw weithan.

73 Os oes neb yn ammeu 'r Hanes, Darllenwch yn y Llyfr *Du-Bartes*, A wnaeth *Hebrewr*, neu ryw *Roegwr*, Drwy gymmorth hefyd gwiw *Ladingwr*.

74 Gellwch ddallt fod Duw 'n hyfforddio, Rhai o'r Cynfyd cyn destrywio, I adel addysc a chyfrwyddyd I'r Byd-newydd am Gelfyddyd.

75 Mi gawn weled wrth ein Llyfrau, Beth sydd chwaneg ar Golofnau; Nag oedd yn yr Arch gan *Noah*, Awn efo ein gilydd ar ein siwrna. (*Exit. Diwedd Ymadroddion Meibion* Noah.)

Dechrau Ymadrodd Cittim-Wamal-ap-Javan, *Wyr i* Japheth, *a Gor-wyr i* Noah.

76 *Kit. Gwamal* (ffwl); Cerddwch, brysiwch at eich Llyfra, Mi 'sgrifennais bart o'ch Iacha; Henwa eich Plant a'u Hoedran rhi, Ond ydwyf fi Ddewin-da.

77 'Rwyf yn dyscu yn fy Ysgol, Enethod rai, a Bechgin pen-ffol; Mae gan *Japheth* Feibion saith, Mewn addysc odiaeth reiol.

78 Mae *Sem* ymhell oddiwrtha, Ymhellach *Ham* nac ynta; Digon o Waith i mi 'mhob man, Bregethu a darllain weithia.

79 Rhaid immi ddyſcu 'r holl Frenhinodd, I adwyn Sêr, Plaened, Addurnodd; Ac i 'ſgrifennu Aſtronomyddiaeth, Pob arwyddion, Prophwydoliaeth.

80 Rhaid dyſcu i'r Genethod ganu, Chware 'r Delyn, a 'ſgrifennu; Downſio yn fedrus ac yn foeſger, Bob rhyw Fiwſig fwyn o bleſer.

81 Rhaid iddynt fod yn Brophwydeſa, I ddeall beth a ddigwydd neſa; A hyn yn unig wrth Blaneda, Arwyddion oll yr Awyr ola.

82 Dros go aeth ginni er's meitin, Dd'wedyd ichwi Newydd gerwin: Fe fu farw *Noah*, a'i hên Wraig, Colledion ſaig ſy erwin.

83 Ac yno ar fy Ngherddad, Clochydd wyf a 'Ffeiriad; Mi gaf arian fwy na rhi, A Gwin i lonni gweiniad. [*Exit.*

Dechrau Ymadrodd Meſach.

84 Fy holl Ddeiliad, gwrandewch arna, 'Rwi mewn Alar trwm anaela; Am y Nhad ſydd newydd gladdu: Colled fawr i'n oll yw hynny.

85 Rhannodd fy Nhâd i'w holl Feibion, Barthau 'r Bŷd i fyw yn wychion; A'r Dalaith hon a roes i ninna, I fyw yn enwog a'n Cynn'lleidfa.

86 'Roedd hên Awdwŷr, er y Cynfyd, Mewn deall da am Gwrs yr holl-fyd; Yn d'wedyd fod Trigolion ymma, O flaen y *Diluw* yn cartrefa.

87 Y mae *Moſes*, Gwâs yr Arglwydd, Yn *Geneſ.* yn rhoi hyſpus arwydd, Wel'd o Feibion Duw, wŷr tirion, Mai glân a thêg oedd Mercheid Dynion.

88 Pan welodd Meibion Duw ar y Ddaiar, Fercheid Dynion mor lân foddgar; Cym'raſant wragedd yn 'wyllyſgar; Dyna ddechrau *Cowri* yr amſer.

89 Daeth Meibion Duw at Fercheid Dynion, A phlantaſant Etifeddion; Rheini fu Gedyrnwŷr enwog, Ac nid wrth fodd yr Holl-alluog. 90 Daeth

90 Daeth rhiw-rai o'r genhedlaeth honno, I'r fangre ymma i breſwylio; Oddiwrth yr hên drigolion ymma, Y *Gadarn-Ynus* galwyd gynta.

91 Mae arnai eiſie Pen-cynghoriad, A fedro ddeall y rhôd a'i rhediad, O wŷr doethion call di-ogan, Yn gwybod ffurfiau y ffyrfafen.

92 'Roedd *Adda* gynt, a *Seth*, ac *Enos*, Yn prophwydo cowyr hanes; A'r Penaethiaid cyn y *Diluw*, Yn eglurhau y deua Ddiſtryw.

93 O achos hyn gwnaed 'ſgrifennada, Rhai ar Gerrig, rhai ar Golofna; I gael cadw pob dyſceidiaeth, Pob Prophwyd ac Aſtronomyddiaeth.

94 Mae pump o'm Brodyr yn wŷr cywran, A'm finna ydi 'r chweched weithan; A *Thiras* ydi henw 'r ſeithfed, Meibion *Japheth* ddoeth ddiniwed.

95 'Rydwi 'n diſgwyl ymma Brophwyd, Neu ŵr cyfarwydd doeth y gelwyd, A'r Llyfrau gora cyn y *Diluw*, Lle cawn iawn hanes, drwy'r Cywir-dduw.

Cittim Gwamal a Llyfrau i'r Brenin.

96 Trwy 'ch cennad, Arglwydd Frenin *Meſach*, Dyma ichw' Llyfrau 'rioed ni welſach, O holl wybodaeth gynt ac ſydd, Na fyddŵch prŷdd wrth edrych.

97 Mae ginni Newydd mawr y ſoru, Am eich Mâb *Samoth* gan briodi; Arian a gês, a Bwyd i'm Plant, A Gwin mewn chwant i'm llonni.

98 Mae 'r Planedau, a'r holl Arwyddion, Yn dangos inni 'n eglur ddigon, Fod Llwyddiant pur i'r Ynus hon, Sef *Cedyrn* a'i Thrigolion.

99 *Bren. Meſach.* Da ginni glywed fod y Bridia A planwydiad y Planeda, Yn gwir arwyddo iechyd, heddwch; Mae hynny 'n ddigon o ddedwyddwch.

100 Cym'rwch ofal gyda 'm Llyfra, Dyſgwch y Plant i ddeall Planedau; Fel y gallo hên ac ifangc Wybod Rheol deol didrangc.

101 Ceiſiwch immi Ddyn cywirddoeth, O Dyſcawdwr mewn dyſc odiaeth; Byddwch ſiwr y bydd o 'n berffaith, Wrth fy ngair i riwlio'r Dalaith. 102

102 *Cit. Gwam.* Mi af i geiſio Gwâs doeth cowyr,
Y Ddaiar ŵyr, a pheth o'r Awyr; Trafaelio bydd,
a ſtudio Llyfra, Y gora o'r holl 'Sgolheigion ymma.
103 *Bren. Meſ.* Hwda aur, dod ernas iddo, [*Exit.*
Pum-cant talent yn ei ddwylo;] Tra bothwi fi, fe
geiff ordeinio, Os cymmer ofal rhag fy nhwyllo.

Dechrau Ymadrodd Syr Linus.

104 Arglwydd Frenin, 'rydwi 'n dwad [*Llyfr Gwir*
I'ch gwaſanaeth fel im galwad, Mi fydda [*y Gref.* p. 33.
gywir, pawb a'm coelia, Ymhob gwaſanaeth a fo gora.
105 *Bren. Meſach.* Mae hynny 'n dda, wrth fodd fy
nghalon, Oes gan ti 'rwan ddim Newyddion? Ac
hefyd dywad immi henwa, Ple gwrr or byd y mae
dy drigfa?
106 *Syr Linus.* Mae fy nghartre 'n Ynus *Mona*,
Wrth y Môr Gorllewin gaera; A henw nghaſtell
ſydd yn hyſbus, Yngwlâd Angylion, Pwynt *Syr Linus.*
107 Mi gefis fina ddyſc o'r Nefoedd, Gan Ang-
ylion Duw 'r Galluoedd; A hanes Cwrs y Byd a'r
Bobloedd, Gan Ddewiniaid y Cenhedloedd.
108 Mae gan f'Athro, *Cittim Wamal,* Newyddion
mowrion o bob trafal; Ped fae yſmaldod a gwy-
hydri Yn gadel iddo 'f eu mynegi.
109 *Bren. Meſ* 'Rwi fina 'n dallt am *Gittim Wamal,*
Ei fod o 'n chwilio 'r Byd ar Drafal, Am Wâs i mi
da, goneſt, ffyddlon, A f'aſe gynt un o'i 'ſgolheigion.
110 'Rwi'n deall am danat titha, *Linus,* Trafaeliwr
wyt, Dyſgawdwr gwiwlwys; Di fedri roi gwir ha-
nes inion, Am fy Mrodyr gyda 'u Meibion.
111 *Syr Linus.* Mae 'ch Brawd *Gomer,* gyda'u Lu-
oedd, Wedi mynd ymhell dros Foroedd, I wledydd
Aſia'r tiroedd gora, Lle gwnaethant Dre, a'i galw *Troia.*
112 *Magog,* eich ail Frawd, gyda 'i Dduciad, Sy'n
Lluoedd mawr, a'u galw'n *Dyrciad*; Mae Llywodraeth
dan ei Deyrnged, A elwid gynt ar fraint, y *Scythied.*
113 Eich

113 Eich trydydd Brawd, ſef *Madai*'r Brenin, Sy'n Nheyrnas *Media*'n Lluoedd dibrin; Gelwir y Trigolion *Mediad*, A'r Penaethiad mwya'n *Berſiad*.

114 Eich Brawd *Jafan*, gydâ eu Ddeiliaid, A gyfenwant 'nawr y *Groegiaid*; Mae nhw 'n lluoedd yn bur llawen, Ac yn bobol ddoethion weithen.

115 Mae 'ch pumed Brawd, a elwir *Tubal*, Yn llenwi teyrnas *Hyſpaen* aniel; Ymhob cywran weithwyr Organ, Miwſic maſwedd a'u canlynan.

116 Mae 'ch Brawd *Thiras* addas wiwddoeth, Yn ordro galw ei Ddeiliaid dewr-ddoeth, Neſa gallent, drwy gyfenwad, Oddiwtho ei hunan felly'n *Thirſiad*.

117 'Rwi fina i'ch cynghori chwitha, Alw eich Deiliaid wrth eich henwau; Y chwi a'ch mâb ſydd ffit i'r Deyrnged, Y *Myſgoſiad*, neu 'r *Samothied*.

118 *Br. Meſach.* 'Rwi fina'n leicio hynny'n odiaeth, Henwi 'r Deiliaid efo'r Dalaith; Heblaw ei galw, *Ynus-y-Cedurn*, Cyfenwch hi, *Meſach-Maes-Coed-Meſurn*.

119 'Rwi fi ar derfyn fy Llywodraeth: Duw, cadw 'r Deiliaid efo 'r Dalaeth; Os byddwch bur, *Syr Linus* wiwddoeth, Y chwi fydd ben Cynghorwr *Samoth*.

120 Rhaid immi fyned i weddio, At Brophwydi ac ymprydio; Am gael myned uwchlaw'r geulan, I *Baradwys* rhag y Purdan. [*Exit.*

121 *Syr Linus.* Rhaid immi fyned yn ddi-ball, Ar ol y Brenin doeth ſynwyr-gall, I ordeinio gwneud ei 'wyllys, A rhannu rhwng ei Blant yn weddus. [*Ex.*

122 *Cit. Gwam.* Dowch yma, *Samoth*, ddoeth ddiniwad, Cym'rwch ofal am eich deiliad, I gael iddynt wel'd a chredu, Eich bod yn BEN, ond eich coroni.

123 *Br. Samoth.* Dyma fi 'n dyfod i'r Rheolaeth, Dan y Siars, Rheoli 'r Dalaeth;
Cym'rai ofal am eu rhiwlio:
Gydâ 'r Doethion rhaid i'm deithio.

Kit.

124 *Cit. Gwam.* Rhaid immi 'ch tyngu cin eich coranu, A fyddwch pur i'r Gwŷr, a'u caru;
'Rwi 'n ben *Doctor* ymma i'ch dyſgu,
A'ch holi yn awr ger bron y Teulu.

125 *Br. Samoth.* 'Rydwi'n cymryd llw yn ffyddlon,
O'm gwir 'wyllus yn fy nghalon:
I fentro f' Einioes efo Neiliad,
Os digwydd arnom ni Gaethiwad.

126 Gorau peth immi wneud Cynghoriad,
I fod yn barod wrth fy Ngalwad:
Syr Linus, Gwâs fy Nhâd, yn benna,
Fe ŵyr yn hyddyſc beth ſydd ora.

127 Mynnai 'n neſa Gwr i'r Cyngor,
Doctor *Gauan*, ni fyn Wobor;
Gwr a feder yn dda fridio,
Mewn pob Adeg, a prophwydo.

128 Hefyd St. *Marthin* gydâ *Nidan*,
Mynnai etto Dr. *Edwan*,
Elphyn, *Tudno*, *Rhus Treganwa*,
A'r Baron *Teglan* o'r *Ial-ucha*.

129 Dyna ŵyth Wŷr doethion cywyr,
Mynnai yn nawfed y Duwc *Mylir*,
A *Merſun* efo 'r Twyſog *Hwfa*,
A'r Baron *Gwalchmai* tiwntu *Fena*.

130 Fe wneiff y deuddeg ymma Gyngor,
Drwy addyſc Llyfrau o'r hên Ordor,
Pa fodd yr eiff y Bŷd o gwmpas,
Ac y gwnawn reoli 'r Deyrnas.

131 Mae hên Lyfrau cyn y *Diluw*,
Mi geis Goppïau o rai o'r unrhyw:
Yn rhoddi Hanes un *Ceſarea*,
Fy Modrub, 'roedd hi 'n Nîth i *Noah*.

132 'Roedd hi 'n eitha 'r Tir Gorllewyn,
A'i holl Ddeiliaid yn Wŷr cedyrn,
Cyn i'r *Diluw* foddi 'r Deyrnas,
Y Cowri, a'r Bŷd ei gyd o gwmpas.

133 Mi

133 Mi ddarllenais ſel hynymma,
Mae yn y *werddon* 'roedd ei thrigfa;
A Henw'r Deyrnas y pryd hynny,
Oedd *Oggia*, gwlad y Cowri.

134 Ymhen tri chant, o'r Byd newydd,
Cafodd Hanes yr hên Wledydd;
Pan aeth *Parthalanius*, a'i Wŷr yno,
Lle b'aſe'r Cowri gynt yn bydio

135 Wedi hynny 'r aeth *Nemethius*
O'r *Scythia* Wlad at *Parthalanius*;
Ac ar ei ol un *Del Graſſianus*,
Yn Dair cenhedlaeth yn yr Ynus.

136 Wedi hynny 'r aeth *Goathel*,
A'i Wraig *Scota* i'r Tiroedd tawel;
Merch i *Pharao* o'r *Aipht* oedd hitha,
Galwodd hon y Wlad yn *Scota*.

137 Mae amriw Lyfrau 'n tyſtiolaethu,
Am yr amſeroedd y bu hynny;
Pen aeth *Iſr'el* o dir *Pharao*,
Drwy'r Môr Coch, 'roedd Duw'n eu fforddio.

138 Ymhen ychydig oeſoedd gwedi,
Daeth *Hibernus* i wladychu;
Galwodd ynta y wlad *Hibernia*,
Yn awr y *werddon* yw honymma.

139 Ffodd y pedair Genedl gynta,
Parthol'. Nem'. Graſianus, *Scota*,
I'r *Alban* Wlâd mynnent gartrefa,
A galwaſont honno yn *Scota*.

140 Mae Llyfr mawr yn Brint yn *Saeſneg*,
Y tyſtio hyn, a llawer 'chwaneg;
Chwi gewch ynddo Hanes cyfan,
Am holl Berch'nogaeth Coron *Brydan*.

141 Mi af i lawr at fy Nghyngheiriad,
I edrych ydynt nhw 'run Fwriad
Wedi cyttuno dros y Deymas,
Rhag ofn Rhyfel, Twyll, neu Anrhas. [*Exit.*

142 *Cit. Gwam.* Rhwydeb ichwi, Arglwydd Frenin,
Mi ddof finna i 'ſgrifennu 'r Gwreiddin;
O bob Matterion a wnant nhw eu gyd,
Mae 'r Llyfrau bob pryd i'm canlyn.

143 Doweh ymma, gwrandewch y Twyſog *Magus*,
A glywſoch fy ngalw i at wŷr cyfrwys;
Rhaid immi fynd ar ddechrau 'r Cowrt,
Matterion ſtowt yw'r ſtatuts.

144 Fe fydd arnai bellach o hyn allan, Ofal mawr am gadw 'r 'ſgrifen; Y fi ſy'n Secretari i'r Brenin, Ac yn Brophwyd cowyr dibrin.

145 Gorau 'm fyned i'r Eiſteddfod, Y *Parlement* i'r ſtafell iſod; Mae 'n bellach wedi ymgynghori, Rhaid immi fyned i 'ſgrifennu.

Twyſog Magus, *ſef Dechreu 'r* Mageens.

146 Iechyd ichwi, y Deiliad dewrlwys, Dyma fina, y Twyſog *Magus*; Mae 'n dda ginni fod yr yr holl Frenhiniaeth, Efo Nhad mewn cariad perffaith.

147 Bum yn wir yn nhir y Dwyran, Ymhell yn rhodio o'm Gwlad fy hunan; Lle cefis lawer o Ddyſceidiaeth, Gan wŷr cyfarwydd hylwydd helaeth.

148 'Rydwi etto fel Gwr dierth,
Nid oes ginni fawr gydn'byddiaeth;
Pe cawn i'r Deiliaid i 'mreſymmu,
Am riw Newyddion i'n difyrru.

149 Mae yn yr *Athens* Wŷr tra doethion,
Prophwydi a Dewiniaid ddigon;
Ac er hynny gorfod gyrru,
Am Feirdd o *Fôn* ar Fwrdd i farnu.

150 Pan fydda 'r doethion Wŷr deallus,
Derwyddon, a'r *Mageens* gwybodus;
Ar Fatterion yn ymryſus,
Beirdd o *Fôn* a farna 'n weddus.

151. Newydd ydwi ddwad adra,
Oddiwrth wyr doethion ar ei llyfra,
A gadwent yſgolheigion perffaith,
I ddyſgu 'n ddwys Aſtronomyddiaeth.

152. 'Rydwi yn diſgwyl fy ngwas atta,
A rhiw newydd o Gaer-Droya;
Pa fodd y mae fy ngheraint yno,
Brawd i'm Taid fy gynta yn rainio.

153. *Doctor Edwan yn adrodd.* Parch a llwyddiant,
Ichwi y Twyſog *Magus* iawndda; [gras, a donia,
Mae gini newyddion or Teyrnaſa,
Troya Fawr yn Aſia Leia.

154. Hi aeth yn rhyſel rhwng y Groigiad,
A gwyr Troya, o's rhowch i genad;
Mi fynega fel y dwydad,
Gwarchaeſon Droya mewn Caethiwad.

155. Herculus Groeg a ſafiodd einioes,
Merch y Brenin rhag ſarph hedgroes;
Er iddo ei henill trwy nerth arfa,
Ni chae 'e moni, gwnaed ei waetha.

156. Cododd ynta wyr dan arfa,
Ac a werſyllodd amgylch Troya;
Bu rhyngthyn lawer battel waedlud,
Ac heb heddychyu er hynny hefud.

157. *Twyſog Magus.* Drwg iawn gan i y newydd
Rhaid imi bellach fyned adra; [ymma,
Rhag ofn y bydd llythyra o Droya,
Yn dwad at fy nhâd a minna. [*Exit.*

158. *Kittim Gwamal.* A glowchi, gwyr yr Ynus,
Oddiwrth yr 'ſteddfod happus;
Fe ddarfu ordeinio y ddadal fawr,
Er's gwell nag awr, mi glowis.

159. Mae nghyfreth i heb ddechra,
Am deimlo, a charu, a chwara;
Gwrandewch arnai bawb mewn oed,
Ac ewch i'r Coed i wreica.

160. Y fi ydi Gwamal o dre hob gob,
Gwas imi ydi 'r Rhingill heglob;
Gweiſion imi yr Aparitoriad,
A'r holl Broctors, gidach Cennad.

161. Gweiſion imi iw'r Procatorion,
Pawb yn briod, pawb yn gyfion;
Rhydit i'r jau, ac weithiau i'r hen,
I wneuthur gwên pan fynnon.

162. Nid oes mor ſen am chwara a chwerthin,
A mynd i'r Coed i ynnill bechgin;
I gael i'n Trefydd wyr wrth raid,
I daro ymhlaid y Brenin.

163. Yn awr mi af at Samoth Frenin,
Rhag digwydd iddo farw yn ſydyn;
A bôd ei gorph heb wr Eglwyſig,
I'w roddi yn ei fedd yn ddiddig. [*Exit.*

164. *Brenin Magus.* Rhowch oſteg bawb o wyr y Gwrandewch arnai, mae 'n gyfaddas; [Deyrnas,
Rhaid ichwi bellach o hyn allan,
Fod imi yn ddeiliad fawr a bychan.

165. Fy Nhâd Samoth a fy farw,
Newydd drwg gin bawb yw hwnnw;
Fo fy yn rheoli ymma yn berffaith,
Chwech ugian mhlynedd a dêg helaeth.

166. Rwi fina yn awr mewn gofal dibrin,
Dros y deiliad ymma yn Frenin;
Ni fynnai uddynt gam na chollad,
Tra botho yn fy nghorph i chwthad.

167. Rwi yn ordro galw Neiliad weithan,
Mageens doethion o hyn allan;
Yn goffadwriaeth am fy henw,
Magus Brenin yr Ynus ydw.

168. Dowch ymma rai or hên gynghorwyr,
Marthin, Nidan, Edwan gowyr;
Agorwch eich llyfra i gael gwybod,
Oes dim newyddion drwg ar ddyfod.

169. *Doctor*

169. *Doctor Marthin.* Rwi fi yn gweled fod y Bridia,
Apla nwidiad a'r Plaeneda;
Mewn drychioleth wrth fy ffanſi,
A'r Tremiada yn deg-wedd inni.

170. *Doctor Nidan.* Rwi fina yn gweled arwydd
O'r gorllewin, o's rhowch gennad; [eurad,
Mae 'r deuddeg Arwydd ar ſaith blaenad,
A'r Tremiada yn deg olygiad.

171. Mi geis o'r Werddon lythyr mwynlan,
Oddiwrth fy nghâr i, Padrig Nidan;
Ac mae y Deyrnas honno 'rwan,
Yn heddychlon heb ddim cynnan.

172. Rwi yn ſiwr fod yr Ynus ymma,
Yn heddychlon ymhôb cyrra;
Ac yn un or lle dedwydda,
Sydd yw gael o fewn Europa.

173. I Rydwi yn gweled yr Arwyddion,
A'r Plaeneda yn ddi 'mryfailion;
Nid wyf yn diſgwyl dim y leni,
O'r Rhyfeloedd na'r Drygioni.

174. *Twyſog Hwſa.* Rwi fina yn deallt wrth eich
Fod eich llyfra mewn Cyſylltiad; [ſiarad,
Am llyfra inna ddaeth or Dehe,
Nid oes Berigle ymma yn unlle.

175. *Doctor Gayan.* Gidach Cenad, ffrindia mwynlan,
Dymma fina, Doctor *Gayan*;
Yn Sir Fôn y mae fy nhrigfa,
Yn Nhre *Gayan* lle bu 'Nheidia.

176. Rwi fina yn tyſtio mor gowiredd,
Fod y Gogledd oer ei hagwedd;
A'r Plaeneda ſêr goleubryd,
Heb ddim Arwyddion drwg nac enbyd.

177. *Baron Teglan.* Rwi fina yn gwelad fod y
O Iael at Wrexam dan ffyrfafen; [Dwyran,
Yn bur deg, ac mae 'r Arwyddion,
A'r Haul a'r Lleuad heb ddiffygion.

178. *Brenin Magus.* Rwi fi yn ymddiriad i'ch
Mewn gobeth fod yn ddi-beryglon; [Cynghorion,
Oddiwrth derfuſg na bradwrieth,
Duw, Cadw iechid yn y Dalaeth.

179. Mi allafi, y Cwmni mwynlan,
Fynd i orphwys peth yr rwan;
Ac at y Duwiau i weddio,
Dros y Deyrnas, ac ymprydio. [*Exit.*

180. *Twyſog Hwfa.* Rhwydeb ichwi, y Brenin
I fynd i orphwys i'ch llys gwiwlan; [mwynlan,
Os gwelwn Arwydd dim drygioni,
Mi ddown attoch i fynegi.

181. Rydwi yn tybied yr af adra,
Ymhant Hwfa mae fy nhrigfa;
Wrth foel Ffabian Llanllechida,
Lle roedd fy nhad yn byw a'm Teidia. [*Exit.*

182. *Doctor Marthin.* Dowch i fyny, Rhys Treganwa,
Gelwch Elphyn Tudno yn gynta;
Dwydwch immi beth newyddion,
Am Lus Elis o lan yr Afon.

183. *General Elphyn.* Roedd llys Elis wedi boddi,
Drigian mhlynedd cin fy ngeni;
A'r dwr dros y tiroedd gwaſtad,
Traeth oer Lefaen gwedi galwad.

184. *Dr. Gayan.* Mi glowis fina fod rhiw Dwyſog,
Fe galwa rai fo Elis cylynog;
Wedi boddi hefo ei deuly,
Ond un gwas a morwyn wiſgu.

185. Gwledda 'r oedd y gwr a'i gwmni,
A byw yn llawen, medd yr ſtori;
Fy ddaeth y môr yn llanw droſtyn,
Ac y foddodd bawb o honyn.

186. *Rhys Twyſog.* Mae hynny yn wir a chowyr
Dymma yr llyfra yn fy monwes; [hanes,
Fe gafodd rhai o'm Teidia fina,
Gollad fawr trwy fellt a thrana.

187. Roedd

187. Roedd ganthyn gaſtell ar fryn uchel,
Uwchben Conwy yn ddiogel;
Fe doeth mellten a tharana,
Ac a'i gwnaeth yn fil o ddarna.

188. Mae peth o'r ſylfaen etto yw welad,
Ar y graig lle bu yr Adeilad;
'Roedd hynny lawer iawn flynydda,
Cin diniſtrio Tre Caer-Droya.

189. Roedden nhw yn Dwyſogion cryſion,
Yn amſer Samoth aer y Goron;
Nid oes yn fyw o honyn heddiw,
Ond y fi ſy yn cadw yr henw.

190. Henw y Caſtell yw Tre-Ganwa,
Yn ol henw fy hên Deidia;
Ac felly y gelwir o hyn allan,
Tra bothwi fi er cofio yr cyfan.

191. *Baron Teglan.* Mi glowis fina yn wir y bydda,
Y mellt yn hollti 'r tir a'r creigia;
Roedd hynny yn arwydd daroſtyngiad,
Ar y Teulu hefo ei deiliad.

192. Rwi yn deallt gael o honoch gollad,
Duw a'ch catwo rhag caethiwad;
Gellwch adeiladu etto,
Eich Twr a'ch Caſtell i breſwylio.

193 Rydwi yn diſgwyl rhiw gyfnwydiad,
Ar y Deyrnas ymma i ddwad;
Fe fydd marw naill a'i 'r Brenin,
Neu ei Fab Saron yn o ſydyn.

194. Yn rhodd edrychwch yn eich llyfra,
Pa beth a ddigwydd yr oes neſa;
Gwelis i ddiffig ar yr Haulwen,
Yn darn dwlly yr holl ffyrfafen.

195. *Dr. Marthin.* Nid wi yn ofni dim Rhyfela,
Na thwyll na therfuſg ddyfod ymma;
Ac er hynny mae rhiw flaened,
Arwydd marwol ymma i weled.

196. Duw a gatwo ein graſol Frenin,
A'i hiliogaeth odiaeth ddibrin;
Ac a lwyddo ei Ben-cynghoriad,
I ddeall y rhadol rhôd a'i rhediad.

197. *Dr. Gayan.* Nid ellwn etto uchel ſiarad,
Na datgiddio dim i'r deiliad;
Mae Plaeneda peniaeth byddin,
Yn arwyddo Clefud trwm-blin.

198. Mae ei fâb Saron yn iâch gartra,
Yn rhôdd edrychwch yn eich llyfra;
Par un or ddau dybygech neſa,
I derfynu yr Einioes ymma.

199. *Dr. Nidan.* Mae pob Arwydd yn dêg oleu,
Uwch ben Saron yn ddi-ammeu;
Ond 'rydwi fina yn-ofni yn gethin,
Maé go fer yw oes y Brenin.

200. 'Roedd Bygythion trymion gynna,
Oddiwrth Jupiter, Mars, Mercuria;
Ymron cyraedd mewn Cyſylltiad,
Oleu gynydd yr Haul ganad.

201. *Dr. Marthin.* Rydwi yn tybied yr af adra,
I'm gwlad fy hyn er pellad ſiwrna;
I'r Ynus dowyll Môn y galwa,
Yn Nhre Farthin mae fy nhrigfa.

202. *Dr. Gayan.* Fy nghymydog Marthin fwynlan,
Cychwnaf fina tu Thre Gayan;
Cawn eill-driwedd gyd trafailio,
Os daw Syr Nidan efo ni yno.

203. *Dr. Nidan.* O wllys calon, mae 'n dda gini,
Fynd i'm Gwlad fy hun y leni;
Mi drafeilieis for a thiroedd,
Er pan welais un o'm pobloedd.

204. Gidach cenad lân gynlleidfa,
Mi awn eilldriodd i ſiwrneia;
Gwelai *Wamal*, Brophwyd obry,
Yn dwad ymma i'ch dyfyrry. [*Exit.*

205. *Kittim*

205. *Kittim Wamal.* Cerddwch, Arglwyddi, tu ag
Mae 'r Brenin wedi marw gynna; [adra,
Nid allai aros ymma fawr,
Mi af i lawr i wledda.

206. Mi gafi yno groeſo ddigon,
Ymyſg Arglwyddi a Marchogion;
Rhaid im gytyno yr pryd yn ddibrin,
Y coronau yr Mab yn Frenin. [*Exit.*

207. *General Elphyn.* Mae hyn yn newydd pryddedd
I ni a'r deiliad farw yr Brenin; [gerwin,
Nid oes ond ychydig amſer,
I neb ymma i drin ei Bower.

208. Gora i minna fyned adra,
I edruch am i Fâb a'i fowrdda;
Ac i helpu 'r Baron *Teglan,*
I gyſyro yr Twyſog mwynlan.

209. Rhaid immi hefyd fynd i'r Werddon,
I edruch am fy nyledogion;
Im Tre fy hun a elwir Elphyn,
Mae 'n diſgin ynddi Boſt y Brenin.

210. Mae hi yn Ddinas gadarn gaerog,
Y fi ydiw ei phercherog;
Er pan fum i yno yn rhyfela,
Efo gwyr o'r Deyrnas ymma.

211. Gidach Cenad, Gymru ffyddlon,
Mi af i rodio i dir y Werddon;
I geiſio Ardrethion am fy Ninas,
A gwneud Swyddogion newyddion addas. [*Exit.*

212. *Dr. Edwan.* 'Rum ni yn briddion ac alarus,
Er pan fy farw yr Brenin Magus;
Gobeitho gwnawn bob peth o'r gora,
Mae Saron fâb o yn dyfod ymma.

213. Fe fy yn 'r Athens hefo yr doethion,
Dyſgawdwyr hên a philoſffyddion;
Roedd yn prophwydo cin dwad adra,
Na bydda ei Dad yn hir ei ddyddia.

214. Fe ddaw ymma i'w goranu,
Daw'r Prophwyd *Gwamal* toc i fyny;
Gobeitho gwnawn bob peth yn waſtad,
Daccw nhw 'ill deuwedd, ſ'alla 'n dwad.

215. *Gwamal.* Dyma ſi *Gwamal* Brophwyd ffyddlon,
Yn Dwad i goroni SARON;
Mi gwna ſo yn Frenin yr holl fron,
Dros Ynys-y-Cedyrn clydion.

216. Dowch ymma, Saron, peniath ſiroedd,
Gwiſgwch Goron hen Frenhinoedd;
Rwi 'n rhoddi llw eich Tad a'ch Teidia,
Yn yr un moddion arnoch chwitha.

217. *Bren. Saron yn ei fowrning.* Rwi fina yn cymryd
Ar fedar gwiſgo yn glir y Goron; [fy llw 'n ffyddlon,
Yn enw 'r Duwiau dros y deiliad,
Ni fynnai gam i'r un ar anad.

218. 'Rwi yn bwriadu efo ngweiſion,
Godi mintau o wyr cryfion;
A mynd o gwmpas y Frenhiniaeth,
I edruch beth a dâl y Dalaeth.

219. Dowch ymma Marthin, Nidan, Edwan,
Merfyn, Mylir, Gwalchmai, Gayan;
Syr Linus, Elphyn, Rhys Treganwa,
Baron Teglan, Twyſog Hwfa.

220. Gwnewch Swyddogion ar y Cantoedd,
A rhai eraill ar y Miloedd;
Ceiſiwch wauw-ffyn hoff iredd,
A chyffyla da grymmyſedd.

221. Na chymrwch 'ryn o Wyr y Gwragedd,
Ond llancia lyſti gora eu hagwedd;
Er na wnawn ni ddim ond rhodio,
Mae yn dda bod y Cwmni yn grynno.

222. Mi adawaf yr Eſgobion gartra,
Ond rhaid iw caffael rhai 'Ffeiriada;
A 'Srifenyddion i roi Cyfenwad,
O bob Teuly mawr ei Taliad.

223. Dowch

223. *Brenin Saron.* Dowch yma yr prophwyd *Kittim*
Cymerwch ofal yn fy nhrafal; [*Wamal,*
Efo yr Goron a'r llywodraeth,
A'r Aer, ne's delwi adra eilwaith.

224. *Gwamal.* Rhwydeb ichwi, *Saron* frenin,
I fund i rodio hefo 'ch Byddin;
Mi gymra fi ofal hefo eich Coron,
A'ch Plant a'ch gwragedd bod y cynphon.

225. *Doctor Marthin.* Rwi fi yn odiaeth leicio eich
Mi adwyn yn ddâ gryn bart o'r llwybra; [ſiwrna,
Yn yr Ynys bella o'r Deyrnas ymma,
Yn nhre Farthin mae fy nhrigfa.

226. Pan elom unwaith i'r wlâd honno,
At Gybi-Saint mewn braint i ymgomio;
Mi fyddwn wrth y mor gorllewin,
Yng olwg tiroedd pell eu terfyn.

227. *Bren Saron.* Mynwn ni wybod cin troi adra,
A oes Trigolion yno yn orſe;
Ac onid oes ni allwn yrru,
Lluoedd mwynion i'w meddiannu.

228. Cofiwch gario 'ch llyfra gora,
Mi ellwn ddeall wrth ſêr plaeneda;
Bêth iw maint y tir a'i gwmpas,
O's ydi yn wag mi fentrwn fantas.

229. *Syr Linus.* Rhaid ceiſio gwyr a meirch yn barod,
Ac Arfa cowran rhag ofn Trallod;
Mae gini fil yn dechra dyſgu,
Hefo meirch a'r drwm i ganu.

230. *Duc Mylir.* Mae y ſaethyddion efo eu Bwa,
Ar y gweynydd gennif finna;
A'i Pen-milwr yn eu dyſgu,
Ac Utganwr, gwn, i ganu.

231. *General Elphyn.* Mae gini bum-cant o wyr
A phym Canwriad lyſti ddigon; [cryſion,
Pe cawn ni bym-cant etto attyn,
Mi awn fy hyn yn filwr arnyn.

232. *Twyſog Rhys.* Mae gini fil o wyr yn barod,
A deg Canwriad lyſti gwiw-nod ;
O's ydi 'r Brenin yn chwenychu,
Af fina yn filwr ar yr rheini.

233. *Baron Teglan.* Mae ginina fil ddewiſiad,
Ar gyffyla gwnion canad ;
A deg o ganwriad dewraedd,
Mi fydda fina yn filwr gweddaedd.

234. *Dr. Marthin.* Mae ginina fil yn dwad,
Ar gyffyla wrth fy ngalwad ;
A deg o Ganwriad gwiſgi,
A'r Hero filwr i'w rheoli.

235. *Dr. Edwan.* Mae ginina fil yn wchion,
Ar gyffyla cryfion cochion ;
A chanwriad ddêg iw canlyn,
A milwr tana yn beniath arnyn.

236. *Dr. Gayan.* Mae ginina fil wrth alwad,
Ar gyffyla duon gwaſtad ;
Ag Utganwr a chanwriad,
A gwr yn filwr gora welad.

237. *Syr Linus.* Mae ginina fil di-ddiffig,
Ar gyffyla dâ nodedig ;
A deg o'r Talyddion lyſti,
A'r milwr gora yn cael ei gyfri.

238. *Twyſog Merfyn.* Fy Arglwydd frenin rho ichw' [gyngor,
I geiſio ugian mil ne 'n rhagor ;
I chwi eich hynan yn gard gadarn,
Rhag ofn twyll, a chas, a chynnan.

239. *Twyſog Hwfa.* Mae gini fil o wyr grymmyſedd,
O'r Talyddion deuddeg troedfedd ;
Ar gamelod i ryfela,
A Dromedaris o'r rhai mwya.

240. *Twyſog Gwalchmai.* Mae fy ngwyr a'i meirch yn [barod,
Wedi dyſgu er's deugian nhiwrnod ;
A'i harfa ganthyn mewn munydyn,
Ar drwm i alw ar bawb o honyn.

241. *Brenin*

241. *Brenin Saron.* Mae hynny 'n burion, 'ruch i yn
Yn enw yr Duwiau ceiſiwn oſod ; [barod,
Ar ein ſiwrna i drafailio,
A Duw 'r Lluoedd oll i'n llwyddo. *Exit.*

242. *Gwamal.* Rhwydeb ichwi bawb eich Siwrna,
Nid rhaid ich' ofal am ddim ſydd ymma ;
Mi warchodaf fi yn ddigon ffraeth,
Caf win a llaeth fy ngwala.

243. Ni bydd o dro yn rhodio yr Ynus,
Os daw ſo adra yn wr llwyddiannus ;
Roedd rhiw fwriad yn ddi wawd,
Gin Saron gnawd gwr grymmus.

244. Chwychwi gwyr ieuanc a'r llanceſi,
Ar frys cyttunwch i'ch priodi ;
I gael magu Plant yn ddibrin,
Yn lle yr llangcia aeth y Brenin.

245. A peth o's gelwiff etto heb oidi,
Ni chais o neb a gadd i priodi ;
Dowch atta fi yn bob dau ſaith,
Mi glymma 'ch gwaith yn wiſgi.

246. Ni cheiſiai fawr o'r ſwn a'r dwndro,
Am oſtegion neu wenheithio ;
Pe doen attai ugian ſaith,
Mi wnawn fi yr Gwaith yn gryno.

247. A'i tybed yr aen nhw ymhell i rodio,
Mae twr Babel wedi ſyrthio ;
A'r bobloedd wedi oll waſgaru,
Hyd wyneb daiar, gwyddoch hynny.

248. Mi fum fi yno yn dyſgu yr Ieithioedd,
Cin cadw yſgol ddyſg Brenhinoedd ;
Ni baſwn cael mor ffaſiwn urdda,
Nes trammwy ymhell gynt oddi cartra.

249. Pen gefis Ieithioedd llawn i'm llyfra,
Mi ddoithim tuag adra fina ;
I gael i rai or Ynus ymma,
Ddyſgu ſiarad amriw Ieithia.

250. A glowch lawenydd a chanu Clycha,
Fe ddoeth y Brenin yn iach adra;
A'i holl wyr ni chollodd o un,
Ond ydi fo yn ddyn pur iawndda.

251. Mi af yn awr i ech am dano,
Ac i geiſio rhan o'i ginio;
Rhaid i'm ddylifro 'r ſiars a'r ſias,
Gan fod yn ben-gwas iddo. [*Exit.*

252. *Dr. Marthin.* Pa fodd yr uch i bawb yr rwan,
Mi fym fi yn rhodio yngwlad fy hunan;
I roedd y Brenin yn ei leicio,
O Gaer-gybi i Seiriol Tudno.

253. Roedd o yn leicio y Tiroedd uchel,
Yn burion lle i fuw yn ddiogel;
Mae yn ei fryd o yn fawr gynghori,
Ei fab fund yno i reoli.

254. O's gwneiff o hynny bydd da weithan,
Cafina fuw yn fy ngwlad fy hunan;
Yn Nhre-Farthin lle bu fy nheidia,
Marthins oedd i henwau nhwytha.

255. Mae yno diroedd per eu toreth,
A phob Cynharieth i fyw 'n helaeth;
O's Druis daw mab Saron yno,
Ceiff hap le hylwydd i heppilio.

256. *Dr. Nidan.* Dyna newydd, rwi 'n ci leicio,
Mynd efo Druis i drafailio;
O's gwneiff o ei drigfa yn agos atton,
Bydd hynny yn dda gan bawb o honon.

257. Mae ginina, gwyddoch weithan,
Birion tiroedd yn Llan Nidan;
A lle hyfrud i byſgotta,
O hyd y dwr ar afon Fena.

258. *Dr. Edwan.* Mae yn bur lawen gin fy nghalon,
Glowed gennych y newyddion;
O's Daw Druis i Fôn fechan,
Daw attaf finna i Lan-Edwan.

259. Mi

259. Ni gawn ar Dowydd hafadd tawel,
Fynd a'r gychod yn ddiogel;
A hyd yr Afon i byſgotta,
O Fol-y-Don i Aber-Mena.

260. *General Elphyn.* Gidach Cenad, ffrindia anwyl,
Ni ddoethom attoch ar frys perwyl;
'Rum ni yn bryſir i brofeidio,
Druis mab Saron i drafailio.

261. Mae 'r Brenin Saron wedi rhoddi,
I'w fâb *Druis* le i reoli,
Yr holl dir o Afon Dyfrdwy,
I'r Gorllewin yn ſafadwy.

262. *Twyſog Rhys.* Dyma ni yr rwan efo ein gilydd,
Y ni wyr ora gwrs y gwledydd;
Ymhle budd ora i'r Brenin Druis,
Wneuthyd llys a chaſtell trefnys.

263. Druis fâb Saron, dymma 'n dwad,
Cyd gytunwn drefnys fwriad;
Ymhle gwneiff ef ei drigfa gynta,
Hefo ei filwyr ar eu Siwrna.

Y Brenin Druis ſef Peniaeth y Derwddon.

264. Ydech chwi yn barod efo 'ch milwyr,
I fynd i rodio 'r Dalaeth dewlyr;
Mae gin *Gayan* a *Marthin* ynta,
Ganmoliath fawr i'r Ynys bella.

265. Mi fentrwn yno hefo 'n Cwmni,
I fwrw haf beth bynag wedi;
O's bydd hi yn oer i hir gartrefu,
Mi ddown adra i auafu.

266. *Twyſog Rhus.* Gora peth ichwi wneud eich [trigfa,
A'r y tiroedd uchel gynta;
Wrth fynd ymlaen, trafailio yn ara,
A marcio ymhle bo 'r tiroedd gora.

267. *Brenin Druis.* Ymhob man lle leicia i dario,
Mynnai roi fy henw arno;

Yn

Yn goffadwriaeth i'r oes neſa,
Mae Druis fy yn rheoli ymma.

268. Mynai hefyd alw y neiliad,
Yn *Dderwddon* wrth fy ngalwad;
Megis y darfu fy hen deidieu,
Alw ei deiliad ym mhob oeſeu.

269. Ym hob man lle bwi yn cartrefu,
Mynnai alw yr tir a'r lletu;
Yn Dre-yr-Druw er cof am dana,
Tra botho dyn a'r byd yn para.

270. Fy mab hynaf ydiw Bardus,
Mynai i ddyſgu yn dra gofalus;
Ymhob dyſgeidiaeth ar y ddaiar,
Muſic, ſwn ſymbalau llafar.

271. *Dr. Marthin.* Gora i ni, eich gwyr a'ch gweryn,
Geiſio cychwyn at y fyddyn;
Hyd y tiroedd brynniau uchel,
Rhwng creigiau, llyniau, tonnau tawel.

272. Ni gawn yn nyddia 'r hâ hir felyn,
Roi yn Cyffylau ar y dyffryn;
A mynd i ben y creigiau mawrion,
I farcio yn fanwl beth a welon.

273. O's budd yn dowudd eglur ola,
Yn hawdd y gwelwn o'r graig ucha;
Yr Ynys bella o'r môr gorllewin,
Am Cartra fina, ſef Tre-farthin.

274. *Dr. Nidan.* O's cawn ni weled afon Fena,
Hawdd y gallwn ddallt y caeua;
Fy nghartra fina, ſef Llan-Nidan,
Sydd wrth ochor y mor bychan.

275. Fe fydd yn llawen gan fy nghalon,
Weled Gwlad fy hên gardigion;
A'r Tai lle ganwyd fi am teidiau,
Fy nghar Edwan, treuthwch chwithau.

276. *Dr. Edwan.* Duw a gatwo cin graſol Frenin,
Ac a'i llwyddo hefo ei fyddin;

Yn

Yn ei ſiwrna lle mae yn leicio,
I Sir Fon reolus riwlio.

277. Mae gininna yn Llan-Edwan,
Le i groeſafu rhai gwyr mwynlan;
Tai a thiroedd dâ cyſgodol,
A chroeſo i Druis frenin breiniol.

278. *Brenin Druis.* Rhoddwch henw yn eich llyfra,
Cerrig-y-Druidion yw'r lle ymma;
Rhowch a'r y Widdfa waeydd lawenwych,
Am Gychwnfa rydwi yn chwenych. [*Exit y Saith.*

279. *Gwamal.* Rhwydeb ichwi, yr Brenin Druis,
Mi gymra fi ofal efo Bardus;
O's Byddwch i marw cin dwad adra,
Y fe fydd Frenin, mi ai corana.

280. Mae gini goppia or llyfra gora,
Agafwyd gynt o'r arch gan Noah;
Yn ſgrifen deg er amſer Adda,
Gan Seth ac Enoch a Methuſ'lah.

281. Oddiyno daeth y llyfrau gora,
Ymddiddan Enoch a'r Gorucha;
Ac yn cynhwys pob cynghorion,
O ddawn a phurdeb gan Angylion.

282. Fe gafodd Sem, Ham, Japheth, nhwytha,
Gopia cowyr o'r holl lyfra,
Ac nhw a'i cadwaſon yn ofalys,
I'r oeſodd neſa yn goffadwrys.

283. Mae yn dangos yn y llyfra rheini,
Fel y mae Moſes yn mynegi;
Ac o lawer yn fwy helaeth,
Am Jacha dyn, a'i greadigaeth.

284. Fe gafodd Joſeph wrth ſiwrneia,
O'r Aipht i Ganan, yngwlad Siria,
Lechfaen fawr ac arni ſgrifen,
Er amſer Seth am gwrs yr wybren.

285. Cofiwch fy ſtori yn yſtyriol,
Rhaid imi fund at y plant i'r yſgol;

Yn

Yn enwedig mâb y Brenin,
I'w ddyſgu yr Brophwud, Bardd, a Dewin. *Exit.*

286. *Baron Teglan.* Cerddwch, Gwamal, mewn pryſurdeb,
Mae accw alar mawr i'r wyneb;
Bu farw Druis, doethe Brenin,
Er Enos fu yn Ynys-y-Cedurn.

287. Mae galaru drwy yr holl Ynys,
Am y Brenin doeth cariadys;
Rhaid i'w galw ei fâb i'r gola,
Bardus anwyl, neſwych ymma.

288. 'Ruch i yn ieuangc mewn llawenydd,
I gymryd arnoch ſiars y Gwledydd;
Ceiſiwch ddewis eich Cynghoriad,
I gynghori eich teulu ach deiliad.

Brenin Bardus, Dechreuady Beirdd.

289. Arglwydd Teglan, diolch ichwi,
Am eich Cyngor da diwegi;
Cynta peth ar o'l fy urddo,
Gida 'r Doethion gyd ymdeithio.

290. *Gwamal.* 'Rydwi fi yn nerth fy nhraed yn dwad,
I goroni Bardus eurad;
Nid rhaid im' ofyn fawr gweſtiwna,
Chwi wyddoch oll cyſtal a mina.

291. Neſwch ymma, gwiſgwch y goron,
Byddwch yn frenin cowyr ffyddlon;
Fi a goronodd eich hên Deidia,
Heppil Japheth, Frenhinoedd cynta.

292. Cymrwch ofal hefo 'ch Cynghoriad,
Na wnewch mor cam â'r bobol weiniad;
Mi rois eich Siars, rheolwch yn wrol,
Mae yn rhaid im' fyned at fy yſgol. *Exit.*

293. *Brenin Bardus.* Dowch ymma yr dethol gyngor doethion,
Marthin, Nidan, Edwan, Gayon;
Rhus, ac Elphyn, Teglan, Hwfa,
Merfyn, Mylir, Linus, Gwalchma.

294. 'Ruch

294. 'Ruch chwi yn gwybod cwrs llywodraeth,
Fy nhad a nhaid yn riwlio 'r Dalaeth;
Cymrwch ofal droſtwi fina,
Heb wneud dim twyll na cham yn unlle.

295. Mi welis hanes yn y llyfra,
Drafailio nhad i'r Ynus bella;
A'i fod o yno yn hir gartrefu,
Yn Nhre-yr-Druw 'roedd llys ei lettu.

296. Rwi fina yn leicio yn dda-ddiame,
Fynd i'r Ynys honno i orſe;
A gwneud fy nhrigfa lle gwellyſiw,
Yn Dre-yr-Beurdd y mynai ei galw.

297. Mynnai alw nyledogion,
Yn Brydyddion, Beirdd, Athrawon;
Cantorion, Achwyr pob Carennydd,
Er dechrau 'r Bud trwy yr Diluw aſiwydd.

298. Ffarwel fy neiliad, Duw a'ch catwo,
Tu ac yno 'rydwi 'n teithio;
Cymrwch ofal, wyr odiaethol,
Am bob peth ſy ffir a gweddol. [*Exit.*

299. *Dr. Gayan.* Mae hynny 'n odiaeth ddi-newidio,
Tu ac yno mae yn rhaid rhodio;
Ond feſydly y llywodraeth,
A phwy fudd tanoch i ar y Dalaeth.

300. *Dr. Marthin.* Mae'n dda odiath ginni glowad,
Eich bod chwi yn leicio mynd i warad;
Os leiciwch chwi a'r reſt o'r Cyngor;
Gwneiff Mylir riwlio yn dda 'r holl oror.

301. *Twyſog Rhys.* Rwi fi yn rhoddi fy llaw yn eglir,
Mae gore Milwr ydiw Mylir;
Fe wneiff ŷ fô reoli yn uſydd,
Ac mae fô 'n agos o garenydd.

302. *Twyſog Elphyn.* 'Rwi fina yn meddwl heb [amheuaeth,
Y gwneiff Mylir y gwaſanaeth;
Mi gawn glowed hynny 'rwan,
Beth a ddyfud Doctor Edwan.

303. 'Rydwi fi yn gobeitho yn helaeth,
Y gwneif Mylir riwlio yn berphaeth ;
Gora gofyn etto yn fuan,
Farn Nidan, Linus, Hwfa, Teglan.

304. *Dr. Nidan.* Fy nghymydog Edwan freiniol,
'Rwi yn leicio Mylir yn rhagorol ;
Mae fo yn gampiwr gwrol gweddus,
Fe wneiff reoli yn ddigon cyfrwys.

305. *Syr Linus.* Mae fe yn gâr drwy Iacha cyfa,
I'r Brenhinoedd o'r oes gynta ;
Ac am hynny rydwi yn rhoddi,
Fy llaw hefo yr Gardian gwifgi.

306. *Twyfog Hwfa.* Nid oes gini ddim gwrthwyneb,
Yn erbyn Mylir drwy gyttundeb ;
I fod yn beniaeth dan y Brenin,
Nes y del' i'w oed yn ddibrin.

307. *Baron Teglan.* Dwydai 'r gwir, a hynny yn ernas,
Nad oes moi well o fewn y deyrnas ;
Gellwn gychwyn efo yr Brenin,
Ond clowed Gwalchmai efo Merfun.

308. *Twyfog Gwalchmai.* Mi rodda fi fy llaw am [geiria,
Mae Mylir ydi yr gwr cadarna ;
Ac yn ffittia i gadw heddwch,
Fy ffrind Merfyn beth a ddwydwch.

309. *Twyfog Merfyn.* Nid oes ginni ddim iw roddi,
Yn erbyn fy nghyd-wladwr lyfti ;
Cerddwch Mylir hefo yr Brenin,
Mi ddown ar eich ol chwi chwipin. [*Exit.*

310. *Gwamal.* Gwrandewch y mwynion lân Arglwiddi,
Rhowch fy ngwafanaeth at Saint-Cybi ;
Dwydwch y doi i e'ch am dano,
Pan ddelwi at Bardus i brophwydo.

311. Rydwi fi yn hên i gadw yfgol,
Mi roifim urdda i'm 'fgolheigion dethol ;
Rhois rai yn Brophwydi a Dewiniad,
A Bridwyr Arwyddion gora ar anad.

312. Mi

312. Mi ddyſgis hwynt wneud llyfra teſni,
Nhw enillan arian wrth y rheini;
Fe ddaw y merched efo yr llancia,
I wrando arnyn i bob tyrfa.

313. Mi ddyſgis uddynt drin drwg di-ordor,
Yn well na'r hen Ddewinas Endor;
Trin yr Oraccle, a phob llyfra,
A Dwudyd cwmpas y byd a'i gaera.

314. Nhw wyddant uchter y plaeneda,
A phar un ſy yn mynd gyflymma;
A'i huchtwr nhw i gid oddiwrth y ddaiar,
Drwy bob gradda a chaera ucheldar.

315. Codi a goſtwng y Cythreiliad,
A rhoi hanes pob rhiw ladrad;
Nhw wyddont well na'r Ffreiers ffyliad,
A wnaeth Ben prês i'r Diawl i ſiarad.

316. Mi dyſgis nhw i wybod pob cyſylltiad,
Y ſo rhwng yr haul y ſêr a'r lleuad;
A phar y dowydd ar bob amſar,
A ddigwydd gwmpas crwn y ddaiar.

317. Mi adawa un om ſgolheigion gora,
I gadw yſgol lle rwi fina;
Rhaid imi feddwl a chonſidrio,
Am wneud fy wllus cin trafailio.

318. Pan gaffwi lythyr oddiwrth Bardus,
Chwi gewch newyddion o eitha 'r Ynus;
Mi ddof attoch i fynegi,
'Rydwi yn mynad i'w ſgrifennu. *Exit.*

319. *Ymddiddan Cydwybod.* Gidach cenad, bawb
Trafailiwr ydwi a'r fy ſiwrna; [ſydd ymma,
A rowch i letty immi am noſwath,
Tra bothwi yn aros dau gydymmath.

320. Mi glowis fod tu a thraw yn rhiwle,
Gybudd clud o dda 'r byd ymme;
Mi roddaf iddo gyngor ffyddlon,
I roddi eluſen i'r tylodion.

321. Dymma fo, gwr llaes ei odra,
Digon helaeth pan fae gartra;
A rowch i lettu imi a'm frindia,
Tri ſy o honom yn ſiwrneia.

322. *Cybydd.* Y meiſtar mwynlan gidach conad,
O ba riw wlad y'r uch i yn dwad;
Mi glowis fod ych henw yn yſbus,
Gida beggars y'r holl Ynus.

323. Pa fodd y cafodd rheini 'ch hanes,
O flaen Penaithiad penna 'r Deyrnas;
Nid wiſina ddim yn cofio,
Beth iw ych henw, 'rwi yn dymuno.

324. *Cydwybod.* Fy henw ydi glan Gydwybod,
Am ffrindia ydi gwir da ddarbod;
A Goneſtrwydd ſy 'n i ganlyn,
Fo ddon ymma ond galw am danyn.

325. Cenwch dippin a llais eglyr,
Naill a'i Salm a'i Penill difyr;
Ne riw ymddiddanion diddan duwiol,
I ddyfyrru 'r Cwmni gweddol.

326. *Cybydd.* Mi gana dippin fel y medrw,
Nid oes gini ond llais go arw;
Dechreuwch chwi y fedeer ora,
Yn y man mi ſwnia fina.

Cydwybod yn dechra Canu.

327. Gwrando 'r Cybudd call rhag dall dy dwyllo,
Wrth drin dy dryſor mawr mae d'awr yn paſſio;
Yn rhodd a wyddoſt di pwy amcan ydwi fi,
Mae yn amſer hwyr it ti am danai gofio.

328. *Cybydd.* Pa beth y gofia fi am gerpyn o'th fath di,
Mae trapharth arna fi am drin ſy euddo.

329. *Cydwybod.* Mae dy Euddo yn ddigon dryd ar hyd dy hoedal,
Ni chei di ddim i'r llawr er mawr dy drafal;

Dôd

Dôd eluſen da i'r gwan, yn fynych dôs i'r llan,
Rhag digwydd yn dy ran di fatw yn anlan.

330. *Cybydd* Taw, ffwl, a'th eiria ffol, gwell gini ar
Gonſidro 'r bud o'm hol mewn rhol fy hynan. [ganol dol,

331. *Cydwybod.* Gwybydd hynriw ddydd, mae prudd
Pan elwir arnat fru i roddi cyfri; [y fyddi,
Mi fydda fi yn y fan yn duſt i'r cru a'r gwan,
O's Tophet ſy yn dy ran, gwr aflan fyddi.

332. *Cybydd.* 'Rwiti yn fy nwrdio fi fel prophwud
Ni choiliai monati, nag ynta leni. [mawr o fri,

333. *Cydwybod.* Y Cybydd drwg ei ddyll, budd hyll dy
Mewn tan a Brwmſtan mwg yn uffern fagddu; [lettu,
Ni chredi tra boch buw roi rhoddion er mwyn Duw,
I ſafio dy enaid cluw i riw dylodi.

334. *Cybydd.* Di eiſt yn ſiwr oth gô, mae gini le yn y
I drin fy mamon dro, a'i gado gwedi. [fro,

335. *Cydwybod.* Rwi yn dallt mae careg dân ne geulan
Ac un o weiſion diawl dy hollawl weithred; galed,
Mae Sattan uwch dy ben, yn ſiwr derbynni ſen,
Fel Erur am dy len a'i drem ar dy Enaid.

336. *Cybydd.* Pe gwyddwn hynny yn ſiwr, o's byddi
di imi 'n dwr,
Mi wnawn dda gyngor gwr fae'n ſiwrol fiarad.

337. *Cydwybod.* Cofia yr farchnad ddrud roi prud
A helpwr gwan tylawd am flawd wrth eiſia; [o fara,
Meddwl am y wraig o Sarepta fwyn wrth raid,
Gwnaeth deiſen yn dda ſaig ar frys wrth raid Eliſa;
Ei blawd a'i holew hi ni threiliodd yn ei ri,
Nes darfod newyn cri ei gaddo gwedda.

338. *Cybydd.* Y Glan-gynghorwr mwyn cuddwyn
am beia,
'Rwi dan fy marn wrth chwant mewn cant o bethe;
Cydwybod lan wyti, gwna 'n ſant fy ngwarant i,
Myfi a'th ganlyna di ymhob rhiw deithia.

339. *Cydwyb.* Dâ gini hyny o hud drwy bedwar cwi y byd,
Gofala di mewn pryd roi dy frud ar eirda. [*Diweddy Gan.*]

340. Ffarwel

340. Ffarwel y cwmni hael wyf hylwydd,
Rwi yn gobeitho droi o'r cybudd;
Oddiwrth i ddrygchwant i roi elusan,
I'r tylodion llymion egwan. *Exit.*

341. *Cybydd.* Mae hwn yn cynghori ac yn dwrdio 'n
Par un sudd ora imi a'i cadw nhipin; [gethin,
Ynta ei rhannu nhw rhwng y tylodion,
A mynd i nef fel Sant yn inion.

342. Mi af yr rwan at yr anifeiliad,
Ac i gynsidro ar hyn o siarad;
Gallei fyfyrio hyd y caea,
Gwelai foneddigion yn dwad ymma. *Exit.*

343. *Duc Mylir.* Ydech i ymma yn heddychlon,
Rydwi fi wewn siars gofalon;
Am gadw yr Deyrnas yn heddychus,
Dan Lywodraeth Brenin Bardus.

344. Mi gefis lythur gyna oddiwrtho,
I fod o yn Iâch yn pryfur fildio;
Dinas fechan wrth ei henw,
Yn Dre-yr-Beirdd y myn o ei galw.

345. Felly gwnaeth i dad a'i deidia,
Gwneuthur trefudd a'r ei henwa;
I fod byth yn goffadwriaeth,
Pwy fy gynta 'n riwlio yr Dalaeth.

346. Mae newyddion attai yn dyfod,
Oddiwrth frodur fy 'n anghydfod;
Yn yr Aipht dau Efall ydyn,
A mifio riwlio yr Deyrnas rhyngthyn.

347. Mae gin un o'r Brodyr ymma,
Ddeigian a deg o'r merched glana;
A chin y llall mae yr un rhyfedi,
O wyr ifeingc cryfion lysti.

348. I mae y llangcia yn ymgynghori,
A'i cyfnitherodd i briodi;
Ond mae eu Tad mewn gweledigaeth,
Yn Bridio ei ladd gan ei fâb-ynghyfraeth.

349. Am hynny mae fe wedi rhwyſtro
Ei ferched i'w cefndyr felly i faitſio;
A Dyna ddechra yr anghytundeb,
A'r holl Ryfel rhwng yr Aiphtied.

350. Rhaid imi bellach fyned adra,
I ddiſgwyl newydd etto atta;
Oddiwrth Bardus frenin burda,
Pa fôdd y mae fo yn tiwnio tanna.

351. *Dr. Marthin.* Arhoſwch dippin, y duç Mylir,
Chwi gewch gini newyddion difir;
Mae yr Brenin Bardus yn iach lawan,
Ymhob miwſig tana ac organ.

352. Y mae ei ddeiliad mor gariadus,
Yn ymwelad ac ef yn barchus;
Ac yn buw yn llawen odiaeth,
Canu a downſio mewn gorchafiaeth.

353. Par y fodd yr ydech chwitha ymma,
Yn rheoli yr deiliad gartra;
Ydyn nhw 'n iach yn byw 'n heddychlon,
Heb ddim perigle Rhyſel diclon.

354. *Duc Mylir.* Mae yr Deyrnas ymma yn bur
Ond yn yr Aipht y mae peryglon; [heddychlon,
Rhwng Egiptus a'i frawd Danus,
Hi aeth yn Rhyfel mawr anghymwys.

355. Mi glowis newydd fel hyn ymma,
Ddarfod i Egiptus gario yr gora;
A mynu yr merched oll iw feibion,
Fe brifiodd hynny yn fwrdwr creulon.

356. Tad y merchad a'i tyngheda,
I bob un y noſwaeth gynta;
Gan roddi arf mewn twyll a chyſgod,
A'i tyngy nhw oll i ladd eu priod.

357. Ac felly darfu naw a deigian,
Ladd ei gwyr drwy gyngor anlan;
Ond Hypermeneſtra a gynghorodd,
Ei gwr i ddiangc, hi a'i harbedodd.

358. Pan

358. Pan welodd Danus fel y gwnaethe
Y ferch a ollyngodd ei gwr adre;
Fo a'i rhoes hi yngharchar caeth am dorri,
Ei orchmynion dyfnion difri.

359. Daeth gwr hon ar fyr o amſer,
A Byddin fawr o wyr yſgeler;
I ollwng ei wraig yn glir o garcher,
Wrth hyn fe laddwyd ei thad a llawer.

360. Daliwyd y naw a Deigian llofrydd,
Ac fe a'i rhoed mewn Carchar cyſtudd;
Ni fynne yr Brenin moi deheunydd,
A'm i bod nhw i'w wraig o yn chwiorydd.

361. Rhoddwyd y naw a deigian merchad,
Mewn llong yn debig iawn i dwrad;
I fynd y ffordd y gyrra yr towydd,
Heb na hwyl na lluw na llowydd.

362. Mi glowis ddwad i'r Ynns ymma,
Chwiorudd lawer i Hypermeneſtra;
A'i bod nhw yn wlltion yn hel ymborth,
Hud y coed yn abel tinoeth.

363. Gwn na heuddent fawr Sidana,
Ond eurt yn hytrach am eu gyddfa;
Gora ichwi y Rheolwr mwynlan,
Fynd i orffwys peth yr rwan. *Exit.*

364. Dowch ymma yr dethol gyngor doethion,
Er ein bod ni oll yn briddion;
Ar ol marw yr Brenin Bardus,
Pa fodd y gwnawn ni yn hollawl wyllus.

365. *Dr. Edwan.* Nid oes dim o'r cyfing gyngor,
Gan fod Mylir mor dda ei ordor;
O's budd pawb mewn wyllus dibrin,
Fo geir ei goroni fynta yn Frenin.

366. *General Elphyn.* Nid oes neb yn nes i'r goron,
Mewn Carenydd yn wr ffyddlon;
A chwedi bod yn glan reoli,
Dan y Brenin, gallwn brofi.

367. *Twyſog*

367. *Trwyſog Rhus.* 'Rwi ſina yn deall hynny 'n eglur,
Mae neſa i'r Goron ydiw Mylir;
Ac yn ewyllyſio ei goroni,
O's yw Syr Linus yn bodloni.

368. *Syr Linus.* Ydwi fi, o 'wyllus calon,
O's ydech chwitha eu gid yn fodlon;
Rhaid galw Nidan, Hwſa, Merfyn,
I glywed tyſtio yr un teſtyn.

369. *Dr. Nidan.* Mi ddwyda ichwi hyn yn eglir,
Mae gora milwr ydyw Mylir;
I gadw 'r Deyrnas yn heddychlon,
Ac i 'mdrechu 'r Elepittion.

370. *Trw. Hwſa.* 'Rwy ſina 'n meddwl yn wir hyſny,
Gan fod Mylir yn rheoli,
Y bydd ar bawb o'r Eleppittion,
Ei ofn o 'n fwy na chowri 'r Werddon.

371. *Trw. Merfyn.* Nid oes ond dau o wyr y fenedd,
Gwalchmai hefo Marthin fwynedd;
Gwn y rhon nhw 'r ferdid eglir,
I goroni yn Frenin Mylir.

372. *T. Gwalchmai.* Mae fy 'wyllus, o bur galon,
I goroni Mylir ffyddlon;
Y fo ydi 'r neſa o waed i'r union,
Fy ffrind Marthin, 'ych chwi 'n fodlon?

373. *Dr. Marthin.* 'Rydwi fi 'n llwyr fodloni:
Galwn Mylir i'w goroni;
Rhaid yw caffael yr Arch-urddog,
Kittim Wamal, dowch, wr oediog.

374. *Gwamal.* Dyma fi 'n dwad, wrth fy ngalw,
I goroni Mylir hoew;
Dymma lyfr ſtattud mawr y Deyrnas,
Cymrwch eich llw, mae hynny 'n addas.

375. *Gwamal. Brenin Mylir.* Cymraf fy llw o 'wyllus calon,
Dros y Deyrnas yn dra ffyddlon;
Ar y Deiliaid yn rheolwr;
Byddwch immi yn bur gynghorwr.

376. *Gwamal.* Mi rof ichwi bur gynghorion, Cei ſiwch ferched gwyr bonddigion. I gael i'ch heppil rai 'n Frenhinoedd, A Thwyſogion ar-eich lluoedd.

377. Cofiwch oedran y byd heb amma. Yr ych i yn mynd yn Frenin ymma; O gantoedd pump-ar-hugian iawndda, Ac un-ar-ddeg a deigian ſlwydda.

378. Ffarwel yn awr, mi af i'r ddinas, Rhag ofn bod drwg, a mwg, a malas; Mi glywis fod rhyfeloedd creulon, Gan Frenin Aipht am ſwrdro ei feibion.

379. Mi af i waitio i'r tyrau uchel, Rhag ofn daw ymma rai o'r ffardial; Eppil Ham, 'rwi 'n gwybod hynny, O's dôn nhw ymma, rhowyr llechy. [*Exit.*

380. *Brenin Mylir.* O's ydi Gwamal yn prophwydo, Fod dieithred ymma 'n rhythro; Gorau i mi a'm pencynghoriad Godi 'n gadarn wyr yn geidwad.

381. Mae nghynghorwyr doethion weithan, Marthin, Nidan, Linus, Edwan; Gwalchmai, Gayan, gyda Teglan, Rhus, ac Elphyn, Hwfa, Ffabian.

382. Rhaid immi yrru i amriw fanna, Rhedegwyr cyflym i ſiwrneia; Rhag ofn y digwydd gwall a cholled, Drwy faleuſus wallus wilied.

383. *Dr. Edwan.* Gorau immi wneud yn gampus, Godi lluoedd o wyr grymmus: Cymrwch chwi 'r fyddin fwya, A'r deg eraill rhyngthom ninna.

384. *Baron Teglan.* 'Ruch chwi 'n ordro 'r peth yn burion, O's oes prophwydo rhiw beryglon; Rhaid inni waitio wrth y moroedd, Rhag entro'r teirant ar ein [tiroedd.

385. *General Elphyn.* Mae deuddeg camp o wyr yn fychan, I waitio cwmpas y tir llydan; Y pedwar part y De' a'r Dwyran, A'r Gorllewin, Gogledd egwan.

386. *Tw. Rhus.* Rhaid cadw 'n awr redegwyr cyflym, A chanwriad, a gwyr danyn; Fel y gallon yn ddiymaros, Rybuddio 'n gilidd, o's bydd achos

387. *Dr. Nidan.* Ugian mil o wyr ſy 'n barod, Ni bydda ganmil ddim yn ormod; O's dôn i'n gwledydd, mae nhwn 'n gledion, 'Rwi 'n ofni Heth, a Gog, ac Albion.

388. *Dr.*

388. *Dr. Marthin.* Rhaid yw ceiſio gwyr i 'mddiffin,
Ddeugian mil ei hun i'r Brenin; A chimaint arall
rhyngthom ninna, Heblaw canwriad ymhob gwylfa.

389. *Tw. Gwalchmai.* Mae hynny'n gyngor da mewn
amſer, Rhag ofn daw ymma wyr yſygeler; A'n cael
nina mewn trwm-ludded, Ddydd a nôs yn manwl wilied.

390. *Dr. Gayan.* Rhaid yw gwilio'r nôs â gola, Rhoi
tân ar ben y brynniau ucha; O's daw periglon at un
gwerſyll, I gael o'r lleill wybodaeth didwyll,

391. *Tw. Merſyn.* Ymhob porthladd rhaid rhoi gwil-
wyr, Dan eu harfau grymmus ſawdwyr; Ac ut-
ganwr â ſwn cethin, I rybuddio 'n gwyr a'n gwerin.

392. *Tw. Hwſa.* Rhaid yw ordrio gwyr a llongau
I waitio ymhell oddiwrth y glannau; Rhag ofn y
deuen yn rhy agos Cin eu gweled yn ymddangos.

393. *Syr Linus.* Rhaid yw ceiſio gwyr gorcheſtol,
Cowraint, campus, doetha, dethol; Gant o filoedd,
gwn, yn ddibrin, I ymddiffin braint ein Brenin.

394. *Brenin Mylir.* 'Ruch chwi 'n gwneud cadarnwch
didrin, Yn enw 'r Duwiau, i'm hymddiffin; Os oes
gwaew-ffyn yn barod, Mi awn y foru i'w cyfarfod.

395. Myfi, a'r gwyr ſydd i'm hymddiffin, Awn i
ſiwrneia tu ar Gorllewin; Lle mae trefydd fy hen
deidia; Mi wnaf Dref ar fy henw, ſina.

396. Mae 'r llyfrau 'n dangos henw 'r trefydd;
Sef Tre Gayan yw un beunydd; A Thre'r Beirdd, a
Thre Syt Marthin, A Thre'r Druw lle byw bu'r Brenin.

397. Mynnaf, finna, wneud dwy Ddinas, Un i
Walchmai, fy mab cynnas; A'r llall ar ol fy henw,
finna, Yn Dre Fylir, felly y galwa.

398. Ar hyn, yn awr, myfi gychwnna, I wneud
cadarnwch ymhob gwylfa.; Ceiſiwch chwitha, fy
nghynghoriad, At ei wilwyr bawb i wiliad. [*Exit.*

399. *Gwamal.* Mi roiſim fi gynne burion cynghorion
I'r Brenin i geiſio hiliogaeth Bonddigion; Mae newydd
dirio 'nawr i'r Ynus Ddeigian a naw o ferched Danus.

400. Chwi glywſoch gynne 'n ſiwr ddiamme, Mae chwiorydd ynt i Hypermneſtre; A ddaeth o'r Aipht, rhag ofn eu crogi, Am ladd eu gwyr newydd briodi.

401. Mi glowis fod rhiw anferth gowri Hyd y coedydd yn blyſtodi; Hefo 'r merched fel yr ellyllon, Cyrwydraid Heth, a Gog, ac Albion.

402. Os daw fo ymma cin fy nghychwyn, Fe 'm lladd, on' chronai f'ynta yn Frenin; 'Rydwi felly 'n ofni 'n ſiccir, Ofni twyllo brenin Mylir.

403. Rhowch i mi gyngor gynta galloch, Rhag ofn y lleddir f' ymma hefoch; Mi glowis ddwudyd gan y Groegiaid, Mae pobl waedlyd ydi 'r Aiphtiaid.

404. I edrych af am Frenin Mylir, Ac am Gybi-Sanct yn ſiccir; Mae hi 'n enbyd aros ymma, Lle bo byddinoedd yn rhyfela.

405. 'Rwi 'n rhybuddio pawb yrwan, Cymrwch ofal am eich hunain; Mi eis fi 'n fethiant i fynd allan, Mae rhyfela 'n flin aflawen.

406. Gwell i mi weddio 'r Duwiau; Mi af yr awrhon at fy llyfrau; Fe 'n lleddir ni bawb o fychan i fawr, Gan Albion gawr a'i baſtynau. [*Exit.*

407. *Albion Gawr.* Pwy yw 'r aderun ſydd ymma 'n ymdeuru, Gorau it ddiangc i'th loches i lechu; Mae gini a'r y talwrn lu accw o'r cefnocca, Newydd fordwyo

408. Mi 'nillis y fattal [o'r Aipht i'r wlad ymma. mewn rhyfel yn Rhufen; Mi gyris yr Spanied, nad allan nhw ſpringian; Mi yrris y Ffrancod i'mwylo fel mulod, O bobl noeth llymyn fe ddiengodd rhiw hylldod.

409. Pe gwelwn wyr cedyrn ſydd ymma'n ymgadw, O's leician nhw ymladd, bydd chware go chwerw; Ne wneuthur cytundeb, a'm cymryd i'n Frenin; Mi ſafa fi 'n hollawl yn erbyn yr Ellmyn.

410. 'Rwi 'n gâr digon agos i Meſach fab Japhath, Ond edrych y llyfrau, mae' r iachaf yn wchach; Nid oedd ond tri meibion gan Noah 'n bennodol, O'r iſaf o'r rheini 'rwy fina 'n Dadogol,

411. Mae

411. Mae ginni lu trefnus a dilus wyr deiad,
A merched Brenhinoedd rhwydd immi 'n rhoddiad;
Mi fynna 'r Dinaſoedd ſydd neſa bob noſwaith,
I aros chwilotta rhwng deulin y Dalaith.

412. Dowch yma 'r Gwr pena o'm cwmni cru cryno,
A welſoch i undyn mewn rhydit yn rhodio;
Oni phryſuran nhw i wneuthur cyttundab,
Nhw ſyddant yn ſydyn fel Jeſabel Ahab.

413. *Twyſog Heth-ap-Canan.* Trwy gennad eich urddas y Brenin mwyn Albion, Y fi ydi 'ch câr twrſtan y Twyſog Heth-Canan; 'Rwi newydd fordwyo i'r Ynus gain ymma, Hefo Gog Magog o Baſan a Boſra.

414. Gorfu i ni ddiangc, a ffoi am ein hoedel,
Fe 'n curodd gwyr Iſrael ni allan o'r efel;
Dygaſon nhw drigian o Drefydd mawr caerog,
A chimin o Bower a fedda Gog Magog.

415. Fe gollodd ei Goron, a'i Wely cry haiarn,
Ei hud oedd naw cyfydd wrth feſur Gwyr-Baſan;
A'i lêd yn llawn pedwar mawr cadarn di-rodres,
Lle bydda fe 'n gorwedd wrth glun ei Frenhines.

416. Fe ddarfu 'r hên Iſrael, gynt galwant ef Jacob,
Ladd y cawr mwyaf, Beliſa bawl Iſob;
Brenin y Cowri, gwr mwy na gwyr Anec,
Yn llawn deuddeg cyfydd o hyd, ac ychwaneg *.

417. *Albion.* Mae 'n ddrwg gini 'ch colled, fy nghe-raint aneiri, Brenhiniaeth fawr Baſan, a Chanaan i'w chyfri; 'Rwy finna mewn dwned cr's ennyd naws inion, Ac eiſie cyttuno yn ſiwr â hîl Saron.

418. A weliſti 'n unlle yr un o'r trigolion,
Ni hwyrach i'r geltydd yr aethont yn wlltion;
O's gadel ei power a wnan nhw ar y perwyl,
Fe geiff fy ngwyr yſtwyth i ddigon o wyſtl.

419. *Twyſog Heth.* Y trigolion a ddiangaſant, I'r fan bella y gallaſant; F' aeth cryn bart mewn canws gwchion, Medd rhiw-rai i dir y Werddon.

* *Yn llyfr* Juda, *un o'r* 12 *patriarch*, p. 50.

420. Ni

420. Ni gawn y Power yn ddi-ymrafel A'r Ynus
Gadarn wedi ei gadel; O's down i hyd i'r un o'r
gweinied, Ni wnawn ni uddynt ddim o'r niwed.

421. Fy ngâr Albion, 'rwi 'n dymuno, Adel pawb
lle bo nhw 'n tarrio; Mae digon o le i ni a'n llu-
oedd Yn nhîr bonddigion mawr a ddiengodd.

422. *Albion.* Mae hynny o'r gora wrth fy wyllus,
Fe geiff y rheini gloddio 'r Ynus. Llafurio'r tiroedd,
hau, a phlannu, Cawn ninnau fawr orfoledd felly.

323. Mi fynna chwilio 'r Ynus trosti, I edrych
beth sy o bobl ynddi; A'i tyngu nhw oll i fod
yn ffyddlon, Rhag ofn i'w ffasiwn brisio 'n ffeilsion.

424. Rhaid inni etto rannu ein *lluoedd*, Uwch
ei pennau ar y tiroedd; Rhag ofn bod brad neu ni-
wed inni; O's dôn nhw 'n gadarn i gyd-godi.

425. Cyntaf peth, a rheitia wrtho, I wneuthur
delwau, a gweddio; Codi Allorau, ac aberthu
Dros fawr luoedd orfoleddu.

426. *Twysog Heth.* Rhaid inni chwilio 'n fanwl ddi-
gon, Ple mae delwau 'r hen drigolion; Mae eu
hallorau marble-gerrig, Yn bur wrth bebill gwyr bon-
[heddig.

427. 'Roedd Prophwydi ac Athrawon,
Yn y Dalaith ymma ddigon; Pe caen ni daro wrth
un o honyn, Fe fydda 'nawr yn dust o'i testyn.

428. I gael gwybod pa ragoriaeth, Sy rhwng Del-
wau yn ein Talaith; A rheini oedd yn Nheyrnas
Argo, Ac yn yr Aipht cin dyfod Pharo.

429. Addolwn ni, a gwnawn ein Haberth, I'r
ddelw fawr, Deiana brydferth; Dau o frodyr, a'r un
Duwiau Oedd gan eu teidiau nhw a ninnau.

430. *Gwamal.* Mae hynny 'n wir, mi wn o'r gorau,
Y fi 'doedd Brophwyd eich hên Deidiau; Offrymaf
aberth tros y trigolion, Mae ginni ysgolheigion ddigon.

431. O's 'ffeiriad fuoch i fy nheidiau, Chwi offei-
riadaeth gewch gan innau; Ceisiwch eich llyfrau
Caen a'ch organ, Y ni Lloer newydd wnawn yn llawen.

432. *Gwe-*

432. Mae ginni ſymphon, lut, dulſimer, A chantorion llyfnion llafer, A digon o ganiadau Enos, I diwnio 'n dyner fel yr Euos.

433. Tympanau hefyd mercheid Bardus, I ganu a downſio 'n bur bleſerus; A down yn gwmni mwyn diniwed; I'r fan lle peroch inni ddwad.

434. Dowch i'r Albion hefo 'ch cwmni, Felly galwai 'r Tir o'm deuty; Mi ſydda fi yno hefo 'm lluoedd, Ac i'ch croeſafy mynnai wleddoedd.

435. Mi af 'rwan at fy neiliad, I'w hordro i wneuthur ymbartoad; Erbyn dyfod teuly ſanctedd, A'i caniadau lafar lloeredd, [*Exit.*

436. *Twyſog Heth.* Cychwnaf fina at fy lluoedd, I gael cyhoeddi hyn ar gyhoedd; Gwiliwch chwitha, 'r Prophwyd tirion, Dorri 'ch 'ddewid i'm câr Albion. [*Exit*

437. Yr Arch-offeiriad cewch eich galw, Yn Ailgwr ar yr Albion loew; Fe fydd rai o'n Prophwydi ninnau. Yn 'ſteiriadau danoch chwithau.

438. Ffarwel yrwan, 'ſgydwn ddwylo; Mae hi'n heddwch, 'rydwi 'n coelio; O's daw eich cwmni atton yno. Mae uddynt groeſaw wedi ordeinio.

439. *Gwamal.* Byd rhwydeb ichwi, Heth ap Canan, Ni bydd bellach ddim o'r gynnan; Ond oeddwn ni'n ſiarad yn dda odiaeth, Mi wneuthym heddwch drwy

440. Mi af fina i'r babell i fyſg can- ['r holl Dalaith. torion, A llefariad cywyr ſymphon, A phob math o fiwfig cyſon, I ganu 'n ddirfawr i'r cawr Albion.

441. Mae digon o le 'n yr Ynus ymma, Pe deua luoedd etto atta; 'Rydwi yn prophwydo 'n oeſtad, Daw gwyr o Droya ymma a Groegiad. [*Exit.*

442. Y mae yn Aſia ymladd creulon Er 's deng mhlynedd, ni pheidiaſon, Nes i'r Groegiaid ynnill Troya. A thynnu i lawr ei thai a'i gwalia.

443. Diengodd y Gomeriaid allan, I wlad Cafeniwn 'r aethon weithan, O achos y Frenhines Deido, Darfu 'r Groegiaid ynnill honno.

444. Daeth

444. Daeth y lluoedd dan y milwyr, Brutus a Chorenius, Ffenſwyr, I'r Uttalia at Emprwr Neſtor; Etto curaſon hwynt o'r fordor:

445. Am i Frutus eu gorchfygu, Cadd ferch yr Emprwr i'w phriodi; Bu iddo o honi dri o feibion; Oddi yno daeth i Ffrainc yn union.

446. By yno ymladd di-ymwarad, A lladd llawer iawn o'r ddwy-blaid; Fe 'nillodd ddarn o Deyrnas Ffrangcod, Gin Utalian ce'is ei wybod.

447. Mi wn na tharian yn hir yno, Nhw ddôn ymma, 'rydwi 'n bridio; Yn inion âf, rhybuddiaf Albion, Rhag ofn iddo golli'r Goron. [*Exit.*

Brutus. Dechreuad y Bruttaniaid.

448. Myfi yw Bruttus o Gaer-Droya, Yno tarriodd fy Hên-deidia; Cin i'r Groigiaid gynt ei twyllo, A delw march a'i lluoedd ynddo.

449. Darfu i'r Troywyr dorri 'r gwalia, I dynnu fewn y ddelw ymma; 'Roedd y Groegiaid nhwytha yn waitio, Ar ei hôl yn pryſur daro.

450. Yno yr aeth hi yn ymladd garw, Pan ddaeth allan wyr o'r Ddelw; Nid oedd arbed gwraig na phlentyn, Ond lladd a lloſgi pawb yn ſgymyn.

451. Daeth attaf fina 'r gwyr a ddiengodd, Ac at Gorenius rai yn rhiw fodd; Mi fentrwn ymladd ninnau 'n rhiwle, Am ryw diroedd i gartrefe.

452. Mi ddarllenais lyfrau 'r Bridia, Y cawn ni lwyddiant ymma o'r gora; Os gallwn guro a lladd y cowri, Y bydd wn Frenin cadarn gwedi.

453. Oes neb yn agos ymma 'n unlle, A welwch Albion yn dwad atte; Py cawn ni ymladd â'i dop dippin, Mi dreiwn pwy a fyddo 'n Frenin.

454. *Albion.* Pwy ſydd ymma â'i Bricia croiſion, A bwytgin gloew wrth ei gynffon; Gora it' ddiangc am dy hoedel, Mi wn nad wyt ond ffwl cadafel.

455. I ba le diengaiſt, ddyn, oddi-ymma, Rhag ofn dy grogi, gwn or gora; Mi glowais ddwudyd gan

gan y Groigiad, It' ladd dy dad, a dwyn ei ddillad.

457. Ond ydwyt ti yn waeth na'r cythrel, Ne Gaen gynt a laddodd Abel; Nid oes ymddiriad itti weithan, Na leddi finne, o's gelli 'rwan.

458. Mi ddoithim ymma yn ddi fwſtwr, Ac ni wneithim ddim o'r cynnwr; Lladd, na lloſgi, na difetha, Yr un o'r hen drigolion cynta.

459. O's byddwch chwitha a'ch byddin hefyd, Yn wyr llonydd, 'rydwi yn dwydud; Chwi gewch y chwarter mwya o'r Ynus, I fyw yn dwyſog anrhydeddus.

460. *Brutus.* Mae gini wyr ac arfau llymion, Myſi dreia am gael y Goron; O's colli wnai fy hoedel weithan, Mae gini feibion ymma yn rhywfan.

461. Hwda ergid at dy benglog, Pan dynwi gynta nghledde miniog; Mi ai gyrrai i gyraedd gwaed dy galon, Taw a boſtio dy orcheſtion.

462. *Albion.* Gwilia, attad, Ti gei ddyrnod, A'th wna di fel ûs neu dywod; Di fyddi yn fwyd i adar wybran, Oni ddiengi ffwrdd yn fuan.

463. Dyma yr arf a darf y dyrfa, I ddiangc fel ellyllon adra; Onid ei ditha toc oddi-yna, Cei dy fennydd hyd dy 'ſgwydda.

464. *Brutus.* Attal draw dy law a'th dafod, 'Rwi fi 'n rhyfelwr pryſur parod; Mi 'th wela yn dechrau cryn ogwyddo, Fe wneiff fy nghledda 'th galon ffaintio.

465. *Albion.* Och, di 'm pigiſt yn rhy 'ſgeler, 'Rydwi yn fyrthio mewn rhiw lyſmer; Fe ddarfu i ti fy lladd yn gelan, A'th frwnt fwitgin llym aflawan.

466. *Brutus.* Nid rhaid i mi mor bru- [*Diwedd Albion.*
ſio weithan, Mi rois y cawr i lawr yn gelan; Gwn na chyfyd fyth i fyny, Bryſiwch i'w nolir ddol iw gladdu.

467. Mi af i werad at fy lluoedd, I gael ordrio rhanu 'r tiroedd; Rhwng fy meibion a Chorenius; Mae fe 'n gefnder uddyn eurddwus.

468. Mae 'r cawr Gog-Magog etto 'n rhiwle, O's geill Coreniws ei ladd ynte; Neu fy meibion mewn cyfluſtra, Rhaid im gychwyn ar fy ſiwrne. [*Exit.*

468. *Gwamal.* Hai nhw ſuth, pa beth ſy ymma, A'i ladd y cawr â theclyn twcca? Fe ſydd ei wraig yn udo yn arw, Ddarfod ei ladd fel mochyn meddw.

469. Pobl waedlyd ddrwg anhowaeth, Ydi rhain o eppil Japheth; Mi wn na wnan nhw fawr drugaredd, A'r Trugolion ſo 'n eu cyraedd.

470. Dowch ymma 'r clochydd a'r gwyr lyſti, I fynd â'r Brenin draw i'w gladdu; Rhag ofn y daw rhiw Beniaeth etto, Ai gledd' a'i ſaethe'n rhoi ni i ſyrthio.

471. Canwn ei glyl â Salmau triſtwch; Dowch ymma, wylwch, ac alarwch; Ei deulu a'i geraint a'i Bengweiſion, Lediwn y Salm, i ganu yn gyſon.

472. *Twyſog Heth.* Dowch ymma bawb o'i gowyr ddeiliad, Ar ol y cawr i ganu mawrnad; Lading, lediwn, Groeg, a Hebrew, Mae hyn yn golled fawr i [amriw.

Yn canu ar feſur, New Merry-Laſs,

473. Fe ddaeth ir Ynus gadarn hon Un Brutus o Gaer-Droya gron, A lluoedd mawr o wyr 'n llon, Rhyfelwyr canol cynan; Lladdaſon nhw 'r Brenin, Albion gawr, Dymma ſo ar lawr yn gelan, Rwi 'n ofni am Gog-Magog lan Tyrd, Gwamal, can yn gyman.

474. *a Gwamal.* Nid rhaid i chwi mewn lle na llwyn, Mor gofal am Gog Magog mwyn, Y mae ſe wedi boddi ei drwyn Yn Nofer afon anferth, Wrth ymladd â Choreniws ffraeth, Colli wnaeth o 'r draffeth, A thros y geulan ſyrthio i lawr, I'r cefnfor mawr ar unweth.

475. Mae alar prudd i'm ffydd goffâd, Ar ol ſy ngeraint yn ddiwad, Pan oeddwn gynt yn dda fy ſtât, Yn Dwyſog yng ngwlad Canan; 'Roedd yn ammeu gennif hyn, 'Rydwi 'n ſyn yrwan, O achos darfod am y ddau, Ni's gwn ple 'r ai fy hunan.

476. *Guamal.* Amynedd i chwi, 'r Twyſog glân, Ar ol y Brenin canaf gân, Mae colled fawr ar lawr yn lân, I'r Arglwyddes Hun Gwenllian, Ceiſiwn, canwn bawb ei glyl, A'i forwyn Gwerfyl Fychan; Gobeithio dôn nhw i gladdu'r cawr, Ac offrwm ma vr yn fuan.

477. *Twyſ. Heth.* Mae'n rhaid ordeinio 'i foddol fedd Tan allor lawn, o's gawn ni hedd, Yn yr Albion inion Ei goledd yno a'i garrio, Ar y cerbyd gildiad aur, A chanu ei graur yn gryno, I fynd â'r Brenin at ei Lus, Gwnewh, Gwamal, frys heb rwyſtro.

478. *Gwamal.* Rhaid caffael gwiſcoedd duon mawr, Am wyr a meirch yn llaes hyd lawr, A chantorion teg eu gwawr, Yr organ fawr a'r Dylſma, Yn nhemel y Ddeiana 'nawr, Mi rown o i lawr yn ddia, A maen Mynor ar ei fedd, Yn gwyredd wrth ei gaera.

479. *Twyſog Heth.* Dowch ymma chwi, gwyr penna 'r lluoedd, Derbyniwch ei gorph, rhowch yn y neuodd, I aros gweiſion, meirch, a cherbyd, I fynd â'r Brenin at y gweryd. [*Exit.*

480. *Gwamal.* Dymchwelwch o dros y bwrdd i'r beddrod, Mae hynny 'n golled fawr i'w briod; Mi ddof fina toc ar ol ei godwm, Oni ddeffry i dderbyn offrwm. [*Exit.*

481. *Concwerwr Brutus.* Rhaid ymma weithan ordro yn inion, Rannu 'r Deyrnas rhwng fy meibion; A Chorenius fynwes fwynwr, Fe wneiff o 'n ſydyn rannu'r

482. *T. Cor.* I lwyddiant ichwi, f'ewyrth Bru- [ſawdwyr. tus, Pa fodd yr ych i yn leicio yr Ynus? A gawn ni heddwch ymma i dario; Rhag dyfod cowri atton etto.

483. Fe ddigwyddodd im' gyfarfod, A'r cawr Gog-Magog, 'rydwi 'n gwybod, Ar fryn uchel uwch ben Dofer, Bu rhyngom ymladd awr a hanner.

484. Fe 'n anaele roe i mi ddyrnod Ar f' aſſennau yn ei hylldod, A chryn ſigo tair o honyn, Cin cael gafael yn ei doppyn.

485. Pan ge's fy ngwynt uwch ben y geulan, Mewn lle ſwrth ar graig aflawan, Fe ddaeth attai i ail ymlowio, M' ai gwthis dros y dibyn yno.

486. *Brutus.* Chwi fuoch chwi mewn rhyfel chwerw, Hefo Magog gegog arw, Gwych y rhoeſoch chwi 'r cawr i dreinglo Dros y graig i'r môr i wingo.

 487. Go-

487. *Brutus.* Gobeitho cawn ni bellach heddwch,
Gida 'n gilydd mewn diddanwch; Mi chwiliwn drosti'r Ynus dirion, Rhag ofn bod etto gowri mowrion.

488. Mi rannaf rhyngoch yn 'wyllysgar, Yr Ynus megis pedwar chwartar, I chwi, fy nai, a'm tri meibion, Y Tir lle 'r oedd y cowri mawrion.

489. Mi rof i ti y Deheu diroedd, Ac i Logran Ddwyrain oerfodd, A'r Gorllewin a gaiff Camber, Ac Albenactus Gogledd chwarter.

490. *Twysog Corenius.* Yr ydwif fi, eich nai Corenius, Yn diolch i chwi am le i orffwys; Mi af a'm gwyr yn fyddin yno, Cornwal galwai'r wlad yn gryno. [*Exit.*

491. *Twysog Logran.* 'Rydwi fina, eich mab Logran, Yn diolch am eich rhodd syberlan; Gora i mina hefo 'myddin, Alw fy sgor yn Lloegr lleng-grin.

492. *Twysog Camber.* 'Rydwi fina, fy nhad ffyddlon, Eich mab Camber, o'm gwir galon, Yn diolch am eich helaeth roddion, Mi a'i galwa 'n Gymru gelltydd gwll-

493. Mi glywais fod yngwlad y Werddon, [tion. Bedair cenedl o wyr cryfion; Mi fentra fina rai o'm cwmni Yno i rainio at y rheini.

494. Mae yno rydit immi ddigon, O fôr Hyspaen hyd eitha 'r Werddon, Pe rhoch 'i rai o'ch llyfrau immi. I riwlio 'r Dalaith wrth y rheini.

495. *Brutus.* Dyma 'r llyfrau ddaeth o Droya, A'r gyfrwyddyd oedd yn Asia, A pheth o addysg dy daid Nestor, O'r Utalia cei di yn rhagor.

496. *Twysog Camber.* Fy nhad anwyl anrhydeddus, 'Ruch yn rhoi immi roddion parchus, Minnau cadwaf yn rastalau, I gofio 'm danoch tra bwy finnau.

497. 'Rwi 'n gweddio hwyr a bora, Am nodded ichwi a gorphwystra, O's daw terfysc, rhaid i'n yrru, Am help ein gilydd i'w gorchfygu.

498. *Albenactus.* Yr ydwyf finna, Albenactus, Yn diolch ichwi, nhad perffeiddlwys, Mi fentra fina tu ar Gogledd, I daro ar Elepittiaid taeredd.

499. O's

499. O's gallai gadw gwlad yr Albion, Rhag fy lladd gan gowri cryfion, Mae yno ddigon o dir llafuroedd, Heblaw creigia mawr mynyddoedd.

500. 'Rwi 'n gobeitho y gallai fentrio A'm byddin tu ar Dalaith honno: Mae'n rhaid ordeinio gwyr-gennadon At ein gilydd â newyddion.

501. O's oes yn eu creigiau mawrion, Ogofydd gan yr Elepittion, 'Rwi 'n ofni deuan yn ddifymmwth Ac y gallan wneuthur adwyth.

502. Gorau fydda roddi gwilwyr Yn gard gadarn o hen fawdwyr, Mewn amriw fan o barthau 'r Ynus, Rhag ofn bod etto gowri cwmbrus.

503. Mi glowis fôn o'r creigiau ucha, I fod haul heb fyned tan ei gaera, Drwy 'r holl nos, o's bydd hi 'n eglur, A cheir ei weled yn yr awyr.

504. 'Rwi 'n meddwl fod y brynniau rheini, Yn burion tiroedd haf 'moeri; Yn enw 'r Duwiau hefo'm lluoedd, Ni gychwnnwn tu 'r mynyddoedd.

505. *Brutus.* Rhaid ichwi alw 'r Ynus trosti, Yn Frydan Fawr, 'rwi fi 'n ei henwi, A'r tir enillis oddiar y Ffrancod, Brydain Fechan, gellwch wybod.

506. Mynnai alw 'r holl drigolion, Brutanniaid, wrth fy henw 'n inion; Gobeithio gwnân nhw felly gadw Coffadwriaeth am fy henw.

507. 'Rydwi 'n deall wrth fy llyfra, Ddyfod henaint ar fy ngwartha; Ac o herwydd hynny weithan, Gwnaf ddinas fawr i mi fy hunan.

508. Galwai 'r ddinas, Troya Newydd, I gofio 'm Droy yn Asia wledydd, Ac mi ymrof i dario ymma, Bendithion, llwyddiant oll a'ch llwydda.

509. Dowch, fy meibion, awn i werad, I gael i erill firiol fiarad; Mae Corenius mewn modd diddan Am gyttuno a Hun Gwenllian. [*Exit y* 4.

510. *Gwerful.* Och! yr ydwi 'n drom fy nghalon, Mewn alar fawr am frenin Albion; Morwyn ydwyf i'r Arglwyddes, A'm henw yw Gwerful wrth fy hanes.

511. Mae

511. Mae y frenhines lân Gwenllian, Mewn trom alar fawr a chwynfan, Am ei hanwyl briod heini, Sydd yrwan newydd gladdu.

512. Mi wela 'n dyfod riw ryfelwr, Ni feddai ymma ddim o'r ſwccwr; O's fy lladd i wneiff yn gelan, Pa beth a ddaw o Hun Gwenllian?

513. A rowch chwi gyngor, gwmni cryno, I ble rhedai i ymguddio; 'Rydwi 'n diſgwil y Frenhines, Pe gallwn, llechwn mewn rhiw loches.

514. *Corenius.* Corenius ydwyf, gwr o'r Dehe, Rhoes f' ewyrth immi diroedd gynne; Y fi a'm llu ſy 'n cychwyn yno, Ond eiſie gwragedd i'w heppilio.

515. Mi glywis fod arglwyddes dirion, A fuaſe gynt yn wraig i Albion; Pe cawn i afael ar y globan, Mi gymrwn hon i mi fy hunan.

516. Yr wyf yn dallt, mai dyna ei morwyn, Ple mae 'ch meiſtres, Gwerful, addfwyn, Gelwch hi attai i ymgomio, Mae ginni wladwyr i'w chowleidio.

517. *Gwerful.* O's rhowch chwi gennod, Dwyſog mwynlan, Mi alwaf attoch Hun Gwenllian, 'Rydwi yn ei diſgwyl ymma, Cin eich gweled ar dir gole.

518. Dowch ymma, fy Mhrenines radlon, Mae ymma wr bonheddig tirion, Ac i'w ganlyn gryn gyn'lleidfa, Yn eich diſgwyl o'ch llys gola.

519. Mi rown gyngor ichwi, meiſtres, I wrando ar y Twyſog cynes; Mi glywais fi gryn bart o'i hanas Gobeitho rhydd ef chwi mewn urddas.

520. Y fo fy neſa gwr i'r penna, A ddaeth hefo yr lluoedd ymma; Ac fe orchmynnodd gynne i minna, Alw 'r Frenhines ymma i'r gola.

521. *Fren. Gwenllian.* Dyma fina, Hun Gwenllian, 'Rwi 'n torri mhen yn gweiddi allan; Mawr yw 'r aſlwydd ddaeth i'm herbyn, Y gwr a gollodd ginni 'n

522. 'Roedd o 'n wrol freiniol Frenin, Yn [ſydyn. gwiſgo Coron Yn's y Cedyrn, Er's cant a phedwar ugian mhlynedd, Yn llwyddiannus mewn anrhydedd.

523. 'Rydwi

523. 'Rydwi 'n ofni 'nawr am dano, Fod rhiw dwyllwr wedi ei dwyllo, Ac o's darfu ei ladd a'i gladdu, 'Rydwi 'n fawr fy ngolled felly.

524. Yr ydech chwi yn un o'r lluoedd, Ac megis milwr yn rhyfeloedd; O's rhoddwch immi edrydd Albion, Fe fydd yn llawen gan fy nghalon.

525. *Twyſog Corenius.* Mi fedra fi roi ichwi ei hanes, Hi aeth yn amrafal am y Deyrnas, Rhyngtho â Brutus ar dir gola, Yno ladded eich gwr chwitha,

526. O's dowch i Gornwal gyda myfi, Lle mae gwyr a llangcia lyſti, Gellwch gael eich dewis gymmar, Ddau neu dri-ar-ddeg mewn amſer.

527. *Frenh. Gwenllian.* Dyna 'r pætų 'rwi 'n ei leicio, 'Ruch chwi eich hunan yn wr cryno; O's mynnwch chwi a'm fi gytuno, Mi rhof fy mhower ichwi yno.

528. Gobeitho gwnewch i fi 'n Frenhines Ar y chwarter hwnnw i'r Deyrnes. Mae ginni aur ac arian helaeth, A phob golud i fyw 'n lanwaeth.

529. Ni fynnai adel dim o'm heiddo, I'r gorthrymwr Brutus ordro; Gwell ginni eu rhannu rhwng fy ngweiſion, A'r Arglwyddeſod fy morynnion.

530. Mae fy ngweiſion ar fy nghyfer, Yn eu ſwyddau 'n trin fy mhower; Gorau immi, 'n drwm fy nghalon Fynd adre i ordro fy morwynion.

531. *Tw. Corenius.* Rhaid yw dy wiſgo o'th draed i'th goryn, Mewn ſidana aparel purwyn; Ac onide nid hardd a fydda Gini mo'th gwmni hefo 'm adra.

532. Rhaid itti hefyd geiſio mwſgodd, A dwr glân i'th olchi droſodd; O's gwnei di hynny, myfi 'th hoffodd, A chei dy foli gan fy miloedd.

533. Gorau it' fyned, ar fyrr fiarad, At y gwr ſy 'n gwerthu dillad, Ac at ſiopwr pêr-arogle, Os oes arian gynti yn rhiw-le;

534. Ac yno mynnai dy briodi, A'th wneud yn lân Frenhines Gwenlli; Di fyddi 'n ben ar holl-dir Cornwal; 'Rwi 'n deall dy fod o iacha uchal.

535. *Fren.*

535 *Fren. Gwenllian.* Mae ginni aur ac arian ddigon,
A phob da 'r byd, er colli Albion; O's dowch chwi
hefo 'm adre 'n gynta, Mi gymrwn beth ſydd ffit i'r
536. Rhaid immi hefyd gael fy morwyn, [ſiwrna,
Gwerfyl Fychan fwyn i'm canlyn, A chael fy ngweiſion,
meirch, a'm cerbyd, A chwmpeini i'm danſon hefyd.
537. *Gwamal.* Gwrandewch, Corenius, dwyſog mwyn-
lan, I ble 'r ewch chwi â Hun Gwenllian, A dwyn
Gwerful ydech hefyd, Ple cai forwyn i drin fy llaeth-
538. Arhoſwch dipin wrth gyfreithia, Rhaid [fwyd.
ichwi leiſens godi 'n gynta, Allan o gwrt yr Incueſition,
Fe gyſt ich' aur ac arian crynion.
539. Yna mi 'ch prioda 'n inion, Aerod gewch
i 'ch tiroedd ffrwythlon; Ceiſiwch arian, dymma 'r
ord'nens, Groeg, Cymraeg, a Lading leiſens.
540. *Tw. Corenius.* Dyma 'ch bedair talent crynion,
O burion aur ac arian gloewon; O's ydi hyn i'ch
llawn fodloni, Ceiſiwch ddechreu ein priodi.
541. *Gwamal.* Ple mae 'r fodrwy aur briodi, Dowch
Corenius hefo Gwennlli, . Dwydwch ar f'ol yn 'r iaith
Gymraegiad, Mi 'ch gwna chwi 'n wr a gwraig drwy
542 *Priodi.* 'Rwi'n dy gymryd di, Gwenllian, [gariad.
Yn wraig briod o hyn allan, Tra bothon buw, yn
enw 'r Diwia. Mi awn a gwnawn ein Cornwal gartra.
543. 'Rwi 'n dy gymryd di, Corenius, Yn wr priod
o'm gwir 'wyllys, Tra bo 'm byw hyd fawolaeth
Angau, Mi wnawn yng Nghornwal fyw o'r gorau.
544. Wel, dymma chwi wedi eich priodi, Yn fawr
gwnewch o'ch twyſoges Gwenlli, A downſiwch dip-
pin bach yrwan, Cin mynd i ddownſio gida 'ch cloben.

Corenius, Gwenllian, Gwamal, a Gwerful yn downſio.

545. Tiwniwch, Gerddor, delyn fwynlan, I bed-
war ddownſio, a bod yn llawan; A fedrwch i 'run o
Diwnia Troya, Y Groegwyr gynt yn downſio i'r Duwia?
546. *Franh. Gwenllian.* Iechyd ichwi, f'anwyl briod,
'Ruch

'Ruch i'n ddownſiwr da, 'rwi canfod; Ni welais yn yr Ynys ymma 'Run o'ch bath yn canlyn tanna.

547 Hwdiwch, Gwerful, ffloring arian, Rhoddwch hyn i'r Cerddor mwynlan; Ceiſiwn ni, a'n cwmni hefyd, Fynd i Gornwal hefo 'm 'Nwylyd. [*Exit y tri.*

548 *Gwamal.* Cerddwch adra yn eich milwrio, Chwi gewch ddownſio 'chwaneg heno, Y mae Gwenllian yn bur barod I gymryd Gwr er's pymtheng nhiwrnod.

549 Rhwydeb ichwi 'r cawr Goreniws, Chwi gowſoch olyd mawr a pharchus, Gwnewch yn Frenhines Hun Gwenllian, Fel yr oedd hi'n amſer Albian.

550 Mae hi 'n llydan iawn eu haeloda, Cymaint a gwraig y cawr Beliſa, A laddodd Jacob yngwlad Canan, 'Roedd ei hud yn llawn chwe llathan, [*Teſt. Jud.* p. 50.

551 Gwiliwch i'ch Sawdwyr fynd ar Werful, Rhowch hi 'n wraig i'ch Twyſog anwyl, A minna a ddof i ech am dani, Pan fo hi 'n myned i'w phriodi.

552 *Gwam.* Gelwch fi i'r ffêſt a'r bedydd, I ddarllen i Wenllian lonydd, Pan fo hi newydd eni plentyn, Mi a'i bedyddia ar enw Siengcyn.

553 O's merch a fydd, mi a'i galwa Gwenddol Mi a'i diſgwyliaf atta i'r yſgol; Hi geiff hith a wr yn Lloegar O's byddai buw, ac ar ei chyfar.

554 Ond ydoedd hwn yn wr calonnog, Pan fentra 'r globen fun aelodog, Yn fawr ei bol, a'i hanferth arffad, Yn fwy na gwr-ferch fwyn y Groegiad.

555 Mae'n rhywyr myned ar ei ledol Rhag ofn y galwant oll i'r yſgol; O's ceiſiant gennod i'r plant chware, Nhw rôn arian beth i minna. [*Exit.*

556 *Syr Linus.* Dowch i fynu 'r doeth-wych iachwyr, Dywedwch immi hanes hên-wyr Allan o'r llyfra oedd gan Noah, Lle 'roedd gwybodaeth hyd at Adda.

557 *Twyſ. Hwfa.* O's rhynga 'ch bodd y Dr. Linus, Rhyngoch chwi a minna 'n gymwys, Er mwyn difyrru'r lân gyn'lleidfa, Mi ddwyda'r iacha gora a fedra.

558 Ar ôl y Diluw y Brenin cynta Fy ymma oedd

1 *Meſach* fâb 2 Japheth ap 3 Noah, Mâb 4 Lamech oedd
fâb i 5 Methuſelah, Fâb 6 Henoch, fâb 7 Jared, rai gora.
559 Fâb 8 Mahalaleel, ynte fâb 9 Cenan, Oedd fâb
i wych 10 Enos ydoedd gantor mwynlan, Yn ſyth fâb
i 11 Seth, fâb 12 Adda weithan, A rhain oll oedd feibion i
560 Dyna'r iacha cyfa ichwi, [Dduw Nef ei hunan.
Trwy'law Moſes y caed cyfri, A dyſgawdwyr llyfra'r
Aiphtiad, A'r cenhedloedd yn cyd-ſynniad.
561 *Syr Limus.* Dyna nhw yn grwn eu gradda, Mi
a'i ſcrifennaf yn fy llyfra', Deuddeg ydynt oll o
feibion, A chyfri Adda heb ymryſon.
562 A gawn ni wybod etto 'n inion Iacha Magog,
Heth, ac Albion, A phar y fodd, pa riw achoſion,
Y daethont ymma'r Cowri mowrion.
563 *Twyſ. Hwfa.* Chwi gewch hanes ginni 'n inion,
Am Dadogaeth Heth ac Albion: Wyr bedd Heth i
Ham fâb Noah: Mae'r ſgrifen yn y Beibl gora.
564 Mâb oedd Magog ynte i Japheth, A brawd
i Meſach fy ymma 'n beniaeth, Ac ewurth oedd i
Heth fâb Canan Gefnder ei dad, mae'r llyfra'n datgan.
565 Mâb oedd Albion i Nephtuim, Fâb i Miſraim
fâb Ham Aiphtuim A goreſgynydd oedd i Noah,
Sef Albion gawr fy 'n yr Ynys ymma.
566 Ar ol y Diluw Ham ap Noah Aeth i'r Aipht
yn Frenin gynta, Ac a heppiliodd lin olynol
Feibion a mercheid ri rhyfeddol.
567 Y mae Moſes wedi rhoddi Hanes Ham
yn llwyr a'i deulu, Hyd at derfyn y Cananead,
A dinas Ninife fawr a Nimrod.
568 *S. Linus.* Pa ſawl cenhedlaeth oedd Heth Canan,
Oddiwth Noah, mae ngofynion; Ond ydi 'r Beibl
hên yn datgan, Ei fod o 'n un o feibion Canan?
569 *Twyſog Hwfa.* 'Roedd Heth yn ſiwr yn fâb i
Ganan, Ac wyr i Ham yn wir heb amgan, A chân i
Albion, a Gog Magog, 'Roedden nhw 'n Dywyſogion
570 Pan yrrwyd Gog a Heth ap Canan [enwog.

Allan

Allan o'i dinaſoedd cadarn, Fe ddarfu i Iſrael eu hanrheithio; Ymma doethon nhwytha ar ddidro.

571 Fe fu yn yr Ynys ymma, Fel y rhoiſim hanes gynna, Saith o Frenhinoedd cedyrn cryfion, Cin dyfod Heth, na Gog, nac Albion.

572 Dyna ichwi gowyr hanes O benaithiaid penna 'r Deyrnas, O'r Diluw ddwr hyd ddiwedd Brutus, Yn Frenhinoedd cyfa cofus.

573 *Syr Linus.* Diolch ichwi 'r Tywyſog *Hwfa*, Dyna hanes o'r cywira; A ſcrifennwn yn ein llyfra Goffadwriaeth i'r oes neſa. [*Exit.*

574 *Gwamal.* Chwi gowſoch ymma lawer hrnes Gan y ddau Bendefig cynes; Hên 'Scolheigion immi ydyn, Pan ſum yn dyſgu plaut y Brenin.

575 Fe ddarfu nhwythau ddyſgu 'n odiaeth, Chwi ellwch wybod wrth eu haraith; Nhw gwmpaſant y Byd llydan, A dadlaſant gwyr yr Athen.

576 A glowch chwi 'r mercheid gyda 'r llangcia, Yr uch yn ddiog am ddwad atta; Mi 'ch clymmaf chwi am ſwllt y pen, Dowch hefo 'ch Gwen tu'g yma.

577 Mi glywais fod Bradwriaeth creulon, Godi o Lu o'r Eleppittion; A'i bod nhw yn lladd ein gwyr yn gethin, Daw preſſio gwyr i'w gwarcha 'n ſydyn.

578 Gwell ichwi wrando ar y llangcia, Nhw rôn eu breichiau am eich gyddfa, A chyttunant i'ch priodi, Mi gaf fi arian beth am hynny.

579 O's ych yn awr wedi cyttuno, Ceiſiwch, bryſſiwch, cyn eich preſſio; Mae gwyr yr Albion yn bur barod, Dan eu harfau hefo 'r Ffrangcod.

580 Mae 'r Elepittiaid yn wyr hyfion, Cymrant gyda nhw 'r morynnion, Yn Legar-ladies oll i'w canlyn, Heb briodi 'run o honyn.

581 Gorau i chwi ddwad i'ch priodi, Cin immi gychwyn, a'm cwmpeini, 'Rydwi 'n myned i drafailio I dir Idal caf fy ledio. [*Exit, Diwedd Gwamal.*

582 *Twyſ. Merfyn.* Mi ddoithim ymma i ganu ffarwel,

Er blined ydwyf ar fy nhrafel, Wedi bod yn Ynys *Manaw*, Lle mae fy mâb yn benna Rhaglaw.

483 Mae fe'n iach, a'i wraig brydferthriw, Merch Tywyſog Conan Tyndaeth ydyw, A'i henw ydyw Eſyllt Fynwy, Ac ynte yw'r Rhodir mawr cymeradwy.

584 'Roedd arnai eiſia galw ymma, I ddywedyd newydd i'm hên ffrindia, Fod ym *Manew* win a brandi A wneiff i'r bobl gynnes ganu,

585 Dowch ymma 'r gwyr boneddigion tawel, I ganu 'r cwmni 'n dduwiol, ffarwel, Rhys Tre-ganwa, tre Gaer-gyffin, Gwalchmai, Mylir, Linus, Elphyn.

Pedwar yn canu ar feſur Ogygia, *neu* Frynia'r Werdd. Tywyſog *Rhys* yn dechra. *Pen.* 586.

Y *Cwmni glân cariadus, diddanus, downus, da,*
Dois ymma i ganu ffarwel i Wen, *lliw'r wy, lloer hâ,*
'Rwi 'n bur rwymedig ichwi am aros ymma cyd,
Os rhowch chwi gennod immi, danfonai chwi adra o hyd.
587 *Y mae fy holl gymdeithion fonddigion doethion dawn,*
Ai bryd ar gychwyn adra cin darfod y prydnhawn,
Er maint yw rhwyſg, a therfyſg, a gogan gwagedd byd,
Peth rheitia ydiw diolch i'r Arglwydd Dduw mewn pryd.
588 *Mi welwn yn ein llyfrau newyddion ddechra'r byd,*
Ar Diluw hyd y dolydd yn boddi pawb o hyd,
Ond pedwar gwr rhinweddol iawn ddeddfol wrth fodd
Ai gwragedd i hepſilio, a phob creadur byw. [*Duw.*
589 *'Roedd gan Noah a'i deulu gyfrwyddyd yn yr arch,*
A llyfrau wedi eu cadw drwy gyngor Duw mewn parch,
O rheini cadd ei feibion a'i wyrion inion iaith,
Wybodaeth am eu iachau, a dyſgu pob rhiw waith. [*a dyn,*
590 *Fe wnaeth yr Alpha Dduwdod gyfammod rhyngtho*
Gan ddwedyd, Ni ddifethaf mor llwyr ond hynny'r ffun,
Os byddwch bobl ufudd, 'rwi 'n gaddo ichwi 'n gall,
Bryniawdwr i'ch eneidiau, a'ch cedwiff rhag y Fall.
591 *Goſodaf yn y cwmwl mewn arwydd hyn i chwi,*
Fy mwa 'n goffadwriaeth, gwaſnaethwch chwitha fi,

Na

Na ddaw tra botho nefoedd, na daiar oeredd, laith,
Mor Diluw i ddifetha trigolion moddion maith.

592 Gen. Elph. *Pan aeth y byd drachefen yn llawn afla-*
A dynol-riw mor aml mewn oedren cyflawn coedd, [wen floedd,
Dwydaſon wrth eu gilydd, Profeidiwn yn ddi-ball,
Gwnawn Ddinas a Thwr uchel rhag digwydd etto wall.

593 *Yr oedd eu ffydd mor egwan, ni chredan ſylwedd*
Yr Arglwydd a'i gyfammod, na'r Enfys foddys fain, (ſain,
Hwy wnânt Briddfeini mwdwal i weithio 'n Sinar Dwr,
A'i uchtwr hyd y Nefoedd rhag ofn ail Ddiluw-ddwr.

594 *Pan welodd Duw eu gweithred a'i twrad ar y tir,*
Gorchmynnodd eu Angylion am fyned yno 'n glir,
A thywall ar eu 'madrodd ynfydrwydd dilwydd dall,
Na fedra neb ddim gweithio, na deall naill mor llall.

Tywyſog Gwalchmai.

595 *Pan aeth yr 'madrodd felly, fe ſafodd gwaith y gwyr,*
Galwaſant henw 'r Ddinas a'r Twr yn Babel bur,
Ar bobl oll-ymrannodd o feſur dau a deg,
A fedra ddeall eu gilydd wrth ſiarad têg a thêg.

596 *Gora i ninna weithan, ar lawr daiarlan driſt,*
Feddwl am was'naethu ein Harglwydd Ieſu Griſt,
A pheidio tyngu a rhegi, na meddwi i borthi 'r Fall,
Onde ni fyddwn dowyll yn twyſo 'r naill y llall.

597 *Y cyngor penna a roddodd ein Harglwydd Dduw i ni,*
Am garu bawb ein gilydd â chalon ffyddlon ffri,
Gan fyned megis Seintiau â phur galonnau glân,
I'r Eglwys i weddio, a dyſgu ein plantas mân.

Brenin Mylir.

598 *Chwi welwch yn y llyfra, a chlywed fel y bu,*
Yr hên Frenhinoedd cedyrn, mae 'n deſtyn hyn i chwi,
Mewn llid yn lladd a mwrdro, gan luſgo 'r naill y lall,
Ac felly bydd y Cythral ar bawb yn ceiſio gwall.

599. *'Rwi fi a'm holl Gwmpeini yn llwyr gynghori 'n llon;*
Am gadw bawb ei galon yn oneſt dan ei fron,
Drwy bur weddio 'n berffaith mewn gobeth helaeth hael,
Drugaredd i'ch eneidiau, a chorou Nef i'w chael.

Dar-

600 *Darllenwch yn yr Scrythur yn gowyr eglur iawn,*
A chofiwch rai o'r geiriau Cynghorion diddan dawn;
Yſtyriwn wrando Pregeth â chalon drymlan driſt,
Meddyliwn am 'r Eſengil ſydd eiria cyſa Criſt.

Syr Linus,

601 *Meddyliwn am y Deyrnas ſydd gynes iawn gan Griſt,*
Gochelwn lwybrau llydain ſy 'n arwan druan driſt.
Na wnawn mor cam ag undyn, ond dwudwn bawb y gwir,
Rhag ofn i deyrnas Sattan yn ſettio iddi 'n glir.

602 *'Rwy ſi 'n gweddio etto i chwi a minna, Amen,*
Am geiſio 'r griſia graſol i ddringo 'r Nefoedd wen,
Lle mae llawenydd nefol dragwyddol foddol fael,
Fy ngweddi a'm hewyllus hollawl i chwi a minna ei chael.
[Amen.

Diwedd ymddiddanion Noah a'i feibion, Y Mageens a'r Derwddon; Bardus a'r beirdd cyſon, Mylir, Brutus, Corenius, Cydwybod, Heth ac Albion, Cybydd, Gwamal, Logran, Camber, Albenactus, [Gwerful, a Gwenllian.

Os gwelwch, wyr diddan downus, (Feia) ar fy 'madrodd anfedrus; Dowch ynghyd, rhowch fryd ar frus I daclu fy ngwaith anhaclus.

Os gwelwch, wyr dethol doethion, (fy meia) Y Mageens a'r Derwddon, Dowch hil Bardus, hwyl bereiddlon, Gwellhewch fy ngwaith mwyniaith *Môn.*

Penillion i beri cofio ac arferu pob Diniweidrwydd,

1 *Mae Adda, Seth, a Henoc, Enos, Noah a'i feibion yn rhoi hanes; Abram, Jôb, a'r Patriarch hir-oes, Yn peri cofio pob gwir Einioes.*

2 *Mae Nimrod oedd yn heliwr cadarn, Yn gwneuthur dynion drwg yn waſarn; Moſes, Dafudd, Selyf ddoetha, O flaen ein llygaid yn rectala.*

3 *Mae Solomon y Pregethwr cowraint, A llawer Prophwyd yn ei henaint, Yn rhagſynegi gwagedd, ſeibiant, Ydi 'r cwbl, ond Duw 'n bendant.*

4 *Mae*

4 *Mae pob dyſyrrwch mwyn diniwad Yn well na thyngu a rhegi wrth ſiarad, A chwaryddiaeth ar y Saboth Sy'n waeth na darllen gwaith gwr anoeth.*

5 *Geill y llyfran bychan ymma Dy rwyſtro dyngu a rhegi y Sulia, Ac ar hirnos, mewn cornela, Ddyſyrru 'r teulu fel hên chwedla.*

6 *Y llangcia ieueingc mewn dyſgeidiaeth, Coſiwch fy ngynghorion afiaeth: Cedwch Saboth y Creawdwr, Gwnewch orch'mynion Criſt ein prynwr.*

Cwſg fy awen druan adroddiad, (addfwyn) *Mae* 'n addfed dy ſiarad, A'm gên hên, wên anynad, Adroddaiſt eiria hyna hâd.

Hanes Brenhinoedd y Brutaniad Hyd ad Gadwalader fendigad; Hanes Elen o Garnarfon, Aeth yn wraig i'r Emprwr *Maxon*, A roes rydit i'r Brutaniaid Oedd yn gaethion dan Rufeiniaid.

Hanes Conan *Cefn Mariadog* I Frydan Fechan Ffraingc aeth Dwyſog, Unfil-ar-ddeg gadd fercheid *Cymru* I fynd yn wragedd i'w holl deulu.

Hanes Twyſogion hên Wlâd *Cambria*, A'r colcatha nôs Glan-gaua, A chaethiwed ein Gwlad nina.

Iacha 'r Brenin Harry 'r Seithfed, O frenhinoedd Brydain a'r Penaethied, Drwy Gant a phump a deg o radda Syr Owen Tudor hyd at Adda; Gin fyrred ag y medris gaſglu, Rhag blino'n awr yr anwyl Gymru.

Mae amriw Lyfrau 'n tyſtiolaethu, Fod y Rhan hyn yn wir difethu; A dechrau'r Llyfr drwy amriw dyſtion O Dduw a dynion yn ddi-ymryſon; Gellwch ddeall fy ngofal fina, I chwilio 'r Beibl a hên Lyfra, Tra byddwyf byw, ni fedrai 'n rhagor,

THOMAS WILIAMS, *Merchant Taylor.*

Hyfforddiad

Hyffordd i rannu y Rhan ymma, *ſef yr* AIL RHAN *o'r Llyfr hwn rhwng* wyth *o Sgolheigion, o's leician eu dreuthu ymyſg Cynnulleidfa, Ar ddydd ne nos gyffredin.*

[Rhifedi y Rhannau.]

1	*Prolog, Gwgan a'r Cybydd,*	3
2	*Logran, Paen, a'r Tryfan*	3
3	*Idwal, ſef y ffwl, a'i ran o'r Epilog*	2
4	*Gwenddol, Elen, a Chydwybod,*	3
5	*Morfydd-llafar, Conan Mariadog*	3
6	*Gronw, Padarn, Phabian,*	3
7	*Llywelyn, Cariadog, Elidir,*	3
8	*Dafydd, Lyci, Merfyn, a rhan o'r Epilog,*	4
	Cymred y Chwaryddion Waew-ffyn, Clefydda, a baneri	24

Dechrau y Prolog.

TRWY 'ch cennad, lân Frutaniaid, Gwyr Lloegr, Cornwal, Scotiaid, Albania, Cymru, gorau gwawr, A'r Werddon fawr Ogygiaid.

2 Os rhowch chwi gennad inni, Ni draethwn ichwi ſtori, Am Frenhinoedd Brydain gaingc A chyrrau Ffraingc mynegi.

3 Mae Teſtyn fy chwaryddiaeth Yn rhoddi hanes perffaith, Am y *Cymru* o'r bôn i'r brig, Cin Brad a dig i'r Dalaith.

4 A Logran a ddaw gynta I gaſglu gwyr dan arfa, Ac i ddywedyd yr achos fu I godi llu rhyfela.

5 Daw ymma ffwl cadafel, A'i Enw Twyſog Idwel, A *Morſudd*, morwyn Gwenddol berl, Merch Rhiſhiard Earl o Gornwal.

6 Daw y Frenhines Gwenddol O Gornwal â llu gwrol I ddial ar Logran a'i ordderchwraig Oedd hafran ſaig anweddol.

7 Ei byddin laddodd Logran A hitha yn boddi Hafran Hefo ei geneth Eſtruld gan, Ai rhwymwyd tan y geulan.

8 Mae Gwenddol yn rheoli Dros bymtheg mhlwydd diwegi, Nes dyfod Madog, ei mab hi, I'w oedran rhi a chyfri. Da

9 Da Gwgan ddoeth 'madroddion, A Gronw gethin Ffrenſhmon; A'r Paen bach o Windſor wen, A'r Tryfan wrth ben llyn Ogwen.

10 Daw Padarn ac Elidir, Cariadog Dafydd frodyr, Llywelyn, Elan, llafar a fydd A Ffabian ſydd a'i chwiorydd.

11 Daw Merfyn ddoeth gofiadur, A dywedyd iacha cowyr Y Brenhinoedd yn yr oes gynt, Fel yr oedd eu hynt drwy 'r Oror.

12 Ac yno daw Cydwybod I 'mddiddan â Chybydd-dod, A Chonan Mariadog Gymro gaingc, Fy ym Mrydain Ffraingc yn Dywyſog.

13 Cewch glywed iacha diwad Y Brenin Harry 'r Seithfed, Wyr Syr Owen Tudorwyr Fôn Hyd Adda dôn yn gyſon.

14 Ar ol i'r Doethion draethu, Daw Idwal i gyd-ganu, Hefo Merfun Manew fry, Mae pawb o'r llu 'n diweddu.

15 'Rwi finna yn terfynu Y Teſtyn hyn o'r Stori; Gwelai debyg i Logran lu Yn dwad tu ag i fynu. [*Exit Dechrau. Y Brenhin* Logran.

16 YDych chwi ymma, fy nwyr lyſti, Dan eich arfa bob cwmpeini, Mae 'n rhaid i mi dan boen fy hoedal Ymladd Câd yn erbyn Cornwal.

17 Darfu 'm gwraig i ddiangc yno At y Corniſh i breſwylio, O achos Hafran forwyn fwynlan, A fydde 'n rhoi i mi ymbell guſan.

18 Fe ddaeth fy Nhâd a'i wyr dan arfa Ar ol diniſtrio dinas Droia I'r Uttalia i geiſio cyngor, Lle gwnaeth gyttundeb hefo Neſtor.

19 Yr oedd y Groegiaid y pryd hynny Yn yr Uttal yn treſmaſu, 'Ar fy Nhaid i 'r Emprwr Neſtor; Ond darfu i'm Tad eu curo o'r fordor.

20 Ar ol heddychu hynny o fwſtwr, Cafodd fy Nhad i ferch yr Emprwr, Yn Wraig briod dda rinwedda, A honno ydoedd fy mam inna.

21 O honi cafodd dri o feibion, Y fi yw 'r hyna o'r rheini 'r awron, Ond darfu i'm cefnder Naplys Emprwr, O'r diwedd fynd yn Ben-Merodwr.

22 Bu fy Nhad yn talu teyrngad, Drigian mhlynedd o deyrnafiad; Llwyth o win am Bart o Uttalia, Cin mordwyo i Ffraingc nag ymma.

23 Fe fy yn Affric yn offrymmu I'r Dduwies Fenws am ei helpu, Mewn cyfrwyddyd ymhle y galla Gael Buwoliaeth i gartrefa.

24 Fe ddyweda'r Dduwies yn ddiamma, Y bydda 'r Ynus werthfawr ymma Iddo 'n drigfa fyth a'i deulu, Os mentra iddi, a lladd y cowri.

25 Oddi yno mynd i'r llongau a'u fawredd, A morio 'n hir at dir y Gogledd, Nes cyfarfod â Chorenius Hefo byddin o wyr grymmus.

26 Darfu i'r ddeubart gyd-gyttuno Yn un fyddin i drafaelio, Ac yn Ffraingc cin dyfod ymma Gwnaethon ynnill tir a mawrdda.

27 Mae ginni dir yn Ffraingc y rwan, A'i henw ydi Brydain Fechan, Lle darfu i'm Tad a'i wyr ag arfa Ar faes ei hynnill wrth ryfela.

28 Y fi ydyw Brenhin *Brydain* weithan, Bu farw Nhad i *Brutus Silvian* Nyni ddoeth ymma o'r Uttalia *A Ffraingc* yn lluoedd o gynlleidfa.

29 Mae ginni ddau o frodur cefnog, Camber ydi 'r nefa Twyfog, *Ac Albenactus*, gwr calonnog, Yn awr fy 'n byw lle 'roedd Gog Magog.

30 Mi glywais fod fy ngwraig i, Gwenddol, Wedi cafglu byddin nerthol, O wyr nerthol i ryfela, Hil *Antenor* o Gaer-Droia.

31 Digio wnaeth fy nghares hoenus, Merch fy nghefnder fawr *Corenius*, *Am* fy mod i 'n Ffrind â Hafran Sydd yn forwyn lywaeth lawan.

32 Rwi 'n cydnabod hyn fy hunan, Fod immi Eneth rhyngthwi a Hafran; Ond mi af rwan i roi battal Yn erbyn Gwenddol a gwyr Cornwal.

33 Mae

33 Mae fy mab i, Madog Logran Yn chwech oed ar ddydd Gwyl Evan; O's rhydd y Cornis i mi nigon, Fe geiff hwnnw wiſgo 'r goron.

34 Mae 'n rhaid immi fynd yn ddidro, Bryſiwch bawb i'm cynorthwyo, Os bydd fy ngwyr i 'n bur yn rhyfal, Gwn na chyll mo'r fintau 'r fattal. [*Exit.*

Dechrau Ymddiddan Idwal *ffwl.*

35 Rhowch imi le i lechu, rwi 'n diangc o'r fattal, Garw o'r llabyddio mae 'r Sawdwyrs o Gornwal, Nhynhw a guraſant Wyr Lloegr laſygus, Lladdaſant nhw Logran oedd Frenin yr Ynus.

36 Mae'n etto yn chwilotta am Hafran ferch hyfryd, *Ac Eſtruld* ei geneth, i'w difa mae 'n enbyd, Mi ddiengais fi ymma o lwchach i lechu, Rhag rhoddi iddynt hanes y ddwy *Duwies* heini.

37 Pobl ryfelgar yw 'r *Cornis* wyr Cornwal, Ymladdant fel llewod heb fwtti yn y fattal, Nhw ddygant fy hoedl o's can't arnai afal; Mi ddienga I Gwm Idwal, o's gallaf i'w hattal.

38 Yn y Cwm hwnnw mae nghegin i a nghoges, Hafottu a'm hafodrag ſy'n gwneud fy nghaws cynes, Mae ginni yno fara, cig, mwſtart, a menyn, A Llyn yn llawn pyſgod, a finag i'w canlyn;

39 Mi allaf fyw yno nes delo rew ormod, *Ac* eira yn y Gaua a'r Gwanwyn riw hylldod, Ni hwyrach y derfydd y rhyfel yng Nghymru, Caf finne 'n y trefydd draw 'n gynnes drigannu.

40 Fy ngwraig i ydi Eilio, merch hynaf y Widdfa, *A'i* Thad hi ydyw *Cidwm* o Nant tal y llynia, Mae chwech ginni o Feibion, a phedair o Ferched, Mi henwa nhw ichwi, o's rhowch i mi gennad.

41 Yr hyna ydyw *Padarn*, ſy ngodrau Nant *Peris*, Mae gantho Dre fechan, a chapel gwych trefnus, Yn Sir *Aberteifi*, mae ginni dyſtiolaeth, *A* digon o bower, a thiroedd da helaeth,

42 Yr ail ydyw *Elidir*, o fryniau 'r uchel fron,

Y trydydd, *Cariadog*, mae ei faes yn Nant Ffrangcon,
Pedwerydd yw *Dafydd*, o Garnedd y Dylyn,
Llywelyn, y pummed, wrth greigiau 'r Melynllyn.

43 Y chweched yw 'r Tryfan, wrth dalcen llyn Og-
Mae gantho ſtât Marchog yn agos i Ruddlan (wan,
Wel, dyna fy meibion a'i tir ar eu henwe
Heb arnyn nhw ffyrling o ardreth yn unlle.

44 Yr hyna o fy mercheid yw 'r Elen lân heini,
A'r ail ydyw Llafar o Gwm-Penllaferli,
Y drydydd yw Ffabian o Foel Faben fechan,
A'r bedwaredd yw Lyci o Foel Lyci lydan.

45 Mae ganthynt hwy wartheg a defaid aneiri,
Geifr, moch, a chyffylau, a mulod yn pori,
Heb arnyn nhw dalu un ffyrling o ardreth,
Dyna i chwi eu henwau nhw a'i tiroedd trwy'r dalaeth.

46 Rwi 'n tybied mae gorau i mi gychwyn a gochal
Mi wela 'r Frenhines yn dyfod o'r fattal,
A Morfudd ei morwyn, merch Rhuſiard a Gornwal,
Mi ddiengaf fi adra i odra Cwm Idwal. [*Exit.*

Dechrau. Gwenddol *y Frenhines.*

47 Rhaid ichwi bellach, holl wyr Lloegr, Ddeall
a gwneuthyd yn ufuddgar, Myfi ydyw Pen Bren-
hines weithen Nes dêl fy mâb dros ugain oedren.

48 Fe ddarfu i mi a'm gwyr o Gornwal, Guro
Logran yn y fattal, *Am* ei waith yn godinebu,
Cadd ei ladd ar faes, a'i gladdu.

49 Cafodd Hafran, a'i baſtardas, Eu boddi yn y
dwr goleulas; O's doi hyd i'r un o'i cheraint,
Nhw gan eu trochi am ei thrachwant.

50 Mi fynnaf gaffael gwyr da doethion, Yn
gynghoriaid a dadlyddion, A chael hefyd rai
Prophwydi I ddatguddio pob drygioni.

51 Myfi ordeinia drwy 'r holl deyrnas, Ym
mhob cantref bump mewn urddas, O wyr dyſcedig
i gynghori, Offrymmu aberth, darllen, gweddi.

52 Mae llyfrau 'r Gyfraith gyda Chamber, Pan
ddaeth

ddaeth a'i luoedd gynta i Loigr, O Gaer Droia, Ffraingc, a'r Idal, Mi gaf gopia o'r rhain heb drafel.

53 Mi af ar fyr i 'ech am Gamber, Fe rydd i mi gynghorion ſyber, Am y Statud clir y deyrnas, Ei lyfrau ef ſy 'n rhoddi 'r hanes.

54 Yr oedd fy mrawd ynghyfraith Camber, Yn ddig wrth Logran am y matter, Fy nhroi fi ffwrth o'm llys brenhinol, A chymryd Hafran yn wraig freiniol.

55 O achos hynny darfu i minna Godi rhyfel, gwyr ac arfa, *A* gorchfygu fy ngwrthnebwyr, Drwy Ewyllys Duw a'm goneſt Sawdwyr.

56 Mi af i edrych am fy machgen, Gobeithio ei fod yn iach a llawen. Duw a'ch catwo, fy holl ddeiliaid, I fyw yn ſobr a diniwad.

57 Dowch, fy morwyn Morfydd wiſgi, Cymrwch gennad y cwmpeini, Mi awn i'mweld â Madog Logran Y fe fydd Frenhin ar holl Frydan. [*Exit.*

58 *Morfudd.* Os rhowch chwi gennad, y cwmpeini, Dwudai beth o'm cyffes ichwi, Rydwi 'n benna morwyn beunydd I'r Frenhines ddiwies ddawnydd.

59 Rwi 'n gweddio gyda 'r Brenhin, A'i fam ſydd etto 'n rainio 'n ddibrin. Pan ddelo fynte i'w gyflawn oedran, Fe geiff y goron iddo ei hunan.

60 Er maint fy mrys, mi ddwuda ichwi, Mae Morfudd Rhiſiard maent i'm henwi; Rydwi 'n ferch i dwyſog *Cornwal*, *Ac* yn perthyn i'r gwaed royal.

61 Merch yw meiſtres i Gorenius O Wenllian fwyngu gymmwys Gynt a fu 'n Frenhines radlon, Yn wraig i Gog neu Magog *Albion.*

62 Pan laddodd Brutus y cawr hwnnw Roedd Gwenllian yn wraig weddw Fe ddaeth Corenius peniaeth yr armi, *Ac* ai cymmerth i'w phriodi.

63 Ffarwel ichwi, y gwyr boneddigion, *Ac* i'r glân ddiwieſa gwnion, Mi af i waitio ar y Frenhines, *A Madog Logran*, ei mab cynnes.

Dechrau Ymadroddion y *Paen.*

Dowch

64 Dowch i fynu, Gwgan fwynlon, Ruch chwi ddoethach na mi ddigon Dywedwch immi beth newyddion *Am* y deyrnas ymma a'r goron.

65 *Dechreu Gwgan.* Mi glywais newydd drwg o'r *Albion*, Fod llu mawr o'r Elepittion Wedi codi rhyfel gwaedlyd, *A* lladd *Albenactus* hefyd.

66 Mae newyddion wedi eu gyrru Hyd y Deyrnas i gael tyrru Lluoedd mowrion a eill ymwared, I ddial ar yr Eleppittiad.

67 Y cowri gynt, a mercheid Danaus, Mewn llong foel a ddaeth i'r Ynus, A gyd heppiliodd a llin Albion, Dyna ddechrau 'r Elepittion.

68 Daeth yno ymladd toſt a hagar, Yn agos iawn i afon Humbar; A hynny ddiengodd rhag eu crogi, Aeth i'r afon fawr i'w boddi.

69 Ac hyd yr ydwi'n deall yr awron Mae dyna ddiwedd holl lin Albion, O ddigerth bod yn ddiarwybod, Rhai yn y de, neu 'r dwyran iſod.

70 *Paen.* Mae hynny 'n wir, rwi finna 'n hysbus, Ar ol i Frutus rannu yr Ynus, Rhwng ei feibion a Chorenius. Ar feddwl fod yn ddiberyglus.

71 Fe gadd Corenius wraig fawr radlon A faſe'n briod gynt ag *Albion*, Roedd ganthi Bower ymerodraeth, Ai merch nhw oedd Gwenddol dda ei llywod-

72 Cafodd Logran Wenddol heini Merch [raeth. *Gwenllian* i'w phriodi O *Gorenius* fwyn ei gefnder, Ai mab nhw oedd Madog Brenhin Lloiger.

73 *Gwgan.* Pedair blwydd ar hugain difri Y bu *Brutus* yn rheoli, A dyna *Albenactus* ynta Wedi darfod yn y dyrfa.

74 Logran ydoedd yr ail Brenhin Am wneud o hono drowſedd gerwin, Gwrthod ei Wraig, a chymryd Hafren, Oedd forwyn ieuangc liniedd lawen.

75 Pan welodd Gwenddol Frenhines hynny Hi aeth i Gornwal-gyrch i gyrchu Lluoedd mowrion llawn o ymwarad, Lladdaſant Logran hefo ei gariad.

76 Dyna

76 Dyna ddiwedd am Locrinus, Ugain mhlynedd rheolodd yr Ynus, *A Gwenddol* wedi fu 'n rheoli Nes dyfod ei mab mewn oed a chyfri.

77 *Padarn. Ar* ol ei fam daeth Madog Logran I fod yn frenhin blin aflawan, Teyrnasodd ddeigian mhlynedd ddibaid, *Ac* yno lladdwyd ef gan fleiddiad.

78 Mempur ap Madog fu 'n rheoli Mewn anllywodraeth a drygioni; Ymhen ugian mhlynedd inion, Fe ai lladdwyd ef gan bryfed gwylltion.

79 Efroc-ap-Membur frenin cadarn, Fe wnaeth Europ oll yn wasarn, Rhyngtho a'i hanner cant blant odiaeth, F' enillodd lawer iawn o orchafiaeth.

80 Brutus Darian Lâs ap Efroc, A fu yn frenin glân calonnog Rheolodd hwnnw ddeigian mhlynedd Mewn pur ddoniau rhannau rhinwedd.

81 Lleon Gawr ap Brutus fu nesa Yn frenin tra moliannus iowndda, Teiladodd drefydd gwychion cyhoedd Tros bump ar hugian o flynyddoedd.

82 Rhun ap Lleon a fu yn frenin, Ac adeiladodd drefydd dichlin; Fe a reolodd naw ar hugien O flynyddoedd yn dda lawen.

83 Bleuddyd ap Rhun fy nesa yn frenin, Mewn dysgeidiaeth doeth yn dilin, Rheolodd hwnnw ugian mhlynedd Mawr ei ddysg, ond eisie amynedd.

84 Llur ap Bleuddyd Llwyd ap Llednas Deugian mhlynedd fu 'n rheoli 'r deyrnas; Ac fe riwliodd ei ferch ynta Ar ei ol bump o flynydda.

85 Wedi hynny fe ddaeth Morgan I ryfela 'n flin aflawan A dwy flynedd fu 'n rheoli Heb waetha 'r Aer oedd gyfion iddi. [*Exit.*

86 Gwgan. *Can dwddiolchoch* Padarn *ddoeth. Yr uch mor ddoeth yn traethu, A phed fae chwi Ddoctor dysg Ne Brophwyd ym mysc y teulu* [Exit.

87 Elidir. *Mae gan inna hanes gwir Pennaethiaid Sir Gaer Droia Ac iacha eu heppil ymma 'n glir Brenhinoedd tir Britannia.*

88 *Cyn-*

88 *Cynhedda mâb merch hyna Lur A brifia yn hybur frenin; Bu dair ar ddeg ar higian maith Yn riwlio 'r Dalaith dewlin.*

89 Rhiallon *mâb* Cynhedda *yn ſiwr A fu fel twr, gwr cadarn; Yn ei amſer ef, prudd ddyddiau gaed Bu 'n glawio gwaed o'r wybren.*

90 *Tros dridia, dwyded, y bu 'r och! Mawr weiddi croch ac ochan, Pan wnaeth hi 'r tir a'r mor yn goch Gweddian, och! ymprydian!*

91 *Gwrgan ap Rhiallon lwth Fu 'n riwlio 'n rhwth ei fola, Dwy ar bymtheg ar higian maith, Blynyddoedd taith ei yrfa.*

92 Sieſyllt, *brawd i* Gwrgan *lon A fu 'n rheoli yn inion, Naw a deigian mhlynedd hîr, Mae hynny yn wir a chyſon.*

93 Iago, *neſa, câr i rhain, A riwliodd y gain Ynys, Bump ar higian, digon gwir, Blynyddoedd clir llwyddianus.*

94 Cynfarch ap Sieſyllt *yn llawn oed Mor deilwng rhoed i riwlio, Deigian a phedair blwydd ar ddeg, Ni feiddia neb mor gwingo.*

95 Gorbodud ap Cynfarch, *yn ddiwad, Fu 'n riwlio 'r wlad yn hwylus, Dair a thrigian, peniaeth Saint, Blynyddoedd braint yr Ynus.*

96 *Dau o feibion oedd gan hwn, Pump mhlynedd crwn rheolant; Ac yno lladdodd y naill y llall, Roedd hynny yn wall anghowrant.*

97 *O achos hynny ei mam nhw a wnaeth Yn ddigon caeth y llwybra, I ddial gwaed yn ſiwr heb pall, Hi laddod y llall â thwcca.*

98 *Ar ol y mwrdwr ymma yn llym Daeth attom bum Protector,; A'r holl Ynys aeth yn gaeth, Fe a'i galwyd nhw Peniaeth Pinor.*

99 *Bu rheini 'n rainio, yn ddrwg eu chwant, Lawn haner cant o ſlwyddi, Nes dyſod* Dyfnwal Gornwal *gynt, Ddawn helynt i reoli.*

100 *Dyna i chwi yr Stori yn wir, Rwi 'n ddigon clir*

clir yn traethu; A'r rhai diwaetha o Lin a Llu Brutus *a fu 'n teyrnaſu.*

101 Padarn. *Can diolch ich'* Elidir *lân, Dowch hefo eich cân i rodio, Gwelai hên wr bychan llon, Tu ag atton yn cyfeirio.* [Exit.

Dechrau Rhan Cydwybod.

102 Gida 'ch cennod bawb o'r Cymru, Mae gwyr yr arian yn cybyddu Ni roen nhw le mewn tre na chaſtall Heb gael tâl diſal yn ddiball.

103 'Rwi 'n trafailio hwyr a bora, A'r nos heb gaffael fawr orphwyſtra, Mae peth cariad immi ym Mrydan; Ond hefo Ffraingc mi ſyrthiais allan.

104 Mae Rhufen fawr, Hyſpaen a'r Ffrangcod Yn gwarcha ar Frydan â blin drallod. Rhag cael dim o'r aur na 'r perla, Na marſhandiaeth adra o'r India.

105 Mi glywais fod ar lawr y doldir, Gybyddion clydion y byd anwir; Pe cawn i daro wrth un o honyn I e'ch a gawn ni letty ganthyn.

106 Mi wela un yn neſu ymma, Pe doe ſe beth agoſach atta. Fe gae glywed rhai cynghorion, O's caf fi lettu a'm cymdeithion.

107 *Cybydd.* Yn rhodd, y Meiſtar, beth yw'ch henw, Pa fodd y byddant yn eich galw? Mae 'r cwmpeini ſy 'n eich canlyn, Oferwyr yw rhai gorau o honyn.

108 *Cydwybod.* Nid oferwyr ſy'n fy nghanlyn, Cynghorwyr ydyw pawb o honyn. Ac yn darllen iacha 'r deyrnas, Y brenhinoedd oll o gwmpas.

109 A rowch chwi letty i mi a'm ffrindia, Chwi gewch wybod beth yw 'n henwa Cydwybod, gwir a phlaen oneſtrwydd, Dyna ein hanes yn dragywydd.

110 Mi ddywedwn ich' hanes Brenhinoedd, A Thywyſogion yr hen oeſoedd, Mi gana dippin am fy lletty Os gwnewch hefo 'm fi gyd-ganu.

111 *Cyb.* Ni fedrai ond ychydig ganu, Gwell ginni glywed buwch yn breſu, Fe fydd tylodion yn fy nigio, Pan fyddant yn fy nrws yn lleiſio.

112 *Cyd.* Cenwch dippin gyda minna, I ddyfyrru 'r lân gyn'lleidfa, Mi ganaf finna rai cynghorion, A wnelo les i'ch enaid gwirion.

Cydwybod *yn dechrau ar feſur* Diniweidrwydd.

113. *Pob trugarog fydd dihalog, chwyrn wr chwannog ydech chwi, Eſmwythder calon fydde i'ch dwy-fron fod un foddion â myfi, Nid mawr gowaeth na gwroliaeth yw 'r orchafiaeth ora ei chael; Bod yn dduwiol heb chwant cnawdol yn dragwyddol foddol fael; Gwell digonedd mewn gwirionedd na gormodedd mawredd maith, Pob bodlon-ger fydd yn rhoddger a benditbgar ar bob taith.*

114 Cybydd. *Rhai gwyr chwannog fydd goludog a chalonnog uchel iawn, Coffor cybydd fyth ni dderfydd ynddo bydd llawenydd llawn, Caf eſmwythder yn fy nghader pan ddel prinder trymder triſt, Heb ofalon gyda 'r mammon, mae fy nghalon yn fy nghiſt. Gwyr tylodion ſoſi beilchion fydd â'i hanghenion yn anghael, Ni choeliai monyn am un gronyn heb arian parod pur diffael.*

115 Cydwybod. *Geill yr hael-was, da ei gymdeithas, ynmill teyrnas, urddas yw, Rhoddi rhoddion da i'r tylodion yn fwyn dirion a fyn Duw; Penna 'nfydion o'r holl ddynion yw 'r cybyddion creulon croes, Ni chân gan awydd fyth fodlonrwydd inion hylwydd yn ei hoes, Y ddaiar lydan fy'n rhy fechan i'r rhai ni's gwyddan ac ni's gwna, Ni chânt o honi moi bodloni ne's mynd iddi 'n hwſmyn da.*

116 Cybydd. *Y goludog a fydd enwog fel gwr arfog ar ei farch, Fe rydd i'r haelion byrſe gweigion, eirie byrion heb fawr barch, Ni cheiff tylodion wrando ddwyton, pawb lle ceiſion a'i nacca, Er na choelir geiriau 'r Geirwir, fe wrandewir arian da; O ran fy ngolyd caf fy ngwnfyd yn bur hyfryd i barhau, Aur melynion yw angylion y Cybyddion clydion clau.*

117 Cydwybod. *Llawn 'wllyſgar gwbl ddiolchgar ac ufuddgar ydwyf fi, Nid wyf mor daerog anrhygarog afel chwannog a chychwi, Mae nghydwybod bur yn barod i dderbyn dyrnod angeu dwys; Doed pan fynno, mae iddo*

iddo groeſo i'm dyſn guddio dan y gwys. Pan ddel diben pen tynghedfan a'm enaid llawen newid lle; Ar awr farwolaeth mae fy ngobaith inion odiaeth yn y Ne.

118 Cybydd. *Fel gwr ar fedain marw ar fyrder, gwan eich hyder, ydych chwi, Mae crediniaeth fel dewiniaeth yn feddiginiaeth gennifi, Ceiff pob cybydd cyfrwys rybydd weled newydd olyd Ne, Da yw'r digwyddiad, o's ceiff ddwad â'i god gaead gyda ge; Mae rhai a ddwad am wr calad a di ymwarad y daw meth, Rhag ofn y gwaetha y ſlwyddyn neſa, mi gyfranna o'm bara beth.*

119 Cydwybod. Dyna ſiarad downus eiria, (*diw. y gân.*) Rwi 'n gobeitho dowch chwi o'r gora, O's caf fi letty gennych heno, Mi gawn chwaneg o ymgomio.

120 *Cybydd.* Dowch hefo 'm adra, mae chwi groeſo, Chwi gewch y peth mae 'r tu 'n i hyfforddio, O's dwydwch immi beth newyddion, Mi awn oddiyma yno 'n inion. (*Exit y ddau.*) *Ymadrodd Tryfan.*

121 Gwrandewch fy ſtori bawb yn ddibrin, Fe ddarfu 'n Lloegr Lin y Brenhin; Pwy ſy neſa o waed Ynghornwal, I fynd yn Frenhin iacha uchal?

122 *Atteb Dafydd.* Dyfnwal iarll ſy neſa Ynghornwal, Ac yn ffittia iacha uchal; Mae yn gâr agos i Gorenius, Ac yn deuryd beth i Brutus.

123 Ac felly Dyfnwal aeth yn Frenhin, Ni bu erioed moi well ar werin, Fe wnaeth lawer o dda rinwedd, Ac a reolodd ddeigian mhlynedd.

124 Beli a Bran oedd feibion Dyfnwal, Fe brifiodd rhyngthyn beth ymrafal; Ei mam Corwena a'i cydgyttuna Dros chwech ar hugain o flynydda.

125 Teiladodd Bran yn nechra 'r gynnen Gaſtell agos i Lan-gollen, A'i mam Corwena a fildiodd Corwen, I'w galw yn ol ei henw ei hunan.

126 Gwrgan ydoedd fab i Beli A ddaeth yn Frenhin cadarn gwedi, Ar y Deyrnas fy 'n rheoli Dros bedair blwydd ar bymtheg coeli.

127 Cyheulyn ydoedd fab i Gwrgan, Rheolodd

chwech o flwyddi ac ugian; A Sieſyllt ydoedd fab iddo ſ'ynta, Rheolodd hwn ſaith o flynydda.

128 Cynfarch ap Sieſullt a fu 'n rheoli Dair blynedd gwnaeth ef ddrwg aneiri, A Danus wedi dros naw mhlynedd, A Morudd Danus wyth creulonedd.

129 Gorfiniaw ap Morudd a reolodd Unarddeg yn dda flynyddoedd, Ac Arthel ydoedd ei fab ynta, Rheolodd hwnnw bump flynydda.

130 *Tryfan.* Elidir y trydydd, mab i Forudd, A reolodd yn gyfion ufudd, Dros bymtheg mhlynedd cin cyttuno Ai frawd i ddyfod i gyd-gordio.

131 Wedi marw rhain ddau frodur, Fe ddaeth Owen hefo Phredur, Meibion Morudd oeddent nhwytha, A rheolaſant naw flynydda.

132 Gofiniaw ydoedd fab i Elidir, Fe fu yn Frenhin cowyr difir, Dros ddeng mhlynedd ar yr Oror, A Morgan frenhin bedair rhagor.

133 Ac yno Einion fab i Arthmel, Ac Idwal ab Owen yn ddi-ymrafel, A reolodd, mae'n bur eglur, Saith ar higian flwyddi cowyr.

134 Ac yno'r brenhin Predur gwedi, A Gwrgant ap Elidir fy 'n rheoli Unarbymtheg mhlwydd ar higian Mewn helaethrwydd bywyd llawan

135 Cadell ap Gwrgant a Choel ap Cadell, A Fforecs ap Coel, frenhinoedd diball, A Cheurun ynte fy 'n rheoli Agos i ddeugian mhlynedd gwedi.

136 Phylcenus, Idal, ac Andreas. Urian, Elidir, clydawg gorwas, Clydno frenhin hefo Meirion, Fu 'n riwlio dair ar higian inion.

137 Bleuddud ap Cyph ac Owen Sieſullt, Bleguryd, Arthmel, Idiol hefyd, Rhyddion Rhydderch, Sawel pura, Fy rhyngthynt ddeigian o flynydda.

138 Cap Manogan, Llydd ap Beli, Caſwallon a Thynhedde heini, Cynfelyn, rhyngthynt fy 'n rheoli Bedwar ugian a phymtheg, coili.

139 Pedair blwydd ar bymtheg dibrin Cin geni

Crist roedd hwnnw 'n Frenin, Ac unarbymtheg ſlwyddi gwedi, Bu 'r un Cynfelyn yn rheoli.

140 Gyda 'ch cennad, af i wared, Mae nhad a'm chwiorydd nhwytha yn dwad; Rhaid imi edrych yn fy llyfra Pa beth a ddywedaf y tro neſa. [*Exit.*

141 *Idwal.* Gwrandewch ba beth yr ydwyf ſi'n ei ſiarad, Mi ddoethim yma i ganmol fy merched, Chwi glywſoch gini ar y cynta, Ymhle mae ſtat, a pheth yw

142 Mae nhw 'n forynion heb briodi, [henwa. Rwi 'n ofni na chan't wyr y leni, Oni ddaw ymma rai o'r Dutſhmyn, A gwyr Portingâl i'w canlyn.

143 Nid oes yma wyr and bechgin anian, Mae fy mercheid i yn bedair cloban; Yr oedd ei mam yn fwy na nhwytha, A'i nain yn agos maint y Widdfa.

144 Mi yrra i ffwrdd Lythyrau ffeilſion, Dywedaf fod ganthynt bower ddigon, Daw gwyr o'r Alps gida ffym hymon, Buſton-caſtle a Hoth o'r Werddon.

145 Os rheini gan't, nhw fyddant gefnog, Cymaint eu pow'r a Job oludog, Rydwif fina wrth fy henw, Yn Record yn Frenhin hoew.

146 Mae fy meibion rai 'n Dwyſogion, A'r lleill yn Dduciaid ac yn Faron; Af i ſcrifennu dros y merchaid, At Hôth a Buſton, Portingâl a'r Dutſhiaid. [*ex.*

147 *Dechrau Ymadrodd* Elen. Gidach cennod, lân Frutaniad, Lodes ydwyf ar fy ngherddad, O'r fron uchel fawr oleuwen, Fe ai gelwif rhai hi *Bryn yr Elen.*

148 Elen yw fy henw finna, Merch i Frenhin Idwal iowndda; Mae ginni dair o chwiorydd heini, A chwech o frodyr yn wyr lyſti.

149 Y ſi ydi 'r benna o fercheid Idwal, Ac mae fy ſtât i 'n uchel anial, Agos cyfuwch am nain y Widdfa, A moel Siabod, neu 'r Eril ucha.

150 Mi fyddaf weithie'n rhodio'r gwaſtad I edrych am fy ſtât i warad; Ond ar y gwres mi ddringa i fynu I'm caſtell Elen i ymoiri.

151 Mae giñni diroedd yn y Dyffryn, A llynia o ddwr

o ddwr, a phyſgod ynddyn, A chin ſy chwiorydd nhwytha hefyd, Bob buwoliaeth odiaeth hyfryd.

152 Mae ſy mrodyr yn rheoli Y fwyaf ran o Ogledd Cymru, O Fod Tryfan Copperleini Hyd Lan Badarn Abertyfi.

153 Mae ſy nhad yn hên a muſgrell, Heb allu dyfod fawr o'i ſtafell, Ynghwm Idwal blaen Nant Ffrangcon, *Mae* gantho bob buwoliaeth ddigon.

154 Rydwi 'n diſgwil ſy nhair chwiorydd I gael ymgomio peth â'n gilydd, Os daw ſy nhad a'm brodyr ymma, Ni gawn newyddion ganthyn nhwytha.

155 Mae Twyſog Ffraingc hyd Gymru a Lloegar, Yn caſglu mercheid ieueingc hawddgar I fynd yn wragedd i'r hen Gymru Sy'n Mrydain Fechan Ffraingc

156 Rhaid i minna gadw 'r merched [yn deulu. Fy myrynnion mewn lle cauad, Rhag ofn Conan Cefn Mariadog O Sir Ddimbach ydi 'r Twyſog.

157 Fy chwaer Llafar, rhodiwch ymma, Chwi ſy 'n byw 'n agoſa atta, Dywedwch immi beth o'r newydd, Pa bryd y gwelſoch chwi fy chwiorydd.

158 *Dechrau. Atteb Llafer.* Mae'n dwy chwiorydd yn iach lawen, Nhw ddon yma 'n o fuan, Ni gawn ymgomio hefo 'n gilydd Am newyddion o'r pell wledydd.

159 Dyma Ffabian bach yn dwad, Mae hi agos yn ein clywad, Fe ddaw Lyci gynta gallo, Ymhell oddiwrthym mae hi 'n tario.

160 Pa bryd y gwelſoch chwi fy mrodyr, Padarn, Tryfan, ac Elidir, Llywelyn, Dafydd, a Chariadog, Rhyfelwyr ydynt, gwyr calonnog.

161 *Ffabian.* Mi glywais fod fy mrawd Cariadog, Yn rhyfelwr drwg afrowiog, Fe dorodd ben Gwenſantes Frewi, Lle darfu ffynnon gwedi godi.

162 Mi glywais hefyd beth rhyfeddol, Aſſio o'i phen a'i chorph yn unol, A bod y graith ynghylch ei gwddw, Run lliw â'r gwaed ne gyffed derw.

163 Mae Rhinwedd fawr ar ddwr y ffynnon, Yn

iachau pob rhiw glefydon, Ac yn rhoddi i'r mudon ſiarad, A'r cloff anafus yn iach gerddad.

164 *Dechrau ymadrodd Luci.* Rwi'n ddig wrth fy mrawd Cariadog, Am fod mor filan ac afrowiog, A thorri pen y forwyn ſantedd, Oedd fawr ei donia rhana

165 Mae ſon mawr drwy holl Europa, [rhinwedd. Am ferthyrdod Gwen dduwiola, Ac am y ffynon a'r dwr iachus Sy'n emendio pobl glwyfus.

166 Fe ddarfu gwneud uwch ben y ffynon Gapel ac adeilad wchion, Trwy orchymmyn Harri yr wythfed, Brenhin Brydain Fawr, a'r Abad.

167 Mi glywais fod Brenhinoedd gwchion, Emprwyr, Duciaid, a Thwyſogion, O dros foroedd yn ymolchi Yn y ffynon hon, a'i pherchi.

168 Beth a ddwydwch chwi, fy chwiorydd, Pwy a welwn ar y mynydd, Mae fe'n debig i'm brawd Llywelyn, A'n tad Idwal yn ei ganlyn.

169 *Elen.* Y nhw ydynt, gwn o'r gora, Fe fu fy Nhad yn nhai tafarna, Yn yfed diod-frag hops a burum, Fe feddwiff honno fo'n o ſydun.

170 *Llafer.* Mae ginni ddiod well na chwrw, Ni wneiff ai hyfo neb yn feddw, Yn fy ſeler Cwm pen llafar, Er amſer Adda ar y ddaiar.

171 *Ffabian.* Mae gin Lywelyn beth newyddion, Am iacha'r gwyr fu'n gwiſgo'r goron, Ni gawn glywed rhai o'i henwa, Os arhoſwn dippin ymma.

172 *Lyci.* Rwi'n meddwl fod fy Nhad yn feddw, Ar ol yfed gwin a chwrw; Ond gora inni fyned adra I'w roddi i gyſgu mewn eſmwythdra.

173 Mae mrawd Llywelyn mewn peryglon, O achos rhyfel Adams Ffrangcon; Os cyll y Cymru'r maes drwy'r cledda, Bydd hynny'n golled fawr i nina.

174 Awn i werad i'w gyfarfod, Mae fe'n agos iawn yn dwad, Ac i gynhorthwy fy Nhad meddw I fynd i gyſgu ar ol ei gwrw. [*Exit y pedwar.*

175 *Llywelyn.* Os rhowch chwi gennad ddiorafin,

Gwrandewch

Gwrandewch arnaf fi, Llywelyn, Mi ddwyda fina henwa a chyfri Rhai o'r Brenhinoedd fu 'n teyrnaſu.

176 Pymtheg difreg a phum ugian Brenin A fu'n rheoli Ynys y Cedyrn, Cin dyfod Saeſon i deyrnaſu, Ac i gaethiwo ar y Cymru.

177 Gwrwydur, Gweyrydd, Coel, a Myric, Llês a Baſſan, Caron, Sefric, Alectus, Coel, Aſclepiodotus, Cyſtenyn; Eyda, Elan weddus,

178 Maxen, Graſien, Gwrtheurn, odinebwr, Emrus, Uthr, Arthur filwr; Cynan, Maelgwyn, Caredig brychwed, Mredydd, Cadfan, Cadwaleder fendiged.

179 Dyna 'r cwbl wedi eu henwi, Ond y Twyſogion fu Ynghymru; Chwi gewch henwau rheini yn inion Gin Gariadog o Nant Ffrangcon.

180 'Nawr mae 'n amſer i mi ymadel At fy ngard a gwyr fy rhyfel Rhag ofn i'r Capten Adams Ffrangcon, Ein curo a'n lladd ni 'r Cymru gwirion.

181 *Idwal.* Par un ai hwyr ai bora ydi, [*Exit y* 2. Yn y Dafarn bum fi 'n meddwi, Ac mi gyſgais wrth y gwely, Mi gefis help cin codi i fyny.

182 A welſoch chwi 'n unlle ddim rhyfele, Fe laddwyd llawer o Frenhinoedd yn rhiw le; Mi glywis henwi pymtheg a chant, Mewn grant o'r dalent ora.

183 Duw a'n catwo ni rhag y Tyrciaid, Ffraingc, a Rhufain, a'r Hyſpainiaid; Nid wyf yn leicio mor Methodiſtied, Rwi 'n rhy hên i droi fy ſieced.

184 Mi glywais ſon am Dwyſogion Cymru, Nad oeddynt ond pobl wlltion hyllgry, Yn lladd eu gilydd, lloſgi, a difetha Yr Yda a'r gweiria, y tai a'r tyra.

185 Yr oedd yr hen Drigolion cynta, Yn well o lawer na rhain ymma, Ni ddarllenis fod dim ymrafal Nes dwad Brutus ymma o'r Uttal.

186 Mae Twyſog Ffraingc yn dwad i fynu, Fe ddwydiff ichwi gron yſtori; Rwyf fi yn hen, mi ollyngis yn ango, Fwy o lawer nag wy 'n ei gofio.

187 Ffarwel y llangcia a'r llangceſi, Os dowch ar

ar f' ol chwi gewch 'ch priodi; Mae'n rhywyr immi fynd i werad, Mae Conan twyſog Ffraingc yn dwad.

Dechrau Ymadrodd Conan Mariadog. [*Ext.*

188 Pa fodd yr uch, y lân gyn'lleidfa, Mi fum yn rhodio 'r Rhufen gaera, Yn danfon ELEN o Garnarfon Aeth yn wraig i'r Emprwr MAXON.

189 Dylaſwn yrru yn gynt newyddion, Fel y torrad yr ymryſon, Ac yr aeth hi 'n heddwch gwaſtad, Rhwng gwyr Rhufen a'r Brutaniad.

190 Roedd carwriaeth drwy freuddwydion Rhwng *Macſen* mab yr Emprwr clowſon Ag Elen merch y Brenin Eyda, Er bod y ddau-dad yn rhyfela.

191 Fe fy Eyda yn Frenin diddan Bedair blwydd ar ddeg ar higian, Ar Frydan Fawr rheoli'n waſtad, Ac yn rhyfela â'r Rhufeiniad.

192 Rydoedd *Macſen* yn aneſmwyth, Heb gael cyſgu 'r nos na gorphwys, Ond breuddwydio am Elen Eyda, Ac felly hitha am dano f' ynta.

193 Fe fu felly 'n hir mewn dwnad, O eiſie cael y dydd ei gweled, Dros dair blynedd yn breuddwydio A chwe mis, heb ddim o'r ffiatrio.

194 Ar ol i Eida ei thad hi farw, Rydoedd Macſen yn dallt yn groew, Mae hi oedd neſa o waed i'r goron, A hynny oedd wrth fodd ei galon.

195 Fe geiſiodd wyr a llongau 'n barod, I gael cychwyn drwy fyfyrdod, Ar ei ſiwrna hefo ei luoedd, I fordwyo ymhell dros foroedd.

196 Yr oedd o yr nos mewn gweledigaeth, Yn well na'r map yn fforddio 'n berffaith, Pan ddaeth ef gynta i olwg tiroedd, Fe gryn adwaena yr Ynyſoedd.

197 Ac yno dechra a wnae gonffeſſio Wrth ei weiſion dan drafaelio; Dyma 'r Afon a'r tir iawndda A welis drwy-fy-hunan gartra.

198 Mac ymma 'n agos, ar fin yr afon, Gappel bychan uwch ben ffynnon, Lle bydd Elen ſantes oleu Yn diſgwyl wrthyf finnau weithiau.

199 Ac yno tynnu a wnae nhw 'n inion, Mynd i'r lan, ac at y ffynnon, A chael Elen ar ei glinia Yn cowyr waitio am dano f' ynta.

200 Ac yno y bu lawenydd cynnas, Yn Llan-Beblig gwnaed priodas; A mynd wedi i'r llongau eilwaith, Adra i Rufen yn ddi-draffaith.

201 Yr ydoedd Elen yn ferch radlon, Hi wnaeth heddwch â'i gelynnion; Ail o ſynwyr i Suſanna, Oedd y gynnes Santes ola.

202 Ac felly 'r oedd ei gwr hi 'n Frenin Ar ol priodi Elen Wenllin; Nhw roeſon rydit i'r Brutaniaid Oedd yn gaethion dan Rufeiniaid.

203 Nhw 'm rhoeſant finna, Conan Mariadog, Ym Mryden-fechan Ffraingc yn Dwyſog, Ac felly 'r ydwi ar fy ſiwrna, Yn myned tu ag yno finna.

204 Rydwi 'n Gymro o anedigaeth, O Sir Ddimbach yn ddiweniaeth; Cefn Mariadog ydi henw I'y nhir a'm tai erioed hyd heddiw.

205 Rydwi 'n caffael, drwy lawn 'wyllus, Fercheid ieueingc glân trwſiadus, I fynd yn wragedd i'r gwyr cryno, Sy 'm Mrydain-fechan yn preſwylio.

206 Mae o honyn gyfri helaeth, Un fil ar ddeg fyrynnion glanwaeth, I gael cadw iaith y Cymru, Yn ddilwgr lwyr lefaru.

207 Rydwi 'n cychwyn tuag adra, Hefo 'r lluaws gwyr a'r llonga, Ac i ordro 'r mercheid heini I Frydain-fechan i'w priodi.

208 Y mwyn Frutaniad, gida'ch cennad, Duw a'ch catwo rhag caethiwad; Ffarwel ichwi rwi 'n ei roddi, Can bendithion byth i'ch cwmni. [*Exit.*

209 *Idwal.* A glowch chwi'r llangcia lleſg am garu, Chwi gewch golled cin y foru, Mae gwyr o Ffraingc yn dwyn y merchad, Chwi fyddwch chwitha yn ymddi-

210 Mi rois ichwi gyngor y tro diwaethe, [fad. I fynd yn briod er yſtyddie, Roeddwn i'n bridio ar y lleuad llawngron, Y bydda gaſclu mercheid gwchion.

211 Ceiſiwch

211 Ceiſiwch chwitha 'r bora foru, I lan y mor fynd i ddrygnadu, Ac i attel hynny a fedroch O'r mercheid gorau bawb a garoch.

212 I'r Ffeiriadau a'r Clochyddion, Un fil ar ddeg o lân fyrynnion, Mae colled fawr eu ffis priodi, A'r llangcia ſyn yn cael eu ſomni.

213 Mi af a'm llyfrau i weddio, Gwnaf fy 'ſgolheigion ddyfal chwilio, Ple 'r llongau mae ſy'n dwyn y merchad, Os gallwn rwyſtro hyn o fwriad. [*Exit.*

214 *Cariadog.* Gwgan Rhus, o's dowch i fynu, Mae ginni ſtori i'ch difyrru, Am Dwyſogion blin, rhyfelgar, A fu 'n rheoli gwledydd Camber.

215 Ifor, Idwal, Iwrch, a Rhodir, Conan Tindaethwy ynta 'n eglir, A fu 'n rheoli mewn anrhydedd, Chwech ugian meddant a naw mhlynedd.

216 Merfun, Eſullt, ac Anarad, Howel, Jeſe, ac Jaco yn ddiwad, Cadwallon, Mredudd, Owen Myric, Saith ugian mhlynedd a naw diddig.

217 Owen etto Blegol, Llywelyn, Aeuden, Anarad, Gruffydd, a Bleuddun, Trahaurn, Cara, ac Owen Gwynedd, Fu ſaith ugian a ſaith mhlynedd.

218 Gruffydd ap Conan, a Dafydd ab Owen, Llywelyn ab Iorwerth, a'r Llaw-goch Owen, Llywelyn ap Gruffydd, heb amme gynnan, Fe aed â'i ben ar beic i

219 Y mae y Cronicl yn tyſtiolaethu, [*Lundan.* Mae dyna ddiwedd Twyſogion Cymru; Llin olynol yn anfwynedd, Dros bedwar cant a phedair blynedd.

220 *Gwgan.* Diolch i chwi, *Cariadog*, yn ddibrin, Mae gynnech Lyfra 'n tyſtio 'r teſtyn; Fe ddaeth wedi fwy caethiwad Ar y triain wael Frutaniad.

221 Fe roes y Saeſon trwy holl Gymru, Un o'r Sawdwyrs i gartrefu, Ymhob tu yn beniaeth weithan, Ar i ormeſu ar ſawr a bychan.

222 Nhw roeſon warcha coeth anguriol, Na chae mo 'r Cymru gadw un Yſgol; Na chwaith mor rhoi eu plant ymhrentis, I ddyſgu un gelfyddyd weddus.

223 Ym mhob tre nhw wnaethont gyngor, Na chae un Cymro o fewn y fordor, Fod yn Swyddog nac yn Fwrdas, Gaethach waethach gwnaed ein lloches.

224 Fe ddarfu rai o'r Cymru diclon, Gofio 'm Dwyll y Cyllill-hirion; Gwnaethon nhwythau mewn byrr amſer Fradwriaeth rhyngthyn yn o ſgeler.

225 Gwnaed Colcatha Nos-Glan-Gaua, A chario diod atti 'n iowndda; Ar ol yfed bawb yn llownion, Torraſant wythi gwaed y Saeſon.

226 Fe fuont daer am roddi gwedi Ormes-deyrn ſ'n caeth reoli; Ond fe ofnodd gwyr y Saeſon, Y bradychid nhwytha yn inion.

227 Ac felly ſafodd hynny o gyngor, Ni yrrwyd Gweſtiwr ddim yn rhagor; Ond er hynny 'roedd y Cymru Yn bur gaethion yn orſeddu.

228 Fe fu 'r Cymru dan gaethiwad, Nes dwad Brenin o'r Cambread, Gant a hanner, gwn o ſlwydda, Cin dyfod Harri 'r Seithfed ymma.

229 *Cariadog*. Dyna burion gwir rhagorol, Fe gadd y Cymru rydit reiol, Ym mhob man yn ddigaethiwad, Pan ddaeth y Brenin Harri 'r Seithfed.

230 Ac felly mae 'r Rheolaeth etto, Yn cadw yr ddeupart i gyttuno; A Duw a'i catwo nhw 'n hollawl weithan, Mi af i orphwys draw i riw-fan.

231 *Gwgan*. Arhoſwch, *Gariadog*, dippin, fwynlan, 'Ruch chwi 'n Gymro odiaethol weithan, Os rhowch i gennad, dwydai 'n ddiwad, Mae Cymro oedd taid Syr

232 Yn Sir Fôn, mae amriw lyfra [*Harri 'r Seithfed*. O'i Gard iacha hyd at Adda, O dad i dad yn waed Brenhinol, Ac yn Bobl addfwyn weddol.

233 Mae 'n wir, Syr Owen Tudor raſol, Gadd y Frenhines yn briodol, A dau o Feibion gadd o honi, Y Duwc RICHMOND hyna o'r rheini.

134 A'r Duwc hwnnw gadd yn briodol, Ferch i Dwyſog YORK dda freiniol, A mab hyna hwnnw yn gyfan, Ydoedd HARRI 'r Seithfed, weithan.

235 A

235 A Harri 'r Seithfed gadd wraig ddedwydd,
Oedd ferch i Edward y pedwerudd, A'i mab nhwytha oedd HARRI 'r wythfed, A'n llwyr-dynnodd o'n
236 Gwedi marw Harri 'r wythfed, [caethiwed.
Fe ddaeth Edward wych y chweched, A Mari'r gynta,
ac Elſbeth wiw-bur, I gadw henw ac iacha Tudur.
237 Merch hyna Harri 'r ſeithfed bybur, Oedd
yr Arglwyddes Marged Tudur, Honno briododd
Jago Steward, Y chweched Brenin ar y Scottiad.
238 Mab i rhain oedd Jago'r cynta, A ddaeth
yn Frenin Brydan Fwya, A dechrau henw a llin
Stiwardiad, Wedi meirw 'r glân Dudoriad.
239 Ar ol y rhain daeth Charls y cynta, A Charls
yr ail, Brenhinoedd ymma; James, Wiliam, Mary, ac
Anne dda gannad, Oedd terfyn henw 'r holl Stiwardiad
240 Ar ol Anne daeth GEORGE y cynta, A GEORGE
yr ail, Brenhinoedd iawndda, A GEORGE ei orwyr,
Twyſog Cymru, Duw gatwo'r ddau i hir lywodraethu.
241 Mae ginni ffrind o dreuthydd gwiſgi, I ddwydyd iacha 'r ſeithfed Harri, O Lin Brenhinoedd eppil
Brutus, Drwy No'h hyd Adda i Ardd Baradwys.
242 Nid rhaid ichwi ddim o'r amma, Fe fu yn
darllen yr ſtraes gora, O waith y Beirdd, Mageens,
Derwddon, A llyfrau Moſes a'r Iddewon.
243 Gora i ni ar hyn o ymddiddan, Fynd i orphwys draw i riw-fan; Ffarwel a fotho i'r cwmni
mwynlan, A'r holl Gymru, byddwch lawan. [*Ex. y* 2.
244. *Gronw.* Gwrandewch hanes, fwyn Frutaniad,
Iacha 'r Brenin Harri 'r Seithfad, O hil Syr Owen
Tudor iowndda, Yn waed Brenhinol Brydan-Fwya.
245 Fy ngwaith i ydiw chwilio llyfra Cymru,
Lloeger, ac Albania; Iacha Brenhinoedd a Thwyſogion Aſia, Cornwal, Ffraingc, a'r Werddon.
246 Mi ddwyda ichwi 'r achos euſus, Y Saeſon
oedd yn genſigennus, Ddyfod neb o Lin y Cymru,
Mor dda odiaethol i lywodraethu.

247 Gyr-

247 Gyrrodd Harri wyr dyſcedig Drwy Europ, Aſia, i chwilio 'n ddiddig, Ymhob Cronicl gora ynddi; Ym mhlas Pen Mynydd Mon caed cyfri.

248 Y Brenin Harri 'r Seithfed weithan, Fab [1] Edmond, fab [2]Owen, fab [3]Mredydd wiwlan, Fab [4] Tudor, fab [5]Gronw, fab [6]Ednyfed fychan, Baron Dimbach, ac Arglwydd Criclan.

249 A phen cynghorwr Llywelyn ab Iorwerth, A'i ben milwr ymhob trafferth Ei wraig ef ydoedd *Gwenllian* ddiwarth, Merch i'r *Twyſog Rhus Deheubarth.*

250 A mam Ednyfad oedd Angharad, Merch i'r *Twyſog Hwfa* yn ddiwad, O Sir Garnarfon lle mae henwa Y tai a'r tiroedd yn Bant-Hwfa.

251 Roedd Ednyfed yn wr prydferth, A'i wraig ddihareb o Ddeheubarth, Roedd ganthyn bower gryn 'merodraeth, A thrigfannau hylwydd helaeth.

252 O hon bu fab i Ednyfed fychan, A'i enw ef ydoedd [7]Gronw heb amgen, Roedd gantho lawer o dai a thyra Ym Mon, ac Arfon, a Dol-gella.

253 Ei Lus penna yn Sir Garnarfon, Oedd yn y Creuddyn wrth Lan Dryllon, Lle gwnaeth ef Gappel i'w Arglwyddes, I addoli'r un Duw wrth ei phwrpas

254 Cafodd gan y Pâp awdurdod Ar y tiroedd puredd parod, Gael degymme i faentimio, Offeiriad yno i breſwyiio.

255 [8]Kynyr oedd daid i Ednyfed fychan, Mab Kynir ydoedd [9]Iers ap [10]Gwgan, A Gwgan ydoedd fab i [11]Marchudd, Hwnnw oedd un o'r pymtheg llwythudd

256 Os rhynga 'ch bodd, y Baron Tryfan, Gorphenwch chwitha 'r iacha allan, Fe ddaw Elidir yma 'ch helpu, I orphen adrodd cronicl Harri. [*Exit.*

157 *Tryfan.* Mab oedd Marchudd i [12]Conan ab [13] Elphyn, Fab i [14]Môr ap [15]Mynan, newyn tyrchyn, Fab [16]Iſbus, [17]Cadroc, [18]Calch, ac [19]Efnudd, Earl Dunſtable, Arglwydd Northamptudd.

258 Fab [20]Cwud ap [21]Ceidion, fab [22]Cynfelyn,

Fab

Fab [23]Arthus ap [24]Morudd ap [25]Cynaw canyn,
Fab [26]Coel [27]Godebog, Brenin Brydan,
Yn y ſeithfed gradd ar hugian.

259 Mab oedd Coel i [28]Tegfan [29]Tudbwl,
Fab i [30]Urban, fab [31]Gradd, ap [32]Ryfeddwl
Fab [33]Rhydion, [34]Endigent, fab i [35]Endos
Fab [36]Endeurn, fab [37]Enid, fab [38]Enos,

260 Fab [39]Enddolaw, [40]Afalach ap [41]Beli, Brenin Brydan, a châr i Harri, Tu fewn i'r unfed gradd a deugian O dâd i dâd, a'i daid Syr Owen.

261 Mab oedd Beli i [42] Manogan, Fab [43]Cacſor, fab [44]Sawel [45]Rhyddech, [46]Rhyddawn,
Fab [47]Arthel, [48]Eidiol, [49]Sieſull, [50]Owen,
Fab [51]Bleuddyd, [52]Meirion, [53]Crwſt ap [54]Clydan. [*Ex*

262 *Elidir.* Iechyd i'r treuthydd Tryfan werin,
Ru'ch chwi yn darllen er ys meitin, Gadewch i ninna orphen yr iacha, Cymrwch chwitha beth eſmwythdra.

263 Y mae henwau 'r hên Frenhinoedd, I'w deall a'i darllen yn o anodd, Y neſa yw pymtheg gradd a deigian O iacha Harri 'r Seithfed weithan.

264 Rhag eich dal yn rheir i wrando Adrodda y reſt o'r iacha ar fyrdro Chwi gewch eu henwau yn y llyfra Lle mae Cronicl y Talaetha.

265 [55]Ithal, [56]Urian, [57]Andrew, [58]Porecs,
Fab [59]Coel, fab [60]Cadell ap [61]Cerant, [62]Eldocs,
Fab [63]Elidir, [64]Morudd, [65]Dan ap [66]Sieſullt,
[67]Cyheulun, [68]Gwrgan, [69]Dywal orullt.

266 Fab [70]Dodion, [71]Enyd, [72]Cwrd fab [73]Cyrdon
Fab [74]Lur ap [75]Bleuddud, fab i [76]Rhynon,
Fab [77]Cynhedd ap [78]Rhun, fab [79]Lleon,
Fab [80]Brutus Darian lâs heddychlon.

267 Y Brutus hwnnw oedd fab i [81]Efroc, Fab i [82]Membur, fab i [83]Fadoc, Fab i [84]Logran fab i [85]Brutus, Yn frenhinoedd cyfa cofus.

268 Rhag bod dim yn fyrr o'r iacha, Harri yr Seithfed hyd at Adda; Adrodda reſt o'r cronicl iowndda O Brutus at Seth drwy lyfra Troia.

269 Brutus ap 86Sylfius fab 87Eſerius, Fab i 88Eneas, 89Encyas, 90Paſtinius, Fab 91Eſganius ap 92Tabius 93Aſarius, Fab i 94Troas, fab 95Greulonius.

270 Fab 96Daron, fab 97Jupiter, fab 98Saturnus, Fab 99Titus ap 100Silfius, fab i 101Cyprus, Fab i 102Aſcenas ap 103Gomer ap 104Japheth; Dyna iacha o'r Beibil pr ffaith.

271 Japheth fab 105Noah, fab 106Lamech 107Methuſlah, Fab 108Henoch, fab 109Jared, fab 110Mahalaleel, Fab 111Cenan, fab 112Enos, fab 113Seth, fab 114Adda, Ac oll, trwy râs, plant 115DUW gorucha.

272 Mae llyfr mawr ar brint yn Saeſneg, Yn tyſtio hyn yn wir dda atteg, Fod Harri'r Seithfed o hil Brenhinol Drwy gant a phymtheg gradd rhagorol.

273 *Ar* hyn yn awr mi gymra nghenad, Mae'r Brenin Idwal ynta yn dwad, Ni gawn newyddion gwrion gwaſtad Ymhell y bu'n priodi ei ferchad.

274 Daw Merfun i ddwydyd iacha'r merched, Mam a neiniau Harri'r Seithfed. Roedd un o Ffraingc a'r lleill o Gymru, Mae gantho lyfr yn tyſtiolaethu. [*Ex.*

275 *Idwal. A* glowi di, fy mab Elidir, Mae ginni ſtori ddigon difir, Mi fum yn *Alps* a chaſtell Buſton, Yn Portingâl, a Hôth, a'r Werddon.

276 *Ac* meddwch chwithau'r lan gynlleidfa, Oni ddarfu immi fryſio adra, Priodi yn glau fy mercheid glana I'r gwyr mwya o fewn Europa.

277 Llythyrau a wnaeth yr holl fatterion, Er ei bod nhw'n ddigon ffeilſion; Nid oes ginni fatter mwy am hynny, Gan gael fy mercheid eu priodi.

178 Gwyr mawrion da ſy well ymwarad, Na rhiw goriad mân neu Dyrciad, Os daw rhyfel draw neu draphaeth, Fy meibion byth ni ffôn ynghyfraeth.

279 Ffarwel i bawb, rwi'n ddigon bodlon, I'm gwiw ferched a'm holl feibion; Mae nhw eu gid yn fawr a pharchus, *Ac* yn uwch na neb yn'r Ynus.

280 Mi

The GENEALOGY of HENRY VII. King of ENGLAND, *Of the Line of* TUDOR *down to* ADAM.

HENRY VII. King of ENGLAND, *the Son of* Edmond 1; *the Son of* Owen 2; *the Son of* Mredydd 3; *the Son of* Tudor 4; *the Son of* Gronw 5; *the Son of* Ednyfed 6, (Baron of Denbigh, and Lord of Criclan, Preſident of the Council to Llywelyn ap Iorwerth, and Generaliſſimo;) *the Son of* Gronw 7; *the Son of* Kynir 8; *the Son of* Iers 9; *the Son of* Gwgan 10; *the Son of* Marchudd 11; *the Son of* Conan 12; *the Son of* Elphyn 13; *the Son of* Mor 14; *the Son of* Mynan 15; *the Son of* Iſbus 16; *the Son of* Cadroc 17; *the Son of* Calch 18; *the Son of* Efnudd 19, (Earl of Dunſtable, and Lord of Northampton;) *the Son of* Cwyd 20; *the Son of* Ceydion 21; *the Son of* Cynfel 22; *the Son of* Arthys 23; *the Son of* Morudd 24; *the Son of* Cynan 25; *the Son of* Coel 26; *the Son of* Godebog 27, (King of Britain;) *the Son of* Tegfan 28; *the Son of* Tudbwl 29; *the Son of* Urban 30; *the Son of* Gradd 31; *the Son of* Rhyfeddwl 32; *the Son of* Rhyddion 33; *the Son of* Endigent 34; *the Son of* Endol 35; *the Son of* Endeurn 36; *the Son of* Enid 37; *the Sou of* Enos 38; *the Son of* Enddolaw 39; *the Son of* Afalach 40; *the Son of* Beli 41, (King of Britain;) *the Son of* Manogan 42; *the Son of* Cacſor 43; *the Son of* Sawel 44; *the Son of* Rhyddech 45; *the Son of* Rhyddan 46; *the Son of* Arthel 47; *the Son of* Eidiol 48; *the Son of* Sieſull 49; *the Son of* Owen 50; *the Son of* Bleuddud 51; *the Son of* Meirion 52; *the Son of* Crwſt 53; *the Son of* Clydan 54; *the Son of* Ithal 55; *the Son of* Urian 56; *the Son of* Andrew 57; *the Son of* Porex 58; *the Son of* Coel 59; *the Son of* Cadell 60; *the Son of* Cerant 61; *the Son of* Eldox 62; *the Son of* Elidir 63; *the Son of* Morudd 64; *the Son of* Dan 65; *the Son of* Sieſullt 66; *the Son of* Cyheulun 67; *the Son of* Gwrgan 68; *the Son of* Dyfnwal 69; *the Son of* Dodion 70; *the Son of* Enyd 71; *the Son of* Cwrd 72; *the Son of* Cyrdon 73; *the Son of* Lur 74; *the Son of* Bleuddud 75; *the Son of* Rhynon 76; *the Son of* Cynhedd 77; *the Son of* Rhyn 78; *the Son of* Lleon 79; *the Son of* Brutus 80; *the Son of* Efroc 81; *the Son of* Membur 82; *the Son of* Madog 83; *the Son of* Logran 84; *the Son of* Brutus 85; *the Son of* Sylvius 86; *the Son of* Eſerius 87; *the Son of* Eneas 88; *the Son of* Enkyas 89; *the Son of* Paſtinius 90; *the Son of* Eſganius 91; *the ſon of* Tabius 92; *the ſon of* Aſarius 93; *the ſon of* Troas 94; *the ſon of* Greulonius 95; *the ſon of* Daron 96; *the ſon of* Jupiter 67; *the ſon of* Saturnus 98; *the ſon of* Titus 99; *the ſon of* Sylvius 100; *the ſon of* Cyprus 101; *the ſon of* Aſkenas 102; *the ſon of* Gomer 103; *the ſon of* Japheth 104; *the ſon of* Noah 105; *the ſon of* Lamech 106; *the ſon of* Methuſelah 107; *the ſon of* Enoch 108; *the ſon of* Jared 109; *the ſon of* Mahalaleel 110; *the ſon of* Cainan 111; *the ſon of* Enos 112; *the ſon of* Seth 113; *the ſon of* Adam 114; *the ſon of* GOD 115.

280 Mi af i rodio i fryniau Cymru; Dyma wr o Fanew yn dwad i fynu, Mae gantho iacha 'r mercheid gwcha A chanu hefyd i'r gynlleidfa. [*Exit.*

281 *Merfun.* Dyma Gymro, os rhowch chwi genad, O Ynus Manew rydwi 'n dwad, Yn Sir Fôn yr oedd fy nhrigfa, Pan aeth fy mab i Fanew gynta,

282 Fy mab fydd yno yn rheoli, Rhodir mawr ap Merfun ydi, A'i wraig ef ydiw Eſyllt Fynwy, Merch i'r Twyſog Conan Tundaethwy.

283 Mae yn fy mryd i draethu 'n eglur, Iacha Mam Syr Owen Tudur, Ei nain a'i henain a'i rhieni Oed neiniau cu i'r Seithfed Harri.

284 Mam a neiniau Owen Tudor, O Ben Mynydd Môn a'i goror, A gwraig Syr Owen oedd nain eured, I'r Brenin mwynedd Harri 'r Seithfed.

285 Mam y Brenin Harri 'r Seithfed, Oedd o Frenhinoedd Yorc yn dwad, Ac un o'i neiniau oedd o'r Ffrangcod, Merch i Siarls o Ffraingc rwy'n gwybod

286 Ei neiniau eraill oedd Gymreſod, Gwenllian gwraig Ednyfed eurglod, A mam Ednyfed oedd Ængharad, Merch ir Twyſog Hwfa yn ddiwad.

287 Yn Sir Garnarfon roedd ei drigfa Wrth foel Ffabian ym mhant Hwfa, A'i gaſtell arall, Dol y Pebill, Llwyn Ednyfed, a Chaea llywurch,

288 Hen nain Harri oedd Gwenllian ddiwarth, Merch i'r Twyſog Rhus Deheubarth, O Margad merch i Tho. Llywelun Arglwydd Is Coed wrth Fangor eurlwyn

289 Roedd yr henwa ſy etto 'n canlyn Yn neinia cu drwy iacha dibrin, Mercheid Brehinoedd a Thwyſogion Ac i Harri yn neinia rhadlon.

290 Gwawd oedd ferch i Goel godebog, Ac i Harri yn nain fwyn rywiog, A nain i Harri, Enghared Mredydd, Merch Twyſog Powys arfa celfydd.

291 Roedd Engharad merch Myric Dyfnwal Yn nain i Harri, ac wyres Howal, Ac Adlias merch i Arglwydd Gwental, A Morfudd merch Rhuſiard Twyſog Cornwal.

292 A

292 A Morfudd hopno oedd forwyn gyfan I'r Frenhines gwraig i Logran, A merch Corenius ydoedd hitha, Brenin Cornwal gynt oedd ynta.

293 'Rydoedd Gwerful, Madog, Logran, A hen nain arall, Luce fwyneiddlan, Yn oreſgynydd Teganwy ap Tudno, A Marged Llywelun, Mawd ac Elino.

294 Dyna ddiwedd part or iacha, 'Rwi 'n canu yn iach i'r holl gynlleidfa, Ar fedr myned etto i Fanew, Lle mae fy mab yn benna Rhaglaw.

295 'Roedd arnai eiſie galw ymma, I ddwydyd newydd i'm hên ffrindia, Fod ym Manew win a brandi A wneiff i'r bobl gynnes ganu.

296 Mi ganaf finna beth o ffarwel, Dowch yma'r glân bendefig Idwel; Gwrandewch arnon y cwmpeini, Dyma ddiwedd yr holl ſtori.

Cân ar feſur a elwir, Ffarwel Ned Pugh.

297 *Yr holl gynlleidfa llawen lân, gwrandewch ar gân roi ffarwel, 'Rum ni ar gychwyn pawb i'n taith, mynd adra maith yw 'n trafel, Cymrwch ofal mawr a mân, y llangcia glân a'r bechgin, Rhag yfed gormod ddiod dda, na meddwi ar gwrw'r gerwin. Yſtyriwch yr ſteppia ſy 'n llymion a'r llama, Os llithrwch i'r eitha yn egwan eich penna, Chwi fyddwch wrth grwppia 'n ymgropian. Cewch dole yn eich talcen, a'ch gwiſcoedd yn aflan, Yn debig i waſern, neu fôch yn y dommen, Os digwydd mor lippa chwi ymlepian.*

298 Idwal. *Yr holl wragedd downus glân, a'r mercheid mân enethod, Rydwi'n diolch ichwi yn fawr, am aros awr fy nghenod, Mi gychwna, ond rhoi ffarwel, i odra del Cwm Idwal, Mae ichwi groeſo os dowch ar f' ol, cewch ganu a downſio 'n dawal, Mae yno gerddorion, telynau, pibyddion, ffidleriad a ſymphon, A'r dylſimer gyſon, pſaltring den inion dôn anwyl, Cewch fara ac ymenyn, a vineg pyſgodyn, A chig-coch y gwdyn, a mwſtart i'w ganlyn, A llaeth a chaws melyn da manwyl.*

299 Merfun. *Mae gini etto benill bach, i ganu 'n iach i'r cwmni; A chwedi hynny af i'm taith, i bwylio 'n faith*

fôr heli, Fy holl weiſion ymbartowch, i Fanew dowch yn fwynedd, Chwi gewch yno frandi da, a gwin a bara'n beredd; A chwitha'r glân ferchad, os leiciwch chwi ddwad, Cewch groeſo diniwed, a pharlwr i yfad, A ſiwgwr a chlarad iach lwyrus, Mae'r llongwyrs yn waitio am danon cin hwylio, Rhaid cychwyn ar fyrdro, nid ellwn mo'r tario, Rhag ofn i'r gwynt lacio'n anlwcus.

300 Idwal. *Ffarwel ichwi twyſog Môn, mi gana dôn yn dawel, Os uch chwi'n mynd i Fanew 'n flat, mi af ſina at Gwm Idwel, Rwi'n rhoi fy ngweddi forau a hwyr, am rwydeb llwyr i'ch ſiwrna, Ac i'r gynlleidfa bod ag un, yn iach yr elon adra; Caf ſina rai cwmni i fyned i fynu, Mae'r* Tryfan *a'i deulu yn cychwyn y foru, Mi awn oll yn ddiwegi rywiogedd, Trwy ganol Nant Ffrangcon, ni lediwn yn inion, A'n gwyr a'n cerddorion, os dowch chwi 'r myrynion, Cewch groeſo da i glydion dai gwladedd.*

Diwedd ymadroddion diniwad
Y Cymru a'r hen Frutaniad,
Os gwelwch, fy nghyd-frodyr Frydan, (feia)
Ar f' ymadrodd wrth ddarllan, Gwnewch heb achwyn yn ddi ochan Wellhâd a rhâd ymhob rhan.
Cwſg fy awen llawen wellhâd (Yn llonydd)
Er llowned fy lluddad, Mae fy mhen fel cloch nen ei nâd, Swn anianol ſain anynad.

Amriw Benillion ac Englynion, a Chywydd Galarnad, a Theſtyn pob un o'i flaen.

Englyn i Fam-fedydd Eglwys-blwy Llan Eurgan, Flint.

Eurgan fwynlan feinlwwys, (Merch Maelgwyn)
Oedd Frenin yr Ynus, Chwaer Hun o'r Raw lyn areil-lys, Y Nyffryn glan Conwy glyn cynwys.

Maelgwyn fy frenin 35 blynyddoedd, 552 amſer.

Englyn i Bont Plâs Eſgob Bangor pan wnaed hi.

Bwa maen gwyn tyn i'r Tâd (Herin)
Fel hanner y lleuad, Pont yw hon, pam nad ae yn rhâd I'w Gaerwen Lys agorad.

Englyn

Englyn i wr a ganodd i Awdwr y llyfr hwn.

Fe ganodd Hugh ddiddan ddwys (I Domas)
Fawl purlan pereiddlwys, Fel gemmau ganiadau
nodys, Ne berlau glain gole glwys.

Englyn Henwau Rhieni Gwr.

1 Thomas ap 2 Rhiſiard 3 Sion fwynedd (Ap 4 Rhiſiard) Ap 5 Robert rinweddedd Ap 6 Hugh 7 Evan 8 Iocos 9 Howel haeledd, Ap 10 Gethin, 11 Siengcyn 12 Sion yr hedd. *Penillion i annerch* R.P. *ſef hanes fy nghegin a'i chyflyſdra.* 1 Iach hoewedd wych athro diwaeledd,
Rwi 'n gyrru 'n fyfyriedd benilliedd bwyll hedd,
Iawn hanes fy Nghaban ſy ddwl a ſaith ddolan,
Mae f' amcan yn egwan iawn agwedd.

2 Mae 'r *Marſhand* bob amſer a'i law yn y mortar,
Ni chammod ei gymmer wr ſyber i'r ſwydd;
Teiladu, palmantu, cau 'r meuſydd, arloiſi,
Plannu, gwneud gerddi i gnwd gordda.

3 Teiladais Du hwylus iawn hollawl, wrth f' wyllus,
Mae ſaith henw dilus yn hoenus ar hwn,
Pe cawn i bapurlen mi a'i henwn nhw 'n fuan,
A phin ac ingc medran ymadrodd.

4 1 Tu Tlodion i gyſcu, Tu 2 Stabel wrth hynny,
3 Tu Taflod i fragu da frigin yr haidd,
4 Tu Odyn i graſu, 5 Tu Darllaw, 6 Tu Pobi,
7 Tu 'r Mercheid er golchi yn hamgylchodd.

Englynion diolchgarwch a chlôd i'r meddig a daclodd fy llaw.

1 Canaf, clodforaf, clud fawl, (i'r puredd)
Hugh Parri ragorawl; Doctor da, meddig, a
mawl Y Brutaniad brud doniawl.

2 Deunyddia pereiddia bob pryd, (Ddigonedd)
I drin ei gelfyddyd, *A'i* orchwyl tra da nid drud,
Yn iachiau pob afiechyd.

3 Ennaint tra llym tri llêd (dwf eli)
Dâf olew di-ymarbed, *A* dynnodd o'm llaw
dammed, Yſgyren lwydwen ddau-led.

4 Roedd ei Dad yn feddig da foddion, (Edmond)

Pur

Pur Parri perffeiddion, Da y gwnaerh dilyn ei dôn, Daſg gu fab, dyſgu ei feibion.

5 Hugh ar yr rhiw ora rhain, (Gwir feddig) Caredig cariadſain, Iachiau 'r anafus gloff fel glain, Y clwyfus a'r claf aniain.

Haeddianol glod i Wraig y Meddig.

6 Dorti wiſgi dda eu gwaith, (hylaw) Am hwylio hyſwiaeth, Da ei chroeſo hael, nid croes ei hiaith, O'i Bwttri a'i Seler ddi ſalwaith.

7 Swccwr di-lwgr i Dlodion (anafus,) A Nodded i'r cleiſion; Ymborth ymgeledd nid gwaelion, Trwy Gymru a Lloegr ſiwr mae ſôn.

8 Mae gobeth tra helaeth i haelion, (Gyfranwyr) Dyladwyr i dylodion; O dda 'r byd ymma tra bôn, Ceiff eu heneidia Nef radda naf' roddion.

9 Benditliion gwlith Hebron gwobrwyau, Am lwyſedd ddi-lus eluſenau, *Aen* fel Saint i wlad y Seintiau, Pan ddelo 'r hun o derfyn dau.

10 Ym maen y Bardd hoew hardd hên Mae annedd Ei noddfa a'i wenwdden, *Ar* fryn uwch glyn glan Conwy fel tir Canan.

Englynion *i Squier* Coetmor, *pan ddaeth i gymryd meddiant yn ei Stât.*

1 *Croeſo mawr llwyddo mor llon, I'r perchen a'r parchus aer cyſion* Coytmor *cawn dawn da don, Squier, bil Eſquier's haelion.*

2 *Duw dr'efno lon hylaw lân hwylus, I'w berchen wraig barchus ddifeius O dylwyth draw o'r dalaeth, Dawn addyſc dda ei deunyddiaeth.*

3 *A honno yn llawn dra ddawn trwy Dduw, Ei golyd, a'i gole berffeithriw, Sain ſynwyr ber ſoniarus byw Ail Elen lawen oleuliw.*

4 *I fyw yn enw Duw yn iawn deg I'w oedren, Daeth ordor cyſiawndeg, Perchen yr ſtôr a'r tryſor teg, Piler aur aden oreudeg.*

5 *Llawenydd, bydd amal deydd du, Pan ddelo*

Fe

Fe â'r Elain reiol-dda, Duw i'w llwydd yn rhwydd a'i mawrha A glân eppil yn Eurepa.

6 *Bendithion llownion i'ch llys,* Coytmor, *A'ch catwo yn llon hyddysg, I feuthryn dawn arfaethu dysg, I'ch heppil fel gemmau fawl gymysg.*

Englynion i annerch W. R.

1 *Croeso mawr llwyddo mor llon, I'r Ynus, Fo ei anwyl gâr ffyddlon, Pa ham y teriaist tu hwynt ir afon Cyd fry o'r llysr-dy llon.*

2 *Clywais, a choiliais, wych aelod, Dy farw, A'th fwrw mewn beddrod; Ond yn awr adwyn dy nod Yn ddi-ddottio rwyt heb ymddattod.*

3 *Da ginni, fy nghâr digymwr, Dy ddwad, Trwy Dduw ein Hachubwr. Ith wlad dda râd wir awdwr, Pereryn llon, pur eiria llwyr.*

4 *Duw lwyddo gynhyddo gynhaliant I gynhyrchu Gwir orchwyl dy dalent, Er i gwmwl rhwyd fel rhent, Dy laesu yn ddi lesient.*

5 *Trafeiliaist, gwelaist ddigwilydd, Bobloedd yn babblio am eu crefydd, Rheist oleuni hyd rai lennydd, Holand, Spaen, haelwas bydd.*

6 *Well well heb wall ewyllys, Fel Eilfyd, fuwoliaeth lân barchus, Itti y bo tewa bydd, Am ddychwell yn dda awchlydd.*

7 *Tangnhefedd Duw 'r Mowredd maeth A gatwo itti gyttun fuwoliaeth, Wrth dy fwydd rhwydd yr aeth Y byd gwibbus mewn gwybodaeth.*

Ymddiddan rhwng y Bardd *a'r* Wialchen, *ar fesur* Gwilim Fwynedd.

1 *Bardd.* Dydd da fo i'r Wialchen lowddu lonydd, A'r big felan, fiongcan hedydd, A ei di 'n gennad dros y gwanna, I'r Deheudir ddwyran heda, Disgyn yno yn llwyn Deiana.

2 *Wialchen.* Gwrando, Gymro annyscedig, Ymhle cefaist hanes Hynig, Dyna 'r henw roes hen Gymru, Wrth wneud allor i aberthu, Cin gwneud pebill i anneddu.

3 *Bardd.*

3 *Bardd.* Mi glywais ſina wneud o'r Cymru, Lle mae *Llyndan* allor felly, Ac aberthaſant fyſtych, hyrddod, I'w Diwies fawr Deiana hynod, Yn gwit i'r Ynus ar ol dyfod.

4 *Wialchen.* Ymhen ennyd ar ol hynny, Gwedi curo a lladd y Cowri, Torraſant Llwyn Deiana goedydd, I adeiladu Troia-newydd, Er cofio a'm Aſia barthau borthydd.

5 *Bardd.* Pura aderyn wyt ti 'r *Wialchen*, Gorau ei cho, a hyna heden, Pe cawn i awr a'th dì ymgomio, Ar forau teg pan ddelit heibio, Bryſia, fuwchydd, gwilia 'th fachio.

6 *Wialchen.* Da yw dy gyngor, Gymro gwirion, O herwydd llid mawr adar llwydion, Sydd i mi a'm holl riw deulu, O hil Aron a Llwyth Leſi, Rwi 'n ofni 'r bleiddiad cigfrad cegfru.

7 *Bardd.* Nac ofna monynt mwy na Dafudd Goleiah o Gath ar ben y mynydd, Gobeitha ei bwriad megis Balac, Wrth Balam gynt am blant yr Iſaac, Neu fel Realſon fawr ddi-attec.

8 Mentra, Hedan, lawen liwber, Oddiwrth ddeuddyn o hil Camber, T. ac H. ſydd bur yn annerch W. a G. drwy gowyr draſerch, Cofia 'r adrodd, felly dwydech.

9 Ein gwaſanaeth dwg yn ffyddlon, I Lwyn Deiana i ddeuddyn dirion, Mae nhw 'n byw yn Nhroya-newydd, Sef Caer-lydd a Llundan beunydd, Henwa hyna 'r Ddinas gelfydd.

10 Annerch anwyl Wiliam hylaw, A doro 'r llythyr yn ei ddwylaw, Cofia Siors, mae ſiars am hynny, Oddiwrth ei brawd, a phawb ſy i'w caru, Pan gychwnaiſt Hedan lowddu.

11 Dwg waſanaeth teulu Crymlyn, Conwy, yr Gyffin, a'r Llwyn Celyn, Dwad fod eu Ceraint ffyddlon, A'u gweddi a'm obeth da o'r meibion, Pau gychwnaiſt, Hedan feinlon.

12 Cofia

12 Cofia alw wrth ddwad adra, I ddwyddyd newydd mwyn i mina, Pa fodd y mae y byd o gwmpas, A gawn ni heddwch yn y deyrnas: Rhwydeb itti yr Wialchen gynnas.

Englynion i LEWIS MORRIS, *Eſq;*
Sef Clôd i'w Gowreindeb ar y Môr.

1 LEWIS, wr downus di dwn, (MORRIS,) Mur addyſc mawr-addwn, Chwalwr y mor, chwiliwr hwn, A'i fronna dan donna hyd annwn.

2 Piler di-gymmer gôr, (Lamp gole) Yn goleuo i'r agendor, Mae d' eiriau maith ar dir a môr, Dau-werth aur yn wneuthyror.

3 Pob Aber dyner dan donn, (Pob porthladd) pob parthau o'r eigion, Pob craig arw ſaig ſon, Pob drwg naws rhoiſt haneſion.

4 Pob trwyn drwg ſwyn draig ſiol, (Pob yſgwydd) Pob oſgedd llechweddol, Pob carn hir cyrn o'i hol, Pob garren daren gadeiriol,

5 Rhoiſt hanes pybur heb pall, (Yn hylaw) ddawn hwyliadur pur-gall, O ddyfndwr y mor, cynwr call, A'i fâs-le, draeth-le drythall.

6 Dos rhagot, ddewr awdwr yr eigion, (Am ddyfndwr) Euphrates a'i moddion; Piſon, Gihon, ar frys o'r fron, Hidecel alwyd yn *wylion*, **arafedd.*

7 Tro adra, maith chwilia wrth ddychwelyd (Am ddyfndwr) Dormafia a'i lled hefyd, Lap yr Hanoch fawr a benwyd O afon Teugrus felus fwyd.

Cwynfan y Bardd am golli ei Dir, Ar feſur Calon Drom.

1 Y gwyr chwantus, clywch hyn ymma, Cynghorion inion o'r llyfr gora, Yn erbyn dygid gwinllan Naboth, Pechod cwilydd, gweithred anoth, Cofiwch Ahab, er ei glafed, Ped f'aſe yn gochel gyngor Jeſebel dyhira, Ei lladd hi wnaed dan draed cyphyla, Jehu dwyſog oedd alluog yn rhyfela.

2 Fy nghalon fydd yn trwn ofidio, Am golli 'r Winllan 'rydwi 'n cwyno, O ran fy ſomi wedi cym-

ryd Arni anferth goſt, a gwneuthyd Tai o newydd, plannu coedydd, Palmantu wnaethwn wrth y ffaſiwn, a gwneud ffoſydd, I gael ſychu 'r tir oddiarno, A gwneud i'r yda, gwair a phorfa, ffraetha ffrwytho.

3 Er dwad cwmwl droſtwi unwaith, Gwynt a'i chwalodd yn ol ejlwaith; Fe ddarfu imi orphen talu Fy ardrethion wedi hynny Ond chychwi yw 'r drwg yrwan, Tyngad Efan aeth i'r crocbren i'w gyfyrder am y fargen, Gan ddarfod ichwi ddwyn oddiarnom, Anffyddlon-ddyn, ond mawr yw hyn, cin meirw o ho-

4 Ped faſech oneſt, gowyr, inion, Wrth [nom. addewid a'ch 'madroddion; Hynny ydoedd, fyth na chymrach Winllan Rhos, a pheth ſy 'mgenach, Os cymra arall hitha ichwi, na fynech moni, ac fyth na ddoch i aros ynddi; Ond y rwan eiſt yn Suddas, Hefo Gwynedd, fawr anrhydedd, wagedd rhodras.

5 Duw faddeuo i ddrwg gymydog, Suddas mawr i'r erw goediog, Deiſyfu machgen am ei arian, A dwyn fy ngwinllan falais filan, Gwell y faſe i'r gwr anfoeſger Gymmeryd number wedi ordeinio i'r tal wr tyner, Na thwyll-yſpeilio y marchogion Am eu lloches goedydd cynes, coig amcanion.

6 Dyna fwriad llydan lladrad, Torri coedydd heb gael cennad, A dwud ar gorau i adwya 'r gorad, Mi rown gwning ynddi yn gauad, Fe dâl y rhiddin ſych yn rhiwle, I wneud dodren byrdde llydain a chadeirie, gwlau cedyrn a chypyrdde, Ciſtia coſtus, buddeua trefnus, lleſtri a meingcia.

7 Coed o'r gora i gau 'r Agored, Ydoedd gwern a helig addfed, Bedw a chyll, ond call ei gofyn, Rhag bod yn fâs ne lednes leidryn. Ond Gwynedd draw â'i law gyrrhaeddgar, A dorrodd dderw, nid rhai garw, ond rhywiog rhwyddgar. Pa ſawl gwaith yna y gwnaeth o'r troia, felly 'r uwſia caſtia lleidar.

8 Mae Gwynedd ſaig yn rhoi i mi anair, Celwydd dybryd anffyddlongair, Ei chwaer hi wnaeth y mawr

ddry-

ddrygioni Ym Mryn yr ſgubor werth ei chrogi,
A'i chwaer arall yn ffair Gonwa, A fu 'n pedleriaeth
laſſia odiaeth, a thegana, Gwelodd llongwr chwyrn ei
churo, Am ei chaſtia diengodd adra dan ei beia fel y bo.
9 Mae R. ac H. yn fawr eu llyfon, Ac yn ddiffeth
eu amcanion, A eill wrth ddarllen yn y Beibil,
Weled gwarth gwneud cam â'r eiddil, Am ichwi
warthus orthrwm weithio, Diwedd Haman fydd rai
diben, 'rydwi 'n tybio; Mae ngweddi ar Dduw am
fadde itti, Ar lês fy enaid rwy mewn lluthed byth ni'm
10 Cofiwch Daler hir y codwm, Rydoedd [lleddi.
hynny 'n warthrudd orthrwm, Lle ſyrthiodd D. a'ch
I. mewn llyfmer, Aent hwythau i chwilio ei thrwngc
a'i ſeler, Gochelwch daflu at y daflod, Lle 'r aeth y
lladron i'r ciſtia llownion, caſtia hylldod, Tynnu o'r
gôd yr aur fodrwya, Yſbeilio 'r wreigan am ei llian a'i
11 Gofynais gynt i Sion Cadwalad, [llynlleinia.
Ple mae Coed yr ſgubor gannad? Fo'm attebodd yn
o fuan, Ei mynd nhw i riw-le draws y Marian; Yr
oedd y cyple yn fawr a ſychion, I wneud cypyrdda a
dodrenna nid dryd inion, Dwydodd, carriwyd oll yn
feichia, Ar y twyllnos, blys heb achos, tu'r plâs ucha.
12 Wfft i ddrygchwant, byddwch athriſt, Wfft i'r
fawl ſy waeth nac Anghriſt, Wfft i'r Galwr Fall o'r
Cymru, A'u llechweddi cam a'u cwmni, Nid oes
dynol riw ar wyddon, Mor hyll echrys a thwyllodrus
ag yw lladron. Dial Dathan a ddel arnyn, A
chodwm Cora i ddaiar Adda ddu oer iddyn.
13 Mae fy ochenaid o'r fan drymma O'm calon
ſydd dan wraidd fy mronna, Ar y bobl orthrymedig,
A wnaeth fy heddwch i'n anniddig, Pob bendithion
a ddel arnyn, neu wlith traphlith, aſlwydd hyllrith,
gyrith iddyn, Neu ail i Sodom ac aceldama,
Eill bod eu diwedd hefo eu mowredd fel Gomorrha.
14 Er bod piler aur y rwan, Yn eich dryſau
megis Teman; F' eill Cyfiawnder â'i ſaeth inion,

Ddodi dial ar ellyllon, Am iddynt gydio 'r maes
wrth godiad, Aur yr India, gwae eich teithia 'n warth
rteithiad, Bendithion Ham fel gwlith yn diſgyn,
Neu ddeuſyfed angeu gofid ing i'w gofyn.

15 Nid ydwi 'n barnu 'n weithred orthrwm, Ar un
perchenog tir *per annum*, Am gymryd ernes aur yr
India, Delwau dylion Babilonia; Os ydi 'r ddaiar
yn rhy fechan, Mae gwlad rythol teyrnas ſittiol fawr
gan Sattan, Ni ellwn gael o honno ein gwala,
Heb erneſſio na gweddio hwyr na bora.

16 Er i Ahab gyda ei dylwyth, Ymhen dry-
gioni gyſcu 'n eſmwyth, F'e ddigwyddod iddynt
godwm, Diweddd gwrthyn gwarth a gorthrwm,
F' eill i chwitha a'ch naſiwn ffyrnig, Beth bendithion
yn warth llymion, nid yn llymrig, Os chwi ddeliwch
dir fel teirant, Angeu diwedd yn etifedd od na chyredd

17 Am ran o'r tir mi dawa a chanu, [rai o'ch ceraint.
Ynghonwy gynt bu tramgwydd maethu, Diwedd H
wrth Gambwll greulon, Diwedd G Boldonau gleiſion,
Diwedd deg-a-thrigian meibion Ahab gynta oedd
torri'eu penna am ddrwg opinion; Lloſgi 'r gwyr wrth
daſu i'r ffwrnes, Amſer Daniel, och yn uchel, Sadrach,
Meſ ac Abed. gynes.

18 O'r tri phlwy ni wnaethau un gwr, Y peth a
wnaeth y pump Rhagrithiwr, Dwyn y tir yn glir
oddiarna, Lle bu yn tyfu ffon fy mara. Am na
wnaethau Eſau flyſig, A Jacob hynod ryw gyfam-
mod brawd nid ffyrnig, Mae 'r Prophwydi iddo yn
bygwth Gwarth a gwradwydd, dialedd aflwydd,
chwerw chwimwth.

19 'Rwi 'n rhoddi ichwi Siampel gynes, I arbed
oenig bach Uwrias, Trowch i alar cin eich meirw,
Mewn edifeirwch llwch a llydw, Cofiwch farn y
Brehin Dafydd, Wrth ddameg Nathan yn anniddan
rhoes lw 'n ufudd, Mae euog fydda 'r gwr farwolaeth,
Am oenig ladrad, gida 'ch cenad, neu dâl bumwaeth.

20 O

20 O Arglwydd Dduw i ti rhof foliant, Yr annuwolion pwy glodforant? Duw ſy 'n gyrru i'r annuwiol Syrffed Sattan yn eu canol, Ychydig fydd eu dyddieu diddan, Hefo eu gwragedd fawr anrhydedd a'u plant rhodian, Duw eill dorri eu hiliogaeth, Y rhan fwya, fel Gomorrha, bobl ddiffeth.

Englynion i'r unrhiw.

1 Pum gwr yn ſiwr, nid un Saint, O 'ddigedd a ddygodd drwy ddryg-chwant, Winllan Rhôs ddydd a nos naint, Mae 'n uffern le i'r fath lyffaint.

2 Ac yno mae ſyrlle ſorllyd, Megis crogi, dan greigie tân ffflamllyd, Brwmſtan a neitir netiwyd I loſgi 'r baw lleſga yn y byd.

3 Clecian, ail taran bo 'r tai, A'r golyd, fel gole colcathai, Cyrph ac eſgyrn heb le i oſgau Ond Tophet y ſyrffed a ſai.

4 Dwr ail Sodom yn ſadwedd, Neu Segor, ſy 'n ſygno hamgylchedd, A thân ymollwng o'r mallwydd, A yſa 'r dawn nos a dydd.

5 Rhaid diodde yn y byd ymme beth, Rhaid 'mollwng i 'wyllus marwoleth, Rhaid mynd i'r bedd anned unweth, Gweddiwn ar Dduw 'n fadde 'n ddi feth.

6 Duw madde i minne f' ngwarth-fawl Gwrthyn, A'm gwarthus areithiawl, Dod i bob pechadur pechodawl, Faddeuant da o feddiant y Diawl.

Gweddi 'r Awdwr hefo'r Brenin, *a'r Tywyſog* Wiliam, *ac atteb bob yn ail penill, yn* Gymraeg *a* Saeſneg, *ar feſur* Blode 'r Gogledd, *pan oedd terfyſc yn* Scotland, 1745.

1 *Cymro.* O DDUW ymddiffn George ein Brenin, llwyda ei fyddin ddewr lin lais, I orchfygu pob cwmpeini ſydd yn codi dryſni drais, Roedd y bleiddiad cyn ffyrnicad yn difa 'r defaid bob yn un, Dydi heno, Duw a'th lwyddo, ſy wrth ei treio 'n medru eu trin. Y mae 'r gigfran a'r Pâp anian mor aflawen mawr ei floedd, Rwi 'n gobeithio rhoi di o orphwyſo, a Ffraingc i ffrwyno ffreinig oedd.

2 KING. *I hope that every* Engliſh *jewel*, and Welſh *will travel with me true, To beat the Popiſh from Highlandiſh, France and Spaniſh Romiſh crue, O God Almightie pray aſſiſt me in good actions night and day, All our Prayer is for ever for thy mercy, ſo will ſay; Abate the popiſh falſe pretences, aſwage their Malice to decay, And us deliver with thy Power, from Ev'l and War in every way.*

3 Cymro. Gwyr yr Albion ſy 'n anffyddlon a'i hyſgolion elwais gau, Mae nhw 'n achles pob drwg loches, dynion diras, dewr di dau, Yr High-lander a'r *Pretender* ſydd â'i hyder gael ar hynd, Daro Brydan dan eu hadan, gobeithio methan byth a mynd. O Dduw ymddiffin GEORGE ein Brenin, a'n Twyſog wiw-ddyn ſobor ſant, A'r Duwc WILIAM, perl wr pur lan, a'i rhydd nhw 'n gelan filoedd-gant.

4 DUKE. *Bleſs now my travel,* GOD *of Is'rel, I will beat the Rebel down, For fear my hearty* Britiſh *army they'll fret and run from every Town; The wilderneſs is their harneſs, among the rocks they are up and down, Vally and boggy is their centry, the Pope's unruly Pagans clown;* O GOD *proſper* George *my Father with a long Life to wear the Crown, And* Prince of Wales, *who is my Brother, for them I venter my Life down.*

5 Cymro. Duw a'th lwyddo i gynorthywo, ac i'w cyſtuddio ar goſt y Nen, Ac i'w ſathru heb gyfodi am eu teirni torri eu Pen; Nid oes i Drattur ddim o'r cyſur, ond mawr ddolur wedi ei ddal, A chael cortyn dros ei goryn, am ei geg mae'n deg ei dal. Neu chwarteru y corph o ddifri, rhowyr gweiddi pan ddel gwyn Eiſio ymgroeſi a chynghori, yſbrydoli aſbri dyn.

6 DUKE. *Make us, not them, Jeruſalem, O* CHRIST, *like Bethlem's children born, Defend our lives from bloody knives, reward them for their crown of thorn, And let their pride that pierc'd thy ſide, their bellies ſpear both great*

great and ſmall; *And us deliver, Lord, for ever, we for thy mercy crave and call*; *Thou ſavedſt* Moſes *in bulruſhes, and* Joſhua *in* Ajalen, *Preſerve*, JEHOVAH, *our* Great Britannia, *from ev'ry enemy*, Amen.

7 Un mil a ſeithgant, dwydai yn bendant, geirie gwarant, goreu gwir, Dwy a deigian a thair meddan, y bu 'r taro ar y tir; Yn yr Albion roedd gelynion fel pyſt mowrion Papiſt maith, Mewn cyſylltiad a'r Hyſcotiad, ar fedr llygru Lloegr faith, Nes i WILLIAM, y Duwc purlan, â'i gledde llydan godi law, Hefo eu filwyr, goreu ſawdwyr, a churo 'r treiſwyr troſodd draw.

Penillion i Electſiwn ſu yng Ngharnarfon, *o achos fod y Bardd yn un o'r voters*; *ar feſur* Truban.

1 Dowch, codwch, Gymru ffyddlon, Yn un-fryd gwnewch Election, Gida dau o wyr mewn dyſc, I fynd i fyſc y Saeſon.

2 Bernwch pwy yw 'r gwladwr Goreu i ni yn ddadleuwr, Par un ai Bodfel, benna gwas, A'i Prendregras y gorwyr.

3 Siaradwn bawb yn iſel, I ddewis yn ddiymrafel, Y mae voters yn y Marl, Gan Domas Earl o Wyddal.

4 Mae Madrin fawr ei hurddas, A voters Llun o gwmpas; Penrhyn mawr, Plâs Newydd Môn, A Gwynn Glyn-llifon gynnas;

5 Y rhain ſydd gida Bodfel, Nhw 'nillan, gwn, y Treiel, Nid ydi 'r lleill ond gwyr y Cowrt Sydd yn ddi dowt mewn gafel.

6 Syr Watcin wr di-ddicllon, A llawer o Fonddigion, Y tair gwlad ſy 'n votio 'r plâs I Brendregras o'r Werddon.

7 I ddiwedd hyn o bwrpas, Squier Bodfel gadd y fantes, Roedd cant ond tri o wyr yn ſtôr, Yn rhagor na Syr Thomas.

8 Mil ſeithgant ſaith a deigian, Y bu 'r bolera llawen, *Yngharnarfon* canol ſir, Cin mynd i dir y *Saeſon*.

Penill y Bardd ar y môr wrth gychwyn i'r Werddon o Garnarfon, *ar feſur* Morfa-Rhuddlan.

Ffarwel i dir Carnafon ſir, Môn yn glir a Mena, Mynd ymlaen gida 'r graen i'r llydan fôr lliwda, Rhwydeb maith i'r Bleſſing daith a'i gwyr i'r gwaith gora, Codi Ion bat ar y bwrdd, a llawer hwrdd i'r hwylia Trwy Dduw a'i ddawn gwynt da a gawn i fynd yn iawn inion, Hefo 'r Bleſſing, Duw 'n blaen trwy arwen aen i'r Werddon. Henw 'r lle yw Dulyn dre, yr ydem ni'n ei rodio, Ar ein taith i wneud ein gwaith, Duw llywydd byth a'n llwyddo, John Hughes bur a'i fab yn wir fy immi yn fur hylwydd, A'i weiſion llon yn Nulyn gron, nhw 'm gwnaethon yn gyfarwydd.

Penill i'r Llongwyr cin cychwyn adra, ar feſur Leaveland.

Bardd. Carnarfon wyr mwynlan, pa newydd ſy rwan, A fordwywn i Frydan, wych lawen iach lan, A fedrwch chwi fridio Gorllewyn wynt heibio, I gael mynd i dario tu â'r Dwyran.

Atteb. Mae'r gwynt gwedi dwad yn burion i'n bwriad, A ninna ſy'n oeſtad am oſtwng y teit, I fynd hyd yr afon ar foroedd y Werddon, Ac yno at Garnarfon gynhyrfied.

ENGLYNION.

1 *Caer Arfon, caer turion, caer tyra, Caer gron, wrth afon y Seintia, Caer Maes glâs, caer miwſic-le, Caer lle gwelir Rhôs y Gwalia.*

2 *Fe ganodd* Moſes, *wr moeſol, I Dduw Am ei ddonia perffeithiol, Ar ol dwad yn bybur â'i bobol— Drwy 'r môr coch ddi roch dda rol.*

3 *Mina ganaf dan go, Yn llawen I'm llowydd Dduw laco, Gogoniant yn ddi gwyno Inion fyth i'w enw a fo.*

4 *Halaluiah pôr leiſie per lwyſedd, Prydferth i'r priod-fâb ſantedd, Duw i'n canlyn a'n coledd, A'n dygo yn wlydd i ſain ei wledd.*

5 Moſes *a ganodd dan go, Yn* Ramos *i rymmus Duw Iaco, Am ddwad heb och drwy 'r môr-coch co, A'r Aiphtiaid ni ſafied ond ſuddo.* 6 *Iſrel*

6 *Iſrel nid ſalw nod Sant, Dewiſol, blant Ieſu 'r gogoniant, Cin i Sattan ſilan ſant Eu llochi a'u trochi mewn trachwant.*

ENGLYNION *i'r Prophwyd Boreuddydd, ſef y* Ceiliog.

1 Coppyn, goch doppyn gloch depp, Lum ſowdl, fflaim ſydyn â'i frath glepp, Neidio, pigo, ſtoppio ſtepp, Am hoedl bob cymmal gamepp.

2 Droganwr, Prophwydwr praff odiaeth, Plygeiniol, plaen ganu mawl howaeth, I'r Creawdwr Pryniawdwr prydferth, Am y nos aeth heibio wnaeth.

3 Pan ddelo ſe 'r borau ar brainc, I ddiſgyn o'i oſgo frenhinfainc, Fe fydd rhwydd ſwydd ſaint, A'i groeſo i'r hoffyſol pheſaint.

4 Gwarchod a gwilio gwelir, Rhag hedan byrcytan llwyd lleidir; Porthi, maethu, meuthwir, Gweiniaid yr iâr glaear glir.

5 Swcrio, dwndro, dondio, Llefain, llafar-ganu, a phyngcio, Lledu ei adenydd i diwnio, Stowt-falch o'i ſtât yw ſo.

6 Nid ofniff o's gweliff y gelyn, Ni ddiangc, ond ymladd yn ſydyn, Am ei hoedl, mil a'i hedwyn, Calonnog, dewr, donnog dynn.

Gwr ieuangc o Grydd *a ddeiſyfodd ar yr Awdwr wneud iddo* Englynion *pan oedd yn meſuro troed ei* Gariad.

1 *Ifan* ddyn diddan ddawn doeth, Grydd manwl, gradd mwynaidd gerddoriaeth, Gwneud eſgidie hoff-reidie ffraeth I'w gariade maethe meithwaeth.

2 Edrych ei thremyn a'i thraed, Cofleidio 'r fun gynnes fwyn gannad; Boddio ei meddwl a'r moddiad, Roedd yr eſgidiau gorau a gaed.

3 Daw meinlan eglurlan glod, Bereiddlan, at *Ifan* ddawn euffod, Yn gwſmeres fonwes i fod, A'i ffrindia peniaethe enethod.

4 Pan elo eglur glod glau, Y mercheid, ym mreichiau eu cariadau; Fe ddaw 'r meibion llon i wellhau, Am waith ei ddwylo, nhwythau.

5 Bydd rhowyr 'nawr wrth hynny, I *Ifan*, ymofyn â'r Barty, A cheiſio Lodes fwyn gynnes gu, Yn Wreigdda lân nodded i nyddu.

6 A honno a'i golyd heb gelu, Yn gyflawn Dda gyflym i'w helpu, Ym mhob achoſion cyfion cu, Ddawn raſol, drwy Dduw Iesu.

ENGLYNION *Clôd ac Iacha barddoniaeth* ELIS ROBERTS *o Bkwy* Llan-Ddoged *ymyl* Conwy.

1 *Elis Roberts*, heb rybydd, Gyfarfu Ar *Ruddlan* reolydd, A *Thomas Wiliam*, a'i ſiwrna ſydd, O ffair *Gaer-lleon*, y llywydd.

2 By yno ddiddanwch ddwy-nôd, Pan aethon i'r Dafarn at ddiod: *Elis* ſydd wybodydd pob-nôd, Prydydd da ddownydd diddanod.

3 Caſclu llythrenna, llwyth anodd. Yn eiria plethiedig feluſgerdd; Mawl i'r Creawdwr, cry ydodd, Ac i ddynion rhwydd-lon rhodd.

4 Mab di frad da ei fri I Robert *(o'r Bewmares)* A Sion Priſiard Prys fri, O Ynus Mona, ſain dda ſy, Câr puredd Rhiſiard Parri.

5 Wyr Owen ddiddan dduwiolrym Ap Gryffydd, prydydd Pen Morfrym, Mae dy Gân groew graen grym O gufydd Dafydd Gwilym,

6 Gorwyr llwyr wellhad, I Ddafydd, Namor a Rhagad, Glain goleu glir, goleuni gwlad, Ail Samuel breulon brelâd.

7 Goreſgynnydd deu-fydd dafod, I Arthur, Ac Edward Hugh eur-glod, Jonath. E. Rowland, wybodydd pob-nod, Emanuel Fychan gain uchod.

8 Geufyn heb orafyn rwymiad, Sion Phylip, a'i gowyr gân blethiad; Gorcheufyn gwych eurad I Sion Roger dewr di-wâd.

9 Gwſtyn Gâr deſtyn i ſtât, Di-fudyr, dawn Dudyr Aled, Rhiſiard Phylip hoff eiliad,
* *Hypocherena*, lenwa y wlad. * *ffynnon y beirdd.*

10 Gorchwſtyn Gwilim Cynwel, Câr Iddig

I Gronw

I Gronw Rhys Howel, A'i geraint clyd drud drael, Salbri, a Myric * Swrdwel. * *amſer* 1400

11 Bardd ail gardd gowran, Pereiddlan yw darllen ei ſcrifan, Fel Virgil ddi-gynnil gân, A Homer, neu Rydderch rwyddlan.

12 Prydydd parodfawl puredig, Da faith, di-fethu heb fenthig, Hel yr wyddor dryſor drig, Ail Iolo goch dadol nodedig.

13 Eiliadwr, gwniadwr, ganiada, Cyſyllter fel caſtell neu greigia; Dawn pereidd, bwriad bora, Ail Horas, cân urddas a wna.

14 Mae dy gân burlan bereiddlwys, Ail frann, o frynnia *Parnaſſws*, [*mynydd y beirdd*,] Gwir Helicon, afon Neilus, I lowarch Môn lewyrch mwys.

15 Ni fedraf iawn adrodd odra, Dyfndwr, nag uchtwr ganiada, *Elis* heudda di-dolla da, Ganmoliaeth am ganu mawl-dda.

16 Meſura droſodd, er dryſed, Clymiada, Plethiada, ac athodiad, Gwawd odyn clir cerdd cywiriad, I bymtheg Llwyth Gwynedd gad.

17 Ni feder ond Cerddorion ddirnad, Plethiad, na darbod gwahaniad Hirgar gyrheuddgar ddi-wad, Ymhob gafal, canu gowlad.

18 Glain ber ſain ſynwyr ola, Ddoeth, Ail *Sibila Tibertina*, O Rufan i'r Tryfan trefa, Fel Merddun, Talieſun da.

19 Cydiwr, glain nodwr ganiada, Cywydda, englynion, a dria; Glain ddiwarth o'r prydfertha, Rheolwr Carolwr claer hâ.

20 Brenhinoedd ar diroedd y dwyran, Cowri, Gog, Magog, Heth, Canan, Adrodd iacha yn ddi-ochan, Y nerthol wyr cedyrn a'u cân.

21 At yr Aiphtiad na ymyrrad neb yrru, Canu, Hil Ham y drwg deulu, Na llwyth Sem greulon gru, A groes-dwyſodd GRIST IESU.

22 Canwyd a lliniwyd mewn llwyni, Weddion,

aberthau, a'u lloſgi, I amriw dduwiau drwg o fri, Nes digio Iôr calon Dduw Celi.

23 Mae *Elis* a'i gân dduwiola, Fel Enos o'r awenydd penna Moſes, Aſaph, Ambros, rai da, Dafydd, Salmon, a'r tri llangcia.

24 Pob iacha maetha meithwaith, Er Adda a Noah i'r byd eilwaith, Meder *Elis* moddus maith, Ei plethu, a'u canu, nid clemwaith.

25 Mae hynny a henwais yn hynod, Gwbl di-drwbwl o fawr-glod, I Feirdd downus, fronnau danod, Iachau Athrawon clymmion clôd.

26 Pe caſclwn iawn chwiliwn, a chwalu Llyfrau llafar waith y Prophwydi, Ni fyddwn gwell er pell holi, Drwy 'madrodd croew fodd cru.

27 Ni pheru golyd heb aflwydd; Clôd dduwiol a ddeil yn dragywydd; Grâs a chariad perffaith gyrydd Nef a'i noddfa lân dda lwydd.

28 Duw madde ddrwg chwante 'r cnawd chwantus, Attel, a fforddia yn hyfforddus, Holl ddynol-riw yn ddaionus, I'th ſanteiddlan loew-wen Lus.

29 Duw cadw a chynnal iach inion Y grefydd Griſnogol berffeithlon, I'th lân Eglwys bur olygon, A'n Brenhin *Siôr* ar ei dôr don.

30 Duw doro i ni heddwch ddihuddol Ar diroedd a moroedd afreol, A phob radau angenrheidiol I ddynol-riw fyw ar fy ol.

31 Gweddiwn â gwedd dduwiol, Ar Dduw, rhag ein gelyn yſprydol, A'n gelynion, dynion di rôl, Duw dymchwel nhw i'r heddwch rhwyddol.

Cyngor y Bardd i'w Wraig yn y flwyddyn ar ol eu priodi, 1712, ar feſur *Newydd Oſalon.*

1 *Gwrando, Mhenpryd eurbryd arail, Oleu Phebus Venus feinael, 'Rum ni weithan wedi ymrwymo Drwy 'wyllus Duw i fyw yn gyfyrdo; Fy mhur galon a'm pêr gowlad, Byddwn lawen, gwawr oleuwen loew-wen Leuad,*

Leuad, O's cawn ni 'n hiechyd mewn diddanwch
Am Râs gweddiwn ar Dduw 'n addfwyn cyfion cofiwch.

2 *Er ein bod ni wedi rhoddi Ynghyd ein penna, a'n priodi, Nid rhaid inni mor diglonni, Fe ddaw Duw a digon inni, Os ymrown i weithio yn ddiwyd, Mewn gwir ſobrwydd goſtyngeiddrwydd ein celſyddyd A gweddio ar Dduw 'n ddiwegi, Am fendithion cowyr raſlon Cyngor IESU.*

3 *Rhaid inni ymorol yn ddi-ymeiriach Erbyn gaua heb gyfrinach, Am bob peth ſydd ffit i gynnal Ein buwoliaeth yn ddi ymrafal, Bwyd a thân ſy reitia wrtho, Gwely gwiwlan, cryd i'r baban, dodran gryno, Gwair i'r gwartheg, llaeth i'r bychan A chyffyla i negeſa, lle bo angan.*

4 *Rhaid inni heſyd geiſio morwyn, Ac os happia gwas y Gwanwyn, Fel y gallon drin ein heuddo, Teilo, aredig, a llaſurio, Hau a llyfni, plannu gwinllan, Cau yn uſydd yr holl feuſydd mawr a bychan, Ac ymorol yn y gloddfa, Gwrando nghân, am ddeunydd tân y Gauaf neſa.*

5 *Nyni obeithwn erbyn hynny, Y gallwn ddechrau mynd i fythu; Os oes dim anghenion etto, Rhaid i titha gyd-gynſidro, I gael bôd yn barod buredd, Ar Gynhaua erbyn Gaua eira oeredd, Yn enw'r Tâd a'r Mâb graſuſol, A'r Glân Yſpryd, gorau ennyd gaera unol.*

6 *Fy anwyl gowled gynnes geinwen, Ail Suſanna lariedd loerwen, Buredd, odiaeth, beraidd odle, Ddiwies ddoniol dda ddi-ana, Seren eurwen loewen Lili, Fel y griſiel, neu garbyngcel yn rhagori, Aſſur roſyn, maſwedd raſol, Gwenwydden burdlws, hawdd ei chymwys, heudde ei chanmol.*

7 *Seren eurwawr ſain arafedd, Phebus gynnes ganned geinwedd, Gwenwydden burffydd fel glain perffaith, Coral haeledd loewedd lanwaith, Goffadwrus graph ei dirnad, Mêl-gynhalieth, daionus doreth,*

doreth lylwydd ddinad, Di-ddiffygio, dawn ffortunus, Mewn cyff lybieth, megis Judeth, anrhydeddus.

8 *Tyrd, ſ' Anwylyd, leuad lawen, Oleu Ffebus, ail i Ffabien, Awn i ddechre ein byd heb ddychryn I dy cynnes, er nid can-nyn; Cofiwn Abram a'i wraig Sarah, A ſy yn cyttal yn ddi-ymrafal dda rinwedda, A'i fab ynta, Iſaac dduwiol, A'i Rebecca, wraig bereiddia, rwydda raddol.*

9 *Na ſyddwn brydd drwy ffydd hoff eurad, 'Rum ni yn myned drwy bur gariad, Er ein bod yn ieueinge ben-ffol, Ewyllys Duw ſy dra-rhagorol, Dy oedran di ſy ar derfyn deunaw, A minne yn gyfan ddwy ar hugian a aeth rhagddaw; Awn a'n Babi i'w roddi yn raddol, Mewn cryd a gweddi, ar Dduw i'w ſaethu yn hoffeithiol.*

Y Bardd *yn gofyn Cyngor gan yr* Offeiriad, *ar feſur* Truban, *ar ddull ymadrodd rhwng y* Perſon *a'r* Hwſmon.

1 *Hwſmon.* Noſdawch, a Duw a'ch catwo, Yr uch chwi yn hwyr yn teithio; Yn rhodd a ddwydwch immi ar gais, Pwy ydych Sais ai Cymro?

2 *Perſon.* 'Rwi 'n Gymro wrth naturiaeth, Mae ginni Saeſneg eilweth, Claddu 'r meirw, hyffoddio 'r buw, A hynny yw mywoliaeth.

3 *Hwſ.* 'Rwi 'n dallt wrth liw eich dillad, Fod ichwi uchel alwad, Ail i Aaron Seion Sant, Mae ginni chwant i'ch clowad.

4 *Perſ.* Pa beth gei glowad ginni, Nes dyfod i'r Tu Gweddi; Rhoddaf yno gyngor ffraeth, Rhoes Duw ddealltwriaeth immi.

5 *Hwſ.* Mae gennych ffordd yr rwan, Rhowch gyngor i ddyn truan, Sydd yn dechrau trin ſy myd Gyda ſy mhenpryd llawen.

6 *Perſ.* Os wyt ti yn byw 'n briodol, Gwna 'n fawr o'th Fun rinweddol, Cofia itti ymrwmo â llw, I ymgadw yn ſanctteiddiol.

7 *Hwſ.*

7 *Hwſ.* Rwi 'n deall immi dyngu, Ger bron Aelodau 'r IESU, I gadw hon a mi fy hun, Tra b' ynthwi ffun, a'i charu.

8 *Perſ.* Da odiaeth rwyt ti yn adrodd, Di gofiſt beth yn rhiw fodd O'r Yſgrythur bybur bêr, Roes f' Arglwydd Nêr alluoedd.

9 *Hwſ.* Mi geis yn hylith gantho, Gan cymaint 'rydwi 'n cofio, Ac a fedrais yn fy myd O'm bywyd ofyn iddo.

10 *Perſ.* Os gwnei fy nghyngor hynod, Rhydd Duw it râs i ddarbod Dilyn lwybrau y ffydd ffraeth Un Abram aeth i'r tyfod.

11 *Hwſ.* Mi glowais yn gyfannedd, Fod Abram yn wr ſanctedd, Yn mawrrhygu Sara ar goedd, Ei briod oedd wirionedd.

12 *Perſ.* Cofia ditha yr rwan, Gwna yn fawr o'th wraig dy hunan, Gan ei pherchi, medd St. Paul, Pob merch ſy ffôl ac egwan.

13 *Hwſ.* Can diolch ichwi yr Prelad, Am gyngor da diniwad; Rhwydeb ichwi i fynd i'ch taith, Mi gofia yn faith eich caniad.

ENGLYN *i'r Offeiriad.*

Bugail y moelion a'r corniog Ddefaid, CRIST yw eu perchennog, Ail Aaron breulon Brelad, Darllenwr digynnwr da gwnad.

COWYDD *Galarnad y* BARDD *am ei fâb, a ſy farw o glefyd y* Frech-wen, *yn y flwyddyn* 1714.

Clowch alar, gwelwch wylo, Gwrandewch ymadrodd gwan dano, Gwelwch y clai yn feddrod clud, Clowch y clyl a dul nes delud I roddi hawl leuengawl fâb Yn y ddaiar ddu oer lêb, Ar ddeheulaw ddu oer hawl Ei deidiau call cu ollawl, Dodſon ei gorph, dadſain goll, Yn y gweryd Baen gwiroll. O blant y byd mae mryd a mron Am hwn yn tremio alar trymion, A'm Gwenwdden loew-wen leuad, A'i magodd mewn gofol gwlad. Nid

Nid oes neb oi geraint gowrain Heb alarnad ſyniad ſain, A'r cym'dogion cwynion cân, I'w fam amynedd da meddan, O achos fod y tarddiad tew, Fel eira ar y brynnia bronrhew, Heb obeth llawdd tawdd tro, O'r gofid anfwynder i ymendio. Bu arno yn bla ddolur blin, Troſto daliodd, triſt dilin, Tarddiad y cnawd unawd oedd, Y Wen-frech a'i gorthrechodd, Yn grawenna tewion tyn, Cornwydydd Job ail ydyn. O Dduw byw, blin yw dy bla, Ber oes don beraiſt yma, Dynnu i'r llawr eginin llon, Gu gall oedd i'w gyfeillion; Anwylyd oedd annelodd ei daith, I'r Nefoedd a'i don afiaeth, I ganu Hymna â lleiſia llon, A thelynau ethol inion, O fawl i Dduw IESU dda ddawn, A'r YSPRYD GLAN ennyd iniawn. Gwyn ei fyd a o'r byd rai bach, Unt Angylion Duw cyfion cyfiach. Rhagori roedd, mae 'n gyhoedd ſôn, Ar gyff oed rai o'i gyfoedion. Alar mae oi ol air maith, I'w riw agwedd rywogaeth. Annele yn nes anwyla naws Ei rieni rai hynaws. I'w Dad hyf dodaf ei hawl, A'i Fam alar mwy olawl; I'w Daid cu, anwylgu Nain, Un fodde, alarus fyddain; Ei wthrydd ſydd heb athrod ſain, Mewn alar ei fawl eiliain, A'i fodrabedd braidd bob bron, Sy 'n alaru am wyl oerion; Ei gefndur dan wybur noeth, A'i gyfyrdyr cu fowrdoeth, Sy mewn alar, ſain wylo, A wnaeth ei farwolaeth fo. Cyfyrdyr blant geraint gwiroedd, Niwl oer gu alar goedd; Geuffyn radd, gorcheufyn wun, Gwſtun gynt a gorchwſtun, A'i gâr Iddig wythblyg blaid, O radda alar rwydd eiliaid, Ei câr clyd y nawfed radd clau, Sy 'n alaru yn ole eiriau.

Gweddiwn oll â gweddi nerth, Yn barodfawl ſain brydferth, Mae 'n gobeth fod, gobeitho 'r fan, Ei enaid draw uwch law 'r geulan, Yn y Nef anwyla naws, Gor haeddol fe gyrhaeddaws, Wlad y Seintia breintia brig, Ac Angylion canholig, Ger bron y TAD undod y TRI, Yn un o weiſion DUW IESU.

Rhoddwn ninnau briddiau brau, Gu foliant o'n gefelau; Carwn DDUW, eurwn ei ddydd, Ei efengyl a'i ſabothydd, Nyni gawn fyned oll i'r hawl I dario i'r Nef dragwyddawl. Coſiwn i lawr gyflawn oed, IESU, a'i gywir oſod, Mil ſeithgant hynod hyn, Deuddeg coeliwch, a dwy yn canlyn, Yn nechra 'r Gaua daeth blin arw Bla, Mawr glwyfodd ei bryd eglura, Yr ail ar higian Dachwedd daeth, Du awr Ange i daro yngaeth, I'y nghynfab cu i'w ddodi yn ddwl, I lawr y bedd, oeredd arwyl, Lle noſwilia wrth Lan Saint Llechede fan yw 'r fynwaint, Ei Enaid aeth i'r perffaith pôr, Lle ſanctteidd gaere goror, Y Nefoedd lawn urddas i langc, Grâs iddo o flaen gorſeddfaingc, Duw 'r Tad a'r Mab mwyn, I ſeinio o foliant filiwn; Gwir ſeinio byth Hoſanna o'i ben, Drwy burffydd draw heb orphen, I gyd-ſeinio yn gyſonawl, Duw dwg ni ar i ôl i'r un hawl, *Amen.*

ENGLYNION *ynglylch ein Diweddia rhai i'w rhoddi ar Feddau.*

1 *Gwawdodyn.* 'Rwi 'n rhoddi ymma rybydd dwn ddeunydd dawn anoeth, Mai foru rhai meirw neu drennydd cin tronnoeth, Yn noethion y doethon o groth ein mam afiaeth, Di olyd, bydd ſymmyd ar ol ein marwolaeth.

2 Dyma gomitera Hun fanna i'n hanfonodd, Lle yr erys y Tadau a'r Mamau oer mynnodd, Mae erill riw feiſtrud o'n deuty nhw a'n dotiodd, Cyd-ganwn i'n Hawdwr Pryniawdwr a'n prynodd.

3 Yma gorweddodd mewn ffydd fywiol feddiant, Edward, A. Wiliam, dwy Anne, ni ddihunant, Humphrey, Hugh, Sara, A. Thomas, ni theimlant, Na Pheter, nes caner yn Sion naws hunant.

4 *Proſt.* Er ein goſod dan oer gwys, Mewn durol du daiarol dwys, Mi godwn i'r farn gadarn foes, Ger bron a'n prynodd ar y groes. T

5 *Unodleinion.* Yma rhoddwyd, dodwyd dwydiant,
Naws carcher, nes cyrchir ddydd Brawdfraint,
Hugh, Margred, Sian, ſy hefo yr Saint,
Anne, Thomas, di-wadu, gyfodant.

6 Er gorwedd dan gauwedd gwys Y ddaiar
gyffegrlân i'r Eglwys, Ni godwn i'r farn o'r eigion
oergwys, Yn ſylwedd dynol deddfol dwys.

7 Rhaid gorwedd mewn daiar den, Nawdd f'enaid,
i noddfa ſancteiddlen, Ni ddown ynghyd ddiwedd
byd i ben Ymynydd yr Oliwydd oleuwen.

8 I'r beddrod diorfod derfyn, Dychwela
Pob gwcha a chardottyn, I'r un farn gadarn yr aen,
'Rwi fi i ddarbod dôn i dderbyn.

9 Derbyn mewn dychryn du, Achreth,
heb achles i lechu, A'n holl bechodau di achlydd
Ger bron y farn gadarn a fydd.

10 Ni bydd yn y dydd pan y del Ddirgelodd,
ond cyhoedd tra uchel; Pob ffieiddiad lleiddiaid
llel, A ddwg f'Arglwydd o'r dirgel.

11 Daw gwadd pob gradd i gryn, Daw arwyddion,
daw yr Utgorn i'w dyſyn, Daw yr cyrph o'r llaid
tan y llyn, Er tàl oeſe Talieſyn.

12 Pob traha gamwedda ac anweddol, Pob pechod,
pob buchedd daiarol, Pob troſedde hoff eirie ffôl,
Pob drwg a odde yn dragwyddol.

13 Er Adda gob gradde gyrhaeddydd, Abraham,
Iſrel, a Dafydd; Sal'mon dda yn ei ddydd,
A Moſes, er rhyſio yn ei roſydd.

14 Cyfodir, gyſodir ſain, O'r beddau,
lle byddir heb engain, Datgloir, deffroir hoff
riain, O'r oeredd rwn wrth ſwn y rhain.

15 Corphilyn, priddyn o'r prudda, Y croen
a'r cnawd ni chynheſa; Pan elo 'r *elain* o'r ala, *enaid*
Eſgyrn heb gewyn y ga.

16 Meddyliwch, cynſidrwch, lâs-oedren, Chwa-
ryddion y tenis a'r cael's-bren, Coetwyr, neidwyr,
downſwyr don, Na ddigiwch, ow cofiwch Ddûw cyfion.

17 Bydd yno bob byddinoedd, A gwerſyll, a phebyll dinaſoedd; Ninif' fydd yn llawen ei bodd, Ond Sodom ni chynſidrodd.

18 Rhown fawl dda hawl i ddyhuddo Omega, mae yn oglud tri ynddo; Duw dod râs draſerch dro, O Helion, Sant Sion, a'n ſafio.

19 O Arglwydd, penllywydd pob lle, Creawdwr ein cyrph a'n heneidie, Dod râs i'n oll gyrraedd dy gaere, Cadw ni o'r llyn Uffern dynn dre. *Amen.*

Englynion *i ofyn* Spectol.

1 Taer-grefu eich haelioni hwyl liniedd, Yr ydwyf ag ymadrodd gwaeledd, Am Lygid-gwedyr glir gloew-wedd, Mewn cylch-freichia heudda hedd.

2 Ni fedraf ond trwy ofidio, Yn anian, iawn linio na gwnio, Na ſgrifennu gan dwyllni do, Na darllen yn happus heb ripio.

3 Bwa dur cwmpas da campiog, Am goppa hên eppa ſy yn nipiog, Dau lygaid gwedyr nodidog, Mewn cylcha, fel creigia crog.

4 Gwedyr crwn eglur coryn-yglog, A breichia am arleiſia lluoſog, Fel cryſtal diſglaer dyſglog, Dwy ſeren eglurlan glog.

5 Spectol dda ddeuol dwy ddaliad, Am arlais a thrwyn mwyn ymwiſciad, Dwy olwyn mewn cedyrn cydiad, Goleuni rhon trwy Dduw yn rhad.

Nehemias cariwr cowran, Cwppan Artaxerxes wiwlan, Trylliad y Brenin trallawn Yn Gymraeg iaith loewfaith lawn.

Englynion i Owen Thómas *o Doppyn-Eddi*

1 Owen ddyn purlan ddawn perlddoeth, Thomas, wr tramawr gywreinddoeth, O Ben Toppyn, uwch dyffryn da ffrwyth Conwy, ail Canan lon lanlwyth.

2 Annerch drwy draſerch droſodd, Fy ngheraint,

i'm caru nid anodd, Dod f' wyllys da dilys daliodd
At bawb o'th ffrindia rhwydda rhodd.

3 Dymunwn lwys linos lawena, Ddawn-happus,
ail *Hypermeneſtra*, I chwi yn wraig dda ſaig ddi-
ſwga, Mewn golyd a dawn, gola da.

4 Yn berffaith, brydferth ger bron, Ail-ſynwyr
Suſanna lwys inion, Perl oleu lwydd hylwydd ſo
hon, Fel Judeth a'i mabieth i'w meibion.

5 Gwenwdden bereiddlan bureiddlwys, O'r dalaith
o dylwyth da parchys, Mewn gwir roddiad
goreuddys, A'i golyd yn llawn gwlad a llys.

6 Ail mercheid medruſedd aur-drwſiad I Jôb,
yn ei olyd ni welad; Un o'r fath o'r Daleth
ddiwad; Yn awr di eilw, daw i'th alwad.

ENGLYNION *i ofyn llifo* Eullym.

1 Dymunwn, a llefaf gael llifo, Fy eullym
ſy yn hollawl ddiffygio, Ni wneiff y rhebog er ei
rhwbio, Ond plygu, blew-chwalu o'i cho.

2 Gyrrais at wr cowrant call, Fy eullym,
nid allwn fod angall, I daclu ei min, declyn mall,
Ni thyr hi wrth grafu ond ail grafall.

3 Cowrein-hael, ail Tubal i'm tyb, Yn hynaws,
gwnewch honio fy eullyb, A'i gyrru ar fyrder dewr
daler dyb, I'r barbwr, gwael bwythwr, gobeithyb.

4 Clytiwr wyſi or cletta, A Thailiwr,
etholwr ddillada, Siopwr weithia, os happia,
Llafyrwr, degwmwr da.

5 Prydyddwr, gwan udwr ganiada, Groſerwr,
marſiandwr o'r ſownda, Myfyriwr, Iachwr ucha,
Scrifennwr, dwl ddoniwr, nid di-dda.

Cyfaddefiad Nattur.

1 *Engl. Proſt.* Rhois wrth gynnes Baenes binc,
Beuſedd, ſiongcodd, aeth i'w ſingc,
Yno toddodd breufodd brangc,
Fel y mêl o grogen crangc. 2 *Unod-*

2 *Unod-linion.* Gyrrais rhwn deilin i'w dalfa Laſwen lyſowen bereiddia, Fel y mêl i'w hemyla, Neu felyſdod ddiod dda.

3 Rhois yng Ngwen liniedd len lân, Leinin, nid brethyn na llian; Caingc is bron golydd glon glan, I ddyfyrru 'r ddof eirian.

4 Pedair E dwy I mewn breufodd i'w bru, S alltyd gyſylltiad di-wadu, Fy ngwen rydd anufydd yn nofi, Na gwyro fy naws anhynaws oedd hi.

5 Taw, ddyn, anhydyn ei anwyda, Na ſonia am Suſanna na Sarah, Nac un ferch lon dirion don da, Mwy na'th fam, iaith fwyna.

6 Canmol bob gwennol fwyn ganwyll, Os egwan ei gogwydd a ſerfyll, Bydd yn ddoetha, tawa twyll, Na ddatgan mo'th ogan fyrbwyll.

7 Gwragedd ofieredd fwriad, Anoethedd, A wnaeth ſuredd ſiarad, A'r cwbl oll, cabledd frad, I borthi anwydau a nodad.

Hanes y MARSIAND *yn trafailio gyda gwyr a llongau, pan ddechreuwyd arferu* Powdwr *a* phlwm, Canons *a* Gynne, *wedi eu troi ar gân allan o'r* Saeſneg, *ar feſur* Blode 'r Gogledd, *megis Ymddiddan rhwng y* Marſiant *a'r* Pelican.

1 Ped fae dana riw adenydd, fel clomen hedydd awn ar hynt, A llyw buchedd bach di bechod, i allu gorfod ar y gwynt, Iawn ddyſceidiaeth dealltwriaeth pob ymadrodd wrth fy chwant, Awn yn inion a thrafailiwn y byd a'i holl filldiroedd gant; Ond o ddiffyg rydwi 'n ddiffeth heb wybodeth mammeth mawl, O anghyfiawnder y byd a'i drawſter, nid allai ynddo hyder

2 Fel yr oeddwn i 'n trafaelio wrth freuddwydio [hawl o Frydan fawr, Hefo 'r Saeſon a gwyr Albion, Cornwal, Cymru, a'r Werddon wawr, Yn nechre amſer gynne a'u harfer, mewn llongau a phower llawnder llon, Ac at yr India ni gychwnna, Europ, Aſia, Afric don,

Hwylio

Hwylio wnaethon foroedd hirion hyd yr eigion gremlon ddwr, Ofni y byddan weithia 'n boddi cin cael tir un
3 Pan eis i'r tir ac e'ch i fynu, dan hiraethu [ſir yn ſiwr. am fy ngwlad, Gwelwn hedan ymrig coedan, megis Pelican diwad, Dwydwn wrthi, dydd da itti, rwyti 'n fwynlan iawn o'th freſt, Fod yn gollwng dy waed i golli i borthi 'r cywion gwirion gweſt, A fedri roddi addyſc imi, ple mae trefi, a berwi bwyd, Oes ymma adar glan gwaſneuthgar yn ffit i Griſtion roi 'n ei rwyd.

4 Dydd da ſo titha, ddyn dieithrol, alltyd duwiol, o wall doiſt, Mae dy foddion megis Criſtion, gwirion wyt, os yma ffoiſt, I fyſc naſiwna drwg eu moeſa, lladd a bwyta 'r gora a gan, Or Criſnogion, bobl wnion, cin eu twymno wrth y tân, Gwaeth nag arthod, teigars, llewod, ydi 'r baeddod brithod brath, Mae ganthyn ſythion wenwyn ſaethe, difa heb fadde, fydda 'r fath.

5 Yn rhodd yr Hedan fwyn ddiniwad, a ei di 'n gennad droſtwi i'm gwlad, I roi hanes, cywir ernes, fel yr ydem yn ddiwad. Ni wn oddiyma gam or llwybra, ple mae 'th gartre, na'th yſtât, Onde cychwnwn, buan hedwn, ac mi dreuthwn yn ddifrad, Mae o filltyroedd ſaith o filoedd, cyfri tiroedd moroedd mant, Oddiyma i Frydan at y dwyran, dy hwyl di ſydd fel ſaeth o dant.

6 Pan elych di yno, gwilia anghofio, fel yr ydem ar ein taith, Yn lladd gelynion Brydan goron ymhob trefydd ceſtill gwaith, Cynta man oedd gwyr Hyſpaniad y ddaeth â'u bwrlad mawr yn bac, Ni a'u curaſa hwynt i'w llonga i fyned adra yn llwyr ddi-nac, Lluoedd oedden yn haid filen, hefo eu bwa a'u ſaetha ſerth, A ninna â'n canons a'n bwleda, fel y dreigie, yn tanio 'n gerth.

7 Hwylio oddiyno ymhell hyd foroedd i'r Ynyſoedd diroedd da, Lle roedd aur a meini onyx, gorchfygu 'r lluoedd cin yr ha, Cael ein gwaetha o'r ſidana, melfed, plyſie, brithe eu braint, Cotten ddigon, ac

ieir

ieir gwnion, a'r oliphantiad eſgyrn maint, Clydo 'n gora at y llonga, i gael ſiwrneio treio trac, At riw wledydd gora eu deunydd lle caen farſiandiaeth bac.

8 Oddiyno ymorol hwylio wrth reol, a'r gwynt yn inion iawn o'n hol, Etto o'r moroedd gweled tiroedd, lle roedd pobloedd ddrwg ei rhol, A chin myned i'r tir caled, ſe ddaeth gwilliad hediad haid, Ai bwa dur fel gwyr cythreiliad, o'r Cambaliad bliniad blaid, Er bod yn ſlinion yr eirth geirwon ni diriaſon yno yn drwp, I geiſio dwr wrth chwant i'w yfed, gan wlltio 'r gwilliad ſythiad ſwp.

9 Ni thariaſom yno ond wythnos heb fawr achos i gael budd, Hwylio wnaethom i Goroclos, a dal y Brenin yn o brudd, Nyni fartſiaſon hyd wlad greulon, er maint oedd ein gelynion llon, Drwy anialwch dryſwch geirwon, na baſe Griſtion erioed ger bron, I fynu raethon ar ein hinion, brynia uchelfron chwilio 'r yard, Nes i'n ſentro i dre St. *Iaco*, lladd eu gwyr eu gyd a'u

10 Nyni ymladdaſon â'n gelynion cethin creulon [gard. wythnos gron, Nid oedd hi yno fan i aros, mwy na hirnos ar ben bron, Fe gynyllodd myrdd o bobloedd hyd y tiroedd o bob parth, Yn ein herbyn, lluoedd gerwin, daeth yn ſydyn ſaetha gwarth, Rhain yn ſeuthu ſaetha gwenwyn at ein heſgirn heb ddim parch, A ninna â'r bwlets plwm hyd adra, rheini yn ddifai

11 Rhai o'n hol, a'r lleill o'n deutu, [ddofa farch. yn ein brathu, brithwyr braw, Bu 'r ymladd bedair awr o'r untu, heb dynnu ſaeth o gorph na llaw; Ar ol darfod hynny ar gyhoedd, a lladd cantoedd o'i gwyr llon, Roedden ninna yn friwiedig, ac aml friw dan gyrre 'r fron. Ac yn rhywir mynd i'r llonga, at feddyga donia da, A mordwyo i drafailio at Frydan fawr pan ddarfu 'r ha.

12 Dôs, mynega hyn o gwmpas, i'm ffrins, mae'n addas gynes gain, Ein bod ni o'n deutu yn gorchfygu pawb o'r Pagans drwg eu ſain,

Rhyfedd

Rhyfedd oedd gan wyr y Saetha, mor ddi-ſwtta y ſyrthia i lawr, Ei gwyr lyſti ar ol eu ſeuthu â'r bwleda trymion mawr. Ffarwel it, yr beulan Belic, rhwydeb ddiddig ar dy daith, Dros Gâp Clir yr ei di yn inion at Werddon, Cymru, Lloegr faith.

Y Merchant-Taylor, *ſef y* BARDD, *yn gwiſco ei* Gariad *ag amriw feſura Cerdd, ar feſur* Gwilim fwynedd.

1 Gwrandewch y gwyr a'r gwragedd diddan, Y llangcia a'r mercheid ieuéingc mwynlan, Mi fyna wiſg o Felfed, Sidan, Ac amriw fiwſig i fy meingan, Aur ac arian, holand, mwſlan.

2 Rhof ſaith o gryſa holand purwyn, At ddechreu byd i Wen lliw 'r ewyn, A'r king joy yn dycer claerwyn, Edafedd gwnio o flode'r dyffryn, Nydwydda dur, a niltws melyn.

3 Mi rof wniadur aur queen Deido, A gwych boced white cloc rando, Rhof kings ffarwel bais grâp gryno, Syraper fordor aur dan honno, A ſweet Richard wrthi i'w rhwmo.

4 Mynnai ſana o'r Trybana, Bedwar pâr ar ddeg o'r lleia, Marged 'ch Ifan yn ardyſa, O flac Syr Harri ceiff eſgidia, A Red Hoſe aur ſaith bâr o fycla.

5 Mi wnaf Staes o greec a throea, A chreia ſidan o'r ſuſanna, Ac o ddiniweidrwydd mwſc a bacca Peiſia quilt o'r gogledd floda, A'r Jovel Capten aur fordora.

6 Mi fynna ſaith neu wyth o'r gowna, Camlet ſidan ac aur laſia, Criſt church bell dair rhês o ffrinſia, A Round Robin arian fordra, O rouling Jac y rhof ynddo bletia.

7 Dillad pen o Gamrig laſia, A mael y pedlar fyſlin hydia, Mynai freidle am ei chlyſtia, A druch Women yn rubana, O health to Betti ſaith o gnottia.

8 Rhof ddau-ddwſing o hangcertſi Moſen Salmon i liw 'r lili, Wedi eu bordro ag aur king's ffanſi, O ſweet Wiliams pinna iddi, A welcome, Love, yn neitral droſti.

9 Gwnaf

9 Gwnaf Reiding-gown a châp o felfad, A leining ynddo o'r foes ddiniwad, Rhof ddeuddeg pâr o fenig tannad, Lam a ſervel o'r ſynſeliad, A nymperylas gwaith goreurad.

10 Gwnaf fantell ucha o'r new Guini, A Loath to depart yn leining ynddi, Bottyma a chlaſpia o arian toddi, Het a Gini winſier wrthi, Gwregys aur Bethgelert iddi.

11 O farch Mync mi fynna eldyn, A ffrwyn o valen Jaci melyn, O'r fwynen fai ſeis ſadle pilyn, O filcin pâl gwnaf gengle a thrappyn, Breſt a chrwpar ſidan gwedyn.

12 Chwip carn aur o farn yr helwyr, A gwas a morwyn rhag drwg heiwyr, Over the hills i'r plaen i rodio, Holy-well pas i'r fan lle leicio, A dwad adra pan 'wyllyſio.

CERDD ar feſur pen-rhaw, *i fâb y* Counſellor MYRIC Bodorgan, *ar ddeuſyfiad y Ben-forwyn.*

1 'Rwi'n gofyn yn ufydd eich cennod awch cynydd, I ganu yn ddigerydd leferyd heb frad, I'ch mâb glân etifedd hoffaethedd perffeithiedd, Eginin llon eiredd llawn eurad.

2 Owen yn ddilys, ei henw mi glowis Pitland ddawn gofus gariadus o'i gryd, Ap Myric o'r Merion pendefig graſuſlon Bodorgan aer gwiwlon da ei galwyd.

3 Grâs llwyddiant, llawenydd, maeth helaeth waith hylwydd I aelod yr Arglwydd tragywydd trwy gred, Tra bo yn y byd ymma hyd derfyn ei yrfa, Rhoed Duw iddo o'i noddfa ddawn addfed.

4 Ni fedraf ar ganiad ddwyn iacha cin uchad, A MYRIC dda ei ymwarad glain eurad glân oes, Twyſogion a Seintia, dyſcawdwyr dyſc odle, Ym Môn 'roedd eu trigfa a'u tir agoes.

5 Mi fedrwn ddwyn iacha o Owen hyd Adda, Ond caphael eich gradda di-ſala da ſydd,

Hyd at Owen Tudor ap Mredydd ap Tudyr
Ap Gronw mae yn agor mynegydd.

6 Baronet gwiwlan oedd Ednyfed Fychan,
Gorhendaid Taid Owen ddawn lawen dda lwydd,
Mae 'r iacha cin uched hyd at Harri 'r Seithfed,
Ein Brenin da ei 'mwarad a'n murwydd.

7 Owen yw Anwylyd ei Dad a'i Fam hefyd,
Pitland ap Myric, hir iechyd i'r iach,
A phawb o anrhydedd deuluoedd da gwaredd,
Bodorgan yw 'r Annedd fawr henwach.

8 Rhoed Duw 'r Tad ei fendith a chynydd maeth dilith, Ac iechyd llwyddianus perffeithlwys pêr ffydd
I ganlyn rhinweddau iawn dadol ei Deidiau,
I'r Bachgen dda raddau Dduw roddydd.

9 Diniwed dda ddonie fo i'r peredd Aer pura,
Ail Abram rinwedde fab Tera fo i'm tyb,
Grâs Duw a hir iechyd i O. Putland Myric,
A'i genedle garedig gredadyb.

10 Tebig i Joseph, fab Jacob, fab Isaac,
A fotho 'r Glain perffaith mewn araith a nerth,
Ail Solomon sylwedd mewn rhad ac anrhydedd,
I farnu yn ddoeth agwedd warthogerth.

11 Tybygwn ni 'r Bachgen wych loweth iach lawen
I Gamber fwyneiddlan parch diddan i'w Dad,
Pan gafodd fe 'r llyfra gan Brutus a'r arfa,
A ddaethe o Gaer-droia Gowrt trwyad.

12 Llin Camber, llwyn Cymru, odiaethol i dreuthu,
A safodd i fynu yn Fonedd da gwiw,
O Eppil un Gomer fab Japheth oreuber,
Fab Noah ni's dalier y Diluw.

13 Pilar digymmar O. Putland, glain glaear,
Ap Myric oleuber ffrwythlonger ffraeth lân,
Yn darbod mor ddirber ag Enos ddianair,
Drwy Rinwedd da iownwedd dewr anian.

14 Rhoed Duw iddo weithan hir einioes iach lawen
Wrth fodd mameth gymen i 'mgomio am ei gân,

Na

Na ddelo gam ddaliad awch adwyth warcheidwad.
I'w deudio ond rhai gwaſtad goneſtlân.

15 'Rwi 'n eddfyn nawdd addfwyn ei Dad a'i Fam
euddfwyn Am ganu wrth f' opiniwn, dylaſwn gael loes,
Mae ngweddi yn ddiddiffig dros O. Putland Myric,
Am Râs hael ac iechyd hir einioes.

16 Mil ſeithgant dau ugian, a deuddeg mhlwydd
cyfan, Oedd oedran perffeiddlan Mab diddan Duw 'r
Tad, Pan anwyd parchedig Owen Pitland Myric,
Mis Medi nhw addawan yn ddiwad.

ENGLYNION i'r unrhiw.

1 *OWEN ddyn bychan ddi-bechod Putland*
Myric mur Aerod, Bodorgan, ail goſen gwlad iſod,
Yn Sir Fôn gora rhoen yn rhad.

2 *Myric Aer Meiric o'r Merion, Owen*
Putland Myric raſuſlon, Myric wyr Myric gynhesfron,
Gora Myric Meiric Môn.

3 *Llin Gomer di-ddicter da eu ddyſc, Fab Japheth,*
hil Camber yn gymyſc, Ap Brutus gwrwiath goreurfyſc,
O ſonedd y rhain mae'r Meiric i'n myſc.

4 *Brenhinoedd lluoedd da eu llyſc, I'w hadrodd,*
mae yr Treuthydd yn hyddyſc, Adrodd iacha Meiric
happus, Câr Efroc o Frydan frys.

5 *Mae Bonedd da bereidd brig, Pitland*
ap Meiric oreurfrig, Fel yr wmbwl didrwbl drig,
A'r griſial dda Howel frenhinfrig.

6 *Llin Owen fwyn gymen ddi-gamwedd, A Chatrin,*
frenhines deg iawnwedd, Y hi o Ffraingc bêr gaingc
ei gwedd, A Thudûr o Fôn yn dda ei ſonedd.

7 *Mae Owen o'r gradde gyrhaeddys, Uchaf,*
a hewyd yn iachys, Pitland ap Meiric lwyddianys,
Aer Bodorgan lawen lys.

Ymddiddan rhwng y BARDD a'i FAB pan oedd yn *Llundan*, ar feſur *Gwilim fwynedd*.

1 *Mae dy Fam yn gofyn itti, A wyt ti 'n leicio Saeſnes*

ſoſi; Ac os felly mae dy ewyllys, Cais di o Ali rawn un rymmys, O Deulu dilus anrhydeddys.

2 *Nid Bun ieuangc ry led-benffol, Un gynil galed pawb a gammol, A'i da byd, a chlyd ei choda, A grâs Duw i'w Ffrins a hitha, Gelli felly fyw 'n ddiwalla.*

3 Atteb. *Anrhydeddus gnawdol Dadmaeth, 'Ruch chwi yn goſyn immi 'n helaeth, Y peth ni fedraf roddi cyfri, Ond Duw ro râs i mi eich budloni, Os digwydd imi ſentro*

4 *Nid wyf etto yn ſôn am wreica, Mi [wrth ffanſi. daria 'n rhydd riw gwrs debyga, Oni ddaw lwc i'r rhai a aethent, Nbw gan ddigon cyn eu henaint, 'Rwyf yn bwriadu hynny yn bendant.*

5 Tad. *Cofia Suſan, cofia Judeth, Cofia Joſeph a'i dduwiolwaith, Cofia fercheid yr hen Lottan; Gwilia* Rahab *fwyn y buttan; Duw rotho râs i ti fy machgan.*

6 *Fe foddiodd Abel ein Duw cyfion, Wrth offrymmu yn rhwydd ei roddion; Ond Cain wrthnyſig oedd yn rhoddi Offrwm byrbwyll i'n Duw IESU; Gweddiwn rhag pob godinebu.*

7 Mab. *Fy Nhad, rwy 'n diolch ichwi 'n ffyddlon, Am eich cyngor pur o'ch calon; Minna a'i cadwaf hyd y gallw, Er coffadwriaeth am eich henw, A'm ewyllys inna fydd ei gadw.*

8 Mab. *'Rwi ar derfyn hyn o atteb, Duw a rotho i chwi fodlondeb, Grâs ac iechyd a llawenydd, Duw a'ch catwo meŵn tangnhefydd, A Duw ro i minna lwyddiant beunydd.*

Galarnad y Bardd am yr unrhiw Fab, ymhen y naw mhlynedd ar ol yr Ymddiddan uchod, megis *Ymddiddan* rhwng y *Byw* a'r *Marw*, ar feſur *Brynnia 'r Werddon*, o achos digwydd iddo farw yn y *Werddon*.

1 *Fy ngheraint a'm cyfeillion, gwrandewch ar gwynion gwan, Am fab a'i enw* Humphrey, *mae fy alar i ac Ann, Bu farw yn y Werddon, lle rydoedd ar ei daith, Ar ol trafaelio Lloegr, achoſion mowrion maith.*

1 *Pe*

2 *Pe cawn i gantho fy atteb, fe ddwyda immi'r gwir,*
Pa amſer bu ef farw, ac hefyd ym mhar y Sir,
A pha riw Blwy lle cladded, pa hyd y bu fe yn gla,
Ei Feiſtr a'i Lythyra rydd immi attebion da.

3 Marw. *Fy Nhad, ni yrrais ichwi Lythyra o gariad gant,*
O Loegr ac o'r Werddon, cin immi fynd i bant,
Yr rowron rydwi yn gorwedd ym monwent Eglwys fawr,
A elwir Llan Arbrachan, gwlad Meath lle rhoed fi i lawr.

4 *Bwriedais ddechrau 'r Gaua ymado â'r Gwyddal dir,*
A dwad adra i Gymru, ond nid i dario yn hir;
Fy meddwl cedd am fyned i Loegr yn fy ol,
I fyſc fy hen gymdeithion lle baſwn gynt yn ffôl.

5 *Digwyddodd arnai glefyd dair wythnos helaeth hir,*
A Gwr Eglwyſig howddgar yn darllen immi yn glir,
Gan fynych e'ch am dana a'i gyngor yn dda ei ddawn,
Fe roddodd immi yr Cymmun ofn rhag marw a wnawn.

6 *Yr unfed-dydd-ar-bymtheg o Ionawr, dyna yr gwir,*
Fe ddaeth y Swyddog Ange i ddiwedd f' oes yn glir,
Er allodd y Doctoriad a maeth na lliniaeth dda,
Bum farw y boreu hwnnw ym myſc Criſtnogion da.

7 Yr eilfed dydd ar bymtheg fe 'm cladded brydnhawn-hwyr, Mil ſeithgant ſaith a deugian oed oedran, Duw a'i gwyr, Ein Prynwr Bendigedig, gobeitho rhydd i'm le, I fod yn un o'i weiſion ef gartre yn nheyrnas Ne.

8 Dymuno fy Nhad anwyl, a mam, nafyddwch [nas Ne. brydd, Fy mrawd a'm chwaer attolwg a'm brawd yng hyfraith ſydd, Byddwch oll gyſurus, rwyf fi mewn daear den, Dan ddydd yr adgyfodiad drwy f' Arglwydd

9 Trafeiliais gynt yn *Llundan* a *Lloegr* [Llywydd llen. lawer iawn, Wrth fyned i'r Seſſiwnau, fy meiſtr, gwr da, y cawn, A chwedi hyn digwyddodd fe fynd yn Uſtus mawr, A'm fina yn was i'w ganlyn hyd dir y

10 Digwyddodd ef briodi Arglwyddes [*Werddon* wawr. fawr yn wir, Fe dale hon bob blwyddyn werth mil o bunne clir, A mina oedd ei Fwtler yn ddifai dda fy rhaid, A'i Greiar hyd Seſſiwnau, mae hynny'n wir dibaid.

11 Tra-

11 Trafeiliais wledydd bymtheg hefo'r Uſtus *Yorc*,
Mi henwaf ichwi rheini o hyd tu draw i *Gorc*,
Cynta Sir yw Dilyn, a Wiclo, Wexford, dair,
Pedwaredd yw Kilkeni, Gwlad Meath ſy bump ar air.
12 Kildare yw enw'r chweched, a King's, y ſeithfed Sir,
Waterford yr wythfed, gwlad Queen's, y nawfed tir,
Typerari y ddegfed, ac unarddeg yw Corc,
Gwlad Keri yw'r ddeuddegfed, a'r Uſtus *William York*.
13 Tairarddeg Sir Lymric, a'r Dre yn fawr yn wir,
Gwlad Cafen yw'r bedwaredd ar ddeg ymhell o dir,
Ffermanah y bymthegfed, a dyna ddiwedd hyn,
Duw rotho i chwi a minne Drugaredd Iesu gwyn.
14 Rhof etto i chwi chwaneg o'm hanes helaeth hir,
Ymado a wneis â'r Uſtus, ymhen naw mhlynedd clir,
A mynd yn was i Wyddal, hwn ydoedd Barl'ment-man
Bum yno dros ddwy flynedd, gwr gwyllt, anyned fan.
15 Ymado a wneis â'r Gwyddal mis Mai oedd dawel deg, A mynd at Gownſlor Ffener, Squier glân difreg, Bum gida hwnnw chwemis nes daeth i'm dewis daith, I Siwrna ſy marwolaeth, a'm rhoi mewn daiar
16 *Y Byw.* Duw o'i fawr Drugaredd a ro i ti [faith.
eſmwythdra da, O'r bywyd marwol yma, Duw cyfion, caniadha, Bodlondeb gael dy hanes, Criſt Ieſu a drugarha, Gan fadde i ni ein pechode, am alar trymder tra.
17 *Y Marw.* Er ſy rhoddi i orwedd yn farwedd ac yn fud, Fy meiſtr a'm llythyreu rydd hanes ichwi o hyd; Rhaid immi dewi bellach, llefarwn marw mud, I waitio fain yr Udcorn i'n galw ni oll ynghyd.
18 *Y Byw.* Ffarwel a fo i ti, Humphrey, ni wiw mor galw ar d'ol, Mae d'enaid wedi ymddattod, i'r corph ni ddaw'n i ol, Gobeithwn i Dduw dy gymryd i gamrau perlau pôr, A'th drigfan yn dragywydd ger bron ein Harglwydd Iôr.
19 *Y Marw.* 'Rwyf wedi llwyr ymadal â'r marwol bethe'r byd, Mae Mhrynwr Bendigedig i'm gwadd i'w deyrnas ddyd';

A byddwch oll gyſurus, ni ddeuwn etto ynghyd,
Yn nydd yr Adgyfodiad o bedwar cwrr y byd.

20 *Y Byw.* 'Rwy 'n gwbl ffyddlon gredu yn ddiamheuaeth wir, Ni wiw mo'th ddiſgwyl bellach i lan daiarlan dir, Mae'th enaid wedi cymryd ei chamrau uwch na'r ſêr, A'th drigfan yn dragywydd ger bron ein Harglwydd Nêr.

ENGLYNION *Ymddiddan rhwng y* Caethwas *a'i* Gaethiwad, 1750.

1 *Gwr.* Clowch, Fonedd clirwedd clôd, Cynghorwyr, dadleuwyr dewr didlod, Holwch a theimlwch, rhag rhith anglod, Rhwng cry, a gwan ſy druan ei droed.

2 Y cry ſy 'n hyrddu yn ail-hwrddiwr, Anhydyn, yn erbyn y gwan-wr, Ceiff ef gweſt, cam orcheſt wyr, A'r cyfri gwn ſynno gan fwyn-wr.

3 Ni wiw i'r Egwan ymrwygo, Er tecced Cyfrifon ſo gantho; Rhoir y Truan a'i farn arno, Yngharchar dewr dalar dan do.

Cyſur y Carchardy i'r Carcharor.

4 *Fêl.* Bydd eſmwyth was ufudd i'm ſwydd, Daw attad, os ydwyf gyfarwydd, Awdurdod dda raddol rhoddwr, I ddadleu dy gam, gymen gwr.

5 Mae'r Brenin pur riddin pêr radda, A'i gyngor, da ordor diweirda Yn rhyddhau didrau o dra, Drwy ddawn nodded fwyneiddia.

6 Pan ddelo ei bur ordor bêr eirda, A rheol i'r Hôl y Seſſiwna, Rhyddhau ei ddeiliaid o ddalfa, Cyfyngdra fel cloddfa cla.

7 Dyffryn i'th dderbyn waith arbad, Di-gelu, f'ai gelwir daroſtyngiad, Da itti gyſtydd ſadwedd oſodiad, Drwy gam ddi lam ddylêd.

8 *Caeth.* Mae ngweddi yn erbyn arfaeth, Bendithion i'm Caſeion traſerth, Duw i'w llwydd a attalio 'r llath, Rhag niwed i'w deulu a'i waedoliaeth.

9 Gweddiaf, erlyniaf ar linia, Yn buredd, bob hwyr a phob bora, A chalon drom, nid llon wellha, Gwael ſylwedd, canaf o'r Salma.

PENILLION *i'r un perwyl, ar ſeſur* Calon drom.

1 Gwrando'r *Fêl*, dan ſêl dy ſelar, Rwyt ti yn llettu gwely galar, A roi di gennod immi ganu, Rhag immi farw cyn y foru. Mae f'uchenaid am fy nghartra, Fy hen wreigan yn ddi ogan am cyfneſa, Pe cawn i rydit, awn i rodio, I'w plith heb gwyno, etto yn dirion iawn i dario.

2 Fe fu Joſeph gynt yng ngharchar, Rydoedd hynny yn gam di-gymmar, Os cofiwn Jeremiah, Daniel, Nid rhaid i mi mor achwyn uchel, 'Rwi'n gweddio ar Dduw'n ddiwegi, Am fadde i'm meiſtar fod mor egar a cham-gyfri, Mi yrrais atto yn ol ei archiad, Wr di groeſni i wneud fy nghyfri heb gam-gymmeriad.

3 'Roedd ei nattur ef mor atgas, Ni wnae o ddim ond llid a malais, Codi Gwrit ar gam digymmer, A gyrru i'm cyrchu fina i'r carcher, Mae nghyfrifon yn dra eglur, Wedi eu dangos pell ac agos gwyr da eu ſyniwyr, A phawb ſy 'n doſtyr immi yn tyſtio, Y gwneiff fy meiſtar fod mor egar ag y gallo.

4 Y fo ſy 'nawr yn Squiar gwchedd, A'm fina yn ſalw iawn fy ſylwedd, Ni chawn Ddadleuwr yn y Dalaith, Nac un Cynghorwr purffydd perffaith, Nhw ddwydaſon na chymeraeth, Yn y Seſſiwn ddim or ffaſiwn i ddadleuaeth, Mae gwell oedd myned i Gwrt *Llundan*, A'i waedolieth pell o'r daleth yma dylan.

5 Bellach rhaid i mi fodloni, Mewn caethiwed a thylodi, Dan y ddelo Rhinwedd reiol Oddiwrth ein Brenin GEORGE wr breiniol. Ar Dduw'r TAD mi rof fy hyder, Ac yn ddiwegi ar Dduw IESU am fy nhynnu o'm cyfyngder, A Duw'r YSPRYD GLAN ſancteiddiol, Rhof fy ngoglud ar tri yn ogyd un tragwyddol.

6 Y mae'r Sgrythur yn mynegi Am riw Arglwydd llawn daioni, A faddeuodd ei ddyledion, Wrth daer ymbil gwas afradlon; Ond

Ond pan gyfarfu hwnnw gwedi, A'i gyd-raddol frawd da gweddol yn ei gyfri, Am na thala fo iddo 'r cyfan, Fe a'i llindagodd ac a'i ſgyttiodd yn dra aflan.

7 Felly y gwnaeth fy meiſtar inna, Mynd ar cwbl oll oddiarna, Ac etto heb wneuthur cyfri iawndda, O'r cam a wnaeth fi ar y cynta. Geill yr Arglwydd, ynta yn gyfion, Ei roi fe yn gaethwas, dyled addas, gowyr inion; Ond Duw o'r Nef a rotho ymwared, Iddo a minna i'r byd neſa i baſſio ein dyled.

ENGLYNION *i Bont ar afon* Gaſeg, *yn agos i* Goitmor *yn Sir* Garnarfon.

1 Deiſyfeis fel gwalches gylchiog, Dros Gaſeg draws goeſe gwaſcarog, Gael enfys glaer fanylfres glog, Hyd eitha ei chyrra, a chaerog.

2 Caer fonlleſt, cowyr fwa faenllyd, Fonheddig, wych enwog uwch embyd, Caſeg o ddwr bywiog y byd, Ddwy ddolen gadarn y gydyd.

3 Afon lwyd ffroen-llwyd ffri, Yn cwimpio o Gwm Penllaferli, Agos y byddiff hi a boddi Ymbell un o'm pell i.

4 Mae 'r afon yn rhedeg yn rhydd, O gwmmau tra mowrion y mynydd, Ffynon-gaſeg glin oeſydd, A'r Cwm Bychan ſylfaen ſydd.

5 Mae Bonedd da beraidd brig, Yn hollawl, a'i h'wyllys di-ddiffig, Gael Pont fawr faen, pwynt fur frig, Gylch ei chyraedd o galch a cherrig.

6 Syr Wiliam loew lan lys, Yong, ei enw anrhydeddys, A'r Gen'ral Warburton tra ffarys, Dau ſylfaen ei cholofn a'i chwys.

7 James Coytmor o'r Oror enwog, Eſquier, wiſc hoew nodidog, Cymmydog glân eglurlan glog, Wych iacha Amodol *Madog. Madoc ap Iarddyr, Twyſog yn y Llechwedd-Iſa.*

8 Mae John ddawn llon ar ei llês, Paynter, pwyntiodd ei hurddes, Pen golygwr, paen y gloges, Eiriolwr da, areil dês.

9 Gwr geidwad, goruwcheidwad gorcheſtol, Golygwr y gwaith tra rhagorol, Meiſtar Paynter digymmar ei *gôl*, *goledd*, Pen Stiwart Penrhyn * *ſtoriol*. * *tryſor du*.

10 Wiliam Sion, pen Saer pwngc, Difiſiol ddyfeiſiwr ei thraſlwngc, Stuwcla yn llawn hyfforddio ei llwngc, Clymmwr dolen eu deu-lwngc.

11 Mae ſylfaen y ddwy-ddolen ddileg, Ai gorcheſt yn gwarchod Aber-caſeg, Cynorthwy draw rhag braw a breg, Ni chwynaf ganu ychwaneg.

12 Pont laſwen, pont gaerwen, pont gron, Pont uchel, pont i ochel yr afon, Pont dda gre dros y lle llon. Pont ar Gaſeg a gowſon.

13 Dau fwa faen da ar don, Dwy enfys, yn danfon dros afon, Glain da, bur glymiad y bôn, Byth ar Gaſeg y bython.

14 Gwiddan loew lâs lenn, A'i llwngc yn llyngcu Caſegen, Gorwyres gre ddwy âis gren Bwynt llawn gall i Bont Llangollen,

15 Canllaw fwa faen uwch Cefnlli, I'w thramwy, a'i thremiad goreurfri; Na ddel fyth, teilynga ngweddi, Ddwr a'i bawdd o llawdd y lli.

16 Pymtheg cant, gwarant gwiroedd, A rhagor ddeg-ar-rhigian flynyddoedd, Deg ugian unod agwedd, Ac wyth y gwnaed y gwaith a'i gwedd. 1735

CWYNFAN colled am Bont Aber-garth-gelyn.

1 Yn *Aber-garth-gelyn* gwrth-giliodd I bant, y Bont i'r lli ymollyngodd, Collad fawdd nid call fodd, Mae 'n dwrr o ſiarad drwy 'r ſiroedd.

2 *Moddion y tir*. Brynnia fel bronna mawr breiniodd, Breichia, brawychys i bobloedd, Cennentydd o'r moelydd ymelodd I lowio 'r dwr, i lawr y doedd,

3 *Gwlltineb y dwr.* Mawr hedli melyn-ddu mileinddig, Yn chwilfriw pridd-chwalu a cherig, Dwyn yr ydau o'r tir aredig, A phont fawr faen Aber nant frig.

4 Dau ar bymtheg, Arglwydd pôr pen, O gantodd deuddeng mhlwydd a deugian, Y gwnaeth y lli yn noeth y llen, Y bont a'r ydau i bant a redan. 1752

CYNGOR i wneuthur Pont newydd.

5 Ceisiwch, arloeswch le ysig, Sael-feini, sylfeinwch yn ddiddig, Rhowch lawr da i'r bwa dwy-big, Dros ei cheudod nid ychydig.

6 Sylfeunwch, a gwelwch y gwaelod, Dan don, ymgeisiwch ei gosod, Rhowch ei chaere wych eurod Fel yr Elfaen eglurlan glôd.

7 Bonlleſt dda orcheſt ddwy erchwyn, Fel milieſt i'w moli yn ail-eulun; Cydiad o feini cedyrn, Dros afon yn danfon dyn.

8 Gwifon ar afon drws Enfys, Glain glasb, fel dur rasb ar ddwy Ynus, Llwybur dan wybur adnabys, I'r Eglwys dda lân ddilys.

9 Gweddiwch, erlyniwch ar linia, Yn ufuddol, lân foddion galonna, Na ddelo lli a yrro o'i lle, Bwynt Enfys naws y bont nese.

CYNGOR i wneuthur Pont y Marchogion y Penrhyn *ar afon sydd yn codi lle bu Gegin* Twysog Arthur, *yn Llys* Dinordde, *ym mhlwy* Llan-Ddaniolen, *ac a elwir* Afon-Gegin, *yn agos i* Fangor-fawr-yng-ngwynedd.

1 Rhowch gymmwys dda foddys feini, Cedyrn, uwch croew ddwr heli, Pont ar Afon-Gegin gwgi Arthur Dwysog freiniog fri,

2 Sylfeunwch, gweithiwch yn wchion, Ddau bwint i bont y Marchogion, Gwnewch ei chanol a'i herchwynion, Yn gryfion llyfnion llon.

3 Bwa maen cydiad cadarn, Cyfwng dau gwmmwd gwasarn, Ucha ac isa fodda fan I farchnad Fangor fechan.

4 Enfys drefnus dreial, A rhediad,
i rodio at Saint Danial, I farchnadle fodde fâl,
Lle ceir am arian eirial.

5 Cammog, nid llam ogo llippa, Gadarnlas,
uwch coges lân Droia, Sy 'n codi i olchi drochi dra
Yng nghegin Arthur wrthia.

6 Morwyn y Gegin a'r gogas, Yw 'r afon,
cofiadur yw 'r hanas, Mae llawer ffrwd iddi rwd
fâs, Cin delo i'r clyttia ſglattas.

7 Oddi yno mae 'r Ddyfran ddifrad, Yn pwyſo,
i baſſio 'r Agorod, Ac Afon Fena llonna wellhad
Yn llenwi iddi ei llonad.

8 Mae 'r Afon fel burym yn berwi, Cymyſc
croew ddwr heli, A Mena iddi crynna yn cronni
I'w marw ar y llanw a'r lli.

9 Oedran ein Prynwr pur iawndda, Mil ſeithgant
a phedwar o ddega Un ar bymtheg iawndda,
Pan wnaethon y ddolen dda.

Englynion *i'r* Marsiandwyr *Môr a Thîr, ac i'w* Meibion.

1 Marſiandwyr mawr noddwyr mewn addyſc,
Cynhalwyr y gwledydd di-derfyſc, Profeidwyr he-
ddolwyr hael hyddyſc, Buwoliaeth reolaeth rwyſc.

2 Darparu at faethu yn hoffeiddlon, I Gymru,
ac amriw Griſtnogion, Mae 'r marſiandwyr dda ei
ſwydda'n ſôn, Drwy Frydan Fawr lydan a'r Werddon.

3 Nid ellir mor dilin y Dalaeth, Llafurio,
naws mwyn na hwſmonaeth, Na chrefftwr na hyſwi
Luwſi lâth, Fawr ſowndio heb farſiandaeth.

4 Llwyddiant a ffyniant hoff inion, I'ch llonga
drwy Frydan a'r Werddon, Duw o'i plaid rhwydeb
rhôn, I'w cadw rhag cledrwydd mor-ladron.

5 Rhwydeb da llwyddad Duw 'r Lluoedd, I'ch go-
lud ar dir ac ar foroedd, Pob marſiandiaeth ddaeth,
ni fethodd, Ddwyad adra yn llawn dda rawn rodd.

6 Iechid

6 Iechid, grâs mabiaidh i'ch meibion, Pilere, pur llonna pêr llownion, Llwyddiant, ffyniant hoff inion, Hylwydd da dawn, felly y don.

7 Pan ddelo, mewn rhôl a mawrhad, Eich meibion mewn oedran ymglymiad, Duw drefno yn rhodd wragedd rhâd, Da ddonia, llun ora llawn eurad.

8 A'i golyd da goneſt digynnwr, Yn haeddol, gynyſgaeddol drwy ſwcwr, Parchus bonedd, glodus gwladwyr, Fo eu Tadau llareiddia llwyr.

9 A'r mercheid glân oleu glain Elwiw, Yn darbod mor deirber berffeithriw, Ail i Eſter dda iaſber liw, Ne Judeth ddawn odiaeth ffyniadwiw.

10 Rhai perffaith prydferth pur radlon, Diwagedd da ogwydd graſuſlon, Llawn donia, llwyni dynion, Digwyddfa rhwydda rhon.

11 Gwenithod enethod Suſanna 1 Wyreſod i Judeth dduwiola, 2 Gorwyreſod Eſter ddoetha, 3 Goreſcynnydd Seba ddoniadda.

12 4 Geufyn ail ofyn i Lea, 5 Gorcheufyn i Rachel wawr ola, 6 Gwſtyn, mae 'n deſtyn da, O radde ddoniol i Ddeina.

13 7 Gorchwſtyn, ſaith deſtyn da, Heb nac, yn bac i Rebecca, Careſod 8 Iddig, 9 Clyd, nid cla, Yw Milca ſiriol a Sara.

14 Ceſglwch arfaethwch yn feithlon, Yr iacha, a chwiliwch ei chalon, O'r nawfed i'r unfed ran, Cewch bawb yn frodyr drwy Frydan.

15 Ac hefyd, er llawer ymholfa, Drwy Europ, ac Afric ac Aſia, Gan chwilio llyfra doetha da, Hyd foroedd mawr America.

16 Er chwilio llyfra, a lleſan, Ni chefis ddim hanes dan wybran, Fod dim iacha ſicra i'n rhan, Na phlant a brodyr Fawr Brydan.

17 Er croeſtro, mae llawer Criſtion, Mewn cariad ffyddlonedd di-ymryſon, Ac amriw rai rhyfel rhon, I ymdagu rhwng cym'dogion.

18 Ni

18 Ni feder llawer o ynfydion, Af ddaiar, byth weled moi digon, Nes mynd iddi, a thewi â thôn, Pan gollo 'r lleferydd llif eirion.

19 Y ſawl a wnelo yn annuwiol, Gam â'i elyn gwrthwynebol, Pan ddelo diwedd byd ffiedd ffôl, Ni ddichon neb lechu yn 'afiachol.

20 Gweddiwn â gwaedd dduwiol, Ar Dduw, ein Creawdwr ſancteiddiol, Am bob donia rhadau angenrheidiol, A thrugaredd i'r enaid ar ol.

GWEDDI Awdwr y Llyfr hwn, ar feſur *Leave Land.*

1 O *Arglwydd Creawdwr, Duw Fab ein Pryniawdwr,*
A'r Yſpryd Sancteiddiwr, glân noddwr glain nod,
Gwrando fy ngweddi, a madde nrygioni,
Cyn immi ddibennu yr ddewr bennod.

2 *Mae Ngarph yn o lippa, a'r Galon yn gwla,*
A'r Traed fy gyſlyma, ſy â'i tripia ymhob trâl,
Mae 'r Golwg yn pallu, a'r Cof yn diſlannu;
Mae 'n rhywyr i'm grefu am y grafal.

3 *Ar DDUW 'r Tad o'i fawredd, 'rwi 'n rſyn trugaredd,*
Mae f' einioes ar ddiwedd, yn ſiwredd neſhau,
Mae Mhen yn ſyn ſyfrdan, a'm Dannedd yn rhingcian,
Mae Nhwylo fel crynnan yn crynnu.

4 *Ni wiw imi ddiſgwyl fawr chwaneg, rwi 'n meddwl,*
Ond dyddia blin drwbwl dan gwrwl neu garr,
Mae 'n rhywyr edifaru am bob awr o Bechu,
A chyweirio ſy ngwelu yn ſy ngalar.

5 *O coſiwn erſynia is Caer Heſechia, A gweddi Manaſſe, mae 'n neſu at ſy mron, Elias weddion ar ol yr bir hinon, Danfonodd Duw 'n kwyſlon wlaw lleſlon.*

6 *Dod immi dair phiolad o ddwr edifeiriad, O Dre 'r Ninifead, o gariad y gwin, A Jonas i'w gario, gweddiaſ ar Silo, Dan godi ſy nwylo ar ſy neilin.*

7 O *Helian dda haeledd, dod immi drugaredd, A madde ſy nghamwedd ſy 'n dwredd o dew; Na ddyro le i Satan, nac un Yſpryd aſlan, Mo 'm hudo o'th gorlan, y Gwir-lew.*

8 *Llew o lwyth Juda, Ioan ſanctedd Jehoſa, Nertha ſi*
a ffforddia i orſedda i'th lys aur, Na ad.i mi dripio, naws
ſerthedd na ſyrthio, I gorſydd lle botho anobeithaur.

9 *Os tairion a ſyddwn, drwy Griſt yr ymbiliwn,*
A chalon bur credwn, erlyniwn ddi legr,
Ar ſanctedd wir Drindod, a'r Duwdod yn undod,
A'i Ddyndod cyfryngdod cyfiawnder.

10 *Gwir Alpha ſanctteiddlon, Creawdwr Nef dirion,*
Angylion a dynion, rhoiſt ddawn yn lawn lân,
A'r holl greaduriad yn weiſion i'n harbad,
A'n porthi ar angenrhaid angen-rhan.

11 *Rhown ninna o'n calonna ddrylliedig ocbneidia,*
A rhoddwn offrymma di-frycha da i'th fraint,
Cyd-ſeiniwn Hoſſanna pêr lwyſedd pôr leiſia,
Fel Barac ac Aſa' da geiſiant.

12 *O cofiwn am Ddafydd fy gynt yn Ben-llywydd,*
Mor ddownus ei ddefnydd fy 'r treuthydd gynt gant,
O Salma perffeitlon ar amriw achoſion,
A Selyf ddoeth Salmon ddi ſomiant.

13 *Eilfyddwn cin eilfyd Brophwydi er y cynfyd,*
A roes i ni'n ddiwyd o'i hadfyd di hedd,
Gynghorion o'r doetha, a phrophwydoliaetha,
O'r blinfyd a'r waſcfa yn ddioſgedd.

14 *Ymrown ninna'n dduwiol i alw ar Dduw nefol,*
A cadwn ſanctteiddiol ſabothol ſail bur,
Fel rhoes Moſes gynta wrth erchiad Gorucha,
Ar ol cael yn Sina lawn ſynwyr.

15 *Gwybyddaf heb ddwndwr fod Duw fy Ngreawdwr*
Yn ddig wrth fy nghyſlwr di ſynwyr dan ſenn,
Am dorri'n anffyddlon ei ſanctedd orch'mynion,
Mi heuddwn goſp gyfion yn gyfen.

16 *Di olchaiſt ddyfn friwia holl ddynol ddrwg ddonia,*
Maddeuaiſt bechoda rhai gwaelaf eu gwedd,
Os gwnawn i wir gredu, difario edifaru,
Cawn ninna o'th daer garu drugaredd.

17 *O IESU fy Mbrynwr, bydd inni yn Gyfryngwr,*

Fy

Fy ſanctedd Eiriolwr diddanwr Duw-ddyn,
Troſtwi gwna gymmod, a dod immi ollyngdod,
O'r rhwyd 'rydwi'n darbod ſy'm derbyn.

18 *CRIST derbyn fy Enaid, 'rwi yn ddilys i ddwad*
I'th gaere gogoned, mae nhynged yn dda,
A'm gobeith diffuant, er cynrhwg fy haeddiant,
Drugaredd Duw rwyddiant ſe rodda.

19 *Deffygiais gan ochan y nos ar dydd weithan,*
A'm hyſpryd ſy'n gryddfan oer lleſan nid llon,
Mae amriw feddylia fel gwyg i'm gweddia,
Yn lledu i mi lwybrau glyn Ebron.

20 *'Rwi'n bur edifeiriol am bob pechod marwol,*
A'm gweddi dros ddynol-riw bobl y byd;
Duw dwg ni i'r un gorlan a'th Yſpryd ſanctteiddlan,
Fe'n cadw ni o geulan ddrwg olyd.

21 Duw madde fy hyſder, pechadur drwg ofer,
Am ddeuſyf mor ſyber dan drymder min drangc,
'Rwi yn hyf wrth orchymyn, Criſt Ieſu yn ei ofyn,
Fe erchodd heb orafyn i'r ieuangc.

22 Dyſc immi 'r Gorucha, iawn rifo fy nyddia,
Mae 'n orthrwm fy meichia o bechod a barn,
Er cymaint fy nghamwedd rydd CRIST im drugaredd
O'i fowredd orfoledd yn gadarn.

23 Mae 'n rhywyr im dychan o herwydd fy oedran,
Dros ddeng mhlwydd a thrigian, rwi 'n ſyfrdan a ſyn,
Duw cadw dy eiddo roiſt ynddai i hir dario,
Na chofia iddo rodio fel yr adyn.

24 'Rwi 'n agos terfynu fy einioes, a chanu,
Gobeitho na ddigi Duw eiddugus wyt ſant,
Dod d' Angel i'm cadw, 'rwi 'n egwan ddiſalw,
Rhag ofn immi farw yn ddifeiriant.

25 Mil ſeithgant dau ugian a deunaw mhlwydd cyfan,
Yw oedran perffeithlan mab ddiddan Duw'r Tad,
Criſt Ieſu ein pryniawdwr, Glân Yſpryd ſanctteiddiwr,
Y Drindod Iachiawdwr a cheidwad.

26 Duw cadw dy Eglwys Griſtnogol baradwys,

A'n

A'n Brenhin perffeiddlwys *George* wiwlwys ei waith,
A'r holl weinidogion, Eſgobion, Doctorion,
A phawb o'i cynghorion, cywirwaith. Amen.

Myfyrdod, Erfyniad, a Gweddi ddiwedd-glo, a wnaeth yr Awdwr, ar feſur Clyl y Gloch.

1 O Dduw da clyw, Creawdwr, Barnwr marw a byw, Cydnabod 'rwi mae dynol-ryw, oedd achos friw 'n dy fron; Adda ac Efa aeth yn gaeth, Am wrando ar Sattan filan faeth, O'r achos hwnnw ninna wnaeth, Syrthio i bechod ſyndod ſaeth, Nid modd i fyw heb feddig ffraeth, Danfonodd Alpha oddi fry Waredwr inni a cheidwad cy.

2 O nawdd Duw 'n hawdd, dod am fy mhechod nodded nawdd, Ein holl ddirgelion wradwydd bawdd yn llyn Sodoma boeth, Gwnawn gynghorion dyfnion dawn Moſes a'r Prophwydi yn iawn, Arloeſwn ffordd a'n lluſern llawn, I gyfwrdd Iesu raſol yr awn, 'Ni gawn y Nefoedd os da wnawn, Ac aros ynddi yn fywiol byth, heb ball na diffyg ar ein chwyth.

3 Gwir Sant dy blant ſy mewn tywyllwch mwrllwch nant, Yn methu dringo i'r bryn o'r pant, I gyraedd talent dawn. Mae ginti luoedd rialwch ffri, Uwch law rifedi y fedra fi, Yn Affrig lleng a llegau yn lli, America cattorfau tri, Europa ac Aſia rhially rhi; Duw dod i'r Anffyddloniaid ffrwyn, A dwg nhw i'th gorlan at dy wyn.

4 Gwir oen dan boen Mab Duw heb wad mewn brad a roen Rhwng dau leidir grydir groen yn anghyfreithlon frad, Dioddefodd chwerw farw y gaeth, Dros ddynol-riw gan ffriw wyr ffraeth, Cymmodi ei Dad a'i blant a wnaeth, A thynnu o Uffern gethern gaeth, Yr holl eneidia i'r nef a aeth; 'Ni gawn ninna, os gwnawn yn iawn, Fynd at rai perffaith lyweth lawn.

5 Fy Iôr dda ſtôr, Gwaredwr, rhodiwr tir a mor,

Sancteiddia noddfa pura pôr, Cyfryngwr rhoddwr hedd, Er mwyn dy yſtlys werthfawr waed, I'th ddwylo draw, i'th ddolur draed, Dod nawdd i'th blentyn cyndyn caed, Gwaredu fy enaid llwyr wellhâd, Rhag Tophet boeth lle noeth llyn aed, Ymddiffin fi, fy Nêr da 'nawr, Rhag ſyrthio i bechod bach na mawr.

6 O Crist ein ciſt, a'n Prynwr tyner Iesu triſt, Iachiawdwr, Barnwr Crêd, anghriſt, A phob rhiw atheiſt wyllt, Dod edifeirwch, madde yn rhwydd, Cin itti yn galw o'th flaen i'th wydd, Pan ddel y Farn, bydd ſarn dy ſwydd, Hyd at dy Dad rhag brad afrwydd, Bydd inni yn gymmorth lân-borth lwydd, Glanha ni â'th waed o'n briwia i'n braint, I gael gorſeddu hefo 'th Saint.

7 Rhown bwys yn ddwys â chalon ffyddlon lanwedd lwys, I gredu i'r Ieſu a'i eiriau mwys A'n prynodd ni ar y pren, Cyflownodd 'wyllys Duw drwy loes, Ym myſg ei elynion ar y groes, I bawb a gredodd rhwydd y rhoes Drugaredd, iechyd o bob gloes, O's gwir bartoan cin diwedd oes; O Silo ſanctedd Helion hael, Trugaredd gydwedd gâd i'n gael.

8 Ein Tad a'r Mab y Glân Yſpryd ſanctedd râd, A gatwo f' Enaid rhag drwg frâd, hyll fwriad Ellyll fall, Dod inni olew ffynnon ffydd, Abram, Iſaac, lân diludd, Gweddi Elias nos a dydd, Yſgol Jacob dringo fydd At Grist ein Silo ſail dda ſydd, Dyſgwn lwybrau Enoch ddawn, Cyd rodio gida Duw 'ni gawn.

9 O maith da waith yw edifeirwch cin dydd taith, Cymerwn ofal am y gwaith rhag ſyrthio'n llaith i'r llyn, Gwnawn ymoſtwng gwlad a thref, Fel gwyr Ninif' am y Nef, Ac ymorol ym mhob llef, Am allwedd yr efengyl gref, A'r Apoſtol Pedr gydag ef, Os gweithiwn gyngor Ioan yn iawn, Llawenydd nefol gole a gawn.

10 O glân ddi wân y Drindod undod Dduwdod lân, Golch fy mudron frattia mân yngwaed dy Seiniol ſant, Mae mriwia yn rawnllyd ddrewllyd ddrwg, Nid ffit i ddim ond tân a mwg; A gwaeth na dim, mae Satan wg, Yn tynnu fy enaid tyn i'w fwg; Duw gwared ni rhag ſiglan ſwg, Partown luſernau wrth oleu 'r dydd, Rhag ofn y nos mae tywyll fydd.

11 Da yr Llew rhoiſt rew, A chaeaiſt Satan dano'n dew, Ni chyfyd fyth oi nyth yn ew, I dynnu blew dy blant, 'Rwyt ti 'n filwr heb dy fath, Gwna ninna 'n Eſwun ſydyn ſaeth, I gario dy arfa llymion ffraeth, Cledde yr Yſpryd, bywyd maeth, Eſgidia'r Efengyl, gair y llaeth, Dod ddwy-fronneg fraint dda fri, Ac iechydwriaeth helm i ni.

12 Fy Nêr uwch ſêr, gwrando gwynfan egwan glêr, Dwg dy aelodau glwyfus gêr, I ffynnon bêr dda ei braint; Dod inni râs i ymolchi 'n lân Yn yr Iorddonen fawr a mân, O'n holl bechodeu, cin yr aen I Ganan nefol loewedd lân At dy Seintia i gaere cân, 'Ni ddown pan glywon utcorn floedd, Yr Angel-Arch i'n gwadd ar goedd.

13 Fy Nâf 'rwi yn glaf, Duw Un a Thri o'th wydd nid af Dy hael Drugaredd cyfnod caf, Mi brofaf am gael braint; Mae f' eſgyrn ar waſcaru yn rhydd, Ni's gwn pa awr, ai 'r wawr ai 'r dydd, Ai canol nos, neu y bore bydd, 'Rwi 'n diſgwyl rhoi fy ngorph ynghydd, Dy was caeth wyf, O clyw fy mloedd, Ar derfyn darfod cyfnod coedd.

14 Duw 'r Hedd, newidia ein gwedd, Cefis wadd i fund i'r wledd, Priodas well na'r gwin na'r medd, Yr Oen di gledd da glân; Dod inni wiſgoedd Coral gwyn Difrycheulyd Sion fryn, Cân Cherubiad, Seraphyn, Enos, Moſes, Ambros wyn, Dafudd, Mair, a Simon ſyn, Cyd-ganwn hefo'r Seintia'n iawn, I gyfwrdd â'r Priod-fab yr awn.

15 O cloch dda roch y Babell ſanctedd lanwedd loch, A'r Tabernacle by y boch Dan ddiwedd byd a'i ben; Alpha Omega nertha a thyn, Fi i neidio yn llawn dros eitha'r llyn, Enneiniog Duw Emanuel gwyn, Gweddiwn arnat ti fel hyn, Na thrigom tan y dorlan dyn. O Sanct yr Iſr'el, doro di Drugaredd mwyn, Amen, i mi.

Naw Gradd Carennydd Dynol-riw, Hun ac Iſa.

1 *Mab*, 2 *Wyr*, 3 *Gorwyr*, 4 *Goreſcynydd*, 5 *Geuſyn*, 6 *Gorcheuſyn*, 7 *Gwſtyn*. 8 *Gorwſtyn*, 9 *Car Iddig*, 10 *Car Clud*, *hyd ddiwedd Byd*,

1 *Merch*, 2 *Chwaer*, 3 *Cyfnither*, 4 *Cyfyrder*, 5 *Geuſyn*, 6 *Gorcheuſyn*, 7 *Gwſtyn*. 8 *Gorchwſtyn*, 9 *Câr Iddig*, 10 *Câr clyd*. *Olrheniad y Beirdd o'r cynfyd*.

Dôs Lyfran pereryn pur iawnfodd I'w myſc, hyd y bryſg boreuodd, Lleda dy ddolenna a'th ddilynodd, Tan dy fai tynn dy fôdd.

Eglurhad o'r Rhifedi Cymraeg dieithrol ſy yn y gerdduchod, fel y byddo yn haws ei deall wrth y Saeſneg; o achos i'r Cymru golli llawer o'i hiaith, pan lloſgodd eu caſeion eu llyfrau, a nhwythau yn garcharorion ganthynt yr amſer.

1	Unau	1 *Units*
2	Degau	10 *Tens*
3	Cantodd	100 *Hundred*
4	Milodd	1000 *Thouſand*
5	Myrddau	10000 *Ten thouſand*
6	Myrddiwnau	100000 *Hundred thouſand*
7	Bunau	1000000 *Millions*
8	Llengau	10000000 *Ten millions*
9	Llegau	100000000 *Hundred millions*
10	Torfau	1000000000 *Thouſand millions*
11	Catorfau	10000000000 *Ten thouſand millions*
12	Rhialwch	100000000000 *Hundred thouſand million*
13	Rhiallu	1000000000000 *Millions of millions*

Cyfri

Cyfri goreurfri gwir fraint, O'r Beibil
i'r Bobl, os ceiſiant, Eiriau yr Ieſu Seion Sant,
Chwilian ym Matthew, ni's methant. xxvi. 53.

Mae amel falc ar waith yr Awdwr, O herwydd bod yn ddwl ei gyflwr, Dymuno mae ar yr argraphwr Ddifeio 'r llyfr, mae 'n fraint i'r printiwr.

Y DRYDEDD RAN O'r LLYFR HWN,

Yn cynnwys CAROLAU ac ENGLYNION Duwiol, *&c.*

CAROL PLYGAN o Ymddiddan rhwng Angylion a Dynion *bob yn ail Penill, o Waith Gwr bonheddig, urddedig, a pharchedig, yn y flwyddyn* 1705, *ar feſur* Fedle fawr, *ac a anturiodd yr awdwr ei brintio, rhag ofn ei golli.*

1 Dynion,

CRoeſo i'n ceurydd lân foreuddydd, croeſo i blygan fam Brenhinddydd, Gwawr newydd mawr i ni; Croeſo i'r glân FESSEIAS mawr, Can croeſo i'r awr i'th aned; Croeſo i'n plith i'n rhith a'n rhiw, Gan ddyn i'n Duw gogoned; Addolwn, ymnewidiwn, ymgodwn am ei gael, O'n doethedd Benaethiad hyd at Figeiliad gwael.

2 Angylion,

Hoſanna yn y goruchafion, Awn, cyd-unwn nina â dynion, I foli 'r Cyfion cu, Clôd i'n Brenin mawr tragwyddol Aeth yn fachgen bach daiarol, Rhag colli 'r freiniol fru, Gogoniant fyth i Frenin Ne,

hyd

hyd tyre uchelder tiriôn, Tangnhefedd a y ddaiar glaf, ac 'wyllys daf i ddynion; I ddynion, elynion y graſlon dirion Dad; Gwadd mwyngu o'r fagddu i oleuni 'r Nefol wlad.

[*Y byrdwn neu'r corws hwn a genid rhwng pob dau benill o'r lleill.*]

Canwn, molwn, a chanmowyn yn glau da Fowredd a chlodforwn, ac anrhydeddwn di; Pob cerdd-fwſig gwir ddyfeiſiwn, A datſeiniwn, i ti rhoddwn, Da'r heuddit Un a Thri; Fel yr oedd wrth ddechreu 'r byd, Y Sêr eu gyd i'th foli, Y mae 'rwan yn ddifeth, Ogoniant pob peth itti, Bydd etto, heb beidio, Tra bo na cho na chwyth, A felly ar ol amſer pan ddarffo ar fyrder fyth.

3 Dynion,

Er Duw Yſprydion dwys buredig, O wlad y miwſic a rowch chwi fenthig, eich gwynfydedig dôn, I ganu yn gyd-ſain gowyr garol, Ar anedigaeth lân ddiwigiol ein cyffredinol Ioan, Er rhwymedicced ydych chwi, Murdd iownach i ni, ddynion Bardus gofio blaen ac ôl y gymwynaſol noſon; O noſon i'n hoeſoedd, a phob rhiw bobloedd byd, A'n ſiriodd dros eiria anadla gora eu gyd.

4 Angylion,

Halaluia i'r wlad orucha i fab Maria, yr hên Alpha, gwir Omega mawr, Dy ymddangoſiad yng ngwydd dynion oedd fwyna'th holl brif-wrthiau mowrion, o'r Entruch lon i lawr; Pa un ryfedda ai Tydi a'i dy ddaioni i ddynion, Ac mor ryfedd yw dy rodd, A dull a modd dy Berſon, Dirgelion rhy ddyfnion, i ni, Angylion Nef, Er manwl ddymuniad yn daer i amgyffred ef.

Canwn, molwn, a chanmolwn, &c.

5 Dynion,

Mawr ryfeddwn ninna ei Berſon, wedi ei eni inni ddynion, yn rhadlon dirion dwr, Brenin, Prophwyd,

ac

ac Offeiriad, oedd a Llew, a Bigal iownrhad yw 'r un a'r unrhiw Wr, Dyn o groth morwyn-fam wir, A Duw 'r holl Dir a'i Farnydd, A gymmerth dros golledig ddyn, Ei hunan flin ddihenydd, Gwr alle 'n rhoi gynne, a gwneud pan fynne Fyd, Mae'r Diwael mewn ſtabel yn grydiel yn ei grud.

6 Aagylion,

Ac er rhyfedded yw dy Berſon, Nid llai maint a modd dy roddion, i ddynion caethion coll, Heblaw rhyddhad y Wlad o benyd; Ond mawr hefyd oedd roi gwynfyd, i gasfyd ynfyd oll. Yn rhoi ni i'ch gweini eu gyd, a'i Yſbryd i'ch ddiddanu, A hynny yn aberth glân di-glwu, Pa rodd ſy fwy na hynny? Dros Bryfeid di-deimled, a di-ymſynied ſyn, Sy 'n rhedeg i'w rhwyda; Mawr gwrthia gwerthfawr hyn!

Canwn, molwn, a chanmolwn, &c.

7 Dynion,

Nid oedd Dynion cin dy eni, ond gelynion y goleuni, a ſil y fagddu ſwrth, Holl blant addas i'r Fall atcas, aerod ar dragwyddol eirias, y ffwrnes gynnes gerth; Chware yn lew ar war y llyn, nes diſgin yn ddi-eſgor, Pob un i'r pwll di-lawr, tu iſa i'r fawr agendor, Yn gaeth i'r Tad, gwaethe tro, bu yno i'n dal ni 'n doſt, Ac, megis pentwynion, fyth-fyth i'r eigion roſt.

8 Angylion,

Ond daeth Duw yn ddyn i ddiodde, i'ch gwneuthur chwi run fath â'r duwia, mewn gorſeddfeingcia fri; Rhaid i chwitha lwyr ymnewid yn ol eich duwiol fawr addewid, yn unfryd oll â ni, Y ni ſy 'nawr yn byw wrth foli Duw yn waſtadol; Ai hardd i chwitha, aerod Ne, roi eich bryd ar bethe bydol; Pe eu profech, dibriſiech, bob briwſion Sodom ſuch, Mor felus yw 'r afale Caerſelem wen Dre wuch.

Canwn, molwn, a chanmolwn, &c.

9 Dynion,

Os

Os daeth Crist i fyſc ei elynion, i wneuthur cymmod â'i gaſeion, er cael o ddynion ddyſc; Os Cariad yw 'r gorchymyn penna, Gwae lug-dwymyn y wlad ymma, moeſgare mwya i'n myſc, Lle tybio 'r naill mae ſerch di-wall, oedd garu 'r llall mewn geirie, A phwy eill ſôn, rhag mynd yn wawd, am garu ei frawd hyd ange? Brith-fadde dros wylie, ac eilwaith cynne yr câs, Ai hyn a wnawn i heno i Grist o groeſo grâs?

10 Angylion,

O gwnewch iddo groeſo graſol, Trwy ffydd fawrwych edifeiriol, a throwch yn ſiriol ſaint, Fel angylion glân daiarol, yn byw yn y byd yn gyffatebol, yw nefol freiniol fraint, Drwy garu Duw hyd eitha eich grym, yn fwy na dim daiarol, A godde eich gilydd drwy ſerch gu, er mawr doſturi ſtyriol; O helpwch, toſtyriwch, a cherwch yn eich oes, Yn ail i Angylion, ei Brud, a'i gryd a'i groes.

Canwn, molwn, a chanmolwn, &c.

11 Dynion,

Nid rhaid inni mor mynegu, y dydd na'r nos y ganed Iesu, mae 'n eglur hynny i ni, Yn Oen mwyn a Bigal diddig; Ond daw etto 'n Llew cyfiownddig, i'n hoes wenwynig ni, Meddyliwn am y diwrnod mawr, a wna i ni 'n awr ymddelwi, A pheth a wnawn ni cin pen hir, pan ddelo yn wir o ddifri, Dydd difri, dydd cyfri, dydd ſyndod cryndod croch, Dydd diel i'r aniel i Le yr dragwyddol och!

12 Angylion,

Eich ffydd yng Nghriſt, a byddwch gyfion, A'ch dwg drwy Frowdle 'n dra hyfrydlon, eich gwnion dai a gewch; Bryſiwch etto i'r happuſrwydd trwy ſancteiddrwydd fwy-fwy beunydd, i'n dedwydd ſwydd neſhewch. Trwy roi eich cais, eich ſerch, a'ch bryd, ar bethe mawrfyd nefol: Gwna hynny chwi yn iawn eich hwyl, I gadw gwyl dragwyddol, Ni ach dygwn at filiwn, cyd-newidiwn fyth hyd nen, I'r gwnfyd anrhaethawl, Dan ganu mawl, Amen. *Canwn,*

Canwn, molwn, a thanmolwn, yn glau da Fawredd, a chlodforwn, ac anrhydeddwn di; Pob cerdd-frwſic gwir ddyfeiſiwn, a datſeiniwn, itti y rhoddwn, Da'r heuddit Un a Thri; Fel yr oedd wrth ddechreu'r byd, y Sêr eu gid i'th ſoli, Y mae rwan yn ddi-feth, Ogoniant pob peth itti, Bydd etto heb beidio, tra bo na cho na chwyth, Ac felly ar ol amſer, pan ddarffo ar fyrder fyth.

CYNGOR a Deiſyfiad yr Awdwr ar i bawb gadw'r Saboth yn ol y Deg Gorchymyn, ac yſtyrio faint yw y Rhifedi mawr a baſſiodd er dechreuad y byd, a bod ein diwedd yn neſhau, ac yn amſer edifarhau am ein hamriw ddrwg weithredoedd; ar feſur Cwimpiad y dail.

1 Gwrandewch hil Adda a Noah yn inion, Ar gyfri ſaith yn rhoi haneſion, O'r Creadigaeth i'r byd newydd, Pan ddoeth Iſr'el o Ham wledydd, Fe roes Duw'r Gyfraith ar y mynydd.

2 Nid oedd hynny ond cyfri bychan, Wrth edrych oed y byd 'rwan, Sydd bump mil a ſaith o gantodd, Ac wyth mhlwydd yn rhwydd ar gyhoedd, Duw ro i ni râs ar dir a moroedd.

3 Yr holl rifedi mowrion ymma, A wnaeth Duw wrth ſaith y dyddia, Gan erchi i ninna gadw yn ſanctedd Y ſeithfed dydd o'r rhain trwy'n hoeſedd, Gweddio, ac erfyn am drugaredd.

4 Mae bywyd dynol wedi ei feſur Wrth y Saboth, hyn ſydd eglur: Saith o ddyddia amriw weithia, Yw oed y byd, a'n amſer ninna, Pa faint bynnag o flynydda.

5 Mae 'r goruchel drefniad ymma, O waith y ſanctedd Duw gorucha, Nid eill dynion moi amgyffred Oddiwrth Greawdwr Nef gogoned, Uwch ben deall dynion gweinied.

6 Rhyfeddol foddion ydyw 'r cyfri, O feſur ſaith yn rhybydd inni, I gadw dydd ſancteiddiol Iesu, A roes ei werthfawr waed i'n prynnu, Drwy farw, ac adgyfodi i fynu.

7 Cofiwn gadw 'r diwrnod cynta, Yn ſanctaidd Saboth i'r Gorucha, Dyna 'r dydd y rhoes Duw 'r goleuni, O'r tywyllwch yn rhodd inni Yn nechreu 'r byd er cofio ei foli.

8 Ar gyfan i'r dydd Sul yn raſol, Trwy 'r mor coch daeth Duw â'i bobol, O goffadwriaeth am hyn ymma, Cadwn Saboth y Gorucha, Ac awn i'r Eglwys hwyr a bora.

9 Ar ddydd Saboth cafodd Moſes, Lechau 'r Gyfraith gan Dduw eiddugus, Am hynny cadwn Ddydd yr Arglwydd, Er cofio 'r Drindod yn dragywydd, A chadw 'r Deg Gorchymyn beunydd.

10 Mae rhôd y byd yn cael ei drefnu, A'i feſur wrth y Saboth felly, Megis llathen Duw ein Creawdwr, A dydd Cyfodiad CRIST ein Prynwr, O cofiwn yr Yſpryd Glân Sancteiddiwr.

11 Mae 'r Saboth wedi ei ſelio ſanctedd, Yn yr Eglwys hyd y diwedd; Fe ddarfu i GRIST droi 'r maſnach allan, A dymchwel byrddau 'r newidwyr arian A'i ordro 'n Du Gweddion purlan.

12 Nid ellir tynnu 'r Haul na'r Lleuad, Na Sêr Duw o'r Nefoedd gannad, Na 'r Saboth allan fyth o'r Eglwys, Llathen CRIST o ardd Paradwys, Meſure ſanctedd Helion hwylus.

13 Mae 'r Angel yn St. Ioan yn tyngu, Y ceiff y meſur aros felly, Hyd na ddelo ddiwedd amſer, Cymrwn ofal rhag drwg arfer, Rhag ofn Ddydd Barn y bydd edifer.

14 Gochelwn dyngu llyfon mowrion, Sy 'n ddrwg arfer Cymru ffolion, Naill ai Dduw a'i Griſt bydd tyngu, A galw ar Ddiawl i'w cipio i fynu, Dyna 'r araith ddrwg ſy 'Nghymru.

15 Cymrwch rybudd rhag drwg regu, Cofiwn IESU fu yn ein prynnu, Ac yn diodde rhwng y lladron, O'i yſtlus golli ei waed yn wirion, Cymrwn gymmun CRIST ſancteiddlon,

Ped

16 Ped faſe Adda ac Efa yn gyfion, Heb wneuthur cyngor Diawl echryſlon, Ni baſe erioed mor tyngu llyfon, Na myned obru i'r glyn Ebron, Ond cadw erchiad Duw yn ffyddlon.

17 Mae 'n Yſgol Uffern bob drwg eiria, A galw ar Ddiawl i'w tynnu 'n ddarna, Ac i'w cipio gurph a eneidia, Am wael ddyfyrrwch ar y Sulia, Chware tenis, caulus, coitia. *(a)*

18 Cofiwn gadw 'r Saboth ſanctedd, A mynd i'r Eglwys mewn gorfoledd; Fe gafodd rhai ei lladd â meini, Am gaſclu briwydd ar Ddydd Iesu, Gochelwn dorri 'r Gyfraith felly.

19 Beth a gafodd yr Iſrailiad, Am fund i gaſclu 'r manna 'n ddiwad? Digio Duw, a cholli eu lliniaeth, A heuddu dygn goſpedigaeth, Ymgroeſwn rhag pob drwg amherffaith.

20 Derbyniwch hyn o gyngor bychan, A gwnewch orch'mynnion Duw ei hunan, Su 'n erbyn tyngu a chware ar Sulia, Chwi gewch drugaredd i'ch eneidia, A chofiwch fy 'madroddion inna.

21 Cynghored pawb o beniaeth Teulu, Eu plant a'u tylwyth, er mwyn Iesu, Am gadw yn ſanctedd Ddydd Duw 'n hylwydd, Rhag bod eich eneidai yn anedwydd, A ſyrthio i Dophet, ne riw dramgwydd.

22 Cofiwn gadw Dydd yr Arglwydd Yn ddichwaryddiaeth mewn ſanctteiddrwydd; Gweddio 'n yr Eglwys yn ddi'marbed, A'n lluſernau 'n llownion ganned, I ddiſgwyl Saboth yr Adgyfodiad. *(b)*

(a) Tyngu a rhegi a rhwygo 'r Arglwydd Wneiff pob tafod drwg anhylwydd, Heb feddwl am na 'r corph na 'r eneid, Pa ſut y don 't mewn dydd dihuned. Wrth eich geiria cewch eich barnu, Rhowch ffrwyn i'ch tafod drwg gan hynny, Rhag i'r Cythrel ſcorio arnoch, A rhoddi i lawr pob gair a ddwydoch!

(b) Hwyr a boreu byth yn oeſtad, Mewn gweddi a mawl i Dduw Nefol-dad; Taflu heibio pob ofe-redd, Byw 'n y byd fel gwyr cywiredd, Ymddwyn at bob dyn yn raſol, A byw yn ol y ffydd ſanc-teiddiol. Darllen gartre, chwilio 'r Beibil, Bod lythrennog yn yr Efengil, Myfyrio 'n fynych am ein braint, A'n henwau i lawr yn llyfr y Sainct.

Tri Englyn.

1 Tir Brydan lydan wledydd, Trwy gelu, trigolion aflonydd, Gwel y gwobr, a gwybydd, Oes da Dduw yſtyn dy ddydd.

2 Darparwyd rhwydau ar hyder, Dy droed, mewn dyreidi yſgeler, Er dy anafu, cedyrn anifer, Brydaint fraint, a'u Saint dan ſêr.

3 Duw nefol, da nodded trugarog, Ymddiffyn ein Brenin a'n Twysog, A'r holl Frenhinol deuluol da-lôg, A'r Eglwys a'i Gyngor nodidog.

CYWYDD Marwnad ei Wraig, a ſcrifennodd yr Awdwr.

1 *Pam yr ochneidiodd fy enaid iawn-waith Pam y terfyſgodd fy yſpryd gan alaith, Pam y llenwodd ffynonen lluniaeth, Hyd fy ngriddfe 'n lleith-le llaith, Fel afonydd dyfn-ſydd fôr daith Teugrus, Hyſdaſpes, Dor-mafaith. Pam y ciliodd o'r glennydd glain, Fy Ffebus oleu Beril Elain, Pam y mae cyd hwyrfrydig fro,*

10 *Yn tario ymgyfing tir ango, Pwy rwyſtrodd fy Aſſur aur-fyn, Ar ei ſiwrne fawr donne dyn, A'i Ange ddaeth ſaeth noeth ddinawdd, I dorri fy ngwen-wdden weddeudd-awdd, Fel y gorfu rhoi goreurwawr, Fy Rhoſyn aur* Ann *yn llan y llawr, Gobeithiaf yn dda, iythol fraint, Y cyfyd fy Lloer i lan ſêr y Saint, I gyfarfod y Priodfab pur fraint, Dan ganu dawn gogoniant,*

21 *Yn un o'r gownau gwnion can Nefol ſanctteiddiol Ganan, A'i choron aur, llawn perlau pur, Jaſpus,*

Ame-

Amethuſtus, a Saphur, Fel Griſial, Sardonix, Sardus,
Yn un o luoedd Duw yn ei lus. Gweddiwn yn brudd
hyd ddydd brawd, A chanwn dda odlau didlawd,
Hefo'r Seintiau finteua Sêr fraint, Pleiades * twr tewdws
ac Orion * 12 arwydd *gywraint, Coſrwn y pump ſeren*
ſiriol, Planedau i arwydd ar ol.

33 *Mars dan ſiars arian-goeth, Mercurius, Jupiter*
gyflym ddoeth, I Fenus oleu a Saturnus, Goleuni a roes
Duw 'n ddi-rus. Duw dwg ddynol-riw raddol rant,
I'r pur gole, por drigle dreiglant, Dan nodded ein
Ceidwad cu, Y Drindod gwir undod gôr undu,
41 *Yngbwmni Sêr Duw a'i Sain, Caf etto gyfarfod*
fy Rhiain. Gweddiwn, a rhoddwn yn rhwyddol
Fendithion haeddlon o'i hol, Am i ninna, eu theulu
etholedd, Gael myned yn lân i'r un wledd. Coſrwn oed
ein Prynwr a'n Pen, Barn Eiriolwr ſanctteiddlen,
Mil ſeithgant hewwant hynod, Trigian ond blwyddyn
y nôd, Mis yr Ader Mawrth oer adrodd Y rhowd fy
Mun, a'm Rhun ymrodd Yn ei bedd, oeredd bant,
Llan-llech Eda tan na chodant.
55 *Tre Bodfauo ei phlwy a'i phlant, Tal-y-bont*
i'w nodi penodant. Oedran fy Ffenics onics oleulan,
Awch obrwydd chwe blwydd a thrigian. Pan ddel ein
terfyn ninna i'w nôd, Pridd Gomitêr a'n derbyn, rwi'n
darbod. Gwir Alpha ſanctteiddlan Omega da don,
62 *Cyfrwydda ein heneidia i'th fryn Sion, Amen*
dan len Duw ro i ni lwydd, Yn weiſion Sanct Helion
hylwydd. Amen, Amen, y Drindod wen waith,
66 *A fotho yn canlyn fyth a'n colaith.*

CYNGOR daionus i'r Anealltwrus, ar feſur
Leave-land.

1 Gwrando 'r Cydymeth, a chymer ddyſceidieth,
Os wyt ti o naturiaeth di doreth y dyn,
Ymafel mewn cyffro, drwy ffydd a gobeitho,
Rhag ſyrthio rhwng dwylo dy elyn.

2 Deffro

2 Deffro di a dattod gadwynau dy bechod,
A'th rwmodd mewn gormod o drallod rhy drwch,
Cyfod a rhodia di 'r llwybr iniona,
A bwyta di fara edifeirwch.

3 Rhag itti gam-gymryd gwir lwybr y bywyd,
Cymer gyfrwyddyd yn hyfryd drwy hedd,
Golch di dy olygon i ganfod yn gyfion,
Yn ffynon yr inion wirionedd.

4 Edrych di yn inion ar daith y rhai doethion,
Heb fethu gwna 'r inion weithredion wrth raid;
Caſha di ffolineb ſy 'n diwno dy wyneb,
A chaſgl ddoethineb i'th enaid.

5 Nid ydi dy oes yma ond fel diwrnod cynhaua,
Am hynny pryſura, darpara mewn pryd,
Cynhafa 'r grawn ffrwythlon o ddoethineb Salmon,
Fe leinw dy galon di â golyd.

6 Dy gôf a'th bump ſynwyr ſydd itti yn ddyſcawdwyr
Sy 'n caſclu o'r Scrythur, er llafur a'r lles,
Cei ymborth yſprydol i fyw yn dragwyddol,
Fel Angel dewiſol di eifies.

7 Gwel râd Duw a'i fawredd, ac erfyn drugaredd,
Heb feddwl am drawſedd anwiredd i neb,
Cofie Rinwedde, câr arogl ei Eirie,
A thaſtia di â'th ena ddoethineb.

8 Gwel dy ddrwg fuchedd, a theimla hi'n ddwyſedd,
Gwrando ar ſwn dialedd yn ſiwredd neſhau,
Cluw ſawyr dy bechod, a'i flâs ef fel wermod,
Ac ofna di bennod dy boenau.

9 Nac edrych ar fryntni o dreiſio neu drawſni,
Na rodia mewn dryſni drwg weddi dyn gwan,
Na theimla chwaith ormod o ddim itti ganfod,
Ond dy euddo da hynod dy hunan.

10 Na ddal ar gynnena, na diflas goeg eiria,
Na gweniaeth, na gwnia, na llyfa mawr llon;
Ond gwir a goneſtrwydd yw 'r ymborth tragywydd,
A dderbyn ffrwyth gelfydd i'th galon.

11 Os

11 Os gweli di ymryſon, a dig rhwng cymdogion,
Doro gynghorion yn ffyddlon i'r ffôl;
Na ollwng boeth eiria, fel tarth o'th wefuſa
I 'nynnu 'r cynhenna yn gynhwynol.

12 Bradychus feddylion, a geirie, gweithredion,
Su 'n cowen y trymion bentwynion i'r tân,
I ddifa 'r anufudd gwenheuthus leferydd,
Drwy gerydd ddiheunydd ei hunan.

13 Ffrwyna dy ena mewn caethion linynna
Cydwybod ddi-frycha, rhag gwnia fae 'n gwaeth,
Câr di 'r tangnhefedd; clyw arogle rhy ffiedd
Ar gamwedd dwys dialedd dyſtioleth.

14 Na ddos i ymgyfreithio, er dim ar a fotho,
Mae Paul i'th rybuddio, a'th uno mewn hedd,
Ni ddoi di o ben talu cyfiawnder i'r IESU,
Ped fae fe 'n degymmu dy gamwedd.

15 Gwrando drieni dyledwr, neu dlodi,
Gwel wneuthur llyſeni i rheini wrth ei rhaid,
Câr flâs eu bendithion yn fwy na 'r perls gwchion
Mewn ffyddlon waith inion i'th enaid.

16 Cin mynd i gyfyngdra, y cyfaill mwyn, cofia,
Am wraig o Sarepta, ni wyra dy waith,
Elias pan gwynodd, ei holl flawd a bobodd,
A feddodd hi ai rhannodd ar unwaith.

17 Ac yno hi ymrodda i farw mewn eiſia,
Ond bendith Duw 'n ddia a dyfa iddi 'n dew,
Oi chiſt hi gadd liniaeth yn amſer drudaniaeth,
Ei blawd hi fu helaeth a'i holew.

18 Gwiſc wiſgoedd o garied yn dynnion am daned
Mewn hawddgar ymddygiad da fwriad di farn;
Y Balch a oſtyngir, o'r tiroedd fe ai torrir,
A'r Difalch a godir yn gadarn.

19 Nefela di wrth linyn, CRIST ydi dy ymddiffyn,
Su 'th arwan yn ddibrin hyd wreiddin y grâs,
Ffydd a pherffeithrwydd a'th wna di 'n gyfarwydd,
Drwy 'r Arglwydd o lywydd Elias.

20 Chwnne

20 O chwnne dy efre o blith dy rinwedde,
Ail-impie feddylie, a phyngcie dy ffydd;
Ffrwyth ffoledd a ffalſter anufydd ae 'n ofer,
Y doethder dda arfer ni dderfydd.

21 Etifedd anraſlon a ddryge ei gym'dogion,
Pan dyfo dichellion mewn digon o dw,
A raffa ei anwiredd ai deil ef mewn dialedd,
I'w rwymo fe o'i oferedd i farw.

22 Mewn cwppan o arian a gedwir yn aſlan,
Diflaſu wnae yn fuan y purlan win pêr;
Glanhâ di dryſor-du dy galon lân heini,
Mewn llettu diwael-du duwiolder.

23 Câr dy gym'dogion, a chadw 'n dy galon
Hynymma o feddylion ſu lownion o lês,
Cei oes gida 'r hwya, heb wall na chyfyngdra,
Fe blanna Duw fanna yn dy fynwes.

24 Coſba dy nattur, a dyſc y ffordd eglur,
Su 'th arwen yn bryſur a'th lafur i'th lus,
Cadw 'r Sabotha wrth feſur y Sintia,
Yn yr Eglwys mewn donia daionus.

DAMMEG y Tri Chydymeth, ar feſur Leave-land.

1 Gwrandewch ar fyfyrdod, mi geiſis rag-oſod
Riw Ddammeg ar draethod air hynod yn rhwydd,
I ddangos o ddifri faint achos oedd ofni
Marwolaeth Duw Celi deg hylwydd.

2 Rhiw Wr yn ei amſer a roes ei holl bleſer,
A llawer o'i hyder mawr hudol fodd gynt,
Ar dri o gymdeithion, ni chae ef fyth ddigon,
O ſôn wrth bob dynion am danynt.

3 Ar ddau o rhain ymma y rhoe fe ei ſerch fwya,
A'i feddwl yn gyfa iawn gofus dan go,
Ni wnae fe fawr ddefnydd o gyngor y trydydd,
Nac oddid awr un-dydd ei wrando.

4 I rhain yn gyfannedd fe fydda 'n ufuddedd,
I'w canlyn a'i coledd yn daeredd bob dydd,

Nid

Heb ddeall, er dangos, faint iddo fo'r achos,
O Ddialedd oedd agos i ddigwydd.

5 Doe Rybydd ar fore i'w gyrchu oddi-cartre,
At Wr nid adwaene nid wydde fe 'n iawn,
Pa fodd a fae iddo, o's eid i'w ecſamnio,
Ni cheid ger bron yno ond Barn unlawn.

6 Pan wybu trwy ddychryn naws adwyth yn ſydyn,
Y bydde raid cychwyn i'r Dyfyn a'r Daith,
Ae i adrodd yn gynta ei gur a'i gyfyngdra,
I'w Gyfaill anwyla yn llawn alaeth.

7 Fe ddwyda mor bruddedd, 'Rwi 'n myned, Wr
I ſiwrne fawr ryfedd, oer ofid i gant, (mwynedd,
Rhag dychryn a chledi, a ddoi di hefo myfi,
Moes atteb dwys immi diſommiant.

8 Nid oes mor modd immi i fynd gyda thydi;
Ond hyn a wnaf itti heb oedi tra fych,
Mi ddyga 'n ddiwigiad dy goſt yn deg waſtad,
Ple bynnag ar alwad yr elych.

9 Gorfod ymado â hwnnw 'r awr honno,
Trwy ddygyn ofidio ynfyd is wall,
A myned i draethu ei gur a'i gwyn felly,
Lle 'r oedd yn hyderu ar Ffrind arall.

10 Fe ddwyde hwn wrtho, yn ſiwr i'w gyſſuro,
Y doe gyda efo yn gyfan er lles,
Hyd borth y Llys hwnnw yr oeddit i'w alw,
Lle gwyddid ei henw a'i hanes.

11 Ond dywedyd Gair droſto nid ydoedd yn meiddio
Mor mynd i mewn yno mae 'n anodd un pryd,
Chwenyche 'r Ymdeithydd drwg ryfig di grefydd,
Rhag Gwradwydd a Chwilydd ddychwelyd.

* *Yn y tu dalen o'r blaen*, [184,] llin. 25. Marwowolaeth, *mae rhai Copiau yn darllen*, Mawrhydi Duw Celi; *mae'n debig fod y gair* Celi, *mor arferol gan yr hen Brydyddion, yn tarddu o'r Gair Lading*, Cœlum, y Nefoedd, *yn amſer y* Rhufeiniaid *ym* Mrydain.

12 A hynny pan glywodd Was annoeth fe ſynnodd
A'r ail fe'madawodd mewn breufoſdd yn brudd,
Gan alw dan wylo y trydydd Ffrind atto,
Y lleia a wnaef erddo yn ei fawr-ddydd.

13 A hwnnw 'n ddiwegi a ddwydai 'n rhwydd gwedi
Mi ddof gyda thydi, a'th adel ni wnaf,
Ac itti 'ngwydd digon er ſydd o gaſeion,
Yr hyn a ſo inion a fynnaf.

14 Ac yno 'n deg unol hwy wnaethon yn nerthol,
Yſprydol ddull duwiol eill deuwedd un-fryd,
I fyned yn fwyn faith ar fyrder i fawr daith,
Mewn Gobaith o lawn faith Lawen-fyd.

15 Os mynnwch chwi weithon wybod yn inion,
Pwy oedd y cymdeithion, twyllaſon yn llwyr,
Am iddo drwy gymmin hudoliaeth a dilin,
Nes myned yn iwin dan awyr.

16 Ei Gefaill anwyla ydoedd y Byd ymma,
Pan ddaeth yr awr gletta gyfynga i'w oes,
Nid allodd help iddo fynd gam gydag efo,
Nac yſtyn awr yno ar ei einioes.

17 Ei Goſt a'i hir Ymdaith yn llawen a lluniaeth,
A gae 'n y byd diffaeth trwy farieth tra fu,
Nid oes i Fonheddig na Gwreng ond ei fenthig,
Ychydig fel barrig a beru.

18 Yr ail o bob lleodd a oedd ei weithredoedd,
A droen o borth luoedd o'r nefoedd yn ol,
Gan gwilydd heb feiddio mor mynd i ympirio,
Rhag peri drwg iddo 'n dragwyddol.

19 Y trydydd Ffrind hynod a fydde 'n ei wrthod,
Hwn oedd ei Gydwybod tra pharod heb ffo,
Ae i'r Farn yn Dyſt union i'w ganlyn drwy gwynion,
Am weneuthur yn gyfion ag efo.

20 Yr awron y Cymro, o's gwiw dy rybuddio,
Mae titheu gonſidrio, cais edrych mewn pryd,
Am ba un o'r tri hynnu yr wyt yn gofalu,
Mae 'r amſer yn neſu y mynaſid.

20 Pa les it, dybygid, bai gwallus pe gellid,
Drwy ynnill tros ennyd yr holl-fyd yn rhwydd,
A cholli 'n dragwyddol dy Enaid byth bythol,
Yn Uffern boenydiol annedwydd.

22 Yſtyria, di weli, mai gwell a fydd itti,
Na dim ar a feddi o baltri yn y byd,
Cydwybod heddychol i fynd at Dduw nefol,
Trwy ffyddiol iaith wiriol a'th weryd.

23 Dy fydol weithredion fel diles hudolion,
O flaen dy Olygon halogus a ron,
Sy 'n rhwyſtro i ti ganfod y Beiau ſydd hynod,
Cyn amled a thyfod wrth afon.

24 Cei weled pan ddarffo i'r cwbl ymado,
Pob pleſer yn ffaelio hoff olud a llog,
Cydwybod yn effro a'th ganlyn heb gilio,
I gofio 'r Daith honno rwi 'th annog.

DRIAU o Alarnad a Choffadwriaeth am JUDETH DAFIES, *gwraig* DAFYDD HUMPHREY, *ar Feſur* Calon Dyom, *ar ddull Ymddiddan rhwng y* Gwr *a'r* Wraig, *o waith* WILIAM JONES *o* Lan Wrin.

1 *Y Gwr.* Fy Mhriod weddol ddoniol ddynes,
Wawr ragorol fwya geres; Gwrando, *Judeth*, lanwaith liniedd, Gwynion heno ar gynghanedd,
Dyrnod ange a'i faethe ſythion, Rhoes ni wahaniad a dwys doriad Fenws dirion, Gair o gyſur a wiw ceiſio, Gan ti trwy gariad oes dim fiarad i'm cyſuro.

2 *Y Wraig.* Nid oes mewn adwyth bedd cuddiedig,
Na gwaith wych ammod na dychymig, Na gair o gyſur ni wiw ceiſio. Nid oes mor yngan yn nhir ango. Cymerwch gyſur ddifir ddefod I'ch calon gowyr o'r yſgrythur eglur fawr-glod. Ofer 'morol dim a'r marw, A fo mewn beddrod ar lawr gwaelod ni wiw galw

3 *Y Gwr.* Er maint a gefais o drafferthion, Carchar, llid, a mawr golledion, Tra trefnodd Criſt i mi dy gwmni, 'Roedd pob defnydd im bodloni, Fy nghyſur oeddit a'm hyfrydwch, Trwy bur gariad, mwya rhoddiad, ond Duw 'r Heddwch, Ni fedrai beidio wylo alar, Dy fod, Wawr gryno, yn oer dduo tan y ddaiar.

4 Fe alarodd *Abram* fawr-glod, Tan wylo 'n brudd Cin claddu ei Briod, A chwedi hyn ni ddarfu yſbyſu Iddo lwyredd mwy alaru. *Ezeciel* dduwiol, er prophwydo, 'Rol duwiol fore ange a gyrche ei Wraig oddiwrtho, Ar bob priodas ddigas howddgar, Lle ni ddaeth etto, garwa oſgo, fe roiff yſgar.

5 *Y Gwr.* Humphrey ein hanwyl Blentyn hefyd, Mewn galar beunydd ſydd bob ennyd, Ddydd a nos yn wylo yn oeredd, Am Fam a'i gwiwlan lân ymgeledd, A'th ddau Frodyr ſydd mor brúddedd, Am fynd dy foddion o blith dynion i lawr dyfnfedd, Carennydd hefyd, meibion, merched, Wrth dy goſio am dy briddo ſy mor brudded.

6 *Y Wraig.* Fy anwyl Blentyn, Ffarwel heno, Daeth yr ammode i mi ymado, Dod di dy hyder ar yr Hael-dad, Nodded delifai, Tad 'r ymddifad, I'm dau Frodyr ffarwel hefyd, Yma 'n farwedd 'rwifi 'n gorwedd yn y gweryd, Cyfathrach mwynion ym mhob manne, Ffarwel yn eglur mewn modd cowyr bawb am eare.

7 *Y Gwr.* Oes gobaith eilwaith am dy weled, Gwawr ragorol Loer howddgared, Pa beth a'th ſorrodd, hawddgar Seren, Pan eit i orwedd tan ddaiaren, Cyd-oeſi a'm fi oedd fwy dewiſol, Gwn i ganwaith mewn gwybodaeth na da bydol, Chwith im heno fod fy hunan, Tan ochneidio yn dy goſio di mor gyfan.

8 *Y Wraig.* Yr amſer daeth i'r pridd ddychwelyd Lle bu i Lwch y ddaiar lychlyd, A'r pryd i'm henaid

henaid fynd, er mawr-lles, I ſywyd rhwydd a Dduw a'i rhoddes, I fyw mewn Breintie gole gwiwlwys, Yn fendigedig mewn puredig wlad Paradwys, Trwy haeddiant Iesu, perffaith Dwyſog, Yn dragywydd, gore Llywydd, Ior galluog.

9 *Y Wraig.* Pechodd Adda, henwa 'n hynod, Hwn ſy 'n boddi ni i'n beddrod, Rhinwedd haeddiant Crist a'i allu, O fedd i fyw, a'n bwyd i fynu, Yn naws buredig Cyrph yſprydol, A'r Eneidie 'n unwedd i fwynhau mawredd byd anfarwol, Nid mewn didwyll Stat briodol, Ond fel 'r angylion yn deg ryddion yn dragwyddol.

10 Duw, *Amen*, ro'r Gras i minne, A phawb ſydd ymma i gofio ange, Ac i wellhau bob awr, bob ennyd. Cin delo Barn a diwedd Bywyd; Boed ni ail Gyfarfod hyfryd, A'n holl Gymdeithion yn Llú inion yn llawenfryd, A rhan odiaethol o Gymdeithas, Ein Prynwr graſol mewn tragwyddol ddoniol Ddinas.

A wnaed yn y Flwyddyn 1757

Y BEDWAREDD RAN O'R LLYFR HWN.

Cyfiwr GWR dan y Gowt, o waith W. R.

1 PAham, *Syr Gowt*, y rhoiſt i'm glofni,
Trwy ddydd a nos mor llwyr i'm poeni?
Paham y rhoiſt i'm gymaint clafaeth?
Oes yn dy erbyn ddim medd'giniaeth?

2 Paham y rhoiſt i'm gymaint cloffni? Diſgwyl fynd yn fryſg y foru; Chwyddaiſt dippin ar fy nhroedyn, Ac yno deliaiſt afael ſydyn.

3 Ac felly dranoeth gwnaiſt fi, wfft, Nad allwn roi mo'm troed ar lofft, Chwyddo cleder nhraed yn reſyn, Mynd i'm gwâl heb nertth bachgenyn.

4 Deliaiſt fi yno ychydig einioes, A phwniaiſt gorph â gwyniau gwirloes, Daw meddiginiaeth rydd it gno, A mu daiſt draw oddiyno toc.

5 Neidiaiſt heb un adwy gall, Ymguddiaiſt yn y troedyn llall. A deliaiſt d' afael yno yn hir, A maith i'th guro oddiyno yn glir.

6 Ar ol dy daflu dros y dorlan, Y traed yn mendio toc yn wiwlan. Bu'm yn amcanu ffarwel itti, Am hyn o dro y baiſt i'm coſpi.

7 Fel rhyfelwr troiſt yn ebrwydd, A chwi, y cefaill rwi 'n gyfarwydd, Er immi adael eich dau droedyn, Rhof ichwi loes cyn mynd i derfynu.

8 Codi rhyfel, bygwth rhagor, A'm gyrru finna i chwilio am gyngor, A dois i hyd i Ddoctor Lobb, A rydd it gernod yn dy gobb.

9 Y Doctor gwych a'i feddiginiaeth, A 'mdrechodd gwrs â'r gowt anafiaeth; Weithie 'r Doctor fydde Victor, Weithie 'r Gowt a fydde Hector.

10 Mis a miſoedd bu 'r ymaelud, Methu taflu 'r dyn i'r gweryd, Ond ei wneuthur yn yſgyren. Fel rhiw Yſpryd dan yr Wybren.

11 Ple

11 Ple mae 'r maes y Gowt y farcia Droi i'm fattel, ond fy lwyna'; Yno gyrrai wynt a phowdwr, I ſyrthio yn ſwp gan Gowt y Sawdwr.

12 Y Doctor etto wrth fy nghefen, A rydd it ddyrnod ſiwr aflawen. Myfi yw Lobb, mi wnaf it gilio, A mynd i'r wybr draw i dario.

13 Yno bu riw ryfel creulon, Rhwng meddginiaeth a chynghorion, A'r Gowt yn dal ei gafael gyndyn, Rhag colli 'r maes yn lwynau gorſyn.

14 Ymladde dippin yn echryſlon,
Cin cei fy lladd ym mhwll fy nghalon,
Oes dim medd'giniaeth yn Nhre Lundan,
Mi'th gyrra i ffwrdd fel Serphyn aflan.

15 Mae arnat eiſie gwneuthur ffynon, A nyth dy farn ym mhwll fy nghalon, Ac yno 'mleddi toc os gelli, Mae Duw yn drech na'r Gowt, os coeli.

16 Dowch y Doctor, chwitha yn iach, 'Ddiffynnwch ffynon bywyd bach, Mi rown i'r Gowt cin hir a hwyl, Riw focſyn draw i gadw ei gwyl.

17 Yno bu riw faith ymdynnu, Cin medd'giniaeth ei diflannu, O ddydd i ddydd i'r maes ymgeiſio I ryfel bentan heb fawr fwrdro.

18 Yn nyddie 'r Gowt, 'ti elli gofio, Gadw ſentri, bod yn effro. Rhydd itti ddyl pan foch di yn cyſgu, Er na wyddoſt fawr o hynny.

19 Ni chweru yn deg, ond chwyrn ei llaw, Hi'th deifl di toc mewn ſwp o fraw, Gwilia gaere 'th Gaer yn gall, I ddinas *Bwll* y nela 'r Fall.

20 Os methiff wneud ei ſaethau llymion, Yn ergid erchill at dy galon, Hi'th bwnia a'th banna, nad it fwyta, A rhydd it garchar y cyfyngdra.

21 Y Gowt, a Sawdwyrs ei dichellion, Y Rheumatis a'r Grafael llymion, Drwy wynt neu awel ſeuthu yn ſythol, O fewn y corph eu maes naturiol.

22 Weithie 'r Meddig a rydd fonclyſt I un o'r rhain dan fôn eu ddwygluſt, A'i gyr ef draw is llaw i ſynnu, Nes it gael gwynt i ail-ymdrechu. 23 Cei

23 Cei odid weithan oriau hogyn, I feddwl am dy ysgyriol gorphyn, Dy enaid hefyd, wyt ddyn duwiol, I weled cospedigaeth nefol.

24 Ti weli 'r Haul a'r Lloer yn hwylio Ddydd a nos, os wyt yn effro; Ti weli 'r Sêr a'r hwyliad obru Yn rhoi goleuni i bawb o'th bobtu.

25 Ti weli 'r ddaiar lâs bob Gwanwyn Yn ail-gyfodi, hyn bob blwyddyn, Di weli ei chnwd a'i grawn yn oestad, Ac odid meddwl d' adgyfodiad.

26 Ac megis Gwenyn gweli ddynion Ddydd a nos yn fawr ymryson, Pwy geiff fwya o gnwd y ddaiar, A bod gyfoethog bawb os galler.

27 Gweli hefyd fawr trueni Ar ddaiar lâs, a llawer dryfni; Gweli hefyd wyr tylodion, Er maint yw cnwd y ddaiar ffrwythlon.

28 Ti weli hefyd odid Adar, Yn byw yn esmwyth heb lawr drymder, Yn byw wrth wlith neu bryfed daiar, Heb fôn am scubor nac un fiambar.

29 Ti weli fwyftfil hyd y meusydd Yn llawn eu chwant i'r borfa newydd, Pori yn rhwydd, a mynd yn dewion, Agos eu gyd i borthi dynion;

30 Y Bwyftfil, er na wyddant refwm, Rydd fenn i mi a thi ryw Seffiwn; Ni ladd y naill mo'r un y llall, Os eiff ef draw, a bod yn gall;

31 Ie hefyd hawdd yw dirnad Y poriff bwyftfil bawb ei dafnmed, Yn fawr mwy awchus na gwr reiol A fwytu fara gwyn y Faenol,

32 Er hyn i gyd 'rwyt dan ffurfafen, Dy gorph ni ddianc hyd at wybran; Di welaift beth fy 'n wneuthur tanodd, A meddwl dippin am y nefoedd.

33 Dy gorphyn pridd fy raid ymfgario, A throi yn bridd neu lwch aneffro; Di weli dy Gym'dogion weithan Yn troi yn bridd oll dan yr wybran.

34 Ar ol it weled felly ddynion, Ymrefyma 'n awr a'th hun a'th galon; Clywaift fôn fod enaid pob dyn Yn hwylio ei gorph ar bob munudyn.

35 Beth

35 Beth yw 'r Enaid, dwad immi? Ffun roes Duw i wel'd goleuni; I hon mae adenydd megis aur; Cof, Dealltwriaeth, Meddwl, dair.

36 Yn fy meddwl af i'r India, Os rhoes i droed erioed yn Aſia, Os hittiodd immi weled Afric, Neu rodio tippin yn Americ.

37 Yn fy ngwelu er yn gorwedd, Cwmpaſu 'r byd wnae'r enaid rhyfedd, Daw i'm cof ple bum yn rhodio, A phar y dir y bum yn cwyſo.

38 Daw Dealltwriaeth ſai heb ſyrthio, Ymadrodd hyn i bawb ar bob tro, Ar Adenydd rhain mae'n hedeg, Yr enaid gwael i Deyrnas anrheg.

39 Beth yw 'r enaid is yr awyr? Rhiw Ffun roes Duw i bob creadur, I hollawl wneuthur dan y nefoedd, Yn ol eu dull a'r modd y creodd.

40 Di weli ymma yn abl hyſpus, Mae dyn ſy 'n hwylio wrth ei 'wyllys; A gweli dippin bach o'r Drindod, I hwylio Dyn i'r nefoedd uchod.

41 Di glywaiſt ſôn am Feibil ſanctedd, A darllenaiſt ynddo yn beraidd; Hwn a ddyſc it' ffordd i'r nefoedd, Ac i fynd at Dduw 'r Alluoedd.

42 Gynta 'r elo 'r ffun o'r corphyn, Bydd darn o ddydd-y-farn i bob dyn, Er bod y cnawd mewn daiar dordyn Yr enaid gwael geiff farn ryw dippin.

43 Ti glywaiſt ſôn am Nef-paradwys, Lle mae eneidiau plant yr Eglwys, A'i bod yn byw mewn moddion ſanctedd Am fod yn weiſion y gwirionedd.

44 O oes i oes ar ddaiar riw-fodd, Yn gwneuthur da i bawb o'r bobloedd, Byw yn gariadus, eluſengar, Ymado ar ddaiar heb edifar.

45 Agos i ddwy-fil o flynyddoedd, Ar ddaiar Iddew hefo ei bobloedd, A ddygodd gynt o wlad yr Aiphtiaid, Ar ol eu gwaſcu â hir gaethiwad.

46 A gorodd for lliw coch o'r grauan, I wneuthur adwy fel mur llydan, Ac mewn un nos a gerddent trwyddo A'u holl elynion balch yn ſincio.

47 Ac yno daethant i'r Anialwch, Lle na bu gwydd na phigin un ſwch, Daeth ſyched gerwin mewn cyfyngdra, Heb ddwr, na diod, na dim bara.

48 Trawodd toc yr Arglwydd graſol, Y graig fel fflint i ffrydio i'r bobol, Cawſant dorri bawb ei ſyched, A gweled gwynfyd nefol weithred.

49 Lle noeth yw hwn, ymhle ceir bara, I gadw ynghyd yr holl gyn'lleidfa? Ein gwal o ddwr mae 'n ſiwr bereiddlan; Ond etto am fara nid oes teiſan.

50 Tewch a'ch grwgnach, ebr 'r Arglwydd, Daw ichwi fara Nef tragywydd, A dowch, bwytewch bob un y foru, Nid raid i bawb ond mynd iw gaſclu.

51 Ychydig ennyd ar ol hynny, Y Manna blaſus yn diflaſu, Cofiaſant am hen wlad yr Aiphtiad, A'u cig berwedig ſibol ſwyrad.

52 Yr Arglwydd nef, er mwyn eu boddio, A lawia ieir ymyſg eu Caer-fro, Heb fawr boen i drwſio rheini, A Bara nefoedd yw bodloni.

53 Torri eu chwant i fwyd a diod, Yn y man daw arnynt drallod, Anghofio Duw, bod yn anufudd, Ymofyn am ryw Dduwiau newydd.

54 I gadw 'r Bobol yn y gwerſyll, Bob un i'w heol, pawb i'w pebyll, 'Roedd eiſiau Cyfraith a gyfranna, I bawb ei eiddo yng ngwlad Moria.

55 Ar hynny erchodd Duw i Foeſen, Scrifennu Cyfraith â Llythyren, A'i cyhoedd ddarllen yn y gwerſyll, Fel y clywant pawb o'u pebyll.

56 Felly ſcrifennodd Duw 'r gorch'mynnion A elwir Deg, i bob rhyw Ddynion, A fo 'n drigolion ar y ddaiar, Nes difa 'n hwyr yr hwyl fawr fyrder.

57 Y mae pob plentyn newydd eni, A ddelo i'r byd, neu odid leni, A'r gyfraith beraidd ymma yn burion, Wedi ei ſcrifennu yn ei galon.

58 Clywaiſt ſon fod Crist ar ddaiar, I brynnu dynion drwg edifar, O'u holl gamweddau gynt a'u pechu, O's byddant dda hyd eitha eu gallu.

59 Clywaiſt

59 Clywaiſt ſon i'r Iesu farw, Yngwyſtl pechod pawb hyd heddyw, A bod pob enaid yn gyfrannog, O fendith Croes yr Holl-alluog.

60 A chwedi hynny mynd i'r nefoedd. Lle mae eneidiau myrddiwn bobloedd, I ganu mawl i Dduw gorucha, A roes drugaredd i'w eneidia.

61 Y mae er hyn ſlynyddoedd hirion, Er pan ddaeth Crist i brynnu dynion, A'i eni gynt o Fair y forwyn, Yngwlad yr Iddew, Duwdod addfwyn.

62 Byw yn llangc, a bod yn bybur, Wydda toc bob rhan o'r Scrythur, A pha barch oedd iddo ei diſgwyl, Ymhlith ei bobl warſyth wyſgyl.

63 Er ei holl wrthieu a'i weithredion, Yw tynnu yn ol i'r deg gorch'mynion; Ni thala dim, rhaid iddo farw, Oedd llef y terfyſc, ar groes groew.

64 Ar hynny rhoed mewn beddrod newydd, Lle claddwyd neb ond Crist yr Arglwydd, A ſeliwyd maen â ſêl y ddines, Na ddygei neb mor corphyn cynes.

65 Nid ydoedd boſſibl i'run ddaiar, Gadw Arglwydd Nef yn ngharchar, Daeth Angel da, a thorrodd gortyn, A'r Angeu drwg yn marw yn ſydyn.

66 Dryſeu 'r Nefoedd yn agored, I bob dyn duwiol yn ei weithred, I bob gwlad a gred yn Iesu, I'r nef y maent bawb yn perthynu.

67 Y degfed dydd a deugian inion, Rhoes Duw i ddyn nef-ſferings ffyddlon, Tywalltodd ef ei Yſpryd-Arglwydd, Ar gywir ddynion yn gyfarwydd.

68 Y rhain a elwir Apoſtolion, Am eu dewis oreu dynion, A rhoddi ſiars ar bawb bregethu Ymhob gwlad trwy 'r byd, Crist Iesu.

69 Byw yn y byd trwy edifeirwch Am bob pechod ar y wyddwch, Byw yn gariadus â holl ddynion, A'n gwneiff o'r Nef yn gyfrannogion.

70 *Ar hyn y* Gowt, *er fy miſyrru, A roi di gennod awr i gyſcu, Rhoiſt tippin bach i'r corphyn orphwys, A'r Enaid rodio gwlad Baradwys.* Eng-

ENGLYNION *yh erbyn* TYNGU, *A wnaed er* CARIAD *i'r* CYMRU.

O Waith W. R.

1 Gwyr o'm Gwlad y Geiriau gwir, Yn deuryd 'nawr dyrrais yn ddifir, I boh Bentre ſydd yn Bentir, Yn is ſêr yn amryw Sir.

2 I Dduw 'n Bentir 'rum ni blantau, Yn hollawl ein h'wyllys a'n geiriau, Gwych fiwſig gwyr o foeſau, Clodfori 'n iach ein Duw IAU.

3 Oes un Teſtyn 'nawr ar oſteg, O faban, o'i febyd fiwyddyn-ddeg, Yn anrhygl yn rhoi anrheg, I'r Lluoedd gu â llw yn ei geg?

4 Wrth Naturiaeth neb ſy 'n tyrru, Yn inion ei Enaid i dyngu; Siamplau llawn ymhawb o'r llu, Yn ddi-yſgol mae 'n eu ddyſgu.

5 Dim tyngu, rhegi, a rhwygo, A dwydyd, Y Drygwr a'm cipio: Mae fel gwraig ddrwg ſaig yn ſio, Oedd yn ddrewllyd cin ei ddryllio.

6 Dim Cythrel, na thrafel, na thrais Yngenau gwyr Gwynedd, na neb Sais; Geiriau gorau cywirais A fittia Ffun pob dyn a phais.

7 Dim galw Diawl di-fawl di-fan, Ondodid, 'nawr dwydyd ar amcan, Farn toſtus Yſpryd twrſtan, A ffodd Duw i Uffern Dân.

8 Y Cythrel amrafel ymryfus A gododd heb gledi yn ei Ben-llys, Mewn goleuni 'n llenwi llys, 'Nawr dywyllwch, ei hun a dwyllys.

9 Yſprydion aflan ac afles, Pwy Griſtion roe 'r gyſp yn ei fynwes? Bara 'n Bro ar fwrdd o biês, Yw Gair Duw gywirol dês.

10 Gan dwyllo rhain a dwyllant, Adda 'n anaddas i'r ceunant, A'i holl Eppil, os nhw heppiant, Heb Dduw 'n eu plaid i gadw 'r plant.

11 Gan

11 Gan hynny, Ddyn, mae itti ddawn, A rhydit trwy rwydeb yn raſlawn, Os y Grâs yn was a wnawn, Yn gorus i'n Duw mae'n gyfiawn.

12 Ie, ſelly pawb a alle, Fel telyn, roi 'r Teulu bêr odle; Oes neb yn unllwyn, nac yn un-lle, Nad eill fel Druw rodio 'r Dre?

13 Ie 'r Adar heb riſedi, Yn canu mor gymmwys bob cwmni, Fawl eu Hawdwr a'i Fawrhydi, Yn offrwm ffraeth i Dduw yn ffri.

14 Y rhain a ddyc i ddynion dda, A'r coedydd yn Gâd eu cyfluſdra, I foli Awdwr pob Eneidia, Hwyr a bore am hawl eu bara.

15 Pa riw fiwſic, pa riw feſur, Yn barchus ymherchen yr awyr? Ehediad gwael yn hudo gwyr, I foli Duw trwy Foliant pur.

16 Rhiw naturiaeth ſydd yn tarrio Ar goledd, a'r wawr yn goleuo, Wel'd pob 'Deryn yn ymdaro, A'i big yn Delyn gwych o'r dwylo!

17 I ganu mawl ar bigau mil, A myrddiwn am urddas yn ymbil, I roi rhagor gân yn rhygyl, I Dduw hael am gadw eu hil.

18 Och! o ddynion, chwi mor ddownus A 'dewch i'r adar anhyſpus, Ddangos gymmen ffordd yn gymmwys, O ardd Eden i Baradwys?

19 Er mwyn Cymru, meibion Camber Yn rhwydd ymroddwch i'ch ſiamber; Y dyn pwdwr dwyda 'th Bader, I'r Duw pur â chalon bêr.

20 Maddeu 'n beiau Duw 'n y byd, A phannwn yn ffynon yr Yſpryd, A'n henwau 'n hwyr, Duw dod o hyd, A'n llafar yn llyfr y bywyd.

21 Y Gwas ſceler ei rwyſg gwiliwn, F'eneidiau, f'anafodd rai miliwn, Ynglyn Tophet ni fwytathwn Fyth fara neb gara gan gwn!

22 Yn y Beibil cewch yn bybur; Dewiſwch gwir dwyſiad Yſgrythur; A Gair Duw yw gorau dur, I ladd pechodau pob pechadur.

23 Llythy-

23 Llythyrau Pawl ar fawl bob un, A yrrodd i annerch pob Groeg-ddyn, Un o'r rhain yn ddironyn, I ni, o Barthia, fydd yn perthyn. *Y Cymru.*

24 Gwyr Llydaw, gwyr llwydion, gwyr enwog, (Yn rymmus) dan rwymyn rhiw Dwyfog, Yn ynnill lle yn amfer llog, Alwafant gynt Galafia 'r Gôg. [*Vid.* Univ. Hift. *Vol.* V.]

25 Gwyr un-fam, gwyr un-dad, gwyr hoenus, (Gwyr Brydain) cin bradwyr i'n Hynus; Yn amfer Pawl trwy fawl a'i fys, Aent fel Rhaglaw bawb

26 Dim amrafael, neb amryfus, [i'r Eglwys, (Y llythyr) a'r llithoedd yn barchus; Chwilio am aur, a chwalu 'r ûs, A'r llyfr i'n llaw ymhob Llys.

27 Pawb yn ffri, oh byddwch ffraeth; Yn dwrftan na thryftiwch ddrwg araith; Mae geiriau mil yn wenwyn maeth, Os da fynnant, drwg hwfmonaeth.

28 Pawb a'i hawl, a mawl gan filoedd (o fyrddiwn) ar for ac ar diroedd, I Dduw maeth a wnaeth y Nefoedd, A'i harddu ac urddas yr oefoedd.

29 Fel y Llyw yn llywio llwydd I'r erchwyn drwy erchiad yr Arglwydd, Mae Lloer y Grâs yn llonni 'n grŷdd, A phob hedyn o'n hafodydd.

30 Os y wlad yrr drad yn drwch, Heb arbed yn erbyn hyfrydwch; Etto 'r Lloer cin mynd i'r llwch, Neb ni thwylla i'r tywyllwch.

31 Mae ffydd dyn fel 'Ffeiriad da, O'i loches yn llechu 'r Eneidia; Ei Eiriau glân neb wneiff yn gla: Ei Orchwyl a erchodd JEHOVAH.

32 Mae gwŷn a gwawd i'r cnawd cru, ('nrhy farus) i'r forwyn y foru; Ond gwyldra grâs i'r Gwas fy gu, Attolwg, a phawb o'r teulu.

33 Mâb i Adda, mâb i Efa, a meibion o'n mebyd gynheddfa; Meibion Japheth, mab JEHOVAH A meibion CRIST y Mâb Gorucha.

34 Ni wiw dwydyd mewn un dadal, (Myn Cythral) mi gythra 'r amrafal; Adda hudwyd gynt o'i hoedal, A'n Mam Efa am un afal.

35 Mae

35 Mae gan Job ymhob oes, Riw dennyn i 'mdynnu am ei einioes; Aed y Diawl i lawr a'r loes Uffernol i'w hên ffwrnes.

36 Mae Gair Duw fel Gwnn da, I ſeuthu 'r hên Sarph ar ei ſiwrna; Mae Gair Duw yn Gaer-droia, I 'mddiffyn yn well nag Offa.

37 Rhodio 'n rhwydd y rhaiad hon Yn foddus na fyddwn ni feilchion; Pridd a lludw, braidd yn lladron, Yn dwyn dig o'r brig i'r bôn.

38 Credu 'r gwir yn grynno ein gwedd, (Yn ddinam) daw arnom ni ddiwedd; Duw drefno'n byd tu-draw ein bedd, Yn fwyn i fynwes Trugaredd.

39 Gochelwn, gwiliwn, y gwaele, A'r ddefod ſy ddyfod riw ddyddie; Aden hollawl gwnaed pawb a alle, O niwl naws i hedeg i'r Ne.

40 Trwy GRIST mae'n dyſt ein Duw, (I bob dyn,) a phawb ſydd o'r unrhiw, Mae calon lân yw goreu Llyw, O ddyfnder bedd i bob dyn byw.

41 Rho di, f'Enaid, ymma ronyn, A diddan megis deu-ddyn yr ydyn, Cnwd wyt di, a chnawd yw dyn, A'r GLAN YSPRYD gorchwyl droſdyn.

42 Tydi Greadur wyt yn credu, Yn nerthol Yngwrthieu CRIST IESU? Gad i râs-dennyn 'nawr dy dynnu At Dduw 'n hollawl a'th holl allu.

43 Gair drwg, gair amlwg, ceir ymliw, (Gan ddynion) diddanwch yn loew; Di a dithau daeth cin Diliw, Ac foru fydd ffordd oreu i fyw.

44 Yn llythyr Pawl ceir neither pur, Yn ddownus i 'mddyfnu 'r pechadur, Yn eſtyn grâs i'r gwas a'r gwyr: Bwytawn a bobodd, awn yn bybyr.

45 Os credwn, dewiſwn y deiſen a falwyd o'r felus wenhithen; Na chymrwn ffydd a phendro i'w phen, Gan ymryſus gwyr o Rufen.

46 Pawl ragòrawl am drugâredd, Yn dangos pob Tyngu 'n oferedd; Mae grâs, rhwydeb, ac anrhydedd, Yn neither bur cin nyth ein bedd.

47 Beth

47 Beth yw'r gwnniau gwannau gweinion, (Er wyfed) i gtefydd gwyr graſlon, Trwy GRIST ſe yrrai Griſtion, Er yn gant i bant o'r bôn.

48 Mae Rhinwedd yn rhyfedd yn rhiw-fodd, (Yn barchus) ymherchen cenhedloedd; Fel y Lloer yn tynnu lluoedd, 'Nawr yn nofio, i fynu i'r nefoedd.

49 Fel yr Haul i'r gwael a'r gwan, Ar adeg rhydd redeg i'r egwan; Cynheſu'r llwyn, cynhwyſo'r Llan, Yn gymmwys ymhob rhiw gwynfan.

50 Am Eiriau ofer neb ymofyn, Er Duw, er Diawliaid, mae'n reſyn; Geiriau da a gara'r dyn, A'i cynhafa mae'n gynefin.

51 Tyngu, a rhegi, a rhwygo Eu Creawdwr, a'i *GRIST*, a'i groeſhoelio; Felly 'r Hudwr ſydd yn hudo Y dynion drwg i drin ei dro.

52 Plant i Dduw, neu blant i Ddiawl, (Yw'r hollfyd) A'i h'wyllus yn hollawl; Ymaelwn oll yng Nnghriſt â mawl, Medd Pôl a Phedr wybodawl.

53 Cyfiawnder yn gynnar i'm co, Medd Ioan ibob Ionawr ac Iago; Ond Anghyfiawnder drablin dro, A yrr i Uffern bawb a'u hoffo.

54 Plant i Dduw, neu blant i Ddiawl, (Yn rhiwfodd) yw rheſwm ſcrythurawl; Oes yn y maes yn haeddu mawl, Ond *DUW* byw, a ddwyda Bawl?

55 Tyngu, a rhegi, a rhwygo, Yw offrwm y dyn drwg yn effro; Llid, cenfigen a ſago, Yw hiddig grâs tu hwynt i'r gro.

56 Ffarwel, Gymro, fyth na chymra, Yn ofer, Fawr Enw 'r Gorucha; Geiria gwir 'mhob Sir a ſa; Ond araith ddrwg i'r mwg yr a.

N. B. Ped fae 'r Cymru, *wrth argraphu eu llyfrau Cymraeg, yn arferu* [ð] *bengam Groeg yn lle* [dd] *a* [χ] *yn lle* [ch] *fe ddarllenna'r Iaith yn fyrrach, feluſach, ac yn well, ac ni ddoe mo'r tair* Lythyren [d] *ynghyd, megis yn y gair* cybyddddod, gweddeidd-dra, *&c. ac oddid edrych eſtron mewn llyfr Cymraeg, gan weled cymaint cydſain* [d] *ynddi, a meddwl amhoſſibl i un* Sais *ei pharablu.*

CAROL DUWIOL.

1 Fy anwyl Gymdeithion dewr foddion difudd,
Sydd beunydd heb gyffro yn rhodio mor rhydd;
Heddyw dychwelwch, a dowch er mwyn Duw,
Na oedwch newidiad trwy fwriad da i fyw.

2 Rhiw Sampſon oedd wrol a nerthol ei naws,
Fe ddaeth Angeu, cofiwch, yn drwch ar ei draws;
Rhydd ditha yn farwedd i orwedd riw awr,
Ped fae 'r dyn diriad, cyn gryfed â'r Cawr.

3 A Selyf ſynhwyrol hyfrydol ei fryd,
Y fe oedd y doetha, debyga 'n y byd;
Er maint ei anrhydedd, ei fawredd a'i fri,
Lladd angeu fe'n bryſur, mae 'n eglur i ni.

4 Er cymaint rhwyſg Herod rhyfeddod y fro,
Gwr eurol ei arian fel graean a gro,
Pan oedd ef ar orſedd ei fawredd a'i fraint,
Rhoes angeu iddo ddyrnod, mae'n hynod yr haint.

5 Ni ddichon neb ddiangc o'i grafangc, mae'n gre,
Nid oes i'w chael ymma un noddfa tan Ne:
Dychwel yr angeu i gaereu pob cwrr,
Fe ladd Alecſander a Ceſar yn ſiwr.

6 Yr ieuangc afieuthus ſydd weddus ei wên,
A'r uchel wr iachus, yr hoenus a'r hên,
Pan ddelo fe 'n ddilys, ni erus un awr,
Fe ei tru heb drugaredd yn llwyredd i'r llawr.

7 Ail ydym i'r cyſgod, neu 'r manod mis Mai,
Neu flodeu fae 'n hoew, neu 'r llanw a'r trai;
Yr awrhon cyn wchad a brafiad ein bri,
I'r pridd ar fyrr ddyddiau, 'rwi 'n adda, 'rawn ni.

8 Nid cyfoeth, nid cryfder, na doethder na dyſc,
A dru 'r angeu aethlyd un munyd o'n myſc:
Gwnawn heddwch gan hynny rhag brwydr a braw,
Ni cheiff undyn wybod mo'r diwrnod y daw.

9 Nid erus y Llanw, er galw, mi ai gwnn,
I'r Llongwr brofeidio, neu baccio mo'i bwnn;
Nid erus yr angau i ninnau bartoi,
Ni waeth i ni weithan yr awrhon ymroi.
10 Duw 'r TAD a'r MAB hefyd a'r YSPRYD da ei râs,
A drotho ein Meddyliau mewn goleu digas,
I geisio tragwyddol lon freiniol lân fraint,
Yn nheyrnas Duw nefol orseddfol y Sainct.

EPIGRAMS *By W. R.*

I pleaſe myſelf with pious Thought,
Let Things fall back, fall edge;
True Peace within ſhould firſt be ſought
Before a golden Wedge.
If I poſſeſs'd the Globe and all
And had its Wealth at once at call;
Had Food and Cloaths to pick and cull;
What is it all but Bellyfull?

Cerdd di heddyw, tyrd di foru, tyrd di drannoeth,
Duw o'r Nef fendithia 'r Saboth.

Child's Song.

Go Day, come Day, God bleſs Sunday.

DOXOLOGY.

Unto the FATHER Glory be,
And to the SON coequallie,
And to the SPIRIT one in three,
And Praiſe to all Eternitie.
As in Beginning ever was;
So will it always come to paſs;
The LORD will reign a LORD alone,
When Time and Ages ſhall be gone.

Gogoniant fyth a fotho i'r TAD,
A Gogoniant i'r MAB Rhâd,
Cyd-ogoniant i'r GLAN YSPRYD,
Un DUW tri tragywydd hyfryd;

Fel yr oedd yn'r Amſer cynta,
Cin bod Byd, na ſôn am Adda;
Felly y mae'r awr breſennol,
Ac y bydd yn Oes dragwyddol.

CHARITY HYMNS, *By W. R.*

HYMN I.

1 All Men that dwell throughout the Globe,
Praiſe ye the LORD of Hoſt;
And on Him fix your Love and Hope,
In all and ev'ry Coaſt.
2 The Cherubim and Seraphim,
And the bright Angels all,
Do the continued Praiſe of Him,
From Time to Time extol.
3. Shall we on Earth be ſilent then,
Who alſo's Creatures are,
And not his Wonders to all Men,
With grateful Hearts declare?
4 By taking Pity on the Poor,
In Soul and Body both;
Inſtruct the Ignorant, moreo'er,
And their frail Bodies cloath.
5 Let us, beſides, the Hungry feed,
And make the Thirſty drink,
That ſo when we ſtand moſt in Need,
The LORD may of us think.
6 Let's the poor Stranger take in, and
Unto him ſomething give,
And with a chearful open Hand,
The Priſoner relieve.

HYMN II.

1 Let's our good Offices extend
Unto the Sick and Lame;
And pray that GOD would them amend
For his moſt Holy Name.

2 'Tis Charity that does alone,
Entitle us to Heav'n;
Becauſe our SAVIOUR that will own,
As unto Himſelf given.
3 'Tis Charity that will prevail
With GOD for his good Grace;
True Charity ſhall never fail,
But crowns each glorious Place.
4 'Tis Charity that does entail
On us an Heritage,
Which will us comfort without fail,
When we drop off the Stage.
5 'Tis Charity that will bequeath
To us a Legacy,
Which we ſhall ſure receive at Death,
With Joy unſpeakably.

HYMN III.

1 If we are minded to enjoy
A bleſt and happy State,
Let us our Charity employ,
And that will it create.
2 He that unto the Poor does give,
Unto the LORD does lend;
And will aſſuredly receive
From Him his full Content.
3 Give ſomewhat to the Poor each Day,
And don't thy Hand retard;
He'll Int'reſt upon Int'reſt pay,
And thee for e'er reward.
4 He that gives to the Poor, does lay
Up for himſelf in Store,
Treaſures in Heav'n, which ne'er decay,
But laſt for evermore.

5 Let's our * Exchequer Bills exchange,
And Things of dubious Stay,
For Things in Heav'n, which never change,
Nor can be ſtole away.
6 He that upon the Poor beſtows
The leaſt Thing for GOD's ſake;
He th' Mite and the cold Water knows,
And Happy them will make.

* *Al. Let us our worldly Goods exchange,*

Hyſſorddiant i ddyſgu darllen Cymraeg *a* Saeſneg.

Llythyrennau Rhufeinaidd,

A B C CH D DD E F FF G H I J L LL M N NG O P PH R S T TH U W Y.

a b c ch d dd e f ff g h i j l ll m n ng o p ph r ſ s t th u w y.

Llythyrennau Italaidd.

A B C CH D DD E F FF G H I J L LL M N NG O P PH R S T TH U W Y.

a b c ch d dd e f ff g h i j l ll m n ng o p ph r ſ s t th u w y.

Swn y llythyrennau, neu ſylaftau byrrion o ddwy lythyren,

ab eb ib ob wb yb ac ec ic oc wc yc ach ech ich och wch ych ad ed id od wd yd add edd idd odd udd wdd ydd af ef if of wf yf aff eff iff off wff yff ag eg ig, og ug wg yg al el il ol ul wl yl all ell ill oll ull wll yll am em im om um wm ym an en in on un wn yn ang eng ing ong ung wng yng ap ep ip op up wp yp aph eph iph oph uph, wph yph ar er ir or ur wr yr as es is os us ws ys at et it ot ut wt yt ath

Let's

ach eth ith oth uth wth yth aw ew iw ow uw yw Ba be bi bo bu bw by ca ce ci co cu cw cy Da de di do du dw dy dda dde ddi ddo ddu ddw ddy Fa fe fi fo fu fw fy ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy Ga ge gi go gu gw gy Ia ie io iu iw iy La le li lo lu lw ly Lla lle lli llo llu llw lly ma me mi mo mu mw my na ne ni no nu nw ny nga nge ngi ngo ngu ngw ngy pa pe pi po pu pw py pha phe phi pho phu phw phy Ra re ri ro ru rw ry ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy ta te ti to tu tw ty tha the thi tho thu thw thy Wa we wi wo wu wy

Bŷdd hyddyſc ar yr hyn a eiſt droſto, cyn y meiddiech fyned ymhellach; ac yno dyſc gyſſylltu 'r llythyrennau yn eu ſylaftau eu hunain, a mynegu geiriau cyflawn fel y canlyn.

AM Y SYLAFTAU.

Geiriau o un Sylaft.

Am, bâs, bâr, cam, cap, câr, câs, cath, cî, cô, cû, Du, dur, dwl, dŵr, dŷn. Llâdd, llen, llo, llu, llw, llym. Mam, mêr, môr, mûr, mŵg, myn. Nâdd, nêf, nôs, nŷdd. Pam, peth, pûr pwn.

Geiriau o ddwy Sylaft.

Ac-cen, accen, a-chos achos, ad-re adre, a-ddyſc addyſc, ang-or angor, a-nos anos, an-nos, annos, a-ſen âſen, Ba-bi babi, ba-chog bachog. Ca-lon calon, ce-ſen ceſen, cô-ffor coffor, cu-ro curo, cwp-pan cwppan, cy-bŷdd, cybŷdd, dang-os dangos, e-win ewin, do-len dolen, dur-io durio, dryſ-ni dryſni.

Geiriau o dair Sylaft.

A-fon-ydd, afonydd; an-rhy-dedd, anrhydedd; aſ-ſen-nau; at-teb-odd, attebodd; baſ-ged-ed, baſgeded; pe-ryg-lon, peryglon; ca-lon-nau, calonnau; cer-by-dau, cerbydau; gor-thrym-der, gorthrymder.

Geiriau o bedair Sylaft.

A-ddo-li-aeth, addoliaeth; a-dde-wid-ion, addewidion; c-olle-di-on, colledion; gor-chym-myn-ion, gor-

gorchymmynion; go-go-ne-ddus, gogoneddus; me-ddi-gin-iaeth, meddiginiaeth; me-ddi-an-nol, meddi-annol; per-chen-no-gi, perchennogi.

Geiriau o bum Sylaft.

Go-di-ne-brw-ydd, godinebrwydd; ym-gy-foe-tho-gi, ymgyfoethogi; ym-gy-fei-lior-ni; ymgy-feiliorni; ym-ry-ſo-nol-deb, ymryſonoldeb; ym-ry-fu-ſe-ddu, ymryfuſeddu; e-tho-le-dig-ion, etholedigion; go-ddi-we-ddi-ad, goddiweddiad.

Gwybydd mae Sylaft yw cymaint o Lythyrennau ag a wnelo un ſŵn mewn gair, ſef, heb newid dy lais, megis y gweli fod yn y gair go-di-ne-brwydd bedair o ſylaftau, ac yn y gair ym-gy-foe-tho-gi, bump o'r unrhiw ſylaftau.

Y CATECHISM:

Hynny yw, Athrawiaeth i'w dyſgu gan bob un cyn ei ddwyn i'w gonffurmio gan yr Eſgob.

Gofyn, Beth yw dy Enw di?

Atteb, N neu *M, neu 'r cyfryw.*

Gofyn, Pwy a roddes yr Enw hwnnw arnat ti?

Atteb, Fy Nhadau-bedydd a'm Mammau-bedydd wrth fy medyddio, pan i'm gwnaethpwyd yn aelod i Griſt, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas Nef.

Gofyn, Pa beth a wnaeth dy Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd yr amſer hwnnw troſot ti?

Atteb, Hwy a addawſant ac a addunaſant dri pheth yn fy Enw: Yn gyntaf, ymwrthod o honof â Diafol, a'i holl weithredoedd, a rhodres a gorwagedd y byd anwir, a phechadurus chwantau 'r cnawd. Yn ail, bod i mi gredu holl byngcieu ffydd Griſt; ac yn drydydd, cadw o honof wynfydedig ewyllys Duw a'i orchymynnion, a rhodio yn yr unrhiw holl ddyddiau fy mywyd.

Gofyn, Onid wyt ti yn tybied dy fod yn rhwymedig i gredu ac i wneuthur megis yr addawſant hwy troſot ti?

Atteb

Atteb, Ydwyf yn wir, a thrwy nerth Duw felly y gwnaf: Ac yr wyfi yn mawr ddiolch i'm Tad nefol am iddo fy ngalw i gyfriw ſtat o iechydwriaeth trwy Jeſu Griſt ein jachawdwr; ac mi a attolygaf i Dduw roddi i mi ei râd, modd y gallwyf aros yn yr unrhiw holl ddyddieu fy einioes.

Gofyn, Adrodd i mi fannau dy ffydd.

Atteb, Credaf yn Nuw Tâd hollgyfoethog, Creawdwr nef a daiar: Ac yn Jeſu Griſt ei un Mab ef ein Harglwydd ni; yr hwn a gaed trwy 'r Yſpryd Glân, a aned o Fair Forwyn; a ddioddefodd tan Pontius Pilat, a groeſhoeliwd, a fu farw ac a gladdwyd, a ddiſcynnodd i uffern, y trydydd dydd cyfododd o feirw, ac eſcynodd i'r Nefoedd, ac y mae yn eiſtedd ar ddeheulaw Duw Tad hollgyfoethog, oddiyno y daw i farnu byw a meirw: Credaf yn yr Yſpryd Glân, yr Eglwys lân gatholic, Cymmun y Sainct, Maddeuant pechodau, Cyfodiad y cnawd, a'r Bywyd tragwyddol. *Amen.*

Gofyn, Pa beth yr wyt yn ei ddyſcu yn bennaf yn y pyngciau hyn o'th ffydd?

Atteb, Yr wyfi yn dyſcu credu, yn gyntaf yn Nuw Tad yr hwn a'm gwnaeth i a'r holl Fŷd; Yn ail, yn Nuw Fab, yr hwn a'm prynnodd i a phob rhyw ddyn. Yn drydydd, yn Nuw Yſpryd Glân, yr hwn fydd i'm ſancteiddio i, a holl etholedig Bobl Dduw.

Gofyn, Ti a ddwydaiſt ddarfod i'th Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd addaw troſot ti, fod i ti gadw gorchymynnion Duw, dywaid i mi pa nifer ſydd o honynt?

Atteb. Deg.

Gofyn. *Pa rai ydynt?*

Atteb, Y rhai hynny a lefarodd Duw yn yr ugeinfed bennod o *Eſodus*, gan ddywedyd, Myfi yw 'r Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddug di ymmaith o dir yr *Aipht*, ac o dŷ y Caethiwed.

I. Na

I. Na fydded i ti Dduwiau eraill ond myfi.

II. Na wna it dy hun ddelw gerfiedig, na llun dim ac ſydd yn y nefoedd uchod, neu yn y ddaiar iſod, nac yn y dwr tan y ddaiar, Na oftwng iddynt, ac na addola hwynt; oblegid myfi yr Arglwydd dy Dduw, wyf Dduw eiddugus, yn ymweled â phechodau'r Tadau ar y Plant hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm caſaânt; ac yn gwneuthur Trugaredd i filoedd o'r rhai am carant, ac a gadwant fy ngorchmynnion.

III. Na chymmer Enw 'r Arglwydd dy Dduw yn ofer; canys nid gwirion gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei Enw ef yn ofer.

IV. Cofia gadw yn ſanctaidd y dydd Sabboth; chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith; eithr y ſeithfed dydd yw Sabboth yr Arglwydd dy Dduw; ar y dydd hwnnw na wna ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wâs, na'th forwyn, na'th anifail, na'r dyn dierth a fyddo o fewn dy byrth: Canys mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd Nef a Daiar, y Môr, a'r hyn oll ſydd ynddynt, ac a orphwyſodd y ſeithfed dydd. O herwydd paham bendithiodd yr Arglwydd y ſeithfed Dydd, ac a'i ſancteiddiodd ef.

V. Anrhydedda dy Dâd a'th Fam, fel yr eſtynner dy ddyddieu ar y ddaiar yr hon a roddes yr Arglwydd dy Dduw i ti.

VI. Na lâdd.

VII. Na wna odineb.

VIII. Na ledratta.

IX. Na ddwg gam dyſtiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

X. Na chwennych dŷ dy gymmydog, na chwennych wraig dy gymmydog, na'i wâs, na'i forwyn, na'i ŷch, na'i aſſyn, na dim ſydd eiddo dy gymmydog.

Gofyn, *Beth wyt yn ei ddyſcu yn bennaf wrth y gorchymynnion hyn?*

Atteb, Yr ydwyf yn dyſcu dau beth, fy Nylêd tuag at Dduw, a'm Dylêd tuag at fy Nghymydog.

Gofyn, *Beth yw dy ddylêd tuag at Dduw?*

Atteb, Fy Nylêd tuag at Dduw yw credu ynddo, ei ofni, a'i garu, a'm holl galon, a'm holl nerth, ; ei addoli, diolch iddo, rhoddi fy holl ymddiried ynddo, galw arno, anhydeddu ei ſanctaidd Enw ef a'i Air, a'i waſanaethu yn gywyr holl ddyddieu fy mywyd.

Gofyn, *Pa beth yw dy ddyled tuag at dy gymmydog?*

Atteb, Fy Nylêd tuag at fy Nghymydog yw, ei garu ef fel fi fy hun, a gwneuthur â phob dŷn megis y chwennychwn iddo ef wneuthur â minneu. Caru o honof, anrhydeddu a chymorth fy Nhad a'm Mam; anrhydeddu ac ufuddhau i'r Brenin a'i Swyddogion; ymddaroſtwng i'm holl Lywiawdwyr, Dyſgawdwyr, Bugeiliaid yſprydawl, ac Athrawon; ymddwyn o honof yn oſtyngedig, gan berchi pawb o'm gwell; na wnelwyf niwed i neb ar air na gweithred, bod yn gywir ac yn uniawn ymhob peth a wnelwyf; na byddo na châs na digllonedd yn fy nghalon i neb, cadw o honof fy nwylaw rhag chwilenna a lladratta, cadw fy nhafod rhag dywedyd celwydd, cabl eiriau, a drwg abſen, cadw fy ngorph mewn cymhedroldeb, ſobrwydd, a diweirdeb; na chybyddwyf ac na ddeiſyfwyf dda na golud neb arall; dyſcu llafurio yn gywir i geiſio ynnill fy mywyd, a gwneuthur a ddylwyf ym mha ryw fuchedd bynnag y gwelo Dduw yn dda fy ngalw iddi

Gofyn, *Fy anwyl Blentyn, gwybydd hyn ymma, nad wyt ti abl o honot dy hun i wneuthur y pethau hyn; nac i rodio yng ngorchymynnion Duw, nac i'w waſanaethu ef heb ei yſpyſawl Rad ef, yr hwn ſydd raid i ti ddyſcu ymorawl am dano trwy ddyſfal weddi; gan hynny moes i mi glywed a fedri di ddywedyd gweddi'r Arglwydd?*

Atteb,

GWEDDI YR ARGLWYDD.

Atteb. Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw, deled dy deyrnas; bydded dy ewyllys ar y ddaiar megis y mae yn y nefoedd; dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol; a maddeu i ni ein dyledion fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr; ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw 'r deyrnas, y gallu, a'r gogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

Gofyn, *Pa beth yr wyt ti yn ei ddymuno yn y weddi hon?*

Atteb, Yr ydwyf yn deiſyf ar fy Arglwydd Dduw ein Tad nefol, (yr hwn yw Rhoddwr pob daioni) ddanfon ei Râd arnaf, ac ar yr holl bobl, fel y gallom ei addoli ef, ei waſanaethu, ac ufuddhau iddo megis y dylem: Ac yr wyf yn gweddio ar Dduw ddanfon i ni bob peth angenrheidiol, yn gyſtal i'n heneidiau ac i'n cryrph; a bod yn drugarog wrthym, a maddeu i ni ein pechodeu; a gweled o hono ef yn dda ein cadw ni a'n hamddiffyn ymhob perygl yſprydol a chorphorol; a chadw o hono ef nyni rhag pob pechod ac anwiredd; a rhag ein gelyn yſprydol, a rhag angeu tragwyddol; a hyn yr ydwyf yn ei obeithio y wna efe o'i drugaredd a'i ddaioni trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt; ac am hynny yr wyf yn dywedyd, *Amen. neu*, felly y bo.

Gofyn, *Pa ſawl Sacrament, a ordeiniodd Criſt yn ei Eglwys?*

Atteb, Dau yn unig, megis yn gyffredinol yn angenrhaid i iechydwriaeth; ſef Bedydd, a Swpper yr Arglwydd.

Gofyn, *Pa beth yr wyt ti yn ei ddeall wrth y gair Sacrament?*

Atteb, Yr wyfi yn deall arwydd weledig oddiallan o râs yſprydol oddifewn a roddir i ni; yr hwn a ordeiniodd Criſt ei hun megis modd i ni i dderbyn y

gras hwnnw trwyddo, ac i fod yn wyſtl i'n ſicrhâu ni o'r gras hwnnw.

Gofyn, *Pa ſawl Rhan ſydd mewn Sacrament?*

Atteb, Dwy, yr arwydd weledig oddiallan, a'r gras yſprydol oddifewn.

Gofyn, *Pa beth yw'r arwydd weledig oddiallan, neu'r ffurf yn y Bedydd?*

Atteb, Dwfr, yn yr hwn a bedyddir un yn enw'r Tad a'r Mab a'r Yſpryd Glan.

Gofyn, *Pa beth yw'r gras yſprydol oddifewn?*

Atteb, Marwolaeth i bechod, a genedigaeth newydd i gyfiawnder; canys gan ein bod ni wrth naturiaeth wedi ein geni mewn pechod, ac yn blant digofaint, drwy Fedydd y gwneir ni yn blant grâs.

Gofyn, *Pa beth a ddiſgwylir gan y rhai a fedyddier?*

Atteb, Edifeirwch, drwy'r hon y maent yn ymwrthod a phechod; a ffydd drwy'r hon y maent yn ddiyſgog yu credu addewidion Duw, y rhai a wneir iddynt yn y Sacrament hwnnw.

Gofyn, *Pa ham gan hyny y bedyddir plant bychain pryd na's gallant o herwydd eu hieuenctyd gyflawni y pethau hyn?*

Atteb, Oblegid eu bod yn addo pob un o'r ddau drwy ei meichiau; yr hwn addewid pan ddelont mewn oedran, y maent hwy eu hunain yn rhwym i'w gyflawni.

Gofyn, *Pa ham yr ordeiniwyd Sacrament Swpper yr Arglwydd?*

Atteb, Er mwyn tragwyddawl goffadwriaeth Aberth Dioddefaint CRIST, a'r Lleſhâd yr ydym ni yn ei dderbyn oddiwrtho.

Gofyn, *Beth yw'r Rhan oddiallan, neu'r Arwydd yn Swpper yr Arglwydd?*

Atteb, Bara a Gwin, y rhai a orchymynnodd yr Arglwydd eu derbyn.

Gofyn, *Beth yw'r Rhan oddifewn, neu'r peth a arwyddocceir?*

Atteb,

Atteb, Corph a Gwaed CRIST, y rhai y mae'r ffyddloniaid yn wir ac yn ddiau yn eu cymmeryd ac yn eu derbyn yn Swpper yr Arglwydd.

Gofyn, *Pa Leſhad yr ydym ni yn ei gael wrth gymmeryd y Sacrament hwn?*

Atteb, Cael cryfhau a diddanu ein Heneidiau drwy Gorph a Gwaed CRIST; megis y mae ein cyrph yn cael drwy'r Bara a'r Gwin.

Gofyn, *Beth ſy raid i'r rhai a ddel i Swpper yr Arglwydd i wneuthur?*

Atteb, Eu holi eu hunain a ydynt hwy yn wir edifeiriol am eu pechodau a aeth heibio, a ſiccr amcanu dilyn buchedd newydd; a oes ganddynt ffydd fywiol yn nhrugaredd Duw trwy GRIST; gyda diolchus gôf am ei Farwolaeth ef; ac a ydynt hwy mewn cariad perffaith â phawb.

GRAS *o flaen Bwyd.*

Bendithia, O Dduw nefol, hyn o Fwyd a Diod, a gwna nhw yn iachus i'n Cyrph; a ninna yn wir ddiolchgar am danynt, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

GRAS *ar ol Bwyd.*

I ti, o Dduw goruchaf, y diolchwn am ein lluniaeth, a phob peth arall a wyt yn ei roddi inni, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd a'n jachawdwr. *Amen.*

Un arall cin Bwyd.

Pa un bynnag a wnelom a'i bwyta a'i yfed, medd St. *Paul*, neu beth bynnag arall a wnelom, gwnawn bob peth er mawl a gogoniant i Dduw 'r Tad, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Un arall ar ol Bwyd.

I Arglwydd y Gogoniant a'r Gallu, yr hwn a'n creodd ni, ac a'n gwaredodd ni, ac a'n porthodd ni ar hyn o amſer, y bytho 'r Moliant a'r Diolch yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

Gweddi

GWEDDI wrth godi'r Boreu.

O Arglwydd IESU GRIST, tydi yw gwir Oleuni 'r Byd, a'r Haul ſydd bob amſer yn twynnu, ac heb fachludo un amſer, a'th belydr di ſydd yn goleuo pob peth; llewyrcha, attolygaf i ti, yn fy nghalon a'm hyſpryd i, a gwaſcara dywyllnos pechod, a chadw niwl anwybodaeth allan o'm meddwl i, fel y gallwyf rodio'n weddus megis wrth liw dydd, ac ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch: Caniadhâ hyn, Arglwydd, ein Jachiawdwr, Cyfryngwr, a'n Dadleuwr. *Amen.*

Gweddi *wrth fyned i gyſcu,*

Moliant a Diolch a fo i ti, O Arglwydd Jeſu Griſt, Prynwr y byd; trwot ti y gwnaed pob peth ar a wnaethpwyd, ac hebot ti ni all dim barhau: Trwot ti y dŷdd, a'r nôs, a'r miſoedd, a'r blynyddoedd, a'r goleuni, a'r tywyllwch; a thrwot ti y trefnir, ac y rheolir hwynt. Yr ydym ni, ddynion truain, yn attolwg it ti, O Arglwydd, ein cynnwys ni y nôs hon dan gyſgod dy Drugaredd. Cadw ni rhag dychryn yn y nos, a rhag maglau a dichellion y Cythrael. Pâr i ni weled goleuni mewn tywyllwch; canys tydi yw'r gwir Oleuni. Cadw ni rhag y tywyllwch eithaf, a dwg ni i mewn i'r goleuni tragwyddol, i'th foliannu di byth bythoedd. *Amen.*

Gweddi *dros yr holl Deyrnas.*

DUW a gadwo'r Deyrnas, a'r Brenin, a'i Gynghoriaid, a'r holl Fonedd, a'r Cyffredin. Duw a gynhorthwyo yr Eglwyſwyr â'i Yſpryd Glân i oſod allan ei Wirionedd ef; Duw a amddiffynno Ewyllyſwyr-da yr Efengyl, ac a'n gwnelo ni yn ffyddlon ac yn dueddol tuag atti. Duw a newidio galonnau ein gelynion. Duw, o'th alluog Nerth, a weli 'n dda ddiſtrywio Anghriſt a'i holl Deyrnas; Duw a ddanfono lwyddiant a rnwydd-deb i'r Efengyl tros yr holl Fyd, fel y bo pawb o honom yn dduwiol ac yn union yn

ei

ein galwedigaeth, trwy haeddedigaethau ein Harglwydd a'n hiachiawdwr Jeſu Griſt. *Amen.*

Gwerſi *o'r Scrythur lan.*

Pa bryd bynnag y bo'n edifar gan bechadur ei bechodau, o ddyfnder ei galon; mi a ollyngaf tros gof ei holl anwiredd ef, medd yr Arglwydd.

Yr wyf yn cydnabod fy anwiredd, a'm pechodau ſydd yn waſtad ger fy mron. Ymchwel dy wyneb oddiwrth fy mhechodau, O Arglwydd, a dilea fy holl gamweddau. Yſpryd cyſtuddiedig ſydd aberth i Dduw; na ddirmyga, Arglwydd Dduw, mo galonnau ufudd cyſtuddiedig. Rhwygwch eich calonnau, ac nid eich dillad, ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw, canys tirion a thrugarog ydyw; efe ſydd ddioddefgar, a mawr ei drugaredd i'r cyfryw un ag ſydd ofidus gantho am ei holl gamweddau.

Gwellhêwch eich buchedd, canys mae teyrnas Dduw yn agos. Mi af at fy Nhâd, ac a ddywedaf wrtho, Fy Nhâd, mi a bechais yn erbyn y Nefoedd, ac yn dy erbyn di, ac nid ydwyf deilwng i'm galw yn Fâb i ti. Na ddwg i'r Farn dy Weiſion, Arglwydd, gan nad byw neb cyfiawn yn dy olwg di.

Os dywedwn ein bod heb bechod, yr ym yn ein twyllo ein hunain, ac nid oes gwirionedd ynom.

Cyffes gyffredin.

Holl-alluog Dduw, a thrugaroccaf Dâd, ni aethom ar gyfeiliorn allan o'th ffyrdd di fel defaid ar gyfyrgoll; nyni a ddilinaſom ormod ar amcanion a chwantau ein calonnau ein hunain; nyni a wnaethom yn erbyn dy ſancteiddiol gyfreithiau; nyni a adawſom heb wneuthur y pethau a ddylaſem eu gwneuthur, ac a wnaethom y pethau ni ddylaſem ei gwneuthur, ac nid oes iechyd ynom. Ond tydi, O Arglwydd, cymmer drugaredd arnom, drwg weithredwyr truain: Arbed ti hwynthwy, O Dduw, y rhai fy'n cyffeſſu eu Beiau; ymgledda di y ſawl ſydd yn edifarus, yn

ol

ol dy addewidion a yſpyſwyd i ddyn yng Nghriſt Ieſu ein Harglwydd; A chaniadhâ, drugaroccaf Dad, er ei fwyn ef, fyw o honom rhag-llaw mewn duwiol, union, a ſobor Fuchedd, i Ogoniant dy ſanctteiddiol Enw. *Amen.*

G W E D D I.

Yr Holl-alluog Dduw, Tâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn ni ddeiſyf Farwolaeth pechadur, ond yn hytrach ymchwelyd o hono oddiwrth ei Anwiredd, a byw. Efe a bardyna ac a ollwng y rhai oll ſy edifeiriol, ac yn ddiffuant yn credu i'w ſanctteiddiol Efengyl ef. O herwydd paham nyni a attolygwn iddo ganiadhau i ni wir Edifeirwch a'i Yſpryd Glân, fel y byddo bodlon gantho y pethau yr ydym y pryd hyn yn eu gwneuthur, a bod y darn arall o'n bywyd rhag llaw yn bur ac yn ſanctteiddiol, fel y delom o'r diwedd i'r llawenydd tragwyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, *&c.*

Arglwydd, agor ein gwefuſau, A'n genau a fynega dy foliant. Duw, bryſia i'n cynorthwyo. Arglwydd, pryſura i'n cymmorth.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd Glân.

Megis yr oedd yn y dechrau, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad yn oes oeſoedd. *Amen.*

Molwch yr Arglwydd; Moliannus fyddo Enw 'r Arglwydd. *Pſalm* XCV.

Deuwch, canwn i'r Arglwydd; ymlawenhawn yn nerth ein hiechyd; Deuwn ger ei fron ef â diolch; canwn yn llafar iddo Pſalmau. Canys yr Arglwydd ſydd Dduw mawr, a Brenin mawr ar yr holl Dduwiau. Oblegid yn ei law ef y mae gorddyfnderau'r ddaiar, ac ef biau uchelder y mynyddoedd. Y mor ſydd eiddo ef; canys efe a'i gwnaeth, a'i ddwylaw a luniaſant y ſychdir. Deuwch, addolwn, a ſyrthiwn i lawr, a goſtyngwn ger bron yr Arglwydd ein gwneuthurwr.

thurwr. Canys efe yw ein Duw ni, a ninneu ŷm bobl ei borfa ef, a defaid ei ddwylaw. Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonnau, megis yn yr ymſyſonfa fel yn nydd profedigaeth yn yr anialwch. Lle temptiodd eich tadau fi, y profaſant fi, ac gwelſant fy ngweithredoedd.

Deugian mhlynedd yr ymryſonais â'r genhedlaeth hon, a dywedais, Pobl gyfeiliornus yn eu calonnau ydynt hwy, canys nid adnabuant fy ffyrdd. Wrth y rhai y tyngais yn fy llid, na ddelent i'm gorphwysfa.

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Yſpryd Glan; megis yr oedd yn y dechrau, y mae yr awr hon, ac a bydd yn oeſtad yn oes oeſoedd. Amen.

Pſalm I. Gwyn ei fyd y gwr ni rodia ynghyngor yr annuwiol, ac na ſafo yn ffordd pechaduriaid, ac nid eiſteddo yn eiſteddfa gwatworwyr. Ond ſydd a'i ewyllys ynghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos. Ac efe a fydd fel pren wedi ei blannu ar lan afon, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd; ai ddalen ni wyfa, a pha beth bynnag a wnelo ef a lwydda. Nid felly y bydd yr annuwiol, ond fel mân ûs, yr hwn y chwal y gwynt ymmaith. Am hynny yr annuwolion ni ſafant yn y farn; na phechaduriaid yng nghynnulleidfa y rhai cyfiawn. Canys yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn, a ffordd yr annuwolion a ddifethir.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Yſpryd Glan, &c.

Y Llith gyntaf allan o Geneſis xxi.

A'r Arglwydd a ymwelodd â Sara fel y dywedaſai, a gwnaeth yr Arglwydd i Sara fel y llefaraſai, O herwydd Sara a feichiogodd, ac a ymddug i Abraham Fâb yn ei henaint, yn yr amſer nodedig y dywedaſai Duw wrtho ef: Ac Abraham a alwodd henw ei Fâb a aneſid iddo (yr hwn a ymddygaſe Sara iddo ef) Iſaac; ac Abraham a enwaedodd ar Iſaac ei Fâb yn wyth niwrnod oed, fel y gorchymynaſei Duw iddo

ef. Ac Abraham oedd Fâb can mhlwydd oed, pan anwyd iddo ef Iſaac ei Fâb. A Sara a ddywedodd, gwnaeth Duw i mi chwerthin, pob un a glywo a chwardd gyda mi. Hi a ddywedodd hefyd, Pwy a ddywedaſai i Abraham y rhoeſai Sara ſugn i blentyn, canys mi eſgorais ar Fâb yn ei henaint ef. A'r bachgen a gynnyddodd, ac a ddiddyfnwyd; ac Abraham a wnaeth wledd fawr ar y dydd y diddyfnwyd Iſaac.

Ti Dduw a folwn, ti a gydnabyddwn yn Arglwydd. Yr holl ddaiar a'th fola di, y Tad tragwyddol. Arnat ti y llefa holl Angylion y Nefoedd, a'r holl nerthoedd o'i mewn. Arnat ti y llefa Cherubim a Seraphim a lleferydd dibaid. Sanct, ſanct, ſanct, Arglwydd Dduw 'r Saboth. Nefoedd a daiar ſydd yn llawn o'th ogoniant. Gogoneddus gôr yr Apoſtolion a'th fawl di. Moliannus nifer y Prophwydi a'th fawl di. Ardderchog lu y Merthyri a'th fawl di.

Y Tad o anfeidrol fawredd, Dy anrhydeddus wir ac unig Fâb, Hefyd yr Yſpryd Glân y Diddanwr. Ti Crist yw Brenin y Gogoniant, Ti yw tragwyddol Fâb y Tâd; Pan gymmeraiſt arnat waredu dŷn, ni ddiyſtyraiſt groth y Forwyn. Pan orchfygaiſt holl nerth angeu, yr agoraiſt deyrnas Nef i bawb a gredant. Ti ſydd yn eiſtedd ar ddeheulaw Dduw, yng ngogoniant y Tâd. Yr ŷm ni yn credu mai tydi a ddaw yn Farnwr arnom. Gan hynny yr attolygwn i ti gynorthwyo dy weiſion, y rhai a brynnaiſt a'th werthfawr waed. Par iddynt gael eu cyfri gyda'th Seintiau yn y gogoniant tragwyddol. Arglwydd, cadw dy bobl, a bendithia dy etifeddiaeth. Llywodraetha, a derchafa hwynt yn dragywydd. Beunydd ac fyth y clodforwn dydi. Ac yr anrhydeddwn dy enw byth ac yn oes oeſoedd. Teilynga, Arglwydd, ein cadw y dydd hwn yn ddi-bechod. Arglwydd, dy drugaredd a ddeſgynno arnom, megis yr ŷm yn ymddiried ynot. Arglwydd, ynot yr ymddiriedais, na'm gwradwydder yn dragywydd. *Caniad.*

Caniad. Chwychwi holl weithredoedd yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd, molwch ef, a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chwychwi blant dynion, bendithiwch yr Arglwydd, molwch ef, a mawrhewch ef yn dragywydd.

Chychwi wasanaethwyr yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd, molwch ef a mawrhewch yn dragywydd.

Chychwi y rhai sanctaidd a gostyngedig o galon, bendithiwch yr Arglwydd, molwch ef, a mawrhewch ef yn dragywydd.

Yr ail Llith allan o'r bumed Bennod o'r Efengyl yn ol St. Matthew.

Pan welodd Jesu y tyrfaoedd, efe a esynnodd i'r mynydd; ac wedi iddo eistedd, ei ddisgyblion a ddaethant atto: Ac efe a agorodd ei eneu, ac a'u dysgodd hwynt, gan ddywedyd, Gwyn eu byd y tlodion yn yr Yspryd, canys eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd. Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru; canys hwy a ddiddenir. Gwyn eu byd y thai addfwyn; canys hwy a etifeddant y ddaiar. Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder, canys hwy a ddiwellir. Gwyn eu byd y rhai trugarog, canys hwy a gant drugaredd. Gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw. Gwyn eu byd y tangneddwyr, canys hwy a elwir yn blant i Dduw. Gwyn eu byd y rhai a erlidir o achos cyfiawnder, canys eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd. Gwyn eich byd pan i'ch gwradwyddant, ac i'ch erlidiant, ac y dywedant bob drygair yn eich erbyn er fy mwyn i, a hwy yn gelwyddog; byddwch lawen a hyfryd, canys mawr yw eich gwobr yn y nefoedd; oblegid felly yr erlidiasant hwy y Prophwydi a fu o'ch blaen chwi. Chwi yw halen y ddaiar, ond o diflasodd yr halen, â pha beth yr helltir efe? Ni thal efe mwyach ddim, ond i'w fwrw allan, a'i fathru gan ddynion. Chwi yw goleuni y byd: Dinas a osodir

ar fryn ni ellir ei chuddio. Ac ni oleuant ganwyll i'w dodi dan leſtr, ond mewn canwyllbren, a hi a oleua i bawb ſy yn y tŷ. Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddant eich Tad yr hwn ſydd yn y Nefoedd.

Pſalm 100. Cenwch yn llafar i'r Arglwydd yr holl ddaiar. Gwaſanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd, a deuwch i'w wydd ef mewn gorfoledd. Gwybyddwch mai 'r Arglwydd ſydd Dduw, efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain; ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa. Ewch i mewn i'w byrth ef â Diolch, ac i'w lyſoedd â Moliant; cenwch, diolchwch iddo, a chlodforwch ei Enw. Canys daionus yw 'r Arglwydd, a'i drugaredd ſydd yn dragywydd, a'i wirionedd a beru o genhedlaeth i genhedlaeth byth.

Y Credo, fel yn y Catechiſm,

Yr Arglwydd a fo gyda chwi, A chyda'th Yſpryd titheu. Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, *&c.*

Arglwydd, dangos dy Drugaredd arnom. A chaniadha i ni dy iechydwriaeth. Arglwydd, cadw ein Brenin. A gwrando ni yn drugarog pan alwom arnat. Gwiſg dy weinidogion ag iawnder. A gwna dy ddèwiſol bobl yn llawen. Arglwydd, cadw dy bobl. A bendithia dy etifeddiaeth. Arglwydd, dyro dangnefedd yn ein dyddau Gan nad oes neb arall a ymladd troſom ond tydi Dduw yn unig. Duw, glanha ein calonnau ynom. Ac na chymmer dy Yſpryd Glân oddi-wrnhym.

Yna y dyweder y Colect a fo 'n perthyn i'r dydd.

Yr ail Colect am Dangnhefedd;

Duw hwn wyt awdwr tangnhefedd, a charwr cytundeb, yr hwn o'th iawn adnabod y mae ein buchedd dragywydd yn ſefyll arno, a'th waſanaeth yw gwir fraint; amddiffyn nyni, dy oſtyngedig weiſion, rhag holl ruthrau ein gelynion, fel y gallom ttwy gwbl ym-

ddiried

ddiried yn dy amddiffyn di, nag ofnom allu neb gwrthwynebwyr, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Y trydydd Colect am gael Rhad.

O Arglwydd nefol Dad, holl-alluog, a thragwyddol Dduw, yr hwn a'n cedwaiſt yn ddiangol hyd ddechreu y dydd heddyw, amddiffyn nyni ynddo â'th gadarn allu; a chaniadha na ſyrthiom y dydd hwn mewn un pechod, ac nac elom i unrhiw berygl, eithr bod ein holl weithredoedd wedi eu trefnu a'u llywodraethu wrth dy lywodraeth di, i wneuthur yn waſtad y peth ſydd gyflawn yn dy olwg di, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Y Litani, neu Ymbiliad cyffredinol, i'w dywedyd bob Gwaſanaeth boreuol ar y Suliau, y Mercherau, a'r Gwenerau, ac ar amſeroedd eraill.

Duw Tâd o'r Nef trugarha wrthym, wir bechaduriaid. *Duw Tad o'r Nef*, &c.

Duw Fab, Prynwr y Byd, trugarha wrthym wir bechaduriaid. *Duw Fab, Prynwr y byd*, &c.

Duw Yſpryd Glân yn deilliaw oddiwrth y Tâd a'r Mâb, trugarha wrthym wir bechaduriaid. *Duw*, &c.

Y gogoned lân fendigaid Drindod, tri Pherſon ac un Duw, trugarha wrthym wir bechaduriaid. *Y gogoned lân fendigaid Drindod, tri Pherſon ac un Duw*, &c.

Na chofia, Arglwydd, ein hanwiredd, nac anwiredd ein rhieni, ac na ddyro ddial am ein pechodau; arbed nyni, Arglwydd daionus, arbed dy bobl a brynaiſt â'th werthfawr waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd. *Arbed nyni, Arglwydd daionus.*

Oddiwrth bob drwg ac anffawd, oddiwrth bechod, oddiwrth yſtryw a chyrch y Cythrael, oddiwth dy lid, ac oddiwrth farwolaeth dragwyddol. *Gwared ni, Arglwydd daionus.*

Oddiwrth bob dallineb calon, oddiwrth falchder, a gwag ogoniant, a phug ſanctteiddrwydd, oddiwrth genfigen, digaſedd, a bwriad drwg, a phob angharidoldeb. *Gwared ni, Arglwydd daionus.* Oddi-

Oddiwrth aniweirdeb, a phob pechod marwol, ac oddiwrth holl dwyll y byd, y cnawd, a'r Cythrael; *Gwared ni, Arglwydd daionus.*

Oddiwrth fellt a themheſtl, oddiwrth blâ, haint, y nodau, a newyn; oddiwth ryfel ac ymladd, ac oddiwrth angeu diſyfed. *Gwared ni, Arglwydd daionus.*

Oddiwrth bob terfyſc a dirgel frâd, oddiwrth bob ffals ddyſgeidiaeth, ac opiniwn annuwiol, oddiwrth galedrwydd calon, a dirmyg ar dy air a'th orchymmyn; *Gwared ni, Arglwydd daionus.*

Trwy ddirgelwch dy gnawdoliaeth, trwy dy ſanctaidd anedigaeth a'th enwaediad, trwy dy fedydd, ympryd, a'th brofedigaeth; *Gwared ni*, &c.

Trwy dy ddirfawr ing a'th chwys gwaedlyd, trwy dy grog a'th ddioddefaint, trwy dy werthfawr angeu a'th gladdedigaeth, trwy dy anrhydeddus gyfodiad, a thrwy ddyfodiad yr Yſpryd Glân; *Gwared ni*, &c.

Yn holl amſer ein trallod, yn holl amſer ein gwynfyd, yn awr angeu, ac yn nydd y farn; *Gwared ni*, &c.

Nyni, bechaduriaid, a attolygwn i ti ein gwrando, O Arglwydd Dduw, a theilyngu o honot gadw, rheoli, a llywodraethu dy lân Eglwys yn hollawl yn y ffordd uniawn. *Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot gadw a nerthu (i'th wir addoli mewn iawnder a glendid buchedd) dy waſanaethwr GEORGE, ein graſuſaf Frenin a'n Pen-llywydd; *Ni attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot lywodraethu ei galon yn dy ffydd, ofn, a chariad, ac iddo ymddiried byth ynot, ac ymgais yn waſtad â'th anrhydedd a'th ogoniant, *Nyni*, &c.

Teilyngu o honot ei amddiffyn a'i gadw, gan roddi iddo ſuddugoliaeth ar ei holl elynion; *Nyni*, &c.

Teilyngu o honot fenditho Twyſoges *Cymru*, a'r holl Frenhinawl Deulu; *Nyni a attolygwn i ti*, &c.

Teilyngu o honot lewyrchu'r holl Eſgobion, Bugeilia id

geiliaid, a Gweinidogion yr Eglwys ac iawn wybodaeth a deall dy air, a bod iddynt hwy, trwy eu pregethau a'u buchedd, ei fynegu a'i ddangos yn ddyladwy; *Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd*, &c.

Teilyngu o honot gynnyſgaeddu Arglwyddi 'r Cyngor, a'r holl Fonedd, â grâs doethineb, a deall, *Nyni*, &c.

Teilyngu o honot fendithio a chadw y Penſwyddogion, gan roddi iddynt râs i wneuthur cyfiawnder, ac i faentumio'r gwir; *Nyni a attolygwn i ti ein gwrando*, &c.

Teilyngu o honot fendithio a cadw dy holl bobl; *Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot roddi i bob cenhedlaeth undeb, tangnefedd, a chyd-gordio; *Nyni a attolygwn i ti*, &c.

Teilyngu o honot roddi i ni galon i'th garu ac i'th ofni, ac i fyw yn ddieſceulus yn ol dy orchymyn; *Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot roddi i'th holl bobl ychwaneg o râs i wrando yn ufudd dy air, ac i'w dderbyn â phur ewyllys, ac i gynhyrchu ffrwythau 'r Yſpryd; *Nyni*, &c.

Teilyngu o honot ddwyn i'r ffordd wir, bawb ar aeth ar gyfeiliorn ac a dwyllwyd; *Nyni*, &c.

Teilyngu o honot nerthu y rhai ſy 'n fefyll, a chyſuro a chynorthwyo y rhai ſy â gwan galon, a chyfodi y ſawl a ſyrthiant, ac o'r diwedd guro i lawr Satan dan ein traed: *Nyni a attolygwn i ti*, &c.

Teilyngu o honot gymmorth, a helpu, a diddanu pawb ac ſydd mewn perigl, angen, a thrwblaeth: *Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot gadw pawb a'r ſydd yn ymdaith ar for a thir, pob gwraig wrth eſgor plant, pob clwyfus a rhai bychain, a thoſturio wrth bawb a fyddo mewn caethiwed a charchar: *Nyni a attolygwn*, &c.

Teilyngu o honot ymddiffyn ac ymgleddu y plant ymddifad a'r gwragedd gweddwon, a phawb a'r ſydd yn unig ac yn goddef pwys plaid orthrech; *Nyni*, &c.

Teilyngu o honot drugarhau wrth bob dyn; *Nyni*, &c.

Tei-

Teilyngu o honot faddeu i'n gelynion, erlidwyr, ac ſclandarwyr, a throi eu calonnau, *Nyni a attolygwn i ti ein gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot roddi a chadw er ein lles amſerol ffrwythau 'r ddaiar, modd y caffom mewn amſer dyledus eu mwynhau; *Nyni a attolygwn*, &c.

Teilyngu o honot roddi i ni wir edifeirwch, a maddeu i ni ein holl bechodau, ein heſculuſdra a'n hanwybodaeth, a'n cynyſgaeddu â rhâd yr Yſpryd Glân i wellhau ein buchedd yn ol dy air ſanctaidd; *Nyni*, &c.

Mâb Duw, attolygwn i ti ein gwrando; Mâb Duw, attolygwn i ti ein gwrando. Oen Duw, yr hwn wyt yn dileu pechodau 'r byd; Caniadhâ i ni dy dangnhefedd. Oen Duw, yr hwn wyt yn dileu pechodau'r byd; Trugarhâ wrthym. Criſt, clyw nyni, Criſt clyw nyni. Arglwydd, trugarhâ wrthym; Arglwydd, trugarhâ wrthym. Criſt, trugarhâ wrthym; Criſt, trugarhâ wrthym. Arglwydd, trugarhâ wrthym; Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, *&c.*

Arglwydd, na wna â nyni yn ol ein pechodau;

Atteb, Ac na obrwya ni yn ol ein hanwiredd.

Gweddiwn. Duw Tâd trugarog, yr hwn nid wyt yn dirmygu ochenaid gyſtuddiedig, nac adduned y gorthrymedig; cynnorthwya yn drugarog ein gweddiau, y rhai yr ŷm ni yn eu gwneuthur ger dy fron, yn ein trallod a'n blinfyd pa bryd bynnag y gwaſcant arnom, a gwrando ni 'n raſuſol, fel y bo i'r drygau hynny (y rhai y mae yſtryw a dichell Diafol neu Ddyn yn eu gwneuthur i'n herbyn) fyned yn ofer; a thrwy raguniaeth dy ddaioni di iddynt fod yn waſcaredig, modd na'n briwer ni, dy weiſion, drwy erlyn neb, a gallu o honom byth ddiolch i ti yn dy lân Eglwys, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd; Arglwydd, cyfod, cymmorth ní, a gwared ni er mwyn dy Enw.

Ychwaneg

Ychwaneg o Athrawiaeth i ddyſgu deall a darllen Cymraeg *a* Saeſneg.

Deunudd yr Orddiganau. Orddiganau yw 'r fforchau neu 'r cappiau bychain a fydd weithiau uwchben y Bogeiliaid *Cymraeg*; megis ymma, â ê î ô û ŵ ŷ.

Pan gyfarfyddo 'r darllenydd (wrth ddarllen *Cymraeg*) a gorddiganau uwchben y bogeiliaid, bydd raid iddo eſtyn Sŵn y bogeiliaid yn hir-llaes, fel yr eglurir ymhellach i chwi drwy 'r ychydig eiriau ſy 'n canlyn:

Glân neu hawddgar. Glan y dŵr. Gwên, neu chwerthiniad. Gwen, neu henw merch. Bêr i roſtio cig. Ber, neu goes. Llîn i'w nyddu. Llin, neu heppil. Côr, neu feudŷ. ffagl, ffaglu, fflam. ffel, ffeneſt, follach. Ffiaidd, ffiol, ffigys. Ffol, ffon, ffün, fforch. Ffuant, ffummer, ffyſt. Ffwdan, ffwrnes, ffŵl; ffynnon, ffyrnig, ffydd.

A phob gair arall nad aller rŷw ffordd neu gilydd eu dechreu â'r llythyren o, ni waſanaetha un amſer moi dechreu a ph yn lle ff, er eu bod yn ſynio yr un modd.

Am yr Attaliadau, a'u gwir Ddeunydd.

Y mae chwe math o Attaliadau mewn llyfrau printiedig, ac mewn yſgrifen, os bydd mor gywraint ag y dyleu fod; a'r Attaliadau hynny a nodir, ac a henwir megis y canlyn: 1 (:) Rhagwahanod. 2 (;) Hanerdryll ymadrodd. 3 (,) Dryll ymadrodd. 4 (.) Diwedd-nôd. 5 (?) Holedig-nôd. 6 (!) Rhyfedd-nôd. , Pan ddeloch wrth ddarllen at y nôd hwn, dylech attal eich anadl tra byddid yn parablu (un.); y nôd ymma tra byddech yn cyfri (dau.) : Y nôd hwn pan fo rheſwm ym mron terfynu; a deliwch eich anadl tra cyfrifwch (dri.) . Y diwedd-nôd ſydd bob amſer ar ol rheſwm a fo' n gyflawn; ac os bydd un arall yn dechrau 'n fuan ar ei ol, attaliwch eich anadl

fel y canlyn: Cyn, neu o'r blaen. Cûn i hollti coed Llyn o ddwr; Llûn, neu ddelw.

Os gellir dywedyd gair yn drefnus heb ſynio 'r *y* yn lle *u*, ni waſanaethau 'r *y* yn y gair hwnnw, fel yr yſpyſaf yn hytrach yn y geiriau ſy 'n canlyn:

Bydded, bŷdd, nid budd. Dyddieu, Dŷdd, nid Dudd. Dynion, Dŷn, nid Dun, &c.

Ac felly lle bu ŷ yn ŷ yn y geiriau lluoſog, rhaid yw bod ŷ yn y geiriau unigol, ac nid u.

Y rhagor-ddeunydd ſydd rhwng *ff* a *ph*; a'r achos paham na waſanaetha y naill o honynt yn lle 'r llall.

Pan fo *p* yn nechrau gair i'w ddywedyd y naill ffordd, ni waſanaetha *ff* i'w ddechreu ar ol *a*, er ei fod yn ſynio fel *ff*, rhaid ei ddechreu â *ph*, fel yn y geiriau ſy 'n canlyn: Pan, a phan, nid a ffan. Pen, a phen, nid a ffen. Pin, a phin, nid a ffin. Pont, a phont, nid a ffont. Pump, a phump, nid a ffump. Pwn, a phwn, nid a ffwn. Pylu, a phylu, nid a ffylu. Drachefn, ni was'naetha *ph* yn lle *ff* mewn rhai geiriau, fel y canlyn. Ffanigl, ffyrnewid, ffrwyno. Pan fo gap uwchben ŷ, rhaid i'w ſynio megis u, fel y canlyn, Beunŷdd, newŷdd, ſŷdd, bŷdd, crefŷdd, Dŷdd, &c.

Pan fo 'run gorddigan neu gap uwch ben y, rhaid i'w ſynio y yn y geiriau megis y canlyn: Dyddiau, cyfryngdod, byddant. Pan fo y yn gyntaf llythyren o'r ſylaſt diweddaf, mae y yn ſynio fel u, am hynny rhaid bod cap uwch ei phen. Etto ni was'naetha *u* yn lle *u*, nag *y* yn lle *u*, am amryw achoſion: 1. Pan fo dau air o'r un ſŵn, ac nid o'r un arwyddocâd, rhaid fod rhyw ragoriaeth o lythyren i ddangos amryw feddwl y geiriau, fel y canlyn: Llun neu ddelw, Llyn o ddwr. Sudd, ſuddiad, neu foddi tan ddwr. Sydd, neu 'r hwn ſydd yn bod. Tu, neu yſtlys. Tŷ, neu annedd i aros ynddo. 2. Er bod *y* yn ſynio yn debig i *u*, etto mai *y* yn fyrrach mewn rhai geiriau, ac yn cyfanſoddi geiriau o wrthwyneb feddwl, pan ddeloch i ddarllen y nôd

hwn

hwn am ofyniad. ? Yr holedignod hwn a ddyleu fod ar ol bob holiad neu ofyniad, fel y canlyn:
Pa beth a wnaf? I ba le y diangaf? Ar bwy y bwriaf y bai? A'i gwir yw 'r newydd? A phan ddeloch at y nôd hwn ynghanol ymadrodd? dylech ddal eich anadl tra cyfrioch bedwar yn arafaidd. ! Y rhyfedd-nod hwn a ddyleu fod ar ol pob ymadrodd rhyfedd neu ofnadwy! fel y canlyn: O mor ddyfn yw golud doethineb a gwybodaeth Duw! Mor anchwiliadwy yw ei farn ef! A'i ffyrdd, mor anolrheinadwy ydynt!
Pan gyfarfyddoch â'r nôd hwn ynghanol ymadrodd! dylech attal eich anadl tra cyfrioch dri yn arafaidd.

Geiriau o'r un Sŵn, *ac nid o'r un* Feddwl. *Am hynny ſcrifennwch fel hyn*: Ac, neu hefyd; *and.* Ag neu fel, felly, gyda; *with, at.* Ael, uwchlaw 'r llygad. Ail, neu 'r cyntaf onid un. Bâr, rhaib, neu bariaeth. Bar, neu Troſol. Bûdd, mael, neu ynnill. Bydd, neu'r hwn a fyddo. Câr, neu carennydd. Carr, neu garr ceffyl. Corr, neu ddyn byrr. Côr, y *Choir* mewn eglwys fawr, *befyd* beudu. Cûn i hollti coed. Cyn, neu o'r blaen. Eu, neu eu heiddo hwynt; *their.* I, neu i wneuthur y peth a'r peth; *to.* Ei, neu ei eiddo ef, ei heiddo hi; *his, hers.* Ein, neu'n heiddo ni; *our.* Yn, neu yn y fan a'r fan; *in.* Eich, neu eich eiddo chwi; *your.* Glan y dwr. Glân, neu hawddgar. Gwarr, neu gwegil. Gwâr, neu llariaidd. Gwên, neu chwerthiniad. Gwen, neu hawddgar ei phryd. Gwal, neu mur. Gwâl i orwedd ynddi. Gwae, neu och! Gweu trwy gilŷdd. Gwehŷdd, neu grefftwr yn gweu. Gwudd i weu ynddo. Gwŷdd, neu goed. Gŵŷdd, neu giliagwydd. Gwŷl, neu ſwil. Gŵŷl, neu ddydd parchedig. Gwûn, neu aingc, neu ysfa. Gwyn, lliw 'r eira. Hael, neu ſyber. Haul yn goleuo 'r byd. I'w, neu i'r peth a'r peth. Yw, neu ydyw. Lli, neu llifeiriant. Llif i lifio coed. Llifio byrddau o bren. Llifo a wna afon ar wlaw. Lliwio brethyn. Lliwydd brethyn. Llifiwr

oed. Llin, neu heppil. Llin i wneuthur lliain. Mae, yr hyn a fydd yn bod. Mai, y mis cyntaf o'r Haf. Maen, neu garreg. Main, neu eiddil. Man, neu lle. Mân, neu y bychain. Mor, neu mor byddelw. Môr, y dyfroedd mawr. Mwun, i nodi defaid. Mwyn, neu gariadus. Nad neu nid. Nâd, neu ddryglais. Ne, math ar liw glâs. Nef, gorſeddfaingc Duw. Neu, y naill neu 'r llall. Tan, neu odditanodd. Tân i ymdwymno wrtho. Twr, neu ſwp. Tŵr, neu gaſtell. Tu, neu yſtlys. Tŷ i aros ynddo.

Deheu ddiweddiad y geiriau lluoſog o'r geiriau unigol.

Gwybyddwch fod llawer o eiriau *Cymraeg* yn diweddu ag *au*, a llawer eraill yn diweddu ag *eu*. Y geiriau lluoſog a ddylent ddiweddu ag *au*. Megis yr hyſpyſaf yn hytrach i chwi wrth y geiriau ſy'n canlyn:

Geiriau lluoſog, Arennau, breichiau, brynniau, prennau, coeſau, dyddiau, pethau. Y geiriau uchod a elwir *geiriau lluoſog*, am fod pob un o honynt yn meddwl mwy nag un peth, ac yn diweddu bob amſer ag *au*.

Geiriau *unigol*, Ammeu, boreu, dechreu, ditheu, dyleu, minneu, ſiwrneu. Felly nid yw 'r un o honynt yn arwyddoccau ond un peth, ac yn diweddu ag *eu*.

Y Sylafgoll. 'Sylafgoll yw 'r nôd bychan a oſodir yn fynych yn lle un o'r ſylaftau, yn enwedig yn lle *y*; a hynny er mwyn eſmwythau 'r ymadrodd i'r darllenydd, fel y bo'r iaith yn llithricach ar dafod; y ſylafgoll hwnnw a oſodir rhwng dwy lythyren, fel y gwelwch iſod:

A'i yn lle a ei. A'u, yn lle a eu. A'th yn lle a eith, A'r yn lle a yr. A'r yn lle a yr I'r yn lle i yr. I'th yn lle i eith. O'i yn lle o ei. O'u yn lle o eu. Sy'n yn lle ſydd yn.

Deallwch wrth yr *Englyn* ſy'n canlyn, mor rheidiol yw 'r ſylafgoll yn y Gymraeg: Gwae'r iaith o'r alaith ſy 'rwan, (O'i hachos) mae 'r ochain a'r gruddfan; Clwyfo wnaeth, helaeth fu hon, A cholli mewn Archollion.

Am

Am y Bogeil-gydiau Cymraeg. Pan ſo dwy o'r llythyrennau a elwir Bogeiliaid wrth eu gilydd mewn gair, heb un o'r llyth'rennau a elwir cydſain rhyngthynt, gelwir y ddwy ſogeil a ddelo felly ynghyd yn Gymraeg; *Bogeil-gydiau*, yn Saeſneg *Diphthongs*. Ac o'r bogeil-gydiau hynny mae yn y Gymraeg 32, fel y gwelwch ymma. Cydiau ae, Geiriau aeth, ai, rhai. au, aur. aw, awydd. aŷ, brŷch. ei, eira. eo, rheol. eu, euraid. ew, ewch. eŷ, teŷrnas. iâ, iâr. ie, Ieſu. io, Ior. iû, iuſtys. iw, iwrch. iy, iyrchod, oe, oedd. oi, rhoi. our, our. ow, dowch. oŷ, gloŷw. ua, hual. ue, rhued. uo, lluoedd. uw, uwch. wa, gwaeth. we, gweled. wi, gwichian. wo, meddwon. wu, gwun. wŷ, gwŷn. ŷw, ydŷw.

Wrth hyn a ſcrifennais, gall y *Cymro* a fynno ddyſgu darllain *Cymraeg* yn ddifai, ac yſpeilio 'n gywyr, er na fedrodd o'r blaen ddeall llythyren mewn llyfr.

Ac ymma y canlyn hefyd Athrawiaeth i'r bobl *ſaiſnigaidd* (neu 'r *Cymru* a ddyſgaſant ddarllain Saeſnaeg yn gyntaf) i ddyſgu i rheini wrth y Saeſnaeg y modd i ſynnio 'r llyth'rennau *Cymraeg* yn gywir, ac i'w darllain yn hwylus.

Britiſh Orthography. Of the true Sound of the Letters in the *Britiſh* Language, called *Welſh*: Whereby an Engliſh Scholar, by the help of the Engliſh pronunciation, may readily learn to read the Britiſh Language perfectly.

The Britiſh and Engliſh Alphabets are but the ſame Characters, and ſome of them bear the ſame pronunciation in the Britiſh as they do in the Engliſh. And thoſe that bear the ſame Sound in both Languages, are theſe, a b d ff h l m n o p ph r s.

All the other Letters that are in the Britiſh Alphabet, are theſe: c ch dd e f g i ll ng t th u w y. And theſe do differ their Sound in the Britiſh from the Engliſh way of pronouncing them, as followeth:

C is

C or c is always pronounced in the *Britiſh* Tongue as k; and is never ſounded in the *Britiſh*, as in the following *Engliſh* words, Ceaſing, celeſtial, precious, precept, prince, deceive, price, proceed, mercy, &c.

Ch or ch are counted one Letter in the *Britiſh*, and no Letter in the *Engliſh* ſounds as *ch* in the Britiſh; which makes the Britains to wrattle in the throat, as the *Engliſh* call it.

To direct you to learn the Pronunciation of *ch* in the *Britiſh* Tongue, I have firſt inſerted ſome of thoſe Engliſh words that have *ch* in them, when tranſlated into the *Britiſh* Language, as followeth: A little, *Ychydig*. Complaint, *Achwyn*. Looking, *Edrych*, Market, *Marchnad*. Overcome, *Trechu*. Six, *Chwech*. By the few words above written, any one that can read Engliſh and ſpeak the Britiſh Language, cannot chuſe, at the firſt view, but underſtand how to pronounce *ch* in the Britiſh Tongue. This Guttural is frequently found in the *Greek*, *Hebrew*, and *German* Tongues; expreſſed in *Iriſh* and *Hollandiſh* by *gh*, and plainly pronounced in *Salop* and *Herefordſhire* by *gh* in the word *Daughter*. Therefore obſerve further, that *ch* are never pronounced in the Britiſh as they are in the following Engliſh words, *Chance*, *Child*, *choſen*, *ſcholar*, *ſchool*, *ſchiſm*.

DD or dd are counted but one Letter in the Britiſh, and are never pronounced as in the Engliſh; they are always ſounded in the Britiſh as *th* in the following Engliſh words: Father, Mother, Brother, either, rather, thou, that, this, the, them, they, &c.

E or e when thus without a circumflex, ſounds in the Britiſh as in the following Engliſh words; Bell, beſt, lend, bend, ſend, &c.

ê circumflex is ſounded in the Britiſh as ea in the Engliſh; for Example, Tear, wear, bear, fear, &c. *Note*, That e is never ſounded in the Britiſh as in the Engliſh following words; Me, he, ſhe, we, three, be, free. *Note* alſo, That e never loſeth its ſound in the Britiſh as it doth in theſe Engliſh words; Are, bare, care, dare, fare, glare, mare, more, fore, gore, ſtore, &c.

F or f is never ſounded in the Britiſh as in the Engliſh Language; but as *ve*, or v conſonant, in the following words; Brave, crave, drave, grave, have, vile, violent, villain, victorious, &c.

G or g is never pronounced but one way in the Britiſh; and that is as in the following Engliſh words; Again, agony, ague, bag, nag, wag, given, ghoſt, &c. *Note* alſo, That g is never pronounced in the *Britiſh*, as in theſe *Engliſh* words, Age, George, gentle, Angel, Danger, Eight, Light, Weight, Judge, obliged.

H or h is a ſtrong Aſpiration, and pronounced in the *Britiſh* much the ſame as in the *Engliſh*, Have, him, her, houſe, whoſe.

I or i is pronounced in the *Britiſh* as in the *Engliſh* words following; Nothing, beginning, learning, ſomething, &c. But when thus î circumflexed, it ſounds in the Britiſh as ee are ſounded

ed in Engliſh in the ſubſequent words; breed, need, weed, ſeed, heed, deed, weed, ſteed, &c.

LL or ll; No Letters are ſounded in the Engliſh, nor in any other Language in *Europe* as I know of, that are pronounced like ll in the *Britiſh*; and therefore the readieſt way to teach the *Engliſh* Scholar to ſound ll in the *Britiſh*, is by ſetting down ſome of thoſe *Engliſh* words that have ll in them in the *Britiſh* Tranſlation; and thoſe *Britiſh* words oppoſite to them, as followeth: Bare, *Llwm*. Duſt, *Llwch*. Hand, *Llaw*. Milk, *Llaeth*. Knife, *Cyllell*. Quiet, *Llonydd*. By the few words above tranſlated, any one, that can read *Engliſh* and ſpeak the *Britiſh* Language, cannot but learn the true ſounding of *ll* in the *Britiſh* upon the firſt inſpection. *ll* are never pronounced in the *Britiſh* as in theſe words following; All, allow, bells, belly, follow, folly, fill, hill, ſtill, kill, ſhrill, ſwill, &c.

Ng or ng are never divided by Syllables in the *Britiſh*, as they are in the following *Engliſh* words; Angel, Danger, engage, engrave. Ng are counted as one Letter in the *Britiſh*, and are always pronounced as ſuch in the following words; King, Ring, Spring, Long, England, &c.

T or t is never pronounced in the *Britiſh* as in theſe words following; Condition, Congregation, Conſolation, Conſecration, &c.

Th or th are always ſounded in the *Britiſh*, as in the following words; Three, throat, thruſt, Mouth, South, Teeth, &c. Th is never pronounced in the *Britiſh* as they are in *Engliſh* in theſe words; Father, Mother, Brother, &c.

U or u is always ſounded in the *Britiſh*, as i is ſounded in the following *Engliſh* words; Brain, Rain, pain, ſtain, ruin, &c.

V or v is never ſounded in the *Britiſh*, as in any of theſe following words; Even, void, evil, viſit, delude, chuſe, refuſe, upright, uncle, utterance, &c.

W or w when without a circumflex, is always ſounded in the *Britiſh* as in theſe following words; Twice, twenty, wander, went, away. W when with circumflex, is always pronounced in the *Britiſh* Language as oo, and ſounded as ſuch in theſe following words; Moon, ſoon, ſpoon, noon, ſwoon, &c.

Y or y is never ſounded in the *Britiſh* as in the *Engliſh*; yet it is pronounced in the *Britiſh* two ſeveral ways. Y, when without circumflex, is ſounded as u in the following words; Dull, duſt, begun, ſun, dun, burn. Y, when with circumflex, is always ſounded long.

K, Q, X, Z, are not uſed in the Britiſh, unleſs in proper Names.

The *Britiſh* Vowels are ſeven, *viz.* a e i o w y, which are ſometimes circumflexed, ſometimes otherwiſe; and accordingly the Sound is lengthened or protracted. The

The Diphthongs in the Britiſh Language are no leſs than thirty two, according to Dr. *John Davidd Rheece*, in his *Grammar*, as follows: ae ai au aw ay ei eo eu ew ey ia ie io iu iw iy oe oi ou ow oy ua ue uo uw wa we wi wo wu wy yw.

Were it not for the two pronunciations of *ch* and *ll* abovementioned in the Britiſh Language, any Engliſhman that never underſtood a word of that Tongue in his Life, might, by theſe ſhort inſtructions, learn the whole pronunciation, and perfect reading of the Britiſh Language eaſily, and in a ſhort time.

In former times part of the Britiſh Alphabet hath been uſed by ſome in other Characters different from what they be now, viz. Bh inſtead of F. Dh inſtead of Dd. Gh inſtead of Ng. Lh inſtead of Ll. The laſt that made uſe of theſe in print, we find was Dr. *Rice* in his Britiſh Grammar, An. Dom. 1752.

Some others of late have, in the Britiſh Language, uſed K inſtead of C. Qu inſtead of Cw. X inſtead of Cs. Z inſtead of s.

But K, Q, X, Z, are now counted needleſs, and improper in the Britiſh Tongue, unleſs in proper Names that are derived from foreign Languages.

Upon the whole, *W. R.* obſerves, that, with regard to tranſmigration of Languages, that the Conqueror carries his own Language along with him, and makes it flouriſh in every country where he meets with that ſucceſs. And we find that *Alexander* carried the *Greek* Tongue into the remoteſt part of the Eaſtern country, where it flouriſhed many years afterwards, eſpecially in the Apoſtles days. *Julius Cæſar* alſo, when he undertook the like taſk in the Weſtern part of the world, made the *Latin* Tongue flouriſh wherever he came; and accordingly when he deſcended the *Alps*, to viſit the Northern nations on that ſide, he found great part of that country, which we now call *France*, by the neighbouring nations called *Wallia*; but *Cæſar* having no [w] in the *Latin* Alphabet, turned it into [g] and called the country *Gallia* in his Commentaries, that he might give the citizens of *Rome*, the then miſtreſs of the moſt part of the known world, an Abſtract of his conqueſt. Moreover, we find, that, among the Germans, and other nations, the proper name of [*Gulielmus* and *Willielmus*] are ſynonymous terms at this day. And that the *Germans* call the inhabitants of the ſouthern ſide of the *Alps* at this time *Welſhmen*, for the ſame reaſon that the *Saxons* formerly called the country of *Cambria* or *Cymry*, *Wales*, and its inhabitants *Welſhmen*. The *French* deſcended from *Franconia* in *Germany*, conquering *Gallia*, called the country *Francia*; and it is to be obſerved that the French call the inhabitants of four different countries by the name of *Walloons*, or *Welſhmen*, viz. Little-Britain in France, the tranſalpine Italians, the Flanderkins, and the inhabitants of *Wales* in Britain, adding to that only the diſtinction of country, by reaſon that they ſpoke in *Cæſar*'s time much the ſame Language as the inhabitants of Britain. TERFYN.